



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 16 Ionawr 2008  
Wednesday, 16 January 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 20 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Questions to the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport
- 35 Datganiad am Benodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Statement on the Appointment of a Commissioner for Older People in Wales
- 48 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Diwydiant Amaethyddol  
Welsh Conservatives Debate: The Agricultural Industry
- 75 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cynllun i Ddefnyddio Llai o Fagiau Plastig  
Welsh Conservatives Debate: A Plastic Carrier Bag Reduction Scheme
- 100 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cardiau Adnabod  
Welsh Liberal Democrats Debate: ID Cards
- 122 Amser Pleidleisio  
Voting Time
- 130 Dadl Fer: Anrhydeddu'r Cyfamod—y Cytundeb Rhwng y Genedl a'r Lluoedd Arfog,  
yn Addo Cefnogaeth a Gofal yn Gyfnewid am Wasanaeth  
Short Debate: Honour the Covenant—the Mutual Agreement between the Nation and  
the Armed Forces, Promising Support and Care in Exchange for Service

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been  
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the  
Chair.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn. **The Deputy Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

**The Deputy Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)288(HSS), has been withdrawn. **Y Dirprwy Lywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)288(HSS), yn ôl.

#### **Ambulance Target Times**

**Q2 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on the ambulance target times for discharging patients into the care of accident-and-emergency departments?  
OAQ(3)298(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** From April 2008, a 15-minute target time for the handover of patients from ambulance crews to accident-and-emergency staff will become a priority in Wales.

**Eleanor Burnham:** I am sure that you are aware of the huge difficulties that exist within the complex organisation that we call the national health service. While we all welcome the intention behind the targets, they are quantitative and, at times, meaningless. Surely what really matters is the quality of the care. With the discomfort and malaise reflected in various recent media articles, particularly with regard to paramedics, how do you expect the situation to improve without any more money?

**Edwina Hart:** I had the opportunity to meet the chairs of the trusts in Wales this morning, and I asked them to inform Ann Lloyd of any concerns regarding the way in which this target was evolving. They did not raise any concerns with me at that meeting.

**Jonathan Morgan:** Minister, until the announcement of the 15-minute turnaround target time, the target was 20 minutes. Can

#### **Amseroedd Targed i Ambiwllansiau**

**C2 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amseroedd targed i ambiwlansiau ryddhau cleifion i ofal adrannau damweiniau ac achosion brys?  
OAQ(3)298(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd amser targed o 15 munud i drosglwyddo cleifion gan griwiau ambiwlans i staff adrannau damweiniau ac achosion brys yn dod yn flaenoriaeth yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn siŵr y gwyddoch am yr anawsterau enfawr sy'n bodoli o fewn y sefydliad cymhleth a elwir y gwasanaeth iechyd gwladol. Er ein bod oll yn croesawu'r bwriad sy'n sail i'r targedau, maent yn feintiol, ac, ar brydiau, yn ddiystyr. Onid ansawdd y gofal sy'n bwysig mewn gwirionedd. Gyda'r anghysur a'r anniddigrwydd a adlewyrchwyd mewn amrywiol erthyglau yn y cyfryngau'n ddiweddar, yn arbennig o ran parameddygon, sut y disgwyliwch i'r sefyllfa wella heb ddim mwy o arian?

**Edwina Hart:** Cefais gyfle i gyfarfod â chadeiryddion ymddiriedolaethau Cymru'r bore yma, a gofynnais iddynt roi gwybod i Ann Lloyd am unrhyw bryderon ynghylch y modd yr oedd y targed hwn yn esblygu. Ni chodasant ddim pryderon gyda mi yn y cyfarfod hwnnw.

**Jonathan Morgan:** Weiniidog, nes cyhoeddi'r amser targed 15 munud ar gyfer trosglwyddo cleifion, 20 munud oedd y

you tell Members whether that target was being met?

**Edwina Hart:** It was not being met in all instances.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to the Minister for her honest and frank reply. Why did the Assembly Government not take firm action to ensure that that target time was met? How confident can you be that a new, sharper time can be met if the NHS was not able to meet that target of 20 minutes? I echo the point made by Eleanor Burnham that the NHS will surely need assistance at some point to enable it to meet that particular target; otherwise, people will continue to sit for longer than is necessary in our ambulances.

**Edwina Hart:** It is my duty to ensure that patients are dealt with as promptly as possible. There is an absolute need for this new target to be met, as was the case with the old target. We cannot have ambulances sitting outside hospitals being unable to respond to other 999 cases.

The NHS has had additional resources year on year, and it is up to managers to manage those properly in the context of their trusts and the ambulance service.

**David Lloyd:** Is there an expectation that bed numbers in hospital wards need to increase in order to meet this target?

**Edwina Hart:** You are quite right to raise that issue, and Jonathan alluded to it. If people are to be discharged within 15 minutes, to where in the hospital environment will they be discharged? Will they be on trolleys in the accident-and-emergency department, and how will they be treated? That is the key. That is why I told the trust chairs today that we would have to look at those issues. As far as I am aware, we have had no applications to review the number of beds. However, they will certainly have to look at the management of beds in hospital wards. We are taking an holistic approach across both services for the benefit of the patient.

targed. A allwch ddweud wrth yr Aelodau a oedd y targed hwnnw'n cael ei gyflawni?

**Edwina Hart:** Ni châi ei gyflawni ym mhob achos.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb gonest ac agored. Pam na chymerodd Llywodraeth y Cynulliad gamau cadarn i sicrhau y câi'r amser targed hwnnw ei gyflawni? Pa mor ffyddiog y gallwch fod y gellir cyflawni amser newydd a chyflymach oni allai'r GIG gyflawni'r targed 20 munud hwnnw? Ategef y pwynt a wnaeth Eleanor Burnham, y bydd angen cymorth yn siŵr ar y GIG rywbryd er mwyn galluogi iddo gyflawni'r targed penodol hwnnw; fel arall, bydd pobl yn dal i eistedd yn ein hambiwlsiau am fwy o amser nag sydd angen.

**Edwina Hart:** Fy nyletswydd i yw sicrhau y delir â chleifion mor brydlon â phosibl. Mae gwir angen cyflawni'r targed newydd hwn, ac yr oedd hyn yn wir am y targed blaenorol. Ni allwn gael ambiwlansiau yn segur y tu allan i ysbytai yn methu ag ymateb i achosion 999 eraill.

Mae'r GIG wedi cael adnoddau ychwanegol flwyddyn ar ôl blwyddyn, a mater i'r rheolwyr yw rheoli'r rheiny'n briodol yng nghyd-destun eu hymddiriedolaethau a'r gwasanaeth ambiwlans.

**David Lloyd:** A ddisgwylir y bydd angen cynyddu nifer y gwelyau mewn wardiau ysbytai er mwyn cyflawni'r targed hwn?

**Edwina Hart:** Yr ydych yn llygad eich lle yn codi'r mater hwnnw, a chyfeiriwyd ato gan Jonathan. Os caiff pobl eu rhyddhau cyn pen 15 munud, i ble yn yr ysbyty y cânt eu rhyddhau? A fyddant ar droliâu yn yr adran damweiniau ac achosion brys, a sut y cânt eu trin? Dyna yw'r allwedd. Dyna pam y dywedais wrth gadeiryddion yr ymddiriedolaethau heddiw y byddai'n rhaid inni ymchwilio i'r materion hynny. Hyd y gwn i, nid ydym wedi cael dim ceisiadau i adolygu nifer y gwelyau. Fodd bynnag, yn bendant bydd yn rhaid iddynt ymchwilio i'r modd y rheolir gwelyau mewn wardiau ysbyty. Yr ydym yn arddel agwedd gyfannol ar draws y ddau wasanaeth er budd y claf.

**Leslie Griffiths:** The latest statistics for ambulance services again showed that the vast majority of people in Wales can expect an emergency response within eight minutes. That figure is improving all the time. In north Wales, our ambulance service response time continues to improve and is leading the way in Wales. Will you join me in congratulating the Welsh Ambulance Services NHS Trust, Alan Murray, and all of his superb and dedicated staff on turning around the performance of the ambulance service in the past 12 months?

**Edwina Hart:** I am pleased to see the improvements in the ambulance service, and I must pay tribute to the dedication of the ambulance crews, who work in extremely difficult conditions, as we have seen from press reports over the Christmas period. It is good to see improvements, but further improvements have to be made across the service in Wales.

### Community Nursing

**Q3 Helen Mary Jones:** What recent discussions has the Minister had regarding community nursing? OAQ(3)320(HSS)

**Edwina Hart:** I have had a number of meetings with the Royal College of Nursing on the community nursing review, and with officials regarding strategic developments that impact on the role of community nurses. These include the rural health plan, which we will shortly be developing, family nurse development, and the chronic conditions management framework.

**Helen Mary Jones:** Given that you have recently met with the RCN, you will be aware of its concern about a further cut planned for the next financial year in the number of training places available for postgraduate district nurse training. There were 45 places last year, and I believe that that will be cut from to somewhere between 35 and 40 this year. Do you share my concerns about the message that this may be sending to the nursing profession about the seriousness of the One Wales Government

**Leslie Griffiths:** Dangosodd ystadegau diweddaraf y gwasanaethau ambiwlans unwaith eto y gall mwyafrif pobl Cymru ddisgwyl ymateb brys cyn pen wyth munud. Mae'r ffigur hwnnw'n gwella o hyd. Yn y gogledd, mae amser ymateb ein gwasanaeth ambiwlans yn parhau i wella, ac yn arwain y ffordd yng Nghymru. A ymunwch â mi i longyfarch Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Alan Murray, a'i holl staff rhagorol ac ymroddedig am drawsnewid perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn ystod y 12 mis diwethaf?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn falch o weld y gwelliannau yn y gwasanaeth ambiwlans, ac mae'n rhaid imi roi teyrnged i ymroddiad y criwiau ambiwlans, sy'n gweithio mewn amgylchiadau anodd dros ben, fel yr ydym wedi ei weld yn adroddiadau'r wasg dros gyfnod y Nadolig. Mae'n dda gweld gwelliannau, ond mae'n rhaid gwneud gwelliannau pellach ym mhob rhan o'r gwasanaeth yng Nghymru.

### Nyrsio Cymunedol

**C3 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch nyrsio cymunedol? OAQ(3)320(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys ynghylch yr adolygiad o nyrsio cymunedol, a chyda swyddogion ynghylch datblygiadau strategol sy'n effeithio ar swyddogaeth nyrsys cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys y cynllun iechyd gwledig y byddwn yn ei ddatblygu maes o law, datblygu nyrsys teulu a'r fframwaith rheoli cyflyrau cronig.

**Helen Mary Jones:** Ac ystyried ichi gyfarfod â Choleg Brenhinol y Nyrsys yn ddiweddar, byddwch yn gwybod am ei bryderon ynghylch lleihad pellach a fwriedir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer hyfforddiant ôl-radd i fod yn nyrs ardal. Yr oedd 45 o leoedd y llynedd, a chredaf y caiff hynny ei leihau i rywle rhwng 35 a 40 eleni. A ydych fel finnau yn pryderu ynghylch y neges y gall hyn ei anfon at y proffesiwn nyrsio ynghylch difrifoldeb ymrwymiad Llywodraeth

about its commitment to community services and community nursing? Will you undertake to review that decision, if possible, with a view at least to restoring the number of training places to that of the previous year?

**Edwina Hart:** I did not take the decision on these numbers. As a result of the paperwork received by officials, I had a meeting with the Royal College of Nursing about this issue on Monday. We have been talking about the training of district nurses and how it needs to develop differently, what modules could be used, and how many more nurses we could train currently. There are ongoing discussions in this area, and I will make my decision in the next few weeks. I am aware of the need for district nurses: with more and more people coming out of hospital, they are required. Therefore, I am mindful of the points that the RCN put to me about the profession as a whole.

**Jenny Randerson:** Minister, in December, during a Welsh Liberal Democrat debate, you accepted the need for a strategy on community nursing and agreed to put one in place. Can you give us some further information now that your review of community nursing is coming to an end? What plans do you have for a strategy, and what timescale do you envisage for it?

**Edwina Hart:** I feel that you and Helen Mary must have been in my Monday meeting, because I discussed the outcome of the community nursing strategy and other community nursing issues with the RCN, so that better decisions could be made for next year's training. Therefore, I envisage that this will be done quite quickly, perhaps by the summer, to influence future decisions.

**Jenny Randerson:** As part of that strategy, you will be looking at the number of training places. Previously, there was a 17 per cent cut in the number of commissioned community nursing training places and there is serious concern that this could set a

Cymru'n Un i wasanaethau cymunedol a nyrsio cymunedol? A ymgwymerwch i adolygu'r penderfyniad hwnnw, os bydd yn bosibl, gyda golwg ar o leiaf adfer nifer y lleoedd hyfforddi i'r hyn a oedd ar gael y flwyddyn flaenorol?

**Edwina Hart:** Ni wneuthum y penderfyniad ar sail y rhifau hyn. Yn sgil y gwaith papur a ddaeth i law gan swyddogion, cefais gyfarfod â Choleg Brenhinol y Nyrsys ynghylch y mater hwn ddydd Llun. Yr ydym wedi bod yn sôn am hyfforddiant nyrsys cymunedol a sut y mae angen iddo ddatblygu'n wahanol, pa fodiwlau y gellid eu defnyddio a faint mwy o nyrsys y gallem eu hyfforddi ar hyn o bryd. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yn y maes hwn, a gwnaf fy mhenderfyniad yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Yr wyf yn ymwybodol o'r angen am nyrsys cymunedol: gyda mwy a mwy o bobl yn gadael yr ystyby, ceir galw amdanynt. Felly, yr wyf yn ymwybodol o'r pwyntiau a gyflwynodd Coleg Brenhinol y Nyrsys imi ynghylch y proffesiwn yn ei gyfanrwydd.

**Jenny Randerson:** Weinidog, yn ystod un o ddadleuon Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ym mis Rhagfyr, derbyniasoch yr angen i gael strategaeth ar nyrsio cymunedol, a chytuno i roi un ar waith. A allwch roi rhywfaint o wybodaeth bellach inni gan fod eich adolygiad o nyrsio cymunedol yn tynnu tua'r terfyn? Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer strategaeth, a pha amserlen a ragwelwch ar ei chyfer?

**Edwina Hart:** Teimlaf ei bod yn rhaid eich bod chi a Helen Mary wedi bod yn fy nghyfarfod ddydd Llun, oherwydd trafodais gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys ganlyniad y strategaeth nyrsio cymunedol a materion eraill yn ymwneud â nyrsio cymunedol, er mwyn gallu gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer hyfforddiant y flwyddyn nesaf. Felly, rhagwelaf y caiff hyn ei wneud yn gymharol gyflym, erbyn yr haf efallai, er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau i'r dyfodol.

**Jenny Randerson:** Byddwch yn edrych ar nifer y lleoedd hyfforddi fel rhan o'r strategaeth honno. Yn flaenorol, bu lleihad o 17 y cant yn nifer y lleoedd hyfforddiant nyrsio cymunedol a gomisiynwyd, a cheir pryder difrifol y gallai hyn osod cysail ar

precedent for the future. Given your response to Helen Mary Jones, can you commit to an expansion in the number of training places to meet the obvious need if we are to move to the vision outlined in 'Designed for Life'?

**Edwina Hart:** I do not want to see any cuts in training places this year, but I cannot guarantee an increase until I have reviewed all of the issues around the development of this work. However, I will be looking at that in future years.

**Christine Chapman:** While I welcome the priority that the Welsh Assembly Government has given to shifting the balance in the health service from acute hospital-based services to community-based services, I am concerned that community care packages, which incorporate community nursing, are not always working as they should be. In striving to ensure that people can gain and maintain their independence, it appears as though people—and I include my constituents—are still not receiving the necessary community care that they deserve. These care packages are not put in place soon enough following a patient's discharge from hospital. This causes considerable stress for the carer and for the patient. Do you therefore agree that better planning of community care would prevent this from happening and thus ensure the first-class delivery of community nursing for all?

**Edwina Hart:** I agree with your comments, because provision is patchy across Wales. I agree with your final point that we need to deal with this, and we are holding several discussions about how to improve the packages. However, there is a problem, not just with the nursing element, but also with the caring element. How many carers are around who can undertake this work? This is quite a complex issue, which I am discussing with my Deputy Minister, Gwenda Thomas, and I am undertaking further work on this.

**David Melding:** I am sure that everyone in the Chamber agrees with the general policy that we should deliver as much healthcare in the primary community sector as possible. That is a good policy and one that is consistently informing strategies. However,

gyfer y dyfodol. Ac ystyried eich ateb i Helen Mary Jones, a allwch ymrwymo i gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi er mwyn bodloni'r angen amlwg os ydym am symud at y weledigaeth a ddisgrifir yn 'Cynllun Oes'?

**Edwina Hart:** Nid wyf am weld dim lleihad yn nifer y lleoedd hyfforddi eleni, ond ni allaf warantu cynnydd nes imi adolygu'r holl faterion sy'n ymwneud â datblygu'r gwaith hwn. Fodd bynnag, byddaf yn edrych ar hynny yn y blynyddoedd i ddod.

**Christine Chapman:** Wrth imi groesawu'r flaenoriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i symud pwyslais y gwasanaeth iechyd oddi wrth wasanaethau aciwt mewn ysbytai at wasanaethau yn y gymuned, ofnaf nad yw pecynnau gofal cymunedol, sy'n ymgorffori nyrsio cymunedol, bob amser yn gweithio fel y dylent. Wrth ymdrechu i sicrhau y gall pobl ennill a chadw eu hannibyniaeth, mae'n ymddangos bod pobl—ac yr wyf yn cynnwys fy etholwyr i—yn dal i beidio â chael y gofal cymunedol angenrheidiol y maent yn ei haeddu. Ni roddir y pecynnau gofal hyn ar waith yn ddigon buan ar ôl i glaf adael yr ysbyty. Mae hyn yn achosi straen sylweddol i'r gofalwr ac i'r claf. A gytunwch felly y byddai cynllunio gofal cymunedol yn well yn atal hyn rhag digwydd ac felly'n sicrhau y caiff nyrsio cymunedol o'r radd flaenaf ei ddarparu i bawb?

**Edwina Hart:** Cytunaf â'ch sylwadau, oherwydd nid yw'r ddarpariaeth yn gyson ar draws Cymru. Cytunaf â'ch pwynt olaf, bod angen inni ddelio â hyn, ac yr ydym yn cynnal nifer o drafodaethau ynghylch sut i wella'r pecynnau. Fodd bynnag, ceir problem, nid ond gyda'r elfen nyrsio, ond gyda'r elfen ofalu hefyd. Faint o ofalwyr sydd ar gael a all ymgymryd â'r gwaith hwn? Mae hwn yn fater eithaf cymhleth, ac yr wyf yn ei drafod gyda'm Dirprwy Weinidog, Gwenda Thomas, ac yr wyf yn gwneud rhagor o waith ar hyn.

**David Melding:** Yr wyf yn siŵr bod pawb yn y Siambr yn cytuno â'r polisi cyffredinol y dylem ddarparu cymaint o ofal iechyd â phosibl yn y sector cymunedol sylfaenol. Mae hwnnw'n bolisi da, ac yn un sy'n diweddarau strategaethau'n gyson. Fodd

many of us are concerned that far too much money is still locked into the secondary care sector. What progress do you see in the area of chronic disease management, because some 50 per cent of admissions could be prevented through, for instance, the effective management of diabetes? That is what we have to aim towards, but, at the moment, the general fear is that not enough money follows the patients.

**Edwina Hart:** You are correct in that we have not made the sufficient change to the arrangements between primary and secondary care to get the balance correct. I am currently working towards that, and have started on several strands of work.

### The Availability of NHS Dentists

**Q4 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement on the availability of NHS dentists? OAQ(3)312(HSS)

**Edwina Hart:** At 31 March 2007, 1,186 dentists on open NHS contracts were recorded as providing NHS treatment in Wales, compared with 1,150 at 31 December 2006 and only 975 dentists at June 1999, when the Assembly was established.

12.40 p.m.

**Leanne Wood:** You may be aware of the Citizens Advice report that is out today, which states that a lack of access has prevented one in six people from seeing an NHS dentist for almost two years.

In recent years, in my region, we have seen queues outside practices with people trying to register with NHS dentists. Can you tell us what assessment has been made of the new contract on the development of dental services in Cardiff, the Vale of Glamorgan and the Valleys, please?

**Edwina Hart:** I am aware of the report, which I will be discussing with officials. I do not necessarily recognise the picture that was painted on the news in relation to Wales, in the snippet of it that I caught. In your South

bynnag, mae nifer ohonom yn bryderus bod llawer gormod o arian wedi'i gloi yn y sector gofal eilaidd o hyd. Pa gynnydd a welwch ym maes rheoli clefydau cronig, oherwydd gellid atal oddeutu 50 y cant o'r rheiny a gyflwynir drwy, er enghraifft, reoli diabetes yn effeithiol? Dyna y mae'n rhaid inni anelu ato, ond ar hyn o bryd, y pryder cyffredinol yw nad oes digon o arian yn mynd i ganlyn y cleifion.

**Edwina Hart:** Yr ydych yn gywir o ran nad ydym wedi gwneud y newid digonol yn y trefniadau rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn cael y cydbwysedd cywir. Yr wyf yn gweithio tuag at hynny ar hyn o bryd, ac wedi dechrau gweithio ar nifer o feysydd gwaith.

### Argaeledd Deintyddion GIG

**C4 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd deintyddion GIG? OAQ(3)312(HSS)

**Edwina Hart:** Ar 31 Mawrth 2007, cofnodwyd bod 1,186 deintydd ar contractau agored gan y GIG yn darparu triniaethau GIG yng Nghymru, o'i gymharu â 1,150 ar 31 Rhagfyr 2006 a dim ond 975 deintydd ym Mehefin 1999, pan sefydlwyd y Cynulliad.

**Leanne Wood:** Mae'n bosibl y gwyddoch am adroddiad Cyngor Ar Bopeth a gyhoeddwyd heddiw, sy'n datgan bod diffyg mynediad wedi atal un unigolyn o bob chwech rhag gweld deintydd GIG ers bron i ddwy flynedd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn fy rhanbarth i, yr ydym wedi gweld ciwiau y tu allan i bractisiau gyda phobl yn ceisio cofrestru gyda deintyddion GIG. A allwch ddweud wrthym pa asesiad sydd wedi'i wneud ar y contract newydd ynghylch datblygu gwasanaethau deintyddol yng Nghaerdydd, ym Mro Morgannwg ac yn y Cymoedd os gwelwch yn dda?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol o'r adroddiad, a byddaf yn ei drafod gyda swyddogion. Nid wyf o reidrwydd yn cydnabod y darlun a beintwyd yn y newyddion yng nghyswllt Cymru yn y pytau



Wales Central region, including Cardiff, Merthyr and Rhondda Cynon Taf, there are now dental practices that are accepting new patients. We have had problems in some patches across Wales, but I believe that the additional investment is now starting to target those areas. In addition, the group that I have got together under Professor Wayne Richards is looking at all these issues. The group is due to report to me by the spring and that report will obviously be made available to Members. I am cognisant of the fact that there are differences across Wales: if a constituent of mine contacts my constituency office, I refer them to the local health board and, within a week, they have a dentist, but that has not been the case in some other areas, particularly in west Wales, in places such as Ceredigion, where there have been genuine difficulties. However, we are starting, slowly but surely, to tackle the problem. We also have to be aware that dentists are private contractors to the NHS.

**Angela Burns:** Minister, last August you assured me that the 11,000 people on the dental waiting lists, which then rose to 14,000, would be served by two new practices in Pembrokeshire. I have a constituent who has been on the waiting list since March 2007 and, after months of pain, has discovered that her abscess, which could not be treated at the accident-and-emergency unit, has developed to such an extent that the bone in her jaw is now deformed. She has now been informed that she is on the next 1,000-patient waiting list for a new surgery in Haverfordwest or she can see a private dentist, but until then she will have to keep on waiting. Rhodri Morgan promised that, by April—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Will you come to the question, please?

**Angela Burns:** Certainly. Minister, both you and the First Minister promised that, by April 2007, no-one in Wales would have to wait for a dentist. Will you please explain why my constituent has been so badly let down?

**Edwina Hart:** I first of all express to you my

a welais. Yn eich rhanbarth Canol De Cymru, gan gynnwys Caerdydd, Merthyr a Rhondda Cynon Taf, ceir bellach bractisiau deintyddol sy'n derbyn cleifion newydd. Yr ydym wedi cael problemau mewn rhai ardaloedd ar draws Cymru, ond credaf fod y buddsoddiad ychwanegol yn awr yn dechrau targedu'r ardaloedd hynny. Hefyd, mae'r grŵp yr wyf wedi'i gynnull, dan yr Athro Wayne Richards, yn ymchwilio i'r holl faterion hyn. Disgwylir i'r grŵp adrodd wrthyf erbyn y gwanwyn, a bydd yr adroddiad hwnnw yn amlwg ar gael i'r Aelodau. Yr wyf yn ymwybodol o'r ffaith y ceir gwahaniaethau ledled Cymru: os bydd un o'm hetholwr yn cysylltu â swyddfa fy etholaeth, cyfeirir hwy at y bwrdd iechyd lleol, a chyn pen wythnos, bydd ganddynt ddeintydd, ond nid felly y bu mewn rhai ardaloedd eraill, yn arbennig yn y gorllewin, mewn lleoedd megis Ceredigion, lle bu anawsterau gwirioneddol. Fodd bynnag, yr ydym yn dechrau, yn araf ond yn sicr, mynd i'r afael â'r broblem. Rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol bod deintyddion yn gonacontractwyr preifat i'r GIG.

**Angela Burns:** Weinidog, Awst diwethaf, cefais sicrwydd gennyh y câi'r 11,000 o bobl a oedd ar y rhestrau aros deintyddol, a gynyddodd i 14,000 ar y pryd, eu gwasanaethu gan ddau bractis newydd yn sir Benfro. Mae gennyf etholwraig sydd ar y rhestr aros er Mawrth 2007, ac, ar ôl misoedd o boen, mae wedi canfod bod ei chrawniad, na ellid ei drin yn yr uned damweiniau ac achosion brys, wedi gwaethygu cymaint fel bod ganddi nam ar asgwrn ei gên. Mae bellach wedi cael gwybod ei bod ar restr aros y 1,000 claf nesaf i gael llawdriniaeth yn Hwlfordd, neu gall weld deintydd preifat, ond tan hynny, bydd yn rhaid iddi ddal i aros. Addawodd Rhodri Morgan, erbyn Ebrill—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A ddewch at y cwestiwn os gwelwch yn dda?

**Angela Burns:** Yn bendant. Weinidog, yr oeddech chi a'r Prif Weinidog wedi addo na fyddai'n rhaid i neb yng Nghymru aros am ddeintydd erbyn Ebrill 2007. A fydddech gystal ag egluro pam y gwnaethpwyd tro mor wael â'm hetholwraig?

**Edwina Hart:** Yn gyntaf oll, mynegaf ichi fy

sympathy with your constituent and the difficult position that she has been put in. If you want to write to me about that particular case, I would be delighted to take the matter up.

Two new practices recently opened in Pembrokeshire, providing capacity for a further 14,000 patients. The £13 million additional investment in the new contract has made a noticeable difference. There are very few areas where we still have problems, about which I have been quite honest in the past, and they are Pembrokeshire, Ceredigion and Ynys Môn. However, I will take up the individual issues if you raise them with me.

### Primary Healthcare

**Q5 Huw Lewis:** What are the Welsh Assembly Government's priorities for primary healthcare in Merthyr Tydfil and Rhymney? OAQ(3)292(HSS)

**Edwina Hart:** Local health boards are responsible for setting primary care priorities for their area. However, as you know, I have asked Professor Mansel Aylward to review the current proposals for the delivery of healthcare in the Merthyr Tydfil area over the next 10 years.

**Huw Lewis:** I report to you and the Assembly as a whole that the people of Merthyr Tydfil and Rhymney are now confident that they can look forward to the future development of primary healthcare in the area with increasing optimism, given the appointment of Mansel Aylward. The question that is still on everyone's lips concerns when developments will be seen in the form of bricks and mortar. Can you give us an idea of the timescale of Professor Mansel Aylward's work, when it might end and when we might look forward to concrete changes to provision?

**Edwina Hart:** I can assure you that Mansel's work is scheduled to be with me by April 2008. I will not dilly-dally over any positive decisions to get bricks and mortar in place after that report is with me.

nghydymdeimlad â'ch etholwraig a'r sefyllfa anodd y mae'n ei hwynebu. Os ydych am ysgrifennu ataf ynghylch yr achos penodol hwnnw, byddwn yn falch iawn o ymgymryd â'r mater.

Agorwyd dau bractis newydd yn ddiweddar yn sir Benfro, gan ddarparu cyfleusterau ar gyfer 14,000 o gleifion eraill. Mae'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £13 miliwn yn y contract newydd wedi gwneud gwahaniaeth amlwg. Ychydig iawn o ardaloedd a geir lle mae gennym broblemau o hyd, ac yr wyf wedi bod yn eithaf gonest yn eu cylch yn y gorffennol, a'r rheiny yw sir Benfro, Ceredigion ac Ynys Môn. Fodd bynnag, ymgymeraf â'r materion unigol os soniwch amdanynt wrthyf.

### Gofal Iechyd Sylfaenol

**C5 Huw Lewis:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal iechyd sylfaenol ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ(3)292(HSS)

**Edwina Hart:** Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am bennu blaenoriaethau gofal sylfaenol ar gyfer eu hardal. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, yr wyf wedi gofyn i'r Athro Mansel Aylward adolygu'r cynigion cyfredol ar gyfer darparu gofal iechyd yn ardal Merthyr Tudful dros y 10 mlynedd nesaf.

**Huw Lewis:** Dywedaf wrthyfych chi a'r Cynulliad cyfan fod pobl Merthyr Tudful a'r Rhymni bellach yn ffyddiog y gallant edrych ymlaen at ddatblygu gofal iechyd sylfaenol yn yr ardal yn y dyfodol gyda gobaith cynyddol, yn sgil penodi Mansel Aylward. Mae'r cwestiwn sydd yn dal ar wefusau pawb yn ymwneud â phryd y gwelir datblygiadau ar ffurf brics a mortar. A allwch roi syniad inni o amserlen waith yr Athro Mansel Aylward, pryd y mae'n bosibl y daw i ben a phryd y gallwn efallai edrych ymlaen at newidiadau cadarn yn y ddarpariaeth?

**Edwina Hart:** Gallaf eich sicrhau y disgwylir imi gael gwaith Mansel erbyn Ebrill 2008. Ni fyddaf yn llusgo ynghylch unrhyw benderfyniadau cadarnhaol i gael brics a mortar yn eu lle ar ôl i mi gael yr adroddiad hwnnw.

**William Graham:** Minister, you will know that, sadly, Merthyr Tydfil has a higher incidence of alcoholism than anywhere else in Wales. The previous questioner, when he was a Deputy Minister, and I were once in Merthyr hearing evidence specifically from his constituents and mine. What has been done to improve that situation, particularly in getting GPs to acknowledge that alcoholism exists in certain individuals? What effective treatment is being provided?

**Edwina Hart:** Thank you for that question, William, because you touched on the GP issue there. I have been in discussion with GPs about the nature of their contract, and about tackling some of these alcohol and drug-related issues through that contract. There has also been an increase in service provision, but you are quite right that there is a lot more to be done in that area to take it across the whole primary care agenda, to see who could help where.

**Mohammad Asghar:** The Minister should know that Merthyr Tydfil is afflicted with the poorest health in Wales, with approximately 30 per cent of its population suffering from long-term illness. In light of the Wales Audit Office report on the general medical services contract, how does this affect the One Wales Government's ability to tackle the severe health problems in Merthyr Tydfil? Does the Government have any plans for investment in wellbeing centres?

**Edwina Hart:** I have asked Mansel to take this work forward, because, as Huw indicated, he enjoys the confidence of the local population in developing issues. One of the issues that Mansel has been interested in is the preventative care agenda in that context, which goes to how we might look at nurse-led/GP open-type arrangements in the new development there. The GMS contract was a nationally negotiated contract that was undertaken by the UK Government on behalf of the four nations. There have been

**William Graham:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod gan Ferthyr Tudful, yn anffodus, nifer uwch o achosion o alcoholiaeth nag unrhyw le arall yng Nghymru. Yr oedd yr holwr diwethaf, pan oedd yn Ddirprwy Weinidog, a minnau ym Merthyr un tro, yn gwrando ar dystiolaeth yn benodol gan ei etholwyr ef a minnau. Beth sydd wedi'i wneud i wella'r sefyllfa honno, yn arbennig o ran cael meddygon teulu i gydnabod bod rhai unigolion yn alcoholigion? Pa driniaeth effeithiol a ddarperir?

**Edwina Hart:** Diolch am y cwestiwn hwnnw William, oherwydd yr ydych wedi cyffwrdd â mater meddygon teulu. Yr wyf wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda meddygon teulu ynghylch natur eu contract, ac ynghylch mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau drwy'r contract hwnnw. Cafwyd cynnydd hefyd mewn darpariaeth gwasanaeth, ond yr ydych yn llygad eich lle bod llawer i'w wneud eto yn yr agwedd honno er mwyn ei chyflwyno ar draws yr agenda gyfan ar gyfer gofal sylfaenol, er mwyn gweld pwy a allai fod o gymorth ac ymhle.

**Mohammad Asghar:** Dylai'r Gweinidog wybod bod Merthyr Tudful yn ddiodeff yr iechyd gwaelaf yng Nghymru, gydag oddeutu 30 y cant o'i phoblogaeth yn ddiodeff o salwch hirdymor. Ac ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, sut y mae hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru'n Un i fynd i'r afael â'r problemau iechyd difrifol ym Merthyr Tudful? A oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn canolfannau lles?

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi gofyn i Mansel fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, oherwydd, fel y dywedodd Huw, mae'n ennyn hyder y boblogaeth leol wrth ddatblygu materion. Un mater y mae Mansel wedi bod â diddordeb ynddo yw'r agenda gofal ataliol yn y cyddestun hwnnw, sy'n ystyried sut y gallem edrych ar drefniadau agored a arweinir gan nyrsys/meddygon teulu yn y datblygiad newydd yno. Contract a negodwyd yn genedlaethol oedd y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, a gyflawnwyd gan

criticisms of the contract, which we need to recognise, but I have been doing different work in Wales in terms of my discussions with GPs about how I can use aspects of the contract to improve health issues in areas such as Merthyr, because we strongly recognise the social deprivation and health issues that we must manage through the contractual arrangements. The British Medical Association has been particularly good in addressing these issues with me.

### Cardiac Rehabilitation

**Q6 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on the delivery of cardiac rehabilitation in west Wales? OAQ(3)283(HSS)

**Edwina Hart:** Cardiac rehabilitation should form an integral part of the care plan for patients with established coronary heart disease. We are developing a specific standard in the coronary heart disease national service framework that aims to ensure consistent access to services across Wales.

**Paul Davies:** Thank you for that answer, Minister. On 19 September last year, you said in the Chamber:

‘I would be disappointed if local health boards, trusts and others were not taking on the mainstreaming process, and I am looking carefully at this issue across Wales’.

Many of my constituents are naturally concerned that funding for this vital service might not be available after July this year, because that is when the Big Lottery funding is due to expire. In light of your comments, will you confirm that the Assembly Government would therefore step in to replace this essential funding, should the funds not be forthcoming, as this is a vital service for many in my constituency?

**Edwina Hart:** I am aware of the comments that I made in the Chamber, and I discussed

Lywodraeth y DU ar ran y pedair gwlad. Mae'r contract wedi cael ei feirniadu, a rhaid inni gydnabod hynny, ond yr wyf wedi bod yn gwneud gwahanol waith yng Nghymru o ran fy nhrafodaethau gyda meddygon teulu ynghylch sut y gallaf ddefnyddio agweddau ar y contract i wella materion iechyd mewn ardaloedd tebyg i Ferthyr, oherwydd yr ydym yn llwyr gydnabod yr amddifadedd cymdeithasol a'r materion iechyd y mae'n rhaid inni eu rheoli drwy'r trefniadau contract. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi cydweithio'n dda iawn â mi wrth roi sylw i'r materion hyn.

### Adsefydlu Cardiaidd

**C6 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu adsefydlu cardiaidd yng ngorllewin Cymru? OAQ(3)283(HSS)

**Edwina Hart:** Dylai adsefydlu cardiaidd fod yn rhan anhepgor o'r cynllun gofal ar gyfer cleifion gyda chlefyd coronaidd y galon sefydledig. Yr ydym yn datblygu safon benodol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar glefyd coronaidd y galon gyda'r nod o sicrhau mynediad cyson at wasanaethau ledled Cymru.

**Paul Davies:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ar 19 Medi y llynedd, dywedsoch yn y Siambr:

‘Byddwn yn siomedig pe na fyddai byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau ac eraill yn ymgymryd â'r broses prif ffrydio, ac yr wyf yn edrych yn ofalus ar y mater hwn ledled Cymru’.

Mae llawer o'm hetholwyr yn naturiol yn poeni efallai na fydd cyllid ar gael ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn ar ôl mis Gorffennaf eleni, oherwydd dyna pryd fydd cyllid y Gronfa Loteri Fawr yn dod i ben. Ac ystyried eich sylwadau a wnewch gadarnhau, os na ellir dod o hyd i gyllid, y byddai Llywodraeth y Cynulliad felly'n camu i'r adwy ac yn darparu'r cyllid hanfodol hwn, gan ei fod yn wasanaeth allweddol ar gyfer llawer o bobl yn fy etholaeth?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol o'r sylwadau a wneuthum yn y Siambr, a chefais

with LHB chairs today the point that they had initially had money from other sources to run these services, they had known that that money was going to expire at a certain date, and asked why they had not made the necessary arrangements to mainstream services of this particular nature. My officials are now engaging with those LHBs that have not delivered on that service area, and I will report back in due course.

**Joyce Watson:** Thank you for that answer, Minister. Community-based cardiac rehab programmes, such as those that have operated in Amman Valley Hospital and Llandoverly Hospital, have offered people, particularly in places where it can be difficult to access central services, a range of treatments that take both a medical and a psychosocial approach to combating heart disease. Lifestyle change, consisting of dietary and exercise education, is an essential part of this treatment. To this end, can you outline what the Assembly Government is doing more widely to help people at risk of, or suffering from, coronary disease, in terms of offering dietary and exercise advice?

**Edwina Hart:** It is clear that there are issues around the smoking agenda, where we give help and assistance, as part of our stop smoking campaigns, and around diet and obesity. We are giving grants to increase capacity to deal with diabetes in the community and the Let's Walk Cymru campaign is also part of that. Therefore, there are a range of issues that we are trying to develop holistically across Wales to tackle that.

**Helen Mary Jones:** Further to your answers to Joyce Watson and to Paul Davies, do you agree that in the light of the new strategy that is being developed, it would be a great pity if the good work that has been developed with voluntary sector funding were lost, only to need to be put back in place 12 months down the line by the local health boards and trusts in response to the new strategy that you will produce? Will you undertake to share with Members who have expressed an interest the

drafodaethau â chadeiryddion byrddau iechyd lleol heddiw am y pwynt bod ganddynt yn wreiddiol arian o ffynonellau eraill i redeg y gwasanaethau hyn, ac yr oeddent yn gwybod y deuai'r arian hwnnw i ben ar ddyddiad penodol, a gofynnais pam nad oeddent wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol i brif ffrydio gwasanaethau o'r math hwn. Nawr, mae fy swyddogion yn cysylltu â'r byrddau iechyd lleol hynny sydd heb gyflawni ar y maes gwasanaeth hwnnw, a byddaf yn adrodd yn ôl maes o law.

**Joyce Watson:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae rhaglenni adsefydlu cardiaidd yn y gymuned, megis y rheiny a fu ar waith yn Ysbyty Dyffryn Aman ac Ysbyty Llanymddyfri, wedi cynnig amrywiaeth o driniaethau i bobl, yn enwedig mewn lleoedd lle gall fod yn anodd iddynt gael mynediad at wasanaethau canolog, sy'n cymryd agwedd feddygol a seicogymdeithasol at fynd i'r afael â chlefyd y galon. Mae newid ffordd o fyw, gan gynnwys cael addysg am ddeiet ac ymarfer corff, yn rhan hanfodol o'r driniaeth hon. At y diben hwn, a allwch amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud yn ehangach i helpu pobl sydd mewn perygl o ddiodef clefyd coronaidd, neu sydd eisoes yn dioddef ohono, o ran cynnig cyngor ar ddeiet ac ymarfer corff?

**Edwina Hart:** Mae'n amlwg y ceir materion yn ymwneud â'r agenda ysmegu, fel rhan o'n hymgyrchoedd i roi'r gorau i ysmegu wrth i ni roi help a chymorth, ac ynghylch deiet a gordewdra. Yr ydym yn rhoi grantiau i gynyddu'r gallu i ddelio â diabetes yn y gymuned ac mae'r ymgyrch Dewch i Gerdded Cymru hefyd yn rhan o hynny. Felly, yr ydym yn ceisio datblygu amrywiaeth o faterion yn gyfannol yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â hynny.

**Helen Mary Jones:** Yn dilyn eich atebion i Joyce Watson a Paul Davies, a ydych yn cytuno ac ystyried y strategaeth newydd sy'n cael ei datblygu, y byddai'n drueni mawr petai'r gwaith da a ddatblygwyd â chyllid y sector gwirfoddol yn cael ei golli, a'i bod yn rhaid i'r ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol eu hailgyflwyno ymhen 12 mis er mwyn ymateb i'r strategaeth newydd y byddwch yn ei llunio? A wnewch ymrwymo i rannu'r ymatebion yr ydych wedi'u cael gan

responses that you have received from local health boards, because, as you rightly said, they have known from the beginning that they needed to mainstream the services after the Big Lottery funding ran out? Will you also look at the evidence that has been produced by these projects, because they have been evaluating their work closely, and see whether that evidence can be used as a basis for the preventative work that would be needed in the new strategy.

fyrddau iechyd lleol i Aelodau sydd wedi mynegi diddordeb, oherwydd, yr oeddent yn gwybod o'r cychwyn cyntaf, ac yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud hynny, bod angen iddynt brif ffrydio'r gwasanaethau ar ôl i gyllid y Gronfa Loteri Fawr ddod i ben? A wnewch edrych ar y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y prosiectau hyn, oherwydd maent wedi bod yn gwerthuso'u gwaith yn fanwl, a gweld a ellir defnyddio'r dystiolaeth honno fel sail ar gyfer y gwaith ataliol y byddai ei angen yn y strategaeth newydd?

12.50 p.m.

**Edwina Hart:** Yes, because it is the Big Lottery Fund and the inequalities in health fund that have funded some of these projects, and we are assessing all of the projects. I would be happy to provide a written statement when the outcome of these discussions is known.

**Edwina Hart:** Gwnaf, oherwydd mai'r Gronfa Loteri Fawr a'r gronfa anghydraddoldebau iechyd sydd wedi cyllido rhai o'r prosiectau hyn, ac yr ydym yn asesu'r holl brosiectau. Byddwn yn ddigon bodlon darparu datganiad ysgrifenedig pan ddaw canlyniadau'r trafodaethau hyn i law.

#### **Fire Safety Precautions in Welsh Hospitals**

#### **Rhagofalon Diogelwch Tân yn Ysbytai Cymru**

**Q7 Sandy Mewies:** Does the Minister have any plans for a review of the fire safety precautions in Welsh hospitals? OAQ(3)295(HSS)

**C7 Sandy Mewies:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu'r rhagofalon diogelwch tân yn ysbytai Cymru? OAQ(3)295(HSS)

**Edwina Hart:** Fire safety precautions at NHS trusts in Wales are reviewed on an annual basis and submitted to Welsh Health Estates for validation.

**Edwina Hart:** Caiff rhagofalon diogelwch tân yn ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru eu hadolygu'n flynyddol a'u cyflwyno i Ystadau Iechyd Cymru i'w dilysu.

**Sandy Mewies:** Thank you, Minister. In view of recent fires across the border, will you be in contact with fire chiefs as well as trusts to examine what procedures are in place? Will you undertake to report these findings to Members?

**Sandy Mewies:** Diolch yn fawr, Weinidog. A chofio'r tanau diweddar dros y ffin, a fyddwch yn cysylltu â phrif swyddogion tân a'r ymddiriedolaethau i archwilio pa weithdrefnau sydd mewn grym? A wnewch ymrwymo i adrodd ar y canfyddiadau wrth Aelodau?

**Edwina Hart:** In the light of what happened across the border—the incident at the Royal Marsden Hospital was very serious, and we are grateful that all of the patients and staff were safely evacuated—I have been discussing with the director of NHS Wales, Ann Lloyd, the involvement of fire chiefs in working directly with my regional directors to look at fire issues across Wales, as we have some particularly old buildings. I would

**Edwina Hart:** Ac ystyried yr hyn a ddigwyddodd dros y ffin—yr oedd y digwyddiad yn Ysbyty Royal Marsden yn un difrifol iawn, ac yr oeddem yn falch o glywed bod yr holl gleifion a'r staff wedi cael eu cludo o'r adeilad yn ddiogel—yr wyf wedi cael trafodaethau â chyfarwyddwraig GIG Cymru, Ann Lloyd, ynghylch cael prif swyddogion tân i weithio'n uniongyrchol gyda'm cyfarwyddwyr rhanbarthol i edrych

be happy to make details of the outcome of that work available to Members.

**Mark Isherwood:** The situation at the Royal Marsden Hospital caused wide concern. I have spoken to North Wales Fire and Rescue Service about this issue, and it tells me that there are no specific issues at the moment, although small issues could be found in an estate as massive that of the NHS. What plans do you have to contact the three regional services to establish the current position in Wales, and to find out whether they feel that further action may be required?

**Edwina Hart:** I believe that I answered that question in my response to Sandy Mewies.

#### Hospital Cleanliness

**Q8 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement on hospital cleanliness? OAQ(3)313(HSS)

**Edwina Hart:** I have established a task and finish group to consider the current national standards of cleanliness, which is to report back to me by March 2008. As you will know, I have instructed that many more unannounced hygiene inspections should take place in Wales.

**Leanne Wood:** Minister, a number of hospitals, including Llwynypia, Treorchy and Dewi Sant in Pontypridd, have been affected by the outbreak of norovirus, and wards at Llandough and the University Hospital of Wales have also been hit. This must have been a very difficult time for staff and patients in those hospitals. Can you tell us what the One Wales Government is doing to ensure that lessons are learned in order to reduce the impact of this virus in the future?

**Edwina Hart:** I understand that the virus levels in Wales were no greater than they were last year. I will check that with the chief medical officer before I make a statement to Members. We monitor the impact on hospitals of closed wards, which occurs every

ar faterion yn ymwneud â thân ledled Cymru, gan fod gennym rai adeiladau hen iawn. Byddwn yn ddigon bodlon rhyddhau'r manylion am ganlyniad y gwaith hwnnw i Aelodau.

**Mark Isherwood:** Yr oedd y sefyllfa yn Ysbyty Royal Marsden wedi peri cryn bryder. Yr wyf wedi siarad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am y mater hwn, a dywedwyd wrthyf nad oes materion penodol ar hyn o bryd, er mae'n bosibl y deuir o hyd i fân faterion mewn ystâd mor anferth â'r GIG. Pa gynlluniau sydd gennych i gysylltu â'r tri gwasanaeth rhanbarthol er mwyn canfod beth yw'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, a gofyn a ydynt yn teimlo bod angen cymryd camau pellach?

**Edwina Hart:** Credaf fy mod wedi ateb y cwestiwn hwnnw wrth ateb Sandy Mewies.

#### Glanweithdra Ysbytai

**C8 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lanweithdra ysbytai? OAQ(3)313(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y safonau glendid cenedlaethol cyfredol, a bydd yn adrodd yn ôl i mi erbyn mis Mawrth 2008. Fel y gwyddoch, yr wyf wedi rhoi cyfarwyddiadau i gynnal llawer iawn mwy o archwiliadau hylendid dirybudd yng Nghymru.

**Leanne Wood:** Weinidog, effeithiwyd ar nifer o ysbytai, gan cynnwys Llwynypia, Treorci a Dewi Sant ym Mhontypridd, yn ogystal â wardiau yn Ysbyty Llandoche ac yn Ysbyty Athrofaol Cymru, gan achosion o norofirws. Mae'n siŵr y bu hwn yn gyfnod anodd iawn i staff a chleifion yn yr ysbytai hynny. A allwch ddweud wrthym beth mae Llywodraeth Cymru'n Un yn ei wneud i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu er mwyn lleihau effaith y firws hwn i'r dyfodol?

**Edwina Hart:** Deallaf nad oedd lefelau'r firws yng Nghymru yn uwch nag yr oeddent y llynedd. Gwnaf wirio hynny â'r prif swyddog meddygol cyn gwneud datganiad i Aelodau. Yr ydym yn monitro'r effaith ar ysbytai pan gaiff wardiau eu cau, ac mae hyn

year if there is some sort of viral infection, but I would be grateful if Members would allow me to research this and come back with a statement.

**Val Lloyd:** Minister, will you join me in congratulating Swansea NHS Trust infection control team, which recently won the 2007 *Nursing Times* infection control award? Do you agree that it is a fitting tribute to its outstanding work in reducing MRSA and MSSA infection rates by a spectacular 90 per cent in three years among haemodialysis patients? Are you looking to encourage the sharing of such best practice between NHS trusts in Wales in the fight against hospital-acquired infections?

**Edwina Hart:** We try to share best practice and we have a number of projects on this, and we were all pleased that Swansea NHS Trust received its award and that it made such inroads into MRSA infection.

**Jonathan Morgan:** Minister, having gone back and forth to hospital quite a lot in the last few months, I have noticed that there seems to be a huge variation in the cleanliness of hospital wards. The more specialised hospital wards, where patients may be more acutely ill, tend to be much cleaner than those in the general medical category, particularly those in the field of geriatric care. What can the Government do with NHS trusts to ensure consistency in hospital cleanliness?

**Edwina Hart:** We are trying to ensure that we have national standards of hospital cleanliness, and all NHS trusts are aware of the national standards. However, in the light of your comments, I will take further advice on what further work we need to do with the trusts.

#### Ambulance Services

**Q9 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on the delivery of ambulance services in mid Wales? OAQ(3)306(HSS)

yn digwydd bob blwyddyn os oes achosion o heintiau firwsol yn codi, ond byddwn yn ddiolchgar petai Aelodau yn rhoi cyfle imi ymchwilio i'r mater a chyflwyno datganiad maes o law.

**Val Lloyd:** Weinidog, a wnewch ymuno â mi i longyfarch tîm rheoli heintiau Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, a enillodd wobwr rheoli heintiau *Nursing Times* 2007? A ydych yn cytuno bod hwn yn deyrnged briodol i waith anhygoel y tîm wrth leihau 90 y cant ar gyfraddau heintio MRSA a MSSA mewn tair blynedd ymysg cleifion haemodialysis? Yn y frwydr yn erbyn heintiau a ddelir mewn ysbytai, a ydych yn ceisio annog ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i rannu'r arferion gorau hyn ymysg ei gilydd?

**Edwina Hart:** Gwnawn ymdrech lew i rannu arferion gorau ac mae gennym nifer o brosiectau at y diben hwn, ac yr ydym i gyd yn falch bod Ymddiriedolaeth GIG Abertawe wedi cael y wobwr hon ac wedi mynd i'r afael mor llwyddiannus â'r haint MRSA.

**Jonathan Morgan:** Weinidog, fel un sydd wedi bod yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty gryn dipyn dros y misoedd diwethaf, yr wyf wedi sylwi bod gwahaniaethau mawr mewn glanweithdra rhwng wardiau ysbytai. Mae'r wardiau mwy arbenigol mewn ysbytai, lle mae'r cleifion yn gallu bod yn ddifrifol sâl, yn tueddu i fod yn llawer glanach na'r rheiny yn y categori meddygol cyffredinol, yn enwedig y rheiny ym maes gofal yr henoed. Beth all y Llywodraeth ei wneud law yn llaw ag ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau cysondeb mewn glanweithdra ysbytai?

**Edwina Hart:** Yr ydym yn ceisio sicrhau bod gennym safonau glanweithdra cenedlaethol mewn ysbytai, ac mae holl ymddiriedolaethau GIG yn ymwybodol o'r safonau cenedlaethol. Fodd bynnag, ac ystyried eich sylwadau, cymeraf gyngor pellach ar ba fath o waith pellach y mae angen inni ei wneud â'r ymddiriedolaethau.

#### Gwasanaethau Ambiwllans

**C9 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau ambiwlans yn y canolbarth?



OAQ(3)306(HSS)

**Edwina Hart:** I think that I have sent a copy to you of the action plan for the ambulance service in Mid and West Wales. My officials will manage the delivery and progress of the action plan at their performance meetings with the trust to ensure that the plan is delivered. I am aware that perhaps not all Members have had the opportunity to see this plan, so I will circulate it.

**Edwina Hart:** Credaf fy mod wedi anfon copi atoch o'r cynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yn y canolbarth a'r de. Bydd fy swyddogion yn rheoli gwaith cyflwyno'r cynllun gweithredu, a sicrhau cynnydd yn ei erbyn, yn eu cyfarfodydd perfformiad â'r ymddiriedolaeth i sicrhau bod y cynllun yn cael ei roi ar waith. Yr wyf yn ymwybodol nad yw pob Aelod, o bosibl, wedi cael cyfle i weld y cynllun hwn, felly gwnaf ei ddsbarthu.

**Mick Bates:** I am grateful for having had sight of the action plan. It refers to cover in ambulance stations. I have made you aware of the fact that our air ambulance, based in Welshpool, is often called out when there is no cover in ambulance stations. What action are you taking to ensure that there are enough paramedics to cover ambulance stations so that the air ambulance is not called out unnecessarily?

**Mick Bates:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gael taro golwg dros y cynllun gweithredu. Mae'r cynllun yn cyfeirio at staffio gorsafoedd ambiwlans. Yr wyf wedi'ch hysbysu o'r ffaith bod ein hambiwllans awyr, sydd wedi'i leoli yn y Trallwng, yn cael ei alw allan yn aml pan nad yw'r gorsafoedd ambiwlans wedi'u staffio. Pa gamau a ydych yn eu cymryd i sicrhau bod digon o barafeddygon i staffio gorsafoedd ambiwlans fel nad yw'r ambiwlans awyr yn cael ei alw allan yn ddiangen?

**Edwina Hart:** As you will be aware from a note that I circulated earlier this week, I am looking at the whole issue of the air ambulance. The points that you have raised will now be the subject of discussion with the ambulance service as part of the wider review of the service. I am cognisant of the points that you have raised—we should provide ambulances on the ground rather than having to call out the air ambulance, because of the costs involved and various other issues. That matter is in hand.

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch o nodyn a ddsbarthais ynghynt yn yr wythnos, yr wyf yn edrych ar faterion yn ymwneud â'r ambiwlans awyr yn gyffredinol. Bydd y pwyntiau a godasoch yn cael eu trafod gyda'r gwasanaeth ambiwlans fel rhan o adolygiad ehangach o'r gwasanaeth. Yr wyf yn ymwybodol o'r pwyntiau a godasoch—dylem ddarparu ambiwlansys ar lawr gwlad yn hytrach na gorfod galw'r ambiwlans awyr, oherwydd y costau cysylltiedig a'r materion amrywiol eraill. Yr ydym yn rhoi sylw i'r mater hwnnw.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I thank the Minister for what she has said on this issue, but perhaps she could address an issue on which I have been in correspondence with Alan Murray, namely the situation in Machynlleth, where there is a problem with the availability of relief staff. I know that the Minister is talking to the Powys Local Health Board, but could she update us on any progress?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am yr hyn a ddywedodd am y mater hwn, ond efallai y gallai roi sylw i fater yr wyf wedi bod yn cyfathrebu ag Alan Murray yn ei gylch, sef y sefyllfa ym Machynlleth, lle ceir problem â'r staff llanw sydd ar gael. Gwn fod y Gweinidog yn siarad â Bwrdd Iechyd Lleol Powys, ond a all roi'r newyddion diweddaraf am unrhyw gynnydd?

**Edwina Hart:** I do not have any progress to report, but I will be happy to make further

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf unrhyw gynnydd i'w adrodd, ond byddwn yn ddigon

inquiries and get back to you, because it is an important issue.

**Joyce Watson:** Statistically, it is at this time of year, with its dark and difficult driving conditions, that ambulance response times are slowest. Therefore, at this time of year people living in rural areas, where emergency response times are generally slower, are most at risk. The significant investment in new vehicles and communication systems—£22 million and £50 million respectively—together with the recently announced 15-minute target for ambulance waiting at hospitals, are already delivering improvements in places such as Carmarthenshire, where there are new rapid-response vehicles and nine new patient-care service vehicles. Would the Minister outline what near-term plans are in place in other areas of rural Wales to ensure that geography is not a barrier to people's access to care and safety?

**Edwina Hart:** Equality of access is a key area in the development of all services in the NHS and the ambulance service is looking at that as a key element. I think that some of these issues relating to patient transport and ambulance resources will come out in the development of the rural health plan.

**Nerys Evans:** I am concerned that although money has been allocated for global positioning systems, many ambulance service staff still use personal GPS systems, and some do not even have basic maps. Following the new action plan, which I welcome, how will you monitor that and ensure that that policy is implemented?

**Edwina Hart:** We will monitor this closely to ensure that our policies are implemented. It is important that the points that you raised are taken on board and are speedily resolved to ensure a better service for patients.

bodlon gwneud ymholiadau pellach a dod yn ôl atoch, oherwydd mae'n fater pwysig.

**Joyce Watson:** Mae'r ystadegau'n dangos mai ar yr adeg hon o'r flwyddyn, gyda'i hamodau gyrru anodd a thywyll, y ceir yr amseroedd ymateb arafaf gan ambiwlansys. Felly, y bobl sydd fwyaf mewn perygl ar yr adeg hon o'r flwyddyn yw'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r amseroedd ymateb yn arafach ar y cyfan beth bynnag. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn cerbydau a systemau cyfathrebu newydd—gwerth £22 miliwn a £50 miliwn yn y drefn honno—ar y cyd â'r targed 15 munud a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer amseroedd aros ambiwlansys mewn ysbytai, eisoes yn dwyn ffrwyth mewn lleoedd fel sir Gaerfyrddin, sydd wedi cael cerbydau ymateb cyflym newydd a naw cerbyd gwasanaeth gofal cleifion newydd. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynlluniau tymor agos sydd mewn grym yn ardaloedd eraill Cymru wledig i sicrhau nad yw daearyddiaeth yn rhwystro pobl rhag cael gofal a rhag cael eu diogelu?

**Edwina Hart:** Mae darparu mynediad cyfartal yn faes allweddol wrth ddatblygu'r holl wasanaethau yn y GIG ac mae'r gwasanaeth ambiwlans yn edrych arno fel elfen allweddol. Credaf y bydd rhai o'r materion hyn sy'n ymwneud â chludo cleifion ac adnoddau ambiwlans yn codi'u pen wrth ddatblygu'r cynllun iechyd gwledig.

**Nerys Evans:** Yr wyf yn poeni er bod arian wedi cael ei ddyrannu ar gyfer systemau lleoli byd-eang, mae llawer o staff y gwasanaeth ambiwlans yn dal i ddefnyddio eu systemau lleoli byd-eang eu hunain, ac nid oes gan rai ohonynt fapiau syml hyd yn oed. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun gweithredu newydd, ac yr wyf yn ei groesawu, sut y byddwch yn monitro bod y polisi hwnnw'n cael ei roi ar waith?

**Edwina Hart:** Byddwn yn cadw llygad barcud ar hyn i sicrhau bod ein polisiâu'n cael eu rhoi ar waith. Mae'n bwysig bod y pwyntiau a godasoch yn cael eu hystyried ac yn cael eu datrys mor sydyn â phosibl er mwyn sicrhau gwell gwasanaeth i gleifion.

**Local Government Settlement**

**Q10 Peter Black:** What discussions has the Minister had regarding the impact of the local government settlement on social care in Wales? OAQ(3)344(HSS)

**Edwina Hart:** The Deputy Minister for Social Services met local authority portfolio holders on 3 December, when the draft settlement was discussed.

**Peter Black:** Thank you for that answer. You will be aware that there are still problems in relation to delayed transfers of care and, in particular, in terms of financing care in the community subsequent to people being discharged from hospital. What progress is being made in terms of the pooling of budgets between local health boards and local authorities in an effort to tackle these problems?

**Edwina Hart:** The revenue support grant to local government is unhypothecated. It is for authorities to determine where to focus their resources and that is dependent on local pressures.

On delayed transfers of care, a great deal of work is ongoing and we are awaiting the University of Glamorgan's report, which should be available in March. That will help us. There is also ongoing work on pooling budgets. That phrase slips off the tongue quite easily, but the reality is sometimes quite different. I am afraid that we have a long way to go to turn those discussions into reality.

**Nick Ramsay:** The Care and Social Services Inspectorate Wales's recent report has shown that there is a discrepancy among local authorities in Wales in the delivery of social care. Some authorities, such as my own in Monmouthshire, have had a particularly good review. Do you think that the abysmal local government settlement will make it more difficult for local authorities to improve their record in this regard and threaten the Assembly's plans to improve social service delivery, as put forward in 'Fulfilled Lives, Supportive Communities'.

**Setliad Llywodraeth Leol**

**C10 Peter Black:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch effaith y setliad i lywodraeth leol ar ofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(3)344(HSS)

**Edwina Hart:** Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â deiliaid portffolio awdurdodau lleol ar 3 Rhagfyr, a thrafodwyd y setliad drafft bryd hynny.

**Peter Black:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. Byddwch yn ymwybodol bod problemau'n dal i fodoli o ran oedi wrth drosglwyddo gofal ac, yn benodol, o ran cyllido gofal yn y gymuned ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i gael byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i gronni cyllidebau mewn ymgais i fynd i'r afael â'r problemau hyn?

**Edwina Hart:** Nid yw'r grant cynnal refferniw ar gyfer llywodraeth leol wedi'i glustnodi. Penderfyniad awdurdodau fydd dewis lle maent am ganolbwyntio'u hadnoddau ac mae hynny'n dibynnu ar ofynion lleol.

O ran oedi wrth drosglwyddo gofal, mae llawer o waith ar y gweill ac yr ydym yn disgwyl am adroddiad Prifysgol Morgannwg, a ddylai fod ar gael ym mis Mawrth. Bydd hwnnw'n ein helpu. Mae gwaith ar y gweill hefyd ar gronni cyllidebau. Mae'n ddigon hawdd dweud y geiriau, ond weithiau, mae'r realiti'n fater hollol wahanol. Yr wyf yn ofni bod llawer iawn o waith i'w wneud eto cyn y bydd y trafodaethau hynny'n cael eu gwireddu.

**Nick Ramsay:** Mae adroddiad diweddar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi dangos bod anghysonderau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru o ran darparu gofal cymdeithasol. Mae rhai awdurdodau, fel fy un i yn sir Fynwy, wedi cael adolygiad da iawn. A ydych yn credu y bydd y setliad affwysol o wael i lywodraeth leol yn golygu y bydd yn anos fyth i awdurdodau lleol wella yn hyn o beth a drwy hynny fygwth cynlluniau'r Cynulliad i wella darpariaeth gwasanaeth cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd yn

‘Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol’.

1.00 p.m.

**Edwina Hart:** Local authorities are able to raise money through council tax. They value their independence in certain areas, and it is up to them to prioritise within the settlement. We all accept that it is a rather tighter settlement than they would have wished, but, at the end of the day, it is important to recognise that it is for them to make the decisions. Obviously, the Deputy Minister will take on board the comments that you have made, and we are aware of the differences across social services; I congratulate the local authorities that have good social services, and we will obviously be taking action against those that have not.

**Edwina Hart:** Gall awdurdodau lleol godi arian drwy gyfrwng y dreth gyngor. Maent yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth mewn rhai meysydd, a mater iddynt hwy yw blaenoriaethu o fewn y setliad. Mae pob un ohonom yn derbyn bod y setliad yn dynnach braidd na'r hyn y byddent wedi ei ddymuno, ond, yn y pen draw, mae'n bwysig cydnabod mai hwy sy'n gwneud y penderfyniadau. Yn amlwg, bydd y Dirprwy Weinidog yn ystyried y sylwadau a wnaethoch, ac yr ydym yn ymwybodol o'r gwahaniaethau ar draws gwasanaethau cymdeithasol; llongyfarchaf yr awdurdodau lleol sydd â gwasanaethau cymdeithasol da, a byddwn yn amlwg yn cymryd camau yn erbyn y rheiny sydd heb wasanaethau cymdeithasol o'r fath.

### **Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

#### **Questions to the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport**

**The Deputy Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)0286(ECT), is withdrawn.

**Y Dirprwy Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0286(ECT), yn ôl.

#### **Economic Regeneration Initiatives**

#### **Mentrau Adfywio Economaidd**

**Q2 Val Lloyd:** Will the Deputy First Minister make a statement on economic regeneration initiatives in Swansea? OAQ(3)0316(ECT)

**C2 Val Lloyd:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am fentrau adfywio economaidd yn Abertawe? OAQ(3)0316(ECT)

**Q3 Val Lloyd:** Will the Deputy First Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for economic regeneration in Swansea? OAQ(3)0314(ECT)

**Q3 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio economaidd yn Abertawe? OAQ(3)0314(ECT)

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** We are supporting a broad range of regeneration projects across Swansea, including the city centre regeneration framework, SA1 Swansea Waterfront, Fabian Way gateway, Swansea Vale and Felindre. Over the next 10 to 15 years, this could see a total investment of more than £1 billion, and a public sector contribution in excess of £150 million.

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Yr ydym yn cefnogi ystod eang o brosiectau adfywio ym mhob rhan o Abertawe, gan gynnwys y fframwaith adfywio ar gyfer canol y dref, SA1 Glannau Abertawe, porth Ffordd Fabian, Bro Abertawe a Felindre. Dros y 10 i 15 mlynedd nesaf, gallai hyn arwain at fuddsoddiad o fwy na £1 biliwn at ei gilydd, a chyfraniad o fwy na £150 miliwn gan y sector cyhoeddus.

**Val Lloyd:** I will highlight the city centre

**Val Lloyd:** Tynnaf sylw at y fframwaith

strategic framework, which will provide Swansea with first-class retail, residential and leisure facilities for both residents and visitors. I am sure that that will enhance Swansea as a vibrant waterfront city. I welcome the Assembly Government's continued support for the project, through its close involvement in identifying priorities and partners for delivery. I am delighted that the Welsh Assembly Government has committed £1.47 million to the delivery of that framework in 2007-08 alone. Would you agree, Deputy Minister, that the Welsh Assembly Government's involvement in this project shows that it is committed to the regeneration of all urban areas in Wales? Will you do all you can to ensure that there is no delay in the delivery of this strategic framework?

**Leighton Andrews:** As you said, the contribution that we are making to the city centre framework means that Swansea will continue to grow as a vibrant urban centre. I was delighted to announce that Hammerson plc and Urban Splash will lead the regeneration of the city's major retail and waterfront sites. Both development companies have a reputation for delivering landmark schemes. Activity is not confined to the city centre—we are also looking at development and regeneration opportunities along the Tawe river corridor and throughout Swansea bay. There is a huge amount of regeneration activity currently being undertaken in relation to the Swansea city centre framework, and elsewhere in the city.

**Val Lloyd:** You mentioned the SA1 development, Deputy Minister, which shows, again, that the Welsh Assembly Government is serious about economic regeneration in Swansea. To date, on that scheme, there have been 1,600 full-time equivalent permanent jobs, and I am confident that the latest proposals will bring many more employment opportunities to the city. However, would you agree that we also need to think about the regeneration of Swansea in a holistic way? That includes adequate transport provision to all parts of the city, and affordable housing, so that the whole city can reap the benefits of a city regenerated.

strategol ar gyfer canol y ddinas, a fydd yn darparu cyfleusterau adwerthu, preswyl a hamdden o'r radd flaenaf i breswylwyr Abertawe ac ymwelwyr â'r ddinas. Yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n rhoi hwb i Abertawe fel dinas fywiog ar lan y dŵr. Croesawaf gefnogaeth barhaol Llywodraeth y Cynulliad i'r prosiect—mae wedi cydweithio'n agos i ganfod blaenoriaethau a phartneriaid er mwyn cyflawni hyn. Yr wyf wedi gwirioni bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno £1.47 miliwn ar gyfer cyflwyno'r fframwaith yn 2007-08 yn unig. A fydddech yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, fod rhan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y prosiect hwn yn dangos ei bod wedi ymrwymo i adfywio holl ardaloedd dinesig Cymru? A wnewch bopeth yn eich gallu i sicrhau nad oes oedi wrth weithredu'r fframwaith strategol hwn?

**Leighton Andrews:** Fel y dywedasoeh, golyga'r cyfraniad yr ydym yn ei wneud i'r fframwaith ar gyfer canol y ddinas y bydd Abertawe yn parhau i dyfu'n ganolfan ddinesig fywiog. Yr oedd yn bleser gennyf gyhoeddi y bydd Hammerson ccc ac Urban Splash yn arwain y gwaith o adfywio prif safleoedd adwerthu'r ddinas a'r safleoedd ar ei glannau. Mae gan y ddau gwmni datblygu enw da am gyflawni cynlluniau nodedig. Nid yng nghanol y ddinas yn unig y ceir gweithgarwch—yr ydym hefyd yn edrych ar gyfleoedd i ddatblygu ac adfywio ar hyd coridor afon Tawe a thrwy fae Abertawe. Mae llawer iawn o weithgarwch adfywio ar waith ar hyn o bryd yng nghyswllt y fframwaith ar gyfer canol dinas Abertawe, ac mewn lleoedd eraill yn y ddinas.

**Val Lloyd:** Crybwyllasoeh ddatblygiad SA1, Ddirprwy Weinidog, sy'n dangos, eto, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddifrif ynghylch adfywio economaidd yn Abertawe. Hyd yma, o ran y cynllun hwnnw, cafwyd yr hyn sy'n gyfystyr â 1,600 o swyddi amser llawn parhaol, ac yr wyf yn hyderus y bydd y cynigion diweddaraf yn denu mwy o gyfleoedd cyflogaeth i'r ddinas. Fodd bynnag, a gytunech fod angen inni hefyd feddwl mewn ffordd gyfannol am adfywio Abertawe? Mae hynny'n cynnwys darparu trafndiaeth briodol ar gyfer pob rhan o'r ddinas, a thai fforddiadwy, er mwyn i'r ddinas i gyd allu elwa o fanteision dinas a

adfywiwyd.

**Leighton Andrews:** To date, the Assembly Government has invested £38 million in SA1, and private sector investment to date is £145 million, with a future target of £376 million. The development is a magnet for new investment and for jobs, and it is also a catalyst for the regeneration of the waterfront and the city centre. It is important that we make the link between the waterfront and the city centre. I agree with what you said about holistic regeneration, because it is important that we get the benefits of community regeneration associated with these projects. Specifically on the issue of transport, the Deputy First Minister will be making an announcement in due course on the transport grant arrangements for next year.

**Bethan Jenkins:** I also welcome the regeneration of Swansea city centre. In recent press reports about activities in Liverpool, which is European Capital of Culture 2008, that city has been accused of concentrating on the centre, and of not taking account of the suburbs. I hope that, in your work, you can take this example into account to ensure that it is not only the city centre that benefits, but that the city's outskirts benefit also.

**Leighton Andrews:** It is our objective to ensure that we support the sustainable regeneration of communities across the unitary authority of Swansea. There is a particular emphasis on the development of support for sustainable social enterprises, for example, which deliver local employment, education and training. We are directly working with communities, including, for example, the Grenfell Park, St Thomas and Port Tennant Partnership, the Phoenix Community Development Trust on Townhill, the Pontardulais Partnership Trust, Mumbles Development Trust, Gorseinon Development Trust and the Clydach Development Trust.

**Alun Cairns:** There is no doubt that some of these projects are laudable and that they will have contributed to the economic regeneration of Swansea and beyond, but let

**Leighton Andrews:** Hyd yma, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi £28 miliwn yn SA1, a buddsoddwyd £145 miliwn gan y sector preifat hyd yma, gyda'r targed ar gyfer y dyfodol yn £376 miliwn. Mae'r datblygiad yn atyniad ar gyfer buddsoddiad newydd ac ar gyfer swyddi, ac y mae hefyd yn gatalydd ar gyfer adfywio glannau Abertawe a chanol y ddinas. Mae'n bwysig inni greu'r cyswllt rhwng y glannau a chanol y ddinas. Cytunaf â'r hyn a ddywedasoeh ynghylch adfywio cyfannol, oherwydd y mae'n bwysig inni gael y manteision adfywio cymunedol sy'n gysylltiedig â'r prosiectau hyn. Ac edrych yn benodol ar drafnidiaeth, bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn gwneud cyhoeddiad yn y man am drefniadau'r grant trafnidiaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Bethan Jenkins:** Yr wyf finnau hefyd yn croesawu adfywio canol dinas Abertawe. Mewn adroddiadau diweddar yn y wasg am weithgareddau yn Lerpwl, Prif Ddinas Diwylliant Ewrop 2008, cyhuddwyd y ddinas o ganolbwyntio ar y canol, ac o anghofio am y maestrefi. Gobeithiaf y gallwch chi, yn eich gwaith, ystyried yr enghraifft hon er mwyn sicrhau bod cyrion y ddinas, yn ogystal â'i chanol, yn elwa.

**Leighton Andrews:** Ein nod yw sicrhau ein bod yn cefnogi adfywiad cynaliadwy cymunedau ym mhob rhan o awdurdod unedol Abertawe. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygu cefnogaeth ar gyfer mentrau cymdeithasol cynaliadwy, er enghraifft, a'r rheiny'n darparu cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn lleol. Yr ydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau, gan gynnwys, er enghraifft, Partneriaeth Parc Grenfell, St Thomas a Port Tennant, Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Phoenix yn Townhill, Ymddiriedolaeth Partneriaeth Pontarddulais, Ymddiriedolaeth Ddatblygu y Mwmbles, Ymddiriedolaeth Ddatblygu Gorseinon ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu Clydach.

**Alun Cairns:** Nid oes amheuaeth nad oes rhai o'r prosiectau hyn yn ganmoladwy ac y byddant wedi cyfrannu at adfywiad economaidd Abertawe a thu hwnt, ond

us not forget that the core focus of economic regeneration is to improve the wealth of the Welsh economy. Since we last met, the latest gross value added statistics have been published, and they show that Wales has continued to decline in the UK league table of prosperity, and that the gap between Wales and other nations or regions of the United Kingdom is as wide as ever. Does the Deputy Minister agree that that is a damning indictment of New Labour's economic policies in Wales and that New Labour's failure to improve the Welsh economy, despite qualifying for and receiving Objective 1 funding, is a clear indication of its economic mismanagement? That certainly was the view of his boss in the department just a short time ago when the figures were not quite as bad.

**Leighton Andrews:** I thought for a moment that Alun Cairns was actually going to take an interest in South Wales West—that would have been a rarity in itself—given that the question was about Swansea.

We are working with the private sector and with organisations in the community to deliver the economic regeneration of Swansea and the economic regeneration of Wales. We are committed to taking forward a wide range of regeneration projects across Wales. It is disappointing, of course, that Conservative Members always want to talk Wales down—that is all we ever get from them.

**Peter Black:** Will the Deputy Minister give an update on proposals for the leisure development in SA1, which, I understood, was to include a cinema? Is it the case that negotiations on this leisure development have broken down, meaning that it might not now proceed? If that is the case, can he give us the reasons why?

**Leighton Andrews:** I will have to write to you on that matter.

**The Deputy Presiding Officer:** Question 4, OAQ(3)0311(ECT), has been transferred for written answer.

peidiwn ni ag anghofio mai canolbwynt craidd adfywio economaidd yw gwella cyfoeth economi Cymru. Ers inni gyfarfod ddiwethaf, cyhoeddwyd yr ystadegau gwerth ychwanegol crynswth, a dangosant fod Cymru wedi parhau i ddisgyn yn nhabl ffyniant y DU, a bod y bwlch rhwng Cymru a gwledydd neu ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig mor llydan ag erioed. A gytuna'r Dirprwy Weinidog fod hyn yn ddiad damniol o bolisiâu economaidd Llafur Newydd yng Nghymru a bod methiant Llafur Newydd â gwella economi Cymru, er iddynt fod yn gymwys ar gyfer cyllid Amcan 1, yn brawf amlwg o'i gamreolaeth economaidd? Dyna'n sicr farn ei bennaeth yn yr adran ychydig yn ôl pan nad oedd y ffigurau mor ddrwg.

**Leighton Andrews:** Tybiais am eiliad fod Alun Cairns, mewn gwirionedd, yn mynd i ddangos diddordeb yng Ngorllewin De Cymru—byddai hynny ynddo'i hun wedi bod yn rhywbeth prin—a chofio mai cwestiwn am Abertawe ydoedd.

Yr ydym yn gweithio gyda'r sector preifat a chyda mudiadau yn y gymuned i gyflawni adfywiad economaidd Abertawe ac adfywiad economaidd Cymru. Yr ydym wedi ymrwmo i adfywiad economaidd Cymru. Yr ydym wedi ymrwmo i fwrw ymlaen ag ystod eang o brosiectau adfywio drwy Gymru gyfan. Mae'n siomedig, wrth gwrs, fod yr Aelodau Ceidwadol bob amser am fychanu Cymru—dyna'r unig beth a gawn ganddynt bob amser.

**Peter Black:** A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ar gyfer y datblygiad hamdden yn SA1 a oedd, yn ôl yr hyn a ddeallais, i fod i gynnwys sinema? Mae trafodaethau am y datblygiad hamdden hwn wedi dadfeilio—a ydy hynny'n golygu ei bod yn bosibl nad eir ymlaen â hyn mwyach? Os felly, a all ddweud pam wrthym?

**Leighton Andrews:** Bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch ynglŷn â'r mater hwnnw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 4, OAQ(3)0311(ECT), i'w ateb yn ysgrifenedig.

## Cefnogi Busnesau Bach

**C5 David Lloyd:** Beth mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn ei wneud i gefnogi busnesau bach? OAQ(3)0295(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog (Ieuan Wyn Jones):** Drwy atebion busnes hyblyg a'r gronfa fuddsoddi sengl, bydd cefnogaeth syml ar gael i fusnesau newydd a busnesau sydd â'r potensial i dyfu. Bydd £7 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi'n flynyddol mewn gwell cynllun rhyddhad ar drethi busnes.

**David Lloyd:** Yn naturiol, yr wyf i, fel pawb arall, yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar am y buddsoddiad o £1 filiwn i ddatblygu canol dinas Abertawe. Diolchaf i chi a'ch adran am y gwaith a wnaethpwyd ar y cyd â chyngor Dinas a Sir Abertawe i wireddu hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y caiff busnesau bach lleol hefyd y cyfle i elwa ar y datblygiad sylweddol hwn?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch am eich croeso i'r buddsoddiad. Mae disgwyl y bydd y datblygiadau newydd yng nghanol dinas Abertawe yn paratoi cartref i rychwant eang o fusnesau mawr a bach, gyda nifer ohonynt, gobeithio, yn fusnesau lleol. Mae'r pwynt a wnewch ynglŷn â gwaith adeiladu'r ganolfan newydd yn un pwysig—mae angen gweithio ac adeiladu ar y cytundebau a wnaed mewn perthynas â datblygiad SA1. Yr oedd y cytundebau hynny yn dangos y gall rôl busnesau bach a busnesau lleol fod yn allweddol. Mae hynny, wrth gwrs, yn hwb i'r economi leol ac i swyddi yn ogystal.

1.10 p.m.

**David Melding:** If we are to make progress in improving the GVA rates, which, regrettably, continue to decline, we will have to see a much healthier small and medium-sized business sector. One thing that you could do to encourage people to establish small businesses is to discuss with your colleagues the way in which the procurement procedures in the public sector could be improved so that there are more opportunities for businesses to gain contracts. A large part

## Supporting Small Businesses

**Q5 David Lloyd:** What is the Deputy First Minister doing to support small businesses? OAQ(3)0295(ECT)

**The Deputy First Minister (Ieuan Wyn Jones):** Through flexible business solutions and the single investment fund, streamlined support will be available to new starts and businesses with growth potential. An additional £7 million will be invested annually in an enhanced small business rates relief scheme.

**David Lloyd:** I, like everyone else, naturally welcome the recent announcement about the £1 million investment to develop Swansea city centre. I thank you and your department for the work that has been done with the City and County of Swansea council in bringing that about. In that context, what steps are being taken to ensure that small local businesses are also able to benefit from this significant development?

**The Deputy First Minister:** I thank you for welcoming the investment. It is expected that the new developments in Swansea city centre will provide a new home for a wide range of businesses, large and small, of which, hopefully, many will be local businesses. The point that you make about the work of building the new centre is important—work needs to be done to build on the agreements that formed part of the SA1 development. Those agreements showed that the role of small businesses and local businesses could be key. That is also, of course, a boost for the local economy and for jobs.

**David Melding:** Os ydym am wneud cynnydd wrth wella'r cyfraddau GVA sydd, yn anffodus, yn dal i ddisgyn, bydd yn rhaid inni weld sector busnesau bach a chanolig llawer iachach. Un peth y gallech ei wneud i annog pobl i sefydlu busnesau bach yw trafod gyda'ch cyd-Aelodau sut y gellid gwella'r gweithdrefnau caffael yn y sector cyhoeddus fel bod mwy o gyfleoedd i fusnesau ennil contractau. Mae rhan fawr o'n heconomi'n cael ei dominyddu gan y sector cyhoeddus;



of our economy is dominated by the public sector; that is a historic thing. We want a healthy public sector, but we need more opportunities for the private sector, and particularly for small businesses within it.

**The Deputy First Minister:** I agree with the thrust of what you say, David. The point that I made in my answer to Dai Lloyd was that we have recognised the importance of small businesses by ensuring that the business rate relief scheme for small businesses is enhanced. That is an important contribution. The lead on the issue of procurement is taken by my Cabinet colleague Andrew Davies, but he knows that people such as Elin Jones and I take a keen interest in ensuring that more and more businesses are able to participate in procurement contracts all over Wales. You will know that it is something that we have highlighted in the 'One Wales' agreement.

**David Melding:** Procurement is a key area, and I am pleased that you are speaking to Andrew Davies about this. It is essential that we improve these procedures if we are to see businesses grow. It is important that they take the next step and become medium-sized enterprises and see the potential for development, because that is where we are going to see more people employed and skills improved. I was pleased to hear your earlier emphasis on the need to support businesses during that crucial time when they may expand. Many barriers exist; it is a big step for many small firms to take. What discussions are you having with the private sector at the moment on how that could be better effected?

**The Deputy First Minister:** I have regular meetings with representatives of the private sector, and these issues are raised from time to time. When the new single investment fund is introduced, I hope in the spring, there will be an emphasis on the particular issue that you raise about those small businesses that want to take the next step. We have recognised this with the Technium developments, where you have incubation units that need to move away from that. Your point about the support for businesses at that point in their development is well made, and, as a Government, we want to address that.

mae hynny'n beth hanesyddol. Mae arnom eisiau sector cyhoeddus iach, ond mae angen mwy o gyfleoedd arnom ar gyfer y sector preifat, ac yn arbennig ar gyfer y busnesau bach sydd ynddo.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cytunaf ag ergyd yr hyn a ddywedwch, David. Y pwynt a wnes yn fy ateb i Dai Lloyd oedd inni gydnabod pwysigrwydd busnesau bach drwy sicrhau y bydd y cynllun rhyddhad ardrethi busnes yn cael ei wella. Mae hynny'n gyfraniad pwysig. Fy nghyd-Aelod yn y Cabinet, Andrew Davies, sy'n arwain ar gaffael, ond gŵyr fod gan bobl fel Elin Jones a minnau gryn ddiddordeb mewn sicrhau bod mwy a mwy o fusnesau'n gallu cymryd rhan mewn contractau caffael drwy Gymru gyfan. Byddwch yn gwybod bod hynny'n rhywbeth y tynnwyd sylw ato yng nghytundeb 'Cymru'n Un'.

**David Melding:** Mae caffael yn faes allweddol, ac yr wyf yn falch eich bod yn siarad ag Andrew Davies ynghylch hyn. Mae'n hanfodol inni wella'r gweithdrefnau os ydym am weld busnesau'n tyfu. Mae'n bwysig eu bod yn cymryd y cam nesaf ac yn dod yn fentrau canolig eu maint ac yn gweld y potensial i ddatblygu, oherwydd dyna lle'r ydym yn mynd i weld mwy o bobl yn cael eu cyflogi a sgiliau'n gwella. Yr oeddwn yn falch o glywed y pwyslais a roesoch yn gynharach ar yr angen i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod hanfodol hwnnw lle gallent ehangu. Ceir llawer o rwystrau; mae'n gam mawr i lawer o gwmnïau bach ei gymryd. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cynnal gyda'r sector preifat ar hyn o bryd ynghylch beth allai fod yn fwy effeithiol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Byddaf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r sector preifat, a chodir y materion hyn o bryd i'w gilydd. Pan gyflwynir y gronfa fuddsoddi sengl, yn y gwanwyn gobeithio, rhoddir pwyslais ar y mater penodol a godwch ynghylch y busnesau bach hynny sy'n dymuno cymryd y cam nesaf. Yr ydym wedi cydnabod hyn gyda datblygiadau Technium, lle mae gennyh unedau deori y mae angen eu symud oddi wrth hynny. Mae'r pwynt a wnewch am y gefnogaeth ar gyfer busnesau sydd ar y cam hwnnw yn eu datblygiad yn bwynt da, ac yr

ydim, fel Llywodraeth, yn dymuno mynd i'r afael â hynny.

**Christine Chapman:** For an area such as my constituency of Cynon Valley encouraging businesses to locate there is an essential part of the Heads of the Valleys strategy and the regeneration process. However, progress is often stunted by a lack of local knowledge and sometimes by poor networks between businesses. That is why promoting effective business and university partnerships is so essential, as is driving improvement in workforce skills and helping small businesses to hit their targets while boosting the economy. Will you therefore work with your colleague, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, to encourage greater and more proactive partnership working between the two sectors?

**Christine Chapman:** Ar gyfer ardal fel fy etholaeth i, sef Cwm Cynon, mae annog busnesau i leoli eu hunain yno yn rhan hanfodol o strategaeth Blaenau'r Cymoedd a'r broses adfywio. Fodd bynnag, caiff cynnydd ei atal yn aml oherwydd diffyg gwybodaeth leol, a rhwydweithiau gwael rhwng busnesau weithiau. Dyna pam mae hyrwyddo partneriaethau effeithiol rhwng busnesau a phrifysgolion mor hanfodol, yn yr un modd ag y mae hybu gwelliannau yn sgiliau'r gweithlu a chynorthwyo busnesau bach i gyrraedd eu targedau, gan roi hwb i'r economi yr un pryd. A wnewch, felly, weithio gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i annog partneriaeth well a mwy rhagweithiol rhwng y ddau sector?

**The Deputy First Minister:** You make an important point, because the departments for education and the economy are innovating with regard to the way in which we will work together to drive up the research and skills agendas. I have already had meetings with Jane Hutt and her officials and the First Minister on this issue. We hope to have further meetings in order to conclude our deliberations and to bring forward an innovative package that will assist not only in giving advice to small businesses, but on the whole range of economic issues that affect all parts of Wales.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r pwynt a wnewch yn un pwysig, oherwydd mae'r adrannau dros addysg a'r economi yn arloesi o ran y ffordd y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i hybu'r agendâu ymchwil a sgiliau. Yr wyf eisoes wedi cynnal cyfarfodydd â Jane Hutt a'i swyddogion a'r Prif Weinidog am y mater hwn. Gobeithiwn gynnal mwy o gyfarfodydd er mwyn cwblhau ein hystyriaethau a chyflwyno pecyn arloesol a fydd, yn ogystal â rhoi cyngor i fusnesau bach, yn cynorthwyo â'r holl faterion economaidd sy'n effeithio ar bob rhan o Gymru.

**Lesley Griffiths:** The Assembly investment grant has been one of the big successes in supporting small businesses in Wales in recent years. Over the past five years, £1 million has been granted in Wrexham county borough alone. Do you agree that this sort of fast-track responsive assistance to SMEs in the manufacturing and service sectors has played an important part in the process of boosting the Welsh economy?

**Lesley Griffiths:** Mae grant buddsoddi'r Cynulliad wedi bod yn un o'r llwyddiannau mawr wrth gefnogi busnesau bach yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae £1 miliwn wedi ei roi ym mwrdeistref sirol Wrecsam yn unig. A ydych yn cytuno bod y math hwn o gymorth, sef cymorth ymatebol cyflym i fusnesau bach a chanolig, wedi chwarae rhan bwysig wrth roi hwb i economi Cymru?

**The Deputy First Minister:** Yes, I agree. One of the ideas behind the single investment fund is to take out a great deal of the bureaucracy involved in making applications for assistance for small and medium-sized businesses, big manufacturing plant and others. The easier that we can make it for

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ydw, yr wyf yn cytuno. Un syniad sydd wrth wraidd y gronfa fuddsoddi sengl yw cael gwared ar swmp go helaeth o'r fiwrocraatiaeth sy'n gysylltiedig â gwneud ceisiadau am gymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig, ffatrioedd gweithgynhyrchu mawr a chwmnïau eraill.

businesses to tap into support and advice, the better it will be for the Welsh economy.

**The Deputy Presiding Officer:** Question 6, OAQ(3)283(HSS), and question 7, OAQ(3)295(HSS), have been withdrawn.

### Improving Transport Infrastructure

**Q8 Nick Bourne:** Will the Deputy First Minister outline any plans he has to improve transport infrastructure during the life of this Assembly? OAQ(3)0300(ECT)

**The Deputy First Minister:** Over £2.4 billion is planned to be invested in programmes and schemes over the life of this Assembly that will improve transport infrastructure across Wales.

**Nick Bourne:** I am sure that the Deputy First Minister will be aware, from his postbag, from people raising the issue with him, and probably from first-hand experience of going through Newtown in the past, of the pressure and horrendous hold-ups that occur in Newtown. I know that a survey is being conducted about the need for a bypass. Will the Deputy First Minister give an indication of the timescale for this because there is a pressing need and urgency? I wonder how important he regards this.

**The Deputy First Minister:** Newtown does have particular problems, but it is included in a range of schemes that I am currently assessing in relation to the trunk road network programme. If Nick Bourne can be a little patient, I will be making announcements on that programme before long.

**Irene James:** The recent delayed opening of the Ebbw valley rail line has brought great disappointment to my constituents, which has been compounded by a lack of clear information as to what exactly is causing the delay and its likely duration. Will the Deputy First Minister offer his assurance that the Welsh Assembly Government is doing all that it can to ensure that this link is opened as soon as possible?

**The Deputy First Minister:** I do not think

Yr hawddaf y gallwn wneud pethau i fusnesau i dapio i mewn i gefnogaeth a chyngor, y gorau fydd hi i economi Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(3)283(HSS), a chwestiwn 7, OAQ(3)295(HSS), yn ôl.

### Gwella Seilwaith Trafnidiaeth

**C8 Nick Bourne:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog amlinellu unrhyw gynlluniau sydd ganddo i wella seilwaith trafndiaeth yn ystod oes y Cynulliad hwn? OAQ(3)0300(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae cynlluniau i fuddsoddi dros £2.4 biliwn mewn rhaglenni a chynlluniau yn ystod oes y Cynulliad hwn a fydd yn gwella seilwaith trafndiaeth ledled Cymru.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn siŵr, diolch i'w sach lythyrau, pobl yn codi'r mater gydag ef, ac, mae'n debyg, ei brofiad ef ei hun o fynd drwy'r Drenewydd yn y gorffennol, y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ymwybodol o'r gwasgedd a'r tagfeydd erchyll sy'n digwydd yn y Drenewydd. Gwn fod arolwg yn cael ei wneud am yr angen am ffordd osgoi. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog roi amcan o'r amserlen ar gyfer hyn oherwydd mae angen a brys dirfawr? Tybed pa mor bwysig yw hyn yn ei lygaid ef?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae gan y Drenewydd broblemau arbennig, ond y mae wedi'i chynnwys mewn amrediad o gynlluniau yr wyf yn eu hasesu ar hyn o bryd yng nghyswllt y rhaglen rhwydwaith cefnffyrdd. Os gall Nick Bourne arfer ychydig o amynedd, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau am y rhaglen honno cyn bo hir.

**Irene James:** Mae'r oedi cyn agor rheilffordd Glyn Ebwy'n ddiweddar wedi peri siom enfawr i'm hetholwyr, siom a ddwysawyd gan ddiffyg gwybodaeth glir ynghylch beth yn union sy'n achosi'r oedi ac am ba hyd y mae'n debygol o bara. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog gynnig ei sicrwydd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud popeth a all i sicrhau yr agorir y cysylltiad hwn cyn gynted ag y bo modd?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf yn

that Irene and her constituents were alone in their disappointment about this. I was disappointed, as were many other Members across the Chamber. However, I think that we have made clear the reason for the delay. We had to make absolutely sure that, when passenger trains started running on the Ebbw Vale line, the track itself was complete and safe to run those services. Until we are satisfied about that, we cannot start passenger services. There has been progress because I am now able to report that Arriva Trains Wales has trained sufficient drivers and guards to start the service. We are now awaiting confirmation that some minor infrastructure works, as I understand it, need to be completed. A review meeting is taking place today and I hope that I will be in a position to make an announcement soon on when passenger services can commence. However, I stress that we will not see passenger services until we are satisfied that it is safe for passenger trains to run on the line.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** I hope that you will make your announcement as expeditiously as possible. However, in what year was the rolling stock built for the new railway line? If the rolling stock was built, as I understand it, some 40 years ago, when was it last refurbished?

**The Deputy First Minister:** I am not in a position to give a breakdown of the dates, but I can say that we will all be delighted when the service runs and there will be good trains for people to use the service to and from Ebbw Vale.

#### **Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig**

**C9 Paul Davies:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am drafnidiaeth gyhoeddus integredig yn ardaloedd Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(3)0289(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ym mis Mawrth, byddaf yn cyhoeddi fy strategaeth drafnidiaeth gynhwysfawr a'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a fydd yn darparu manylion y prosiectau trafnidiaeth strategol,

meddwl mai Irene a'i hetholwyr oedd yr unig rai i deimlo'n siomedig ynglŷn â hyn. Yr oeddwn innau'n siomedig, fel yr oedd sawl Aelod arall ar draws y Siambr. Fodd bynnag, credaf ein bod wedi egluro'r rheswm am yr oedi. Yr oedd yn rhaid inni wneud yn berffaith siŵr, pan ddechreuai trenau teithwyr redeg ar lein Glyn Ebwy, y byddai'r trac ei hun yn gyflawn ac yn ddiogel i redeg y gwasanaethau hynny. Nes byddwn yn fodlon ynglŷn â hynny, ni allwn gychwyn gwasanaethau teithwyr. Bu datblygiad, oherwydd bellach gallaf adrodd fod Trenau Arriva Cymru wedi hyfforddi digon o yrwyr a gardiau i gychwyn y gwasanaeth. Yr ydym yn awr yn disgwyl am gadarnhad bod angen cwblhau rhyw fân waith seilwaith, yn ôl a ddeallaf. Mae cyfarfod adolygu'n digwydd heddiw a gobeithiaf fod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad yn fuan ynghylch pa bryd y gall gwasanaethau teithwyr gychwyn. Fodd bynnag, pwysleisiaf na welwn wasanaethau teithwyr nes byddwn yn fodlon ei bod yn ddiogel i drenau teithwyr redeg ar y lein.

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Yr wyf yn gobeithio y gwnewch eich cyhoeddiad cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, ym mha flwyddyn yr adeiladwyd y trenau ar gyfer y rheilffordd newydd? Os adeiladwyd y trenau, fel y deallaf fi, ryw 40 mlynedd yn ôl, pa bryd y'u hadnewyddwyd ddiwethaf?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf mewn sefyllfa i roi'r dyddiadau'n fanwl, ond gallaf ddweud y byddwn i gyd wrth ein bodd pan fydd y gwasanaeth yn rhedeg ac y bydd trenau da i bobl gael defnyddio'r gwasanaeth i Lynebwy ac oddi yno.

#### **Integrated Public Transport**

**Q9 Paul Davies:** Will the Deputy First Minister make a statement on integrated public transport in Mid and West Wales? OAQ(3)0289(ECT)

**The Deputy First Minister:** In March, I will announce my comprehensive transport strategy and publish the national transport plan, which will provide details of the strategic transport projects, including

gan gynnwys trafndiaeth integredig, i'w cyflwyno yn ystod y pum i 10 mlynedd nesaf.

**Paul Davies:** Yn ddiweddar, mae rhai o'm hetholwyr a busnesau yn fy etholaeth wedi bod yn pryderu'n fawr ynglŷn â'r ffaith nad oes system drafnidiaeth gyhoeddus integredig yn fy etholaeth i. Mewn rhai achosion, ni wnaeth trenau gyrraedd o gwbl heb sôn am fod yn hwyr. Yn naturiol, caiff hyn effaith fawr ar unigolion wrth iddynt geisio byw eu bywydau beunyddiol. Er mwyn sicrhau system a fydd yn fwy integredig, a fyddai'r Dirprwy Brif Weinidog yn cytuno y gallai cynnig cymorth grant i awdurdodau lleol gyflwyno tocynnau trafndiaeth gyhoeddus integredig i alluogi pobl i ddefnyddio bysiau, trenau a thrafnidiaeth gymunedol helpu'r sefyllfa? Hefyd, pa gynlluniau penodol y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno yn sir Benfro er mwyn gwneud y system drafnidiaeth yn fwy integredig?

1.20 p.m.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf yn gallu siarad am y cynlluniau penodol heddiw. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad clir yn ystod yr wythnosau nesaf ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer trafndiaeth integredig ledled Cymru, a bydd yn rhaid i Paul ac eraill aros am y cyhoeddiad hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau gwell dealltwriaeth rhwng y rhai sydd yn trefnu trafndiaeth gyhoeddus i wneud y gwasanaeth yn fwy integredig, ac yr wyf yn siŵr y bydd Paul, wrth weld y strategaeth drafnidiaeth genedlaethol, yn gweld y pwyslais mawr y Llywodraeth ar ddatblygu'r rhain. Yn naturiol, os oes cynlluniau lleol yn cael eu paratoi, byddwn i a'm swyddogion yn fodlon eu hystyried, fel y byddem gyda phob cynllun arall, i weld a oes modd eu cefnogi.

**Joyce Watson:** As I am sure is the case with other Members who represent rural communities, the issue of integrated public transport provision and a well-thought-out integrated transport system is raised with me time and again. When I have raised issues with you in the past, you have kept me abreast of developments and extensions to services, and I thank you for that. However, there is currently only one station, at Fishguard Harbour, once the branch line

integrated transport, to be taken forward over the next five to 10 years.

**Paul Davies:** Some of my constituents and businesses in my constituency have recently expressed grave concerns about the fact that the constituency does not have an integrated public transport system. There have been some instances when trains have not turned up, never mind being late. Naturally, this has a great impact on individuals as they try to go about their daily lives. In order to secure a system that is more integrated, would the Deputy First Minister agree that offering grant aid to local authorities for the introduction of integrated public transport tickets that would allow people to use buses, trains and community transport could help the situation? Furthermore, what specific plans does the Government have for a more integrated transport system in Pembrokeshire?

**The Deputy First Minister:** I am not in a position to discuss specific plans today. I will be making a clear announcement over the ensuing weeks on the plans for integrated transport throughout Wales, and Paul and others will have to wait for that announcement. However, I acknowledge the importance of ensuring better understanding between public transport providers in order to secure a more integrated system, and I am sure that Paul, on seeing the national transport strategy, will recognise the great import placed by the Government on the development of such a system. Naturally, if local plans are being produced, I and my officials would be prepared to consider them, as we would any other plan, in order to see whether we can support them.

**Joyce Watson:** Fel sydd yn wir mae'n siŵr gydag Aelodau eraill sy'n cynrychioli cymunedau gwledig, codir cwestiwn darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus integredig a system drafnidiaeth integredig wedi'i chynllunio'n bwyllog gyda mi dro ar ôl tro. Pan wyf wedi codi materion gyda chi yn y gorffennol, yr ydych wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ynglŷn â datblygiadau ac estyniadau i wasanaethau, ac yr wyf yn diolch ichi am hynny. Fodd bynnag, ar hyn o

leaves the Haverfordwest-Milford Haven line at Clarbeston Road. A study considered, among other options, the feasibility of adding station stops in Goodwick and Letterston. Will you give an update on one of these developments by giving the outcome of the feasibility study undertaken by the South-West Wales Integrated Transport Consortium and you at the end of last year? That considered the scope for enhancing the Fishguard Harbour line.

**The Deputy First Minister:** That was a detailed question, which you are perfectly entitled to ask, but I am not in a position to give you a detailed response today.

**The Deputy Presiding Officer:** I call Mick Bates.

**The Deputy First Minister:** Could I—

**The Deputy Presiding Officer:** I am sorry. I thought that you said that you were not going to give a reply.

**The Deputy First Minister:** I was not going to give a detailed reply. However, I will give you an undertaking, Joyce, as I have with other Members in these circumstances, to write to you with the result of the feasibility study.

**Mick Bates:** A constituent recently contacted me regarding the Trawscambria Newtown to Cardiff, no. 66 bus service, which requires passengers to change at the new, £340,000, Assembly-Government-funded Brecon bus station. The change involves a five-minute wait for a connection. If travellers miss that, they have a two-hour wait in this new bus station but there are no refreshments available and there are no toilets there. What is the value of investing £340,000 in a scheme that omits facilities, causing pensioners and children to sit in any weather and, perhaps on some occasions, to struggle to find a nearby toilet with their luggage? When are you going to provide funding to build facilities such as toilets or even a drivers' restroom, which do not exist at the Brecon station at present?

bryd dim ond un orsaf sydd, yn Harbwr Abergwaun, unwaith y gedy'r lein gangen reilffordd Hwlffordd-Aberdaugleddau yn Clarbeston Road. Ymhlith opsiynau eraill, ystyriodd astudiaeth pa mor ymarferol fyddai ychwanegu arosiadau gorsaf yn Wdig a Threletert. A roddwch y wybodaeth ddiweddaraf am un o'r datblygiadau hyn drwy roi canlyniad yr astudiaeth ymarferoldeb a wnaethpwyd gan Gonsortium Cludiant Integredig De-orllewin Cymru a chi ddiwedd y llynedd? Ystyriodd honno'r posibilïadau ar gyfer gwella lein Harbwr Abergwaun.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cwestiwn manwl oedd hwnnw, y mae gennych berffaith hawl i'w ofyn, ond nid wyf mewn sefyllfa i roi ymateb manwl i chi heddiw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Mick Bates.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** A gawn i—

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'n ddrwg gennyf. Yr oeddwn yn meddwl eich bod wedi dweud nad oeddech am roi ateb.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid oeddwn yn mynd i roi ateb manwl. Fodd bynnag, rhoddaf addewid ichi, Joyce, fel y gwneuthum gydag Aelodau eraill yn yr amgylchiadau hyn, i ysgrifennu atoch gyda chanlyniad yr astudiaeth ymarferoldeb.

**Mick Bates:** Cysylltodd etholwr â mi'n ddiweddar ynglŷn â gwasanaeth bws rhif 66 y Trawscambria o'r Drenewydd i Gaerdydd, sy'n gofyn i deithwyr newid yng ngorsaf bysus newydd Aberhonddu, a gostiodd £340,000 o arian Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r newid yn golygu aros pum munud am gysylltiad. Os bydd teithwyr yn colli hwnnw, rhaid iddynt aros dwy awr yn yr orsaf fysis newydd hon, ond nid oes dim lluniaeth ar gael na thoiledau yn y lle. Beth yw gwerth buddsoddi £340,000 mewn cynllun sy'n hepgor cyfleusterau, gan beri i bensiynwyr a phlant eistedd ym mhob tywydd ac efallai, ambell dro, i ymlafnio gyda'u bagiau i chwilio am dŷ-bach gerllaw? Pa bryd yr ydych chi'n mynd i ddarparu cyllid i adeiladu cyfleusterau megis toiledau neu hyd yn oed ystafell orffwys i yrwyr, nad ydynt yn bodoli

yng ngorsaf Aberhonddu ar hyn o bryd?

**The Deputy First Minister:** The Government is responsible for the strategy and funding arrangements but we are not responsible for the detailed arrangements that you have put to me today. We are looking at developing the TrawsCambria service. It is an important part of our integrated transport programme. I will undertake to ensure that that service is improved in the years to come.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am y strategaeth a'r trefniadau ariannu ond nid ydym yn gyfrifol am y trefniadau manwl yr ydych chi wedi'u cyflwyno imi heddiw. Yr ydym yn edrych ar ddatblygu'r gwasanaeth TrawsCambria. Mae'n rhan bwysig o'n rhaglen drafnidiaeth integredig. Addawaf sicrhau y caiff y gwasanaeth hwnnw ei wella yn y blynyddoedd a ddaw.

**Nerys Evans:** Croesawaf yr ymrwymadau yn 'Cymru'n Un' ym maes trafnidiaeth, yn enwedig yr ymrwymiad i ehangu rhwydwaith TrawsCambria, fel yr ydych chi wedi sôn amdano. A allwch chi roi diweddariad inni ar y datblygiadau i gyflawni hyn a'n sicrhau bod y Llywodraeth yn gwrandao ar ddyheadau pobl leol tra'n datblygu'r ymrwymiad?

**Nerys Evans:** I welcome the 'One Wales' commitments on transport, and, in particular, the commitment to extending the TrawsCambria network, to which you referred. Can you provide an update on any developments in this regard and assure us that the Government is listening to the aspirations of local people while it pursues this commitment?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae gwasanaeth TrawsCambria yn hynod o bwysig o safbwynt hyrwyddo ein polisi ar systemau trafnidiaeth integredig. Er bod y gwasanaeth wedi'i groesawu, mae gwelliannau y byddai'n bosibl eu gwneud iddo ac yr wyf yn gobeithio y byddaf yn gallu gwneud cyhoeddiad ynglŷn â hynny yn eithaf buan.

**The Deputy First Minister:** The TrawsCambria service is exceptionally important as regards the promotion of our policy on integrated transport systems. Although the service is one that is welcomed, improvements could be made, and I hope to be in a position to make an announcement on that in the not too distant future.

### Adroddiad Varney

### The Varney Report

**C10 Alun Ffred Jones:** Pa ystyriaeth y mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi'i rhoi i ganfyddiadau adroddiad Varney am drethi busnes yng Ngogledd Iwerddon, ac a fyddai'r canfyddiadau hynny'n berthnasol i Gymru ai peidio? OAQ(3)0330(ECT)

**Q10 Alun Ffred Jones:** What consideration has the Deputy First Minister given to the findings of the Varney report on business tax in Northern Ireland, and to whether those findings would be applicable to Wales? OAQ(3)0330(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae dogfen 'Cymru'n Un' yn ei gwneud yn glir bod gennym, fel Llywodraeth, ymrwymiad i sefydlu comisiwn annibynnol i ystyried nifer o faterion ariannol, gan gynnwys treth gorfforaeth.

**The Deputy First Minister:** The 'One Wales' document makes it clear that we, as a Government, are committed to establishing an independent commission that will be tasked with considering several financial issues, including corporation tax.

**Alun Ffred Jones:** O gofio profiadau'r economi yng Ngweriniaeth Iwerddon, a yw'r Dirprwy Brif Weinidog yn credu bod gan drethi corfforaethol ran i'w chwarae yn hybu twf yr economi?

**Alun Ffred Jones:** Bearing in mind the experiences of the economy in the Republic of Ireland, does the Deputy First Minister believe that corporation tax has a part to play in the encouragement of economic growth?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fel y dywedais

**The Deputy First Minister:** As I said in my

yn yr ateb blaenorol, yr ydym wedi sicrhau yw y bydd comisiwn ac, felly, ymchwiliad i gyllido, a fydd yn edrych ar y posibilrwydd o leihau'r dreth gorfforaeth yn yr ardal cydgyfeirio. Yn anffodus, nid yw adroddiad Varney yn llawer o help i ni yn y cyd-destun hwnnw oherwydd y casgliadau. Fodd bynnag, bydd y comisiwn y byddwn yn ei sefydlu yn casglu tystiolaeth, ac yr wyf yn siŵr y bydd hynny, ac unrhyw argymhellion, yn ein helpu i weld a oes modd gwneud newidiadau yn y dreth gorfforaeth yn yr ardal cydgyfeirio.

**Angela Burns:** The Varney report sets out a strong case for the positive benefits that lower corporation tax can bring to an economy, in terms of increased growth and attracting multinationals. As 97 per cent of all businesses in Wales are termed as small and medium-sized enterprises, would the Minister look at examining the level of business rates levied in areas such as Pembroke Dock, which are desperate to attract SMEs to aid regeneration, and consider further rate support measures?

**The Deputy First Minister:** I am sure that Angela will have heard me announce earlier that there will be an enhanced business rate relief, which will help businesses in Pembrokeshire and elsewhere in Wales.

### Developing the Economy

**Q11 Brynle Williams:** Will the Deputy First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for developing the economy of Wales? OAQ(3)0291(ECT)

**The Deputy First Minister:** 'One Wales' sets out our vision of a strong and enterprising economy for Wales, with full employment based on quality jobs. My priorities for achieving this include better business support, more research and development, improved skills, and targeted investment to regenerate our most deprived communities.

**Brynle Williams:** You will be aware, Minister, how much north-west Wales's economic future depends on the continuation of Anglesey Aluminium. In the light of the

previous response, we have stated that there will be a commission and, therefore, a review of funding issues, and the commission will consider the possibility of reducing corporation tax in convergence areas. Unfortunately, the Varney report does not offer us a great deal of assistance in that context given its conclusions. However, the commission to be set up will gather evidence, and I am sure that that work, and any recommendations made, will help us to see whether changes to corporation tax in convergence areas can be made.

**Angela Burns:** Mae adroddiad Varney'n gwneud achos cryf dros y buddiannau cadarnhaol y gall treth gorfforaeth is eu rhoi i economi, yn nhermau cynyddu twf a denu cwmnïau mawr rhyngwladol. Gan fod 97 y cant o'r holl fusnesau yng Nghymru'n fusnesau bach a chanolig, a wnâi'r Gweinidog ystyried edrych ar lefel y trethi busnes a godir mewn ardaloedd fel Doc Penfro, sydd ar dân eisiau denu busnesau bach a chanolig i helpu adfywio, ac ystyried mesurau cymorth treth pellach?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn siŵr y bydd Angela wedi clywed fy nghyhoeddiad yn gynharach y ceir system well o ryddhad trethi busnes, a fydd yn helpu busnesau yn sir Benfro ac mewn rhannau eraill o Gymru.

### Datblygu'r Economi

**C11 Brynle Williams:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economi Cymru? OAQ(3)0291(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae 'Cymru'n Un' yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer economi cryf a mentrus i Gymru, gyda chyflogaeth lawn yn seiliedig ar swyddi o safon. Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer cyflawni hyn yn cynnwys gwell cefnogaeth i fusnes, mwy o ymchwil a datblygu, gwella sgiliau, a thargeddu buddsoddiad i adfywio ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

**Brynle Williams:** Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, gymaint y mae dyfodol economaidd y gogledd-orllewin yn dibynnu ar barhad Alwminiwm Môn. Yng ngolau



Prime Minister's recent endorsement of the new generation of nuclear power plants, many people in north Wales will be asking whether you are now prepared to fully support the construction of a new reactor in Wylfa. Given your party's long-standing and historic opposition to any form of nuclear power generation in Wales, there is understandably some concern about your willingness to safeguard the skilled jobs of some 1,200 employees at Anglesey Aluminium.

**The Deputy First Minister:** If you were to reduce the party political knockabout, Brynle, both of us could agree that Wylfa and Anglesey Aluminium need a future, and I assure this Chamber that I will do everything in my power to secure that.

**Eleanor Burnham:** Unfortunately, I was too late to table an emergency question on this issue this morning, but what help will you and your Assembly Government give to the 85 worried, redundant employees from Arquest in Greenfield, which, as I am sure you know, is in Holywell? The company apparently went into administration on Monday; it was brought to my attention by a local councillor. I would like reassurance that you will do your best to help these people.

**The Deputy First Minister:** I can confirm that my officials are working closely with the company involved to see what assistance we can give.

#### Road Safety (Rhondda Cynon Taf)

**Q12 Leanne Wood:** Will the Deputy First Minister make a statement on road safety in Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)0342(ECT)

**The Deputy First Minister:** We are committed to improving all areas of road safety in Wales. Since 2000, we have allocated approximately £3.3 million to Rhondda Cynon Taf County Borough Council to help it to deliver road safety initiatives in the local area.

**Leanne Wood:** Minister, I am sure that you will have heard about the number of deaths on the A4119 in the Llantrisant area, on a

cymeradwyaeth ddiweddar Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i'r genhedlaeth newydd o atomfeydd niwclear, bydd llawer o bobl yn y gogledd yn gofyn a ydych yn barod bellach i roi cefnogaeth lawn i adeiladu adweithydd newydd yn y Wylfa. O gofio gwrthwynebiad hirhoedlog a hanesyddol eich plaid i unrhyw ffurf ar gynhyrchu pŵer niwclear yng Nghymru, y mae, fel y gellir deall, gryn bryder ynghylch eich parodrwydd i ddiogelu swyddi medrus rhyw 1,200 o weithwyr yn Alwminiwm Môn.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Pe gwnaech lai o stŵr pleidiol wleidyddol, Brynle, gallai'r ddau ohonom gytuno bod angen dyfodol i Wylfa ac Alwminiwm Môn, a rhoddaf sicrwydd i'r Siambr hon y gwnaf bopeth yn fy ngallu i sicrhau hynny.

**Eleanor Burnham:** Yn anffodus, yr oeddwn yn rhy hwyr i gyflwyno cwestiwn brys ar y mater hwn y bore yma, ond pa gymorth a roddwch chi a'ch Llywodraeth Cynulliad i'r 85 o weithwyr pryderus sy'n colli eu swyddi yn Arquest yn y Maes-glas, sydd, fel y gwyddoch, mae'n siŵr, yn Nhreffynnon? Yn ôl pob tebyg aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr ddydd Llun; tynnwyd fy sylw ato gan gynghorydd lleol. Hoffwn sicrwydd y gwnewch eich gorau i helpu'r bobl hyn.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gallaf gadarnhau bod fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r cwmni dan sylw i weld pa gymorth y gallwn ei roi.

#### Diogelwch ar y Ffyrdd (Rhondda Cynon Taf)

**C12 Leanne Wood:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)0342(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym wedi ymrwymo i wella pob agwedd ar ddiogelwch y ffyrdd yng Nghymru. Ers 2000, yr ydym wedi dyrannu oddeutu £3.3 miliwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'w helpu i gyflwyno cynlluniau diogelwch ffyrdd yn yr ardal leol.

**Leanne Wood:** Weinidog, yr wyf yn siŵr y byddwch wedi clywed am y nifer o farwolaethau ar yr A4119 yn ardal

stretch of road locally known as Stinkpot Hill. Last month, this stretch of road tragically claimed another two lives. Has your department, or will it in the future, had discussions with Rhondda Cynon Taf council regarding road safety on this stretch of road?

**The Deputy First Minister:** We are all saddened to hear about the recent fatalities on this stretch of road. The local authority is considering what remedial measures need to be put in place. My officials have been in touch with the council today. We understand that there are police investigations into the recent fatalities, and I am sure that once the police have concluded their investigations, any conclusions will inform any remedial measures. Rhondda Cynon Taf is currently undertaking some carriageway alignment and traffic speed surveys along that road, and I am sure that it will look at further improvements to this dangerous stretch of road.

1.30 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** Deputy First Minister, we have just heard your response to the tragic incidents in Llantrisant. However, the reality of the situation is that the 'One Wales' agreement states that you aspire to improve road safety, but the Government resources that you are putting towards road safety measures are declining. In the forthcoming budget year, you propose to invest £14.241 million, but in the final year of the comprehensive spending review you are investing only £14.225 million. Not only is that not taking any account of inflation but it is a real cut. How will local authorities deliver on the ground the improvements that communities want to see if you as a Government are not prepared to give them the resources required to do it?

**The Deputy First Minister:** There is substantial investment in the road network and public transport, and you must not look at only one particular headline in the budget; you must look at the whole budget. I am absolutely confident that there are sufficient resources in the budget to improve safety

Llantrisant, ar ddarn o ffordd a adwaenir yn lleol fel Stinkpot Hill. Y mis diwethaf, hawliodd y darn ffordd hwn ddau fywyd arall mewn modd trychinebus. A ydyw eich adran, neu a wnaiff yn y dyfodol, wedi cael trafodaethau gyda chyngor Rhondda Cynon Taf ynglŷn â diogelwch ar y darn ffordd hwn?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym i gyd yn tristáu o glywed am y damweiniau anghueol diweddar ar y darn ffordd hwn. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried pa fesurau gwella y mae angen eu gweithredu. Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r cyngor heddiw. Deallwn fod yr heddlu'n ymchwilio i'r marwolaethau diweddaraf, ac yr wyf yn siŵr, unwaith y bydd yr heddlu wedi cwblhau eu hymholiadau, y bydd unrhyw gasgliadau yn sail i unrhyw fesurau gwella. Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd yn unioni'r lonydd cerbydau ac yn cynnal arolygon cyflymder traffig ar hyd y ffordd honno, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn ystyried gwella'r darn peryglus hwn o'r ffordd eto.

1.30 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** Ddirprwy Brif Weinidog, yr ydym newydd glywed eich ymateb i'r digwyddiadau trasig yn Llantrisant. Fodd bynnag, gwirionedd y sefyllfa yw bod cytundeb 'Cymru'n Un' yn dweud mai eich dyhead yw gwella diogelwch ar y ffyrdd, ond mae adnoddau'r Llywodraeth yr ydych yn eu darparu ar gyfer mesurau diogelu'r ffyrdd yn crebachu. Yn y flwyddyn gyllideb nesaf, bwriadwch fuddsoddi £14.241 miliwn, ond ym mlwyddyn olaf yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, dim ond £14.225 y byddwch yn ei fuddsoddi. Nid yn unig y mae hynny'n anwybyddu chwyddiant, mae'n doriad gwirioneddol. Sut y bydd awdurdodau lleol yn sicrhau'r gwelliannau ar lawr gwlad y dymuna cymunedau eu gweld onid ydych chi'r Llywodraeth yn barod i roi'r adnoddau gofynnol iddynt wneud hynny?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Buddsoddir yn helaeth yn y rhwydwaith ffyrdd ac mewn trafniadaeth gyhoeddus, a rhaid ichi beidio ag edrych ar un pennawd penodol yn y gyllideb yn unig; rhaid ichi edrych ar y gyllideb drwyddi draw. Yr wyf yn gwbl hyderus bod digon o adnoddau yn y gyllideb i wella

measures.

mesurau diogelwch.

**Datganiad am Benodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Statement on the Appointment of a Commissioner for Older People in Wales**  
**Datganiad am Benodi Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Statement on the Appointment of a Commissioner for Older People in Wales**

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf wrth fy modd wrth wneud y datganiad hwn heddiw am y penodiad cyntaf i swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yr wyf yn falch am amryw o resymau, ond nid y lleiaf yn eu plith yw bod Cymru a'i Chynulliad newydd, unwaith eto, yn arwain y ffordd ac yn gosod esiampl i wledydd eraill i'w dilyn. Yr wyf hefyd yn datgan buddiant personol fel un o bobl hŷn Cymru. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i benodi comisiynydd plant er mwyn rhoi llais cryfach dros blant a phobl ifanc Cymru, ac i'r plant a phobl ifanc hynny, ac yn awr, ni yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig ac efallai ar draws y byd i gyd, i greu swydd comisiynydd i hybu budd ein pobl hŷn.

Ychydig yn llai na mis yn ôl, gwnaed cyhoeddiad swyddogol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ei fod hefyd am ymrwymo'n gyhoeddus i ddilyn yr un llwybr o greu comisiynydd dros bobl hŷn i Ogledd Iwerddon. Unwaith eto, mae Cymru yn gosod esiampl y mae eraill yn awyddus i'w dilyn.

Wales was already recognised as a world leader not merely in providing more services to older people, such as free local bus travel and free swimming, but also in involving older people in developing the services that affect them. This so-far unique commissioner will further consolidate Wales's reputation for innovation and partnership working in older people's policy. The post of commissioner was established by the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006. That Act provides for a robust set of statutory powers, which will enable the commissioner to make a positive difference to the lives of older people across Wales.

In appointing the commissioner, we were able to bring together a panel of older people, nominated by members of the national

**The First Minister (Rhodri Morgan):** I have great pleasure in making this statement on the first appointment to the post of Commissioner for Older People in Wales. I am pleased for a number of reasons, not least because Wales and its Assembly is once again leading the way and setting an example for others to follow. I also declare an interest as one of Wales's older people. Wales was the first country in the UK to appoint a children's commissioner to give children and young people a stronger voice, and we are now the first country in the United Kingdom and perhaps in the world, to have a commissioner to champion the interests of older people.

A little less than a month ago, the Northern Ireland Assembly announced that it is committed to following suit and is setting out on the path to create a commissioner for older people in Northern Ireland. Once again, Wales is setting a trend that others are keen to follow.

Cydnabyddid eisoes bod Cymru ar flaen y gad yn y byd, nid dim ond o ran darparu mwy o wasanaethau i bobl hŷn, megis teithio am ddim ar fysiau lleol a nofio am ddim, ond hefyd o ran cynnwys pobl hŷn wrth ddatblygu'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt. Bydd y comisiynydd hwn, sydd hyd yn hyn yn unigryw, unwaith eto, yn atgyfnerthu'r enw da sydd gan Gymru am arloesi ac am waith partneriaeth ym maes polisi ar gyfer pobl hŷn. Sefydlwyd swydd y comisiynydd drwy Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf honno'n darparu ar gyfer set gadarn o bwerau statudol, a fydd yn galluogi'r comisiynydd i newid pethau er gwell ym mywydau pobl hŷn ledled Cymru.

Wrth benodi'r comisiynydd, llwyddwyd i ddod â phanel o bobl hŷn at ei gilydd a'r rheiny wedi'u henwebu gan aelodau'r

partnership forum and representing a variety of different ages and backgrounds. The panel held its own interviewing and selection exercise and tested the shortlisted candidates' ability to relate to the realities of life for all kinds of older people in Wales. Two of its members then joined the formal selection panel and contributed fully to its deliberations. I am very grateful to all members for giving so freely of their time and experience in contributing to the appointment process. I also thank Assembly Members from across our different political parties, together with the two members of the older people's panel, who sat on the formal interview panel, chaired by Assembly Member and Deputy Minister Gwenda Thomas. I find it reassuring that both panels recommended the same candidate for the post of Commissioner for Older People in Wales. That candidate was Ruth Marks, and I am delighted that Ruth has accepted the post of Commissioner for Older People in Wales. She is currently the director of the Royal National Institute for the Blind Cymru, a role that she has held since 2005. Prior to that, she was chief executive of Chwarae Teg. In 2007, she was awarded the MBE for services to Welfare to Work. Ruth will take up her post on 21 April after serving her notice for RNIB Cymru.

What is a commissioner? It is important that people understand that she will not be running a department of the Assembly Government staffed by civil servants, dealing with policy on older people, or competing with the ombudsman in investigating individual complaints as part of the formal redress system. As commissioner, Ruth will be a champion and a voice for older people, in the same way as the children's commissioner has been for children and young people in Wales. Like the children's commissioner, Ruth will be quite independent of the Assembly Government, and her role will be to ensure that the interests of older people in Wales, who are defined as being aged 60 or more, are safeguarded, voiced and promoted.

I congratulate Ruth on her appointment and warmly welcome her to this important new role. We must value older people more, and

fforwm partneriaeth cenedlaethol ac yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol oeddrannau a chefnidiroedd. Cynhaliodd y panel ei ymarfer cyfweld a dethol ei hun gan brofi gallu'r ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddirnad gwirioneddau bywyd pob math o bobl hŷn yng Nghymru. Yna, ymunodd dau o'i aelodau â'r panel dethol ffurfiol a chyfrannu'n llawn at ei drafodaethau. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i bob aelod am roi mor hael o'i amser a'i profiad wrth gyfrannu at y broses penodi. Diolchaf hefyd i Aelodau'r Cynulliad ar draws ein gwahanol bleidiau gwleidyddol, ynghyd â dau aelod panel y bobl hŷn, a fu ar y panel cyfweld ffurfiol, dan gadeiryddiaeth yr Aelod Cynulliad a'r Dirprwy Weinidog Gwenda Thomas. Mae'n gysur imi fod y naill banel a'r llall wedi argymhell yr un ymgeisydd ar gyfer swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yr ymgeisydd hwnnw oedd Ruth Marks, ac yr wyf wrth fy modd bod Ruth wedi derbyn swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ar hyn o bryd, hi yw cyfarwyddwr Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion yng Nghymru, swydd y bu ynnddi er 2005. Cyn hynny, hi oedd prif weithredydd Chwarae Teg. Yn 2007, dyfarnwyd yr MBE iddi am ei gwasanaeth ym maes O Fudd-dal i Waith. Bydd Ruth yn dechrau yn ei swydd ar 21 Ebrill ar ôl cwblhau ei chyfnod rhybudd gydag RNIB Cymru.

Beth yw comisiynydd? Mae'n bwysig i bobl ddeall na fydd yn gyfrifol am un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, gyda gweision sifil yn ei staffio, yn ymwneud â pholisi ar gyfer pobl hŷn, nac yn cystadlu â'r ombwdsmon wrth archwilio cwynion unigol fel rhan o'r drefn gwneud iawn ffurfiol. Fel comisiynydd, bydd Ruth yn eiriol dros bobl hŷn ac yn llais drostynt, fel y mae'r comisiynydd plant wedi cynrychioli plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn yr un modd â'r comisiynydd plant, bydd Ruth hithau'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad. Ei rôl fydd sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, sef yn ôl y diffiniad, pobl 60 oed neu hŷn, yn cael eu gwarchod, eu lleisio a'u hyrwyddo.

Llongyfarchaf Ruth ar ei phenodiad a'i chroesawu'n gynnes i'r swydd newydd bwysig hon. Rhaid inni drysori pobl hŷn fwy,

robustly tackle discrimination on the grounds of age. We must challenge unfair and outdated stereotypes, attitudes and practices that adversely affect older people. I am sure that our new commissioner will define her own role in her own way, but, from what she has said already, I am sure that she will live up to all of these aims and more.

**Jonathan Morgan:** In welcoming the appointment and thanking the First Minister for the statement, I wish to say how much I appreciated being part of the appointment process and the panel that made the recommendation to the First Minister. It was a real eye-opener to see so many people in Wales with that level of expertise and dedication applying for the position of the first Commissioner for Older People in Wales. It is a testament to the range of expertise among professionals in Wales, as a small country, that so many people felt able, were dedicated and committed enough, and were aware enough of the issues that the commissioner would face, to put themselves forward for that appointment.

In congratulating Ruth Marks, who is well known to many of us in the Chamber, I wish to say that I hope that she follows the excellent lead taken by the late Peter Clarke, the first Children's Commissioner for Wales, who demonstrated robust independence and rigour in challenging the Assembly Government and all of us to think differently about the range of services that affect young people. If she is able to follow that model in her work in looking after older people, we will have a robust, independent and challenging commissioner.

While it is not the First Minister's or my job to set her agenda, I hope that the dignity of older people and the promotion of their independence, which is of the utmost importance to us all, will be a priority for her and everyone in the Assembly.

**The First Minister:** I repeat my thanks to the members of the cross-party appointing panel, which includes you. In certain key appointments, it has been a tradition in the Assembly not to restrict the membership of appointing panels to Ministers, and we have

a mynd i'r afael yn frwd â gwahaniaethu ar sail oedran. Rhaid inni herio stereoteipiau, agweddau ac arferion annheg a hen ffasiwn sy'n effeithio er gwaeth ar bobl hŷn. Yr wyf yn siŵr y bydd ein comisiynydd newydd yn diffinio'i rôl ei hun yn ei ffordd ei hun, ond, o'r hyn y mae wedi'i ddweud eisoes, yr wyf yn siŵr y bydd yn cyflawni'r nodau hyn i gyd a mwy na hynny.

**Jonathan Morgan:** Wrth groesawu'r penodiad a diolch i'r Prif Weinidog am y datganiad, dymunaf ddweud faint yr oeddwn yn gwerthfawrogi bod yn rhan o'r broses penodi ac o'r panel a wnaeth yr argymhelliad i'r Prif Weinidog. Yr oeddwn yn wir yn rhyfeddu o weld cynifer o bobl yng Nghymru â chymaint o arbenigedd ac ymroddiad yn ymgeisio am swydd Comisiynydd cyntaf Pobl Hŷn Cymru. Mae'n brawf o ystod yr arbenigedd sydd ymhlith pobl broffesiynol yng Nghymru, a ninnau'n wlad fechan, bod gan gynifer o bobl ddigon o ymrwymiad ac ymroddiad a'u bod yn ddigon ymwybodol o'r materion a wynebid gan y comisiynydd, iddynt deimlo y gallent eu cynnig eu hunain ar gyfer y swydd honno.

Wrth longyfarch Ruth Marks, sy'n adnabyddus i lawer ohonom yn y Siambr, dymunaf ddweud fy mod yn gobeithio y bydd yn dilyn arweiniad rhagorol y diweddar Peter Clarke, Comisiynydd Plant cyntaf Cymru, a ddangosodd annibyniaeth a chadernid diwyro wrth herio Llywodraeth y Cynulliad a phawb ohonom i feddwl yn wahanol am ystod y gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl ifanc. Os gall ddilyn y patrwm hwnnw yn ei gwaith wrth ofalu am bobl hŷn, bydd gennym gomisiynydd cadarn, annibynnol a heriol.

Er nad gwaith y Prif Weinidog na'm gwaith innau yw gosod agenda ar ei chyfer, gobeithiaf y bydd urddas pobl hŷn a hyrwyddo'u hannibyniaeth, sydd o'r pwys mwyaf inni i gyd, yn flaenoriaeth iddi ac i bawb yn y Cynulliad.

**Y Prif Weinidog:** Diolchaf unwaith eto i aelodau'r panel penodi trawsbleidiol, sy'n eich cynnwys chi. Mewn rhai penodiadau allweddol, bu'n draddodiad yn y Cynulliad inni beidio â chyfyngu aelodaeth y panelau penodi i Weinidogion, ac yr ydym wedi

involved politicians from across the Assembly. I do not know of any other part of the UK where that is the case, but we have done this for eight and a half years. Since we ceased to be a corporate body, and the Executive and the legislature were separated following the May 2007 election, we have continued with that tradition in the process of appointing people to certain key posts. I am also grateful to you, Jonathan, and to Helen Mary and Gwenda Thomas, who chaired the panel. I hope that I have not omitted anyone—but I see that I have. I am also grateful to Mike German, who was the Liberal Democrat participant in the panel. It is a good example of how parties can work together. Even though we occasionally knock six bells out of each other, we do work together at times and this is an example of that.

I also welcome your commendation of the range of expertise that exists on matters that relate to elderly persons and the services provided for them, as regards what they think is unsatisfactory and what they want to see more of. I have said it before, but I will say again that I find it deeply reassuring that the selection panel of older persons and the selection panel of AMs, which included two older persons, came to the same conclusion in choosing the right person. I think that the same was true when we appointed Peter Clarke to the post of children's commissioner. The idea that if you involve the persons who use the services, be they older people or children, they will come to completely different conclusions has been tested and found not to be true. In general, they rate people on the ladder or league table of appointability in roughly the same way. There is something reassuring about the fact that the users of the service came to the same conclusion as those making the appointment, who are not, in theory, users of the service.

1.40 p.m.

The point that you made about the late Peter Clark is also true; that is why I emphasised that the commissioner will not be a part of the Assembly Government. The commissioner has been appointed and is in

cynnwys gwleidyddion o bob rhan o'r Cynulliad. Ni wn am unrhyw ran arall o'r DU lle mae hynny'n wir, ond yr ydym wedi gwneud hyn ers wyth mlynedd a hanner. Ers inni beidio â bod yn gorff corfforaethol a gwahanu'r Weithrediaeth a'r ddeddfwrfa ar ôl etholiad Mai 2007, yr ydym wedi parhau â'r traddodiad hwnnw wrth benodi pobl ar gyfer swyddi allweddol penodol. Yr wyf yn ddiolchgar i chithau hefyd, Jonathan, i Helen Mary ac i Gwenda Thomas, a fu'n cadeirio'r panel. Gobeithiaf nad wyf wedi anghofio neb—ond gwelaf fy mod. Yr wyf yn ddiolchgar hefyd i Mike German, cynrychiolydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y panel. Mae'n enghraifft dda o sut y gall pleidiau gydweithio. Er ein bod yn colbio'n gilydd weithiau, byddwn yn cydweithio ar adegau a dyma enghraifft o hynny.

Croesawaf hefyd eich canmoliaeth i ystod yr arbenigedd sydd ar gael mewn meysydd sy'n berthnasol i bobl oeddrannus a'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer, o ran yr hyn sy'n anfodddhaol yn eu barn hwy a'r hyn y maent yn dymuno gweld mwy ohono. Yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, ond fe'i dywedaf eto ei fod yn gysur mawr imi fod penderfyniad panel dethol y bobl hŷn phenderfyniad panel dethol yr ACau, a oedd yn cynnwys dau berson hŷn, yr un fath wrth iddynt ddewis y person iawn. Credaf i'r un peth fod yn wir pan benodwyd Peter Clarke i swydd y comisiynydd plant. Mae rhai'n meddwl y bydd y penderfyniad yn gwbl wahanol os cynhwyswch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, boed y rheiny'n bobl hŷn ynteu'n blant, ond rhoddwyd y syniad hwnnw ar brawf a'i gael yn anghywir. Yn gyffredinol, byddant yn gosod pobl ar yr ysgol benodi neu yn nhabl y gynghrair yn yr un ffordd, fwy neu lai. Mae rhywfaint o gysur yn y ffaith bod penderfyniad defnyddwyr y gwasanaeth yr un fath â phenderfyniad y rhai a oedd yn penodi, a'r rheiny, mewn theori, heb fod yn rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r pwynt a wnaethoch am y diweddar Peter Clarke yn wir hefyd; dyna pam y pwysleisiais na fydd y comisiynydd yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r comisiynydd wedi'i phenodi ac yn ei swydd. Dim ond dan

post. She can be removed only in the most extraordinary and extreme circumstances, which gives a great deal of latitude to anyone appointed as a commissioner. It is the same with ombudsmen and the Auditor General for Wales. That protects their independence. We want them to be robustly challenging and to disagree with us and the Westminster Government, local government, and non-statutory bodies if older persons are not getting what they need. It is up to the commissioner to champion and promote older people so that they get what they want from the range of services that are out there and which are provided by the state sector, local government, the voluntary sector, the private sector, and so on. It is up to her to define the role in the way that she wants.

**David Lloyd:** I also welcome the statement by the First Minister and welcome Ruth Marks and congratulate her on her appointment to the post of Commissioner for Older People in Wales. Some years ago now, many of us were involved in the consultation on the strategy for older people. Several major issues were identified then by older people in Wales that were a particular challenge to them, such as pensioner poverty and the level of the state pension. There was also concern about the NHS and access to treatment and waiting lists. Another big issue was free personal care as well as residential and private nursing home care and the dignity agenda that Gwenda Thomas and others have alluded to in recent weeks. Therefore, in her appointment as a champion and a voice for older people, there are significant challenges to face and significant issues to champion. I wish Ruth Marks all the best in championing those issues.

Not all of the issues relate to devolved matters. I would particularly wish Ruth Marks a fair following wind when it comes to tackling and championing those non-devolved issues, particularly with regard to the level of state pensions and benefits, a particular issue for older people. We still have a significant level of pensioner poverty in Wales. What is the First Minister's view with regard to not wishing to define or restrict the role of the commissioner for older

yr amgylchiadau mwyaf eithriadol ac eithafol y gellir ei symud oddi yno, sy'n rhoi llawer iawn o benrhyddid i unrhyw un a benodir yn gomisiynydd. Mae'r un peth yn wir am ombwdsmyrn ac am Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae hynny'n gwarchod eu hannibyniaeth. Yr ydym am iddynt herio'n gadarn ac anghytuno â ni ac â Llywodraeth San Steffan, â llywodraeth leol ac â chyrff anstatudol os nad yw pobl hŷn yn cael yr hyn y mae ei angen arnynt. Gwaith y comisiynydd fydd eiriol dros bobl hŷn a'u hyrwyddo er mwyn iddynt gael yr hyn y mae ei eisiau arnynt o blith yr ystod o wasanaethau sydd ar gael ac a ddarperir gan sector y wladwriaeth, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, y sector preifat, ac ati. Ei gwaith hi fydd diffinio'r rôl fel y gwêl yn dda.

**David Lloyd:** Croesawaf innau'r datganiad gan y Prif Weinidog a chroesawaf Ruth Marks a'i llongyfarch ar ei phenodi i swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Sawl blwyddyn yn ôl yn awr, bu llawer ohonom yn ymwneud â'r ymgynghori ynghylch y strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Bryd hynny, rhestrodd pobl hŷn yng Nghymru nifer o faterion o bwys a oedd yn broblem benodol iddynt, megis tlodi pensiynwyr a lefel pensiwn y wladwriaeth. Yr oeddent yn pryderu hefyd am y GIG ac am gael gafael ar driniaeth ac am restrï aros. Mater pwysig arall oedd gofal personol am ddim ynghyd â gofal preswyl a gofal nyrsio preifat gartref ynghyd â'r agenda urddas y mae Gwenda Thomas a phobl eraill wedi'u crybwyll yn yr wythnosau diwethaf. Felly, wrth iddi gael ei phenodi i eiriol dros bobl hŷn a bod yn llais drostynt, mae problemau sylweddol i'w hwynebu a phynciau sylweddol i'w codi. Dymunaf bob hwyl i Ruth Marks wrth iddi fynd i'r afael â'r materion hynny.

Nid yw'r holl faterion yn ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn dymuno'n benodol i Ruth Marks gael gwynt teg o'i hôl pan ddaw'n adeg codi'r materion hynny sydd heb eu datganoli a mynd i'r afael â hwy, yn enwedig lefel pensiynau a budd-daliadau'r wladwriaeth, mater o bwys arbennig i bobl hŷn. Mae lefel tlodi pensiynwyr yn dal yn sylweddol yng Nghymru. Beth yw barn y Prif Weinidog gyda golwg ar beidio â dymuno diffinio na

people in any way? A champion needs to have a fair following wind from all concerned in order to truly stand up for her people, in this case, particularly with regards to non-devolved issues such as pensions and benefits. Can the First Minister foresee any particular issues or challenges ahead of Ruth Marks when she stands up for older people in Wales as regards the level of the state pension?

**The First Minister:** That is an interesting point. She will not have the same relationship with Westminster Ministers as she has with us as an administration, because we made the appointment. However, she would be able to undertake research into areas that she regards to be unsatisfactory in relation to pensions and benefits, which are of particular relevance to older persons. The commissioner could make representations to us that we take up a particular matter with the Westminster Government. Therefore, it is a wide-ranging role. It is not like that of a Supreme Court judge with the ability to mandate the Assembly Government, let alone the Westminster Government, to do something that we are not doing; she does not have that sort of writ. However, in making representations, we would be foolish not to listen to what she says. Likewise, she will present an annual report to the Assembly and if, in that annual report, there were a reference to the inadequacy of pensions and benefits or the difficulty of accessing certain benefits, I am sure that we would want to take that up. However, she would make representations to us. She could commission research on a wide range of topics. Indeed, when we launched the appointment, it was the first thing that the commissioner picked up on. That may be a result of her experience with RNIB Cymru or with Chwarae Teg before that.

She mentioned how difficult it was for older people to access certain benefits to which they are entitled. She said that she would expect to carry out research into whether it was possible to make 30-page forms easier by knocking them down to two or three pages and to de-stigmatise the process, which might result in more people claiming the benefits to which they are entitled.

chyfyngu rôl y comisiynydd pobl hŷn mewn unrhyw ffordd? Rhaid i eiriolwr gael gwynt teg o'i hôl a chefnogaeth pawb dan sylw er mwyn sefyll dros ei phobl mewn gwirionedd, yn yr achos hwn, yn enwedig gyda golwg ar faterion sydd heb eu datganoli megis pensiynau a budd-daliadau. A all y Prif Weinidog ragweld unrhyw broblemau neu anawsterau penodol a ddaw i ran Ruth Marks pan fydd yn sefyll dros bobl hŷn Cymru o ran lefel pensiwn y wladwriaeth?

**Y Prif Weinidog:** Dyna bwynt diddorol. Ni fydd ganddi'r un berthynas â Gweinidogion San Steffan ag sydd ganddi â ni fel gweinyddiaeth, oherwydd ni a'i penododd. Serch hynny, byddai'n gallu ymchwilio i feysydd sydd yn eu barn hi'n anfoddhaol o ran pensiynau a budd-daliadau, sydd yn arbennig o berthnasol i bobl hŷn. Gallai'r comisiynydd gyflwyno sylwadau i ni a gofyn inni godi mater penodol gyda Llywodraeth San Steffan. Felly, mae'r rôl yn un eang. Nid yw'r un fath â rôl un o farnwyr y Goruchaf Lys sy'n gallu gorchymyn Llywodraeth y Cynulliad, heb sôn am Lywodraeth San Steffan, i wneud rhywbeth nad ydym yn ei wneud; nid oes ganddi'r hawl i roi gorchymyn o'r math hwnnw. Fodd bynnag, wrth wneud sylwadau, byddem yn ffôl pe na baem yn gwrando ar yr hyn y mae'n ei ddweud. Yn yr un modd, bydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, a, phe byddai cyfeiriad yn yr adroddiad blynyddol hwnnw at annigonolrwydd pensiynau a budd-daliadau neu anhawster cael gafael ar fudd-daliadau penodol, yr wyf yn siŵr y byddem am godi hynny. Fodd bynnag, byddai'n cyflwyno'i sylwadau i ni. Gallai gomisiynu ymchwil ar ystod eang o bynciau. Yn wir, pan lansiwyd y penodiad, dyna'r peth cyntaf a godwyd gan y comisiynydd. Efallai fod hynny yn sgil ei phrofiad gydag RNIB Cymru neu gyda Chwarae Teg cyn hynny.

Dywedodd mor anodd ydoedd i bobl hŷn gael mynediad at rai budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael. Dywedodd y byddai'n disgwyl ymchwilio i ganfod a oedd modd gwneud ffurflenni o 30 tudalen yn haws eu llenwi drwy eu tocio fel eu bod yn ddwy neu dair tudalen o hyd a chael gwared ar y stigma sydd yn glŷn â'r broses, a allai beri i fwy o bobl hawlio'r budd-daliadau y



mae ganddynt hawl i'w cael.

**Michael German:** First, thank you for allowing a process that was open and which involved cross-party representation. It worked well, and has done so, as you said, since 1999. Allowing young and older people to take part in these appointments has produced a similar sort of understanding of what the needs are. That has been true across the Assembly, and it strengthens the position of the person appointed, because the appointee knows that he or she has the broad support of the National Assembly, both the Government and the Assembly itself, and that is important for any commissioner.

I will comment briefly and ask you a question on the openness of her reporting. You said that she may make recommendations to you about key issues that do not affect the National Assembly or the Welsh Assembly Government, which is certainly the case with regard to state benefits. However, if those statements are made in private, clearly, they will not be in the public domain. That might be an interesting dimension for you to consider, with regard to the openness and the transparency in which the commissioner operates.

I hope that you will not try to impose secrecy on her recommendations to the Welsh Assembly Government. It has been the case with regard to the children's commissioner that some uncomfortable recommendations have been made, but the fact that they have been made public has meant that there has been an open and sensible debate on these matters. The Government has had to defend itself against allegations when it has been found wanting, or when it has not made the changes that the commissioner expected. I think that that will be the real test of this post and I hope that you see that it is important that we know what the recommendations are.

In congratulating Ruth, I must say that it is always difficult being the first in a new post when the agenda will be set largely by that person. I know that she is well up to the challenge. Many issues affect older people, as was proved by the interview process. We need to know, fairly rapidly, what is at the

**Michael German:** Yn gyntaf, diolch i chi am ganiatáu proses a oedd yn agored ac a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol. Gweithiodd yn dda, a gwnaeth hynny, fel y dywedasoch, er 1999. Drwy adael i bobl ifanc a phobl hŷn gymryd rhan yn y penodiadau hyn, cafwyd dealltwriaeth debyg o'r hyn yw'r anghenion. Felly y bu ar draws y Cynulliad, ac mae'n cryfhau sefyllfa'r person a benodwyd, gan fod yr un a benodwyd yn gwybod bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gyffredinol, gan gynnwys y Llywodraeth a'r Cynulliad ei hun, yn ei gefnogi ef neu hi, ac mae hynny'n bwysig i unrhyw gomisiynydd.

Gwnaf sylw'n fyr a gofyn cwestiwn i chi ynghylch y graddau y bydd ei hadroddiadau'n agored. Dywedasoch y caiff roi argymhellion i chi am faterion allweddol nad ydynt yn effeithio ar y Cynulliad Cenedlaethol nac ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac felly y mae'n sicr yn achos budd-daliadau gwladol. Fodd bynnag, os gwneir y datganiadau hynny'n breifat, mae'n amlwg na fyddant yn dod i sylw'r cyhoedd. Gallai honno fod yn agwedd ddiddorol ichi ei hystyried, gyda golwg ar natur agored a thryloyw gwaith y comisiynydd.

Yr wyf yn gobeithio na fyddwch yn ceisio mynnu y bydd ei hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrinachol. Yn achos y comisiynydd plant, gwnaethpwyd rhai argymhellion a oedd yn peri annifyrrwch, ond am eu bod wedi'u cyhoeddi bu dadl agored a synhwyrol ar y materion hyn. Bu'n rhaid i'r Llywodraeth ei hamddiffyn ei hun rhag cyhuddiadau pan gafwyd hi'n brin, neu pan na wnaeth y newidiadau a ddisgwyliai'r comisiynydd. Credaf mai hynny fydd y gwir brawf ar y swydd hon ac yr wyf yn gobeithio eich bod yn sylweddoli ei bod yn bwysig inni gael gwybod beth yw'r argymhellion.

Wrth longyfarch Ruth, rhaid imi ddweud ei bod bob amser yn beth anodd bod yn gyntaf mewn swydd newydd gan y bydd yr agenda'n cael ei gosod gan y person hwnnw i raddau helaeth. Gwn ei bod yn gymwys iawn i dderbyn yr her. Mae llawer o faterion yn effeithio ar bobl hŷn, fel y dangosodd y

top of her agenda. The public, and certainly older people, would want to know that they can have confidence in her in that regard.

In respect of her powers, they are wide-ranging, but they are not as detailed as you might find, perhaps, with an ombudsman, and I wonder whether, in time, those powers may need to be reviewed in light of our experience with the role of the commissioner. I wish Ruth well and I am grateful to the First Minister for the announcement of this appointment and I hope that you and I would agree that she is best suited to look after our personal interests.

**The First Minister:** I apologise for forgetting that I am not the only person who is over 60 in this Assembly Chamber, although I think that I am the oldest person here, therefore, others may wish to declare an interest.

The issue about how she will define her role is important. I base what I have said about that only on her public statements. It is entirely up to her to define her role; that will not be done in consultation with us, but in consultation with groups that represent older people. Therefore, we are not attempting to steer her in any direction, nor would we succeed if we did decide to try to do that. When you then ask, 'Okay, but what is the feedback to this Assembly?' and ask whether it will involve private meetings between Ruth Marks, me or Gwenda, or any other Minister, I can say that, as a minimum, there will be an annual report to the Assembly. In that spirit, if she chose to ask us to have a private meeting with her, we would abide by that request. If she chose to make a statement in public, we would have no powers to stop her, even if we wanted to.

1.50 p.m.

It is very much up to her to define her role and to define the terms on which she wants to press for something. If she wants to do it privately sometimes and in public at other

broses gyfweld. Mae angen inni gael gwybod, yn eithaf buan, beth sydd ar frig ei hagenda. Byddai'r cyhoedd, a phobl hŷn yn sicr, am wybod y gallant ymddiried ynnddi yn hynny o beth.

Gyda golwg ar ei phwerau, maent yn rhai cynhwysfawr, ond nid ydynt mor fanwl â'r rhai a gaech, efallai, yn achos ombwdsmon, ac yr wyf yn meddwl tybed, ymhen amser, a fydd angen adolygu'r pwerau hynny, o bosibl, yng ngoleuni ein profiad o rôl y comisiynydd. Dymunaf yn dda i Ruth ac yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am gyhoeddi'r penodiad hwn a gobeithiaf y byddech chi a minnau'n cytuno mai hi yw'r un fwyaf addas i ofalu am ein buddiannau personol.

**Y Prif Weinidog:** Ymddiheuraf am anghofio nad myfi yw'r unig un sydd dros 60 oed yn y Siambr Gynulliad hon, er fy mod yn credu mai myfi yw'r hynaf sydd yma, felly, efallai y bydd eraill yn dymuno datgan buddiant.

Mae'r cwestiwn ynghylch sut y bydd yn diffinio ei rôl yn un pwysig. Yr wyf yn seilio'r hyn a ddywedais am hynny ar ei datganiadau cyhoeddus yn unig. Hi sy'n llwyr gyfrifol am ddiffinio ei rôl; ni wneir hynny drwy ymgynghori â ni, ond drwy ymgynghori â grwpiau sy'n cynrychioli pobl hŷn. Felly, nid ydym yn ceisio ei llywio i unrhyw gyfeiriad, ac ni lwyddem pe byddem yn penderfynu ceisio gwneud hynny ychwaith. Pan ofynnwch wedyn, 'O'r gorau, ond pa adborth a roddir i'r Cynulliad hwn?' ac a fydd yn golygu cyfarfodydd preifat rhwng Ruth Marks, myfi neu Gwenda, neu unrhyw Weinidog arall, gallaf ddweud mai'r hyn a geir o leiaf fydd adroddiad blynyddol i'r Cynulliad. Yn unol â hynny, pe dewisai ofyn inni gael cyfarfod preifat gyda hi, byddem yn ufuddhau i'r cais hwnnw. Pe dewisai wneud datganiad cyhoeddus, ni fyddai gennym bwerau i'w hatal, hyd yn oed pe dymunem wneud hynny.

Hi yn anad neb sy'n gyfrifol am ddiffinio ei rôl a diffinio ar ba delerau y mae'n dymuno pwysio dros gael rhywbeth. Os yw'n dymuno gwneud hynny'n breifat weithiau ac yn

times, that will be up to her to try to seek to get what she wants in the way that she wants. As a very minimum, there will be an annual report to the Assembly in which she will give a statement on what she has done and where she feels that she has not been as entirely successful as she would have liked.

You mentioned the comparison with the ombudsman, to which I drew the Assembly's attention in my opening remarks. The ombudsman will continue to do exactly what the ombudsman does now. That is, after the internal complaints procedure of the health service, the local authority or our departments, has been exhausted, the ombudsman will take up an individual case. There is nothing to stop Ruth Marks from taking up an individual case; however, it will be a system fault rather than an individual act of alleged maladministration that she will tend to look at.

Then there are the broader philosophical issues, like the one that Jonathan raised, that we come across time and again whenever we talk to a carer or an older person, such as the issue of independence and how people want to remain as independent as possible by having good domiciliary care services for as long as possible, rather than choosing the residential care option. Not everybody takes that view, but most people do. There is also the issue of the vulnerability of older people, which Val Lloyd raised with me yesterday. You have to remember that while some older people are very articulate, others are not articulate at all. I would imagine that Ruth would want to have particular regard to those who do not have the power to articulate their own problems any longer, because her job is to be their voice.

**Nick Bourne:** I welcome the words of the First Minister and assure him that we are certainly fully supportive of Ruth Marks in this new role as the Commissioner for Older People in Wales. Once again in Wales, we have made a pioneering move, just as we did with the children's commissioner. I think that the omens are very good, as Jonathan has said and as was echoed by the First Minister, based on the excellent work that Peter Clarke did, in the independent way that he had. The First Minister has quite rightly stressed the

gyhoeddus dro arall, ei lle hi fydd ceisio cael yr hyn y mae'n ei ddymuno yn y modd y mae'n ei ddymuno. Y lleiaf a geir fydd adroddiad blynyddol i'r Cynulliad lle bydd yn gwneud datganiad am yr hyn y mae wedi'i wneud ac ymhle y mae'n teimlo iddi fod yn llai llwyddiannus nag y dymunasai.

Soniasoch am y gymhariaeth â'r ombwdsmon, y tynnais sylw'r Cynulliad ati yn fy sylwadau agoriadol. Bydd yr ombwdsmon yn dal i wneud yn union fel y mae'n gwneud yn awr. Hynny yw, ar ôl dod i ddiwedd gweithdrefn gwynion fewnol y gwasanaeth iechyd, yr awdurdod lleol neu ein hadrannau ni, bydd yr ombwdsmon yn ymgymryd ag achos penodol. Nid oes dim i atal Ruth Marks rhag ymgymryd ag achos penodol; er hynny, bydd yn rhoi sylw gan mwyaf i ddiffygion mewn systemau yn hytrach nag achosion penodol o gamweinyddu honedig.

Wedyn dyna'r materion athronyddol ehangach, fel yr un a gododd Jonathan, y deawn ar eu traws dro ar ôl tro pryd bynnag y siaradwn â gofalwr neu rywun hŷn, fel mater annibyniaeth a dymuniad pobl i aros mor annibynnol ag y bo modd drwy gael gwasanaethau gofal cartref da am gyfnod mor hir ag sy'n bosibl, yn hytrach na dewis gofal preswyl. Nid felly y mae pawb yn meddwl, ond mae'r rhan fwyaf. Dyna fater hyglwyfedd pobl hŷn wedyn, a godwyd gan Val Lloyd gyda mi ddoe. Rhaid cofio, er bod rhai pobl hŷn yn huawdl iawn, fod eraill nad ydynt yn huawdl o gwbl. Gallwn feddwl y byddai Ruth am roi sylw penodol i'r rheiny sydd heb allu i gyfleu eu problemau eu hunain bellach, gan mai ei gwaith hi yw bod yn llais iddynt hwy.

**Nick Bourne:** Croesawaf eiriau'r Prif Weinidog a'i sicrhau ein bod yn sicr yn llwyr gefnogol i Ruth Marks yn y rôl newydd hon fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Unwaith eto yng Nghymru, cymerasom gam arloesol, yn union fel y gwnaethom yn achos y comisiynydd plant. Credaf fod yr argoelion yn dda iawn, fel y mae Jonathan wedi dweud ac fel yr ategodd y Prif Weinidog, ar sail y gwaith rhagorol a wnaeth Peter Clarke, yn ei ddull annibynnol ei hun. Mae'r Prif Weinidog wedi tynnu sylw'n gwbl briodol at

importance of the independence of the commissioner, who enjoys the same independence as the ombudsman, which I think was established in the Parliamentary Commissioner Act 1967, which was itself based on that of high court judges. As the First Minister has said, that is vital.

Older people's concerns will become more and more important because an increasing proportion of the population is becoming older. I sometimes think that 'older' deserves a different definition, which may be partly because I am getting to that stage myself—I am sure that as we all approach that stage, 'older' becomes further and further away. However, older people's concerns will be of increasing importance.

Ruth Marks brings to the post fantastic experience of combating discrimination and promoting inclusiveness. As the First Minister has said, she is currently working for RNIB Cymru; she has previously worked with Chwarae Teg, Business in the Community Wales, and the Wales Council for Voluntary Action. Her appointment has been widely welcomed and she comes in with very high hopes. The Pensioners' Forum Wales, under the chairmanship of Nancy Davies, is confident that she is the right person for the job and I am sure that she is. I am sure that she will be unstinting in promoting the rights of Wales's older generation and we will certainly be supportive of her.

I would like to thank Gwenda Thomas, who has done an enormous amount of work on this, and I do not think that we should let this occasion pass without noting that fact. I would also like to echo what Mike German has said in support of what the First Minister has said. The First Minister deserves credit for the way in which he has determined that this involves all parties here. That is something worth preserving, which makes this unique, and it is an occasion on which we are all supportive of this independent role. That is vital and long may it continue.

**The First Minister:** I am very grateful for

y pwysigrwydd sydd i annibyniaeth y comisiynydd, gan ei fod yn mwynhau'r un annibyniaeth â'r ombwdsmon, y credaf iddi gael ei sefydlu yn Neddf y Comisiynydd Seneddol 1967, a oedd hithau'n seiliedig ar hynny sydd gan farnwyr yr uchel lys. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi dweud, mae hynny'n hanfodol.

Bydd materion pobl hŷn yn dod yn fwyfwy pwysig gan fod cyfran gynyddol o'r boblogaeth yn mynd yn hŷn. Byddaf yn meddwl weithiau fod y gair 'hŷn' yn teilyngu diffiniad gwahanol a hynny'n rhannol, efallai, am fy mod innau'n cyrraedd yr oed hwnnw—yr wyf yn siŵr bod 'hŷn' yn mynd yn bellach bellach draw oddi wrthym i gyd wrth inni gyrraedd yr oed hwnnw. Fodd bynnag, bydd materion pobl hŷn yn fwyfwy pwysig.

Mae Ruth Marks yn dod â phrofiad eithriadol i'r swydd o ran ymladd yn erbyn gwahaniaethu a hybu cynwysoldeb. Fel y mae'r Prif Weinidog wedi dweud, mae'n gweithio ar hyn o bryd i RNIB Cymru; mae wedi gweithio o'r blaen gyda Chwarae Teg, Busnes yn y Gymuned Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae ei phenodiad wedi'i groesawu'n gyffredinol a disgwylir pethau mawr ganddi wrth iddi ddod i'r swydd. Mae Fforwm Pensiynwyr Cymru, dan gadeiryddiaeth Nancy Davies, yn ffyddiog mai hi yw'r un iawn i'r swydd ac yr wyf yn sicr ei bod. Yr wyf yn siŵr y bydd yn hyrwyddo hawliau cenedlaeth hŷn Cymru'n ddi-baid a byddwn yn sicr yn ei chefnogi.

Carwn ddiolch i Gwenda Thomas, sydd wedi gweithio'n galed iawn ar hyn, ac ni chredaf y dylem adael i'r achlysur hwn fynd heibio heb nodi'r ffaith honno. Hoffwn ategu hefyd yr hyn y mae Mike German wedi'i ddweud o blaid yr hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud. Mae'r Prif Weinidog yn haeddu clod am y modd y mae wedi peri i hyn gynnwys yr holl bleidiau sydd yma. Mae hynny'n rhywbeth sy'n werth ei gadw, sy'n gwneud hyn yn unigryw, ac mae'n achlysur pan ydym i gyd yn gefnogol i'r rôl annibynnol hon. Mae hynny'n hanfodol a hir y parhaed.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ddiolchgar

your remarks, Nick, and the way in which you have emphasised that we have not only pioneered in creating the job itself, but in the way in which we made the appointment, which was not only done on a cross-party basis, but also involved giving a vote to people who represent older persons, not merely Ministers and civil servants or other politicians and civil servants. I believe that it will be reassuring to older people that they were involved in the appointment and had a vote. The independence that that gives to the job is absolutely crucial. You mentioned that, as with high court judges, the ombudsman and the auditor, it is a very well protected post other than on grounds of insanity, serious criminality or by vote of the Assembly and so on. It is a well protected post in terms of anybody being able to get at the person concerned because what they are saying is deeply inconvenient to the administration. It may be inconvenient, but there is nothing that you can do about it. We must accept that what we have done is to create a commissioner who we expect to challenge the system robustly. You mentioned her background in the RNIB; blindness is not exclusive to older persons by any means, but it tends to be associated with advanced age, and, therefore, she will have already had considerable dealings with older persons in her RNIB job.

The wider issue that you mentioned is interesting. It is true that actuarial longevity continues to improve in Wales, as it does in most advanced western countries. The length of time in retirement is frequently 30-plus years now, rather than the 10 years it might have been a quarter of a century ago. However, the issue is, when you retire for 30 years, whether you can have the quality of life that you should expect, so that you are not merely there for 30 years, but are able to contribute to society and to enjoy yourself, and, if you are lucky enough to be a grandparent, as I am, to enjoy your grandchildren and to help to bring them up as well. We want to see quality of life in the 60-plus age group, not merely actuarial longevity, and I am sure that we would all agree on that.

**Mark Isherwood:** Within a decade, one in

iawn am eich sylwadau, Nick, ac am eich pwyslais ar y ffaith ein bod nid yn unig wedi arloesi wrth greu'r swydd ei hun, ond hefyd o ran y modd y gwnaethom y penodiad, a wnaethpwyd drwy ddull trawsbleidiol a hefyd drwy roi pleidlais i rai sy'n cynrychioli pobl hŷn, nid i Weinidogion a gweision sifil yn unig neu i wleidyddion eraill a gweision sifil. Credaf y bydd pobl hŷn wedi'u calonogi am eu bod wedi cymryd rhan yn y penodiad ac wedi cael pleidlais. Mae'r annibyniaeth y mae hynny'n ei rhoi i'r swydd yn hollbwysig. Cyfeiriasoch at y ffaith ei bod yn swydd sydd wedi'i diogelu'n dda iawn, yn yr un modd â barnwyr yr uchel lys, yr ombwdsmon a'r archwilydd, heblaw ar sail gorffwylledd, troseddu difrifol neu drwy bleidlais y Cynulliad ac yn y blaen. Mae'n swydd sydd wedi'i diogelu'n dda yn yr ystyr na fydd neb yn gallu dylanwadu ar y person dan sylw am fod yr hyn y mae'n ei ddweud yn dra anghyfleus i'r weinyddiaeth. Gallai fod yn anghyfleus, ond nid oes dim y gallweh wneud yn ei gylch. Rhaid inni dderbyn mai'r hyn yr ydym wedi'i wneud yw creu comisiynydd yr ydym yn disgwyl iddo herio'r system yn rymus. Cyfeiriasoch at ei chefnidir yn yr RNIB; nid ymhlith pobl hŷn yn unig y ceir dallineb o bell ffordd, ond tueddir i'w gysylltu â rhai sydd mewn oed mawr, ac, felly, bydd eisoes wedi ymwneud yn helaeth â phobl hŷn yn ei swydd gyda'r RNIB.

Mae'r mater mwy cyffredinol y cyfeiriasoch ato'n un diddorol. Mae'n wir bod hirhoedledd actiwaraidd yn dal i wella yng Nghymru, fel y mae yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig y gorllewin. Bellach mae'r cyfnod ymddeol yn aml yn 30 mlynedd a mwy, yn hytrach na'r 10 mlynedd a allasai fod chwarter canrif yn ôl. Fodd bynnag, y cwestiwn yw, os byddwch yn ymddeol am 30 mlynedd, a allwch gael yr ansawdd bywyd y dylech ei ddisgwyl, fel eich bod yn gwneud mwy na dim ond bod yno am 30 mlynedd, a'ch bod yn gallu cyfrannu i gymdeithas a mwynhau'ch hun, ac, os ydych yn ddigon ffodus i fod yn daid, fel yr wyf fi, mwynhau cwmni'ch wyrion a helpu i'w magu hefyd. Yr ydym am weld ansawdd bywyd da yn y grŵp oedran ôl-60, nid hirhoedledd actiwaraidd yn unig, ac yr wyf yn siŵr y byddem oll yn cytuno ar hynny.

**Mark Isherwood:** O fewn degawd, bydd un

three households in Wales will have someone aged over 65 living in them. Therefore, we must welcome the appointment of Ruth Marks, and the role that she will now play in devolved areas, such as housing, nutrition, transport and employment for older people. I note that reference has already been made to cross-border matters, and I would like to reinforce the importance of her also having a voice on non-devolved areas. For instance, Help the Aged in Wales commented, when the initial Bill was published, that pension reform would do the most to improve the lives of older people in Wales.

I welcome that, in the report, you stress that the commissioner will be an independent champion for older people. Do you agree—as I am sure that you do—that the commissioner must not be afraid to raise concerns and tackle issues, whosoever is responsible for them? Can you confirm the role that the commissioner will have with older people's fora and how the channels are expected to operate in that regard? I cite two issues that were recently raised with me by a forum in my area, one of which again relates to cross-border issues and the Human Rights Act 1988 not applying in private nursing homes—could she have a voice in this area? In addition, there is the role of local and regional older people's fora in working with local authorities. I have heard of good practice models, where members of older people's fora from different parts of Wales have been invited to attend meetings in other areas, and bad practice models, where, despite applying, members of older people's fora have been denied access to meetings in their own areas.

I have a further two brief issues. Action on Elder Abuse has welcomed the appointment of the commissioner, but do you agree that the commissioner must bring an even greater urgency to tackling the issue of elder abuse, if we are to begin to genuinely have an impact on the lives of the many older people affected? Finally, what role do you see the commissioner playing in helping to tackle fuel poverty among older people? I note that both Help the Aged and Energywatch have called for reviews of the fuel poverty

aelwyd ym mhob tair yng Nghymru'n cynnwys rhywun dros 65 oed. Felly, rhaid inni groesawu penodi Ruth Marks, a'r rhan y bydd yn ei chwarae'n awr mewn meysydd datganoledig, fel tai, maethiad, trafnidiaeth a chyflogaeth i bobl hŷn. Sylwaf fod cyfeiriad wedi'i wneud eisoes at faterion trawsffiniol, a charwn ategu ei bod yn bwysig iddi fod â llais hefyd mewn meysydd sydd heb eu datganoli. Er enghraifft, dywedodd Help the Aged yng Nghymru, pan gyhoeddwyd y Mesur cychwynnol, mai drwy ddiwygio pensiynau y byddid yn gwneud y mwyaf i wella bywyd pobl hŷn yng Nghymru.

Croesawaf y ffaith eich bod yn pwysleisio, yn yr adroddiad, y bydd y comisiynydd yn eiriolwr annibynnol dros bobl hŷn. A ydych yn cytuno—fel yr ydych, yr wyf yn siŵr—ei bod yn rhaid i'r comisiynydd beidio ag ofni mynegi pryderon a mynd i'r afael â phroblemau, pwy bynnag sy'n gyfrifol amdanynt? A allwch gadarnhau'r rôl a fydd gan y comisiynydd mewn cysylltiad â fforymau pobl hŷn a sut y disgwylir i'r sianelau weithio yn hynny o beth? Cyfeiriai at ddau fater a godwyd gyda mi'n ddiweddar gan fforwm yn fy ardal, y mae un ohonynt eto'n ymwneud â materion trawsffiniol a'r ffaith nad yw Deddf Hawliau Dynol 1988 yn gymwys i gartrefi nyrsio preifat—a allai fod â llais yn y maes hwn? Yn ogystal â hynny, dyna rôl fforymau lleol a rhanbarthol pobl hŷn wrth weithio gydag awdurdodau lleol. Yr wyf wedi clywed am fodelau arferion da, lle y gwahoddwyd aelodau o fforymau pobl hŷn mewn gwahanol rannau o Gymru i ddod i gyfarfodydd mewn ardaloedd eraill, ac am fodelau arferion gwael, lle y gwrthodwyd mynediad i aelodau o fforymau pobl hŷn i gyfarfodydd yn eu hardaloedd eu hunain, er iddynt geisio hynny.

Dymunaf godi dau fater pellach yn fyr. Mae Action on Elder Abuse wedi croesawu penodiad y comisiynydd, ond a ydych yn cytuno ei bod yn rhaid i'r comisiynydd ddelio gyda mwy byth o frys â mater cam-drin pobl hŷn, os ydym i ddechrau cael gwir effaith ar fywyd llawer o bobl hŷn y mae hyn yn effeithio arnynt? Yn olaf, pa rôl yr ydych yn rhagweld y bydd y comisiynydd yn ei chwarae wrth helpu i ddelio â thlodi tanwydd ymysg pobl hŷn? Sylwaf fod Help the Aged ac Energywatch ill dau wedi galw am

strategy.

**The First Minister:** Thank you for that substantial set of questions, Mark, which I will try to get through as quickly as possible. I do not want to dismiss those questions by saying, 'Well, that is up to her', but, to an extent, it is. I will not steer Ruth Marks, nor would she welcome it if I did, as regards the important issue of elder abuse or the issue that is now racing up the political priorities because of the price of oil, coal, gas and electricity, namely fuel poverty. I expect her to get stuck into whatever older people say is their top priority, whether it is an issue of long standing or whether it is a returning one, such as fuel poverty.

On the question of the fora, again, I cannot steer Ruth Marks. I would be surprised if she did not get heavily involved in the older persons' fora, ensuring that they can open doors, and that she can open doors for them that may have been closed historically. It was through the fora that we got older people involved in the appointment process, which was right and proper.

2.00 p.m.

On the Human Rights Act 1998, any amendment to the Act is not a matter for us, but for the UK Government and the Westminster Parliament. So, she could not get directly involved, but, as with other issues, she is perfectly entitled to make representations to us so that we can take the matter up with the UK Government. She is also perfectly entitled to seek a meeting with, or write to, a Westminster Government Minister if she felt that that was more convenient or more direct than putting pressure on us to do it on her behalf.

On the point about the Human Rights Act, we are looking at the outcome of the House of Lords ruling, and assessing its implications for Wales.

The point that you made at the beginning of your question about the range of aspects such as employment law and the culture of

adolygiadau o'r strategaeth tlodi tanwydd.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i chi am y nifer sylweddol hwnnw o gwestiynau, Mark, y ceisiaf fynd drwyddynt cyn gynted ag sy'n bosibl. Nid wyf am wfftio'r cwestiynau hynny drwy ddweud, 'Wel, mae hynny'n fater iddi hi', ond, i ryw raddau, dyna ydyw. Ni lywiaf waith Ruth Marks, ac ni fyddai'n croesawu hynny pe byddwn yn gwneud, mewn cysylltiad â mater pwysig cam-drin pobl hŷn neu'r pwnc sy'n dod yn fwyfwy o flaenoriaeth wleidyddol oherwydd pris olew, glo, nwy a thrydan, sef tlodi tanwydd. Disgwyliaf iddi fynd i'r afael â beth bynnag y mae pobl hŷn yn dweud ei bod yn flaenoriaeth bennaf iddynt, boed yn fater hirsefydlog neu'n un sy'n codi eto, fel tlodi tanwydd.

Ynghylch mater y fforymau, unwaith eto, ni allaf lywio gwaith Ruth Marks. Byddwn yn synnu pe na fyddai'n ymwneud yn helaeth â fforymau pobl hŷn, gan sicrhau y gallant agor drysau, ac y gall hi agor drysau iddynt a allasai fod ynghau yn y gorffennol. Drwy'r fforymau y gwnaethom gynnwys pobl hŷn yn y broses benodi, ac yr oedd hynny'n iawn ac yn briodol.

Ynghylch Deddf Hawliau Dynol 1998, nid mater i ni yw unrhyw newid yn y Ddeddf, ond mater i Lywodraeth y DU a'r Senedd yn San Steffan. Felly, ni allai gymryd rhan yn uniongyrchol, ond, yn yr un modd â gyda materion eraill, mae ganddi hawl i gyflwyno sylwadau inni er mwyn inni fynd ar drywydd y mater gyda Llywodraeth y DU. Mae ganddi hefyd hawl i ofyn am gyfarfod gydag un o Weinidogion Llywodraeth San Steffan, neu ysgrifennu at un ohonynt os bydd hi'n teimlo bod hynny'n fwy cyfleus neu'n fwy uniongyrchol na rhoi pwysau arnom ni i wneud hynny ar ei rhan.

Ac ystyried y pwynt am Ddeddf Hawliau Dynol, yr ydym yn edrych ar ganlyniad dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi, ac yn asesu ei oblygiadau i Gymru.

Mae'r pwynt a wnaethoch ar ddechrau eich cwestiwn ynghylch yr amrywiaeth o agweddau megis cyfraith cyflogaeth a

potential discrimination is interesting. When you talk to any American over the age of 60 and dare to ask something like when are they thinking of retiring, you realise what a cultural gap there is between this country, probably all other European countries, and the USA, where the concept of retirement has disappeared out of the window. You do not ask a 70-year-old or a 72-year-old American, 'When are you thinking of retiring?', because there is no such thing—you stop work when you feel like stopping work. There is no way that anyone can suggest to them that they should move over. I do not want to raise any personal implications, but the concept of age-related retirement, or being in any way obliged to step aside for a younger person, is unknown in the USA. We have seen Senator McCain making his bid at 71 years of age to become President of the USA, and so forth. In Europe, we might think that that is a bit odd, but it is perfectly normal in America, where the concept of age-related retirement has gone. I do not think that we can honestly say that it has gone in this country or anywhere else in Europe. If that constitutes discrimination that older people in Wales believe should be shifted, it will be up to Ruth Marks to represent that view and say, 'Let us try to make the cultural change and be as least as good as the USA on abolishing the concept of age-related retirement'. I declare an interest, in a way, although I take a different view as regards my own case.

diwylliant camwahaniaethu posibl yn un difyr. Pan fyddwch yn siarad ag unrhyw Americanwr dros 60 oed ac yn meiddio gofyn rhywbeth fel pryd y mae'n bwriadu ymddeol, yr ydych yn sylweddoli cymaint yw'r gagendor diwylliannol rhwng y wlad hon, a phob gwlad arall yn Ewrop mae'n debyg, ac UDA, lle mae'r cysyniad o ymddeol wedi diflannu. Nid ydych yn gofyn i Americanwr 70 oed neu 72 oed 'Pryd ydych chi'n bwriadu ymddeol?', oherwydd nad oes fath beth—yr ydych yn rhoi'r gorau i weithio pan fyddwch yn teimlo fel rhoi'r gorau i weithio. Nid oes dim ffordd y gall unrhyw un awgrymu wrthynt y dylent gamu o'r neilltu. Nid oes arnaf eisiau codi unrhyw oblygiadau personol, ond mae'r cysyniad o ymddeol ar sail oed, neu deimlo bod yn rhaid i chi gamu o'r neilltu ar gyfer person iau yn gwbl ddieithr yn UDA. Yr ydym wedi gweld y Seneddwr McCain yn rhoi cynnig arni i fod yn Arlywydd UDA ac yntau yn 71 oed, ac yn y blaen. Yn Ewrop, efallai ein bod yn meddwl bod hynny braidd yn rhyfedd, ond mae'n hollol gyffredin yn America, lle mae'r cysyniad o ymddeol ar sail oed wedi diflannu. Nid wyf yn meddwl y gallwn ddweud yn onest ei fod wedi diflannu yn y wlad hon nac yn unman arall yn Ewrop. Os yw hynny'n gamwahaniaethu y mae pobl hŷn yng Nghymru yn teimlo y dylid ei ddileu, bydd angen i Ruth Marks gynrychioli'r safbwynt hwnnw a dweud, 'Gadewch inni roi cynnig ar wneud y newid diwylliannol a bod o leiaf gystal ag UDA o ran dileu'r cysyniad o ymddeol ar sail oed'. Yr wyf yn datgan diddordeb, mewn ffordd, er fy mod â safbwynt gwahanol ar gyfer fy achos fy hun.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

### Y Diwydiant Amaethyddol The Agricultural Industry

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Carwyn Jones, and amendments 2 and 3 in the name of Kirsty Williams.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Kirsty Williams.

**Angela Burns:** I propose that

**Angela Burns:** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*acknowledges the excessive burden of yn cydnabod byrdwn gormodol*



*bureaucracy on farmers and calls on the Assembly Government to support a programme of work to substantially reduce red tape in the agricultural industry during 2008. (NDM3840)*

I am grateful for this opportunity to introduce this debate on the excessive burden of bureaucracy faced by farmers. I was delighted yesterday to hear the Minister for Rural Affairs announce a review; that is in line with our motion, calling on the Welsh Assembly Government to look to substantially reduce red tape in the agricultural industry. The Welsh Conservatives look forward to continuing this method of influencing Government policy over the coming years.

However, while the Minister's announcement of a review of farm checks is welcome, it has no teeth. I appreciate that our current Minister for Rural Affairs has an innate understanding of the agricultural industry and is supportive and sympathetic, but she inherits a mantle that has been worn for far too long by Governments in Cardiff and in Westminster that have shown themselves to be wholly out of step with the needs, aspirations and drivers of rural people.

The Welsh Conservatives are calling for a programme of work to reduce red tape this year. We need action now and we would seek a commitment in the programme of work that has a tangible end objective, such as a 25 per cent reduction in red tape or a unified programme of inspection between the Government and local authorities. I do not want to hear the argument that we cannot set the goal as we do not know if it is possible to cut red tape by 25 per cent. We can aim, and if we fail because there is no more red tape to cut, we have done our job—it is an objective achieved. That is why I cannot support amendment 1 in the name of Carwyn Jones, because it is too woolly, with no timeline and no objectives. This is a call to arms, for we must intervene to save the agricultural industry before it is too late.

*biwrocratiaeth ar ffermwyr ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi rhaglen waith i leihau biwrocratiaeth yn sylweddol yn y diwydiant amaethyddol yn ystod 2008. (NDM3840)*

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i gyflwyno'r ddadl hon ar fyrdwn gormodol y fiwrocratiaeth sy'n wynebu ffermwyr. Yr oeddwn wrth fy modd ddoe pan glywais y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn cyhoeddi adolygiad; mae hynny'n cyd-fynd â'n cynnig, sef galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio lleihau'n sylweddol y fiwrocratiaeth sydd yn y diwydiant amaethyddol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn edrych ymlaen at barhau â'r dull hwn o ddylanwadu ar bolisiâu'r Llywodraeth dros y blynyddoedd nesaf.

Fodd bynnag, er y croesewir cyhoeddiad y Gweinidog am adolygiad o archwiliadau fferm, nid oes ganddo ddannedd. Yr wyf yn gwerthfawrogi bod gan ein Gweinidog cyfredol dros Faterion Gwledig ddealltwriaeth reddfol o'r diwydiant amaethyddol a'i bod yn llawn cefnogaeth a chydymdeimlad, ond mae'n etifeddu mantell sydd wedi cael ei gwisgo'n rhy hir gan Lywodraethau yng Nghaerdydd ac yn San Steffan a ddangosodd eu bod yn anghydnaws ag anghenion a dyheadau pobl wledig a'r hyn sy'n eu gyrru.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn galw am raglen waith i leihau biwrocratiaeth eleni. Mae angen gweithredu arnom yn awr a byddem yn gofyn am ymrwymiad yn y rhaglen waith sydd ag amcan pendant yn ganlyniad iddo, megis lleihau 25 y cant ar fiwrocratiaeth neu raglen archwiliadau unedig rhwng y Llywodraeth ac awdurdodau lleol. Nid oes arnaf eisiau clywed y ddadl na allwn bennu'r nod gan na wyddwn os yw'n bosibl lleihau 25 y cant ar fiwrocratiaeth. Gallwn anelu, ac os byddwn yn methu oherwydd nad oes rhagor o fiwrocratiaeth i'w lleihau, yr ydym wedi cyflawni ein gwaith—cyflawnwyd amcan. Dyna pam na allaf gefnogi gwelliant 1 yn enw Carwyn Jones, oherwydd ei fod yn rhy niwlog, nid oes amserlen nac amcanion yn perthyn iddo. Galwad i'r gad yw hwn, oherwydd mae'n rhaid inni gamu i mewn ac achub y diwydiant amaethyddol cyn iddi fod yn rhy hwyr.

There are so many areas that I could mention that I cannot possibly cover them all in the time that I have, so I will concentrate on a few key areas. What does red tape actually mean to a farmer? Some red tape is wholly necessary—after all, animal health and the health and safety of the public, the consumer, must be paramount. No-one disputes that. We all put up with some form of red tape, such as to claim child benefit or to be able to drive a car—it is all state-initiated bureaucracy—but this makes it easy for us to say, ‘Oh yes, isn’t red tape a hassle?’ but to not really comprehend how, for some people such as farmers, red tape has an entirely different connotation. I can think of no other industry where the burden of red tape is so personal, cumbersome and exhaustive and where the consequences of minor error can be so disastrous.

If I had a factory making shirts I would have inspections from the taxman, and possibly from trading standards; if I employed foreign nationals, I would have an inspection to ensure that I was not operating a sweatshop. Most of the time, the presumption would be that I was running a legitimate business, providing a service and, hopefully, on course to making a profit. Even if I had a bust up with one of the officials, I could lock up my factory and go home to regain sanity.

It is not so in farming. Farmers live in the factory and when they are subject to an inspection, even a benign one, they are already subject to more pressures than normal. Most farm offices are based in the home—very often, work is done from the kitchen table—and that is where many inspectors sit day after day and, in some cases, week after week, asking to examine the minutiae of their business.

The effect on farmers is manifold. Many farms are operated by couples with little or no help. They often have a family to run and kids to get to school as well as feeding the calves, milking, scraping the parlour and mending fences. From the farmers I know,

Ceir cynifer o feysydd y gallwn grybwyll nad yw’n bosibl imi sôn amdanynt i gyd yn y cyfnod sydd gennyf, felly yr wyf am ganolbwyntio ar ychydig o brif feysydd. Beth mae biwrocratiaeth yn ei olygu i ffermwyr mewn gwirionedd? Mae rhywfaint o fiwrocratiaeth yn hollol angenrheidiol—wedi’r cyfan rhaid i iechyd anifeiliaid, ac iechyd a diogelwch y cyhoedd, y defnyddwyr, fod o’r pwys mwyaf. Nid oes neb yn dadlau yn erbyn hynny. Yr ydym i gyd yn dioddef biwrocratiaeth ar ryw ffurf, megis ar gyfer hawlio budd-dal plant neu er mwyn cael gyrru car—mae’r cyfan yn fiwrocratiaeth a gychwynnwyd gan y wladwriaeth—ond mae hyn yn ei gwneud yn hawdd inni ddweud, ‘O ydy, tydi biwrocratiaeth yn strach?’ heb ddeall yn iawn bod gan fiwrocratiaeth arwyddocâd hollol wahanol i rai pobl, megis ffermwyr. Ni allaf feddwl am ddim un diwydiant arall lle mae byrdwn biwrocratiaeth mor bersonol, mor feichus ac mor flinderus a lle gall canlyniadau gwall bach fod mor drychinebus.

Petai gennyf ffatri yn cynhyrchu crysau byddwn yn cael archwiliadau gan y dyn treth, ac efallai gan safonau masnach; petawn yn cyflogi gwladolion tramor, byddwn yn cael archwiliad i sicrhau nad oeddwn yn rhedeg gweithdy cyflog isel. Gan amlaf, tybid fy mod yn rhedeg busnes cyfreithlon, sy’n darparu gwasanaeth a, gobeithio, ar fin gwneud elw. Hyd yn oed petawn yn cael ffrae gydag un o’r swyddogion, gallwn gau’r drws ar fy ffatri a mynd adref i bwyllo.

Nid felly y mae hi mewn ffermio. Mae ffermwyr yn byw yn y ffatri a phan gânt eu harchwilio, hyd yn oed un hynaws, maent eisoes dan fwy o bwysau na’r arfer. Mae’r rhan fwyaf o swyddfeydd ffermydd yn y cartref—yn aml iawn, caiff gwaith ei wneud ar fwrdd y gegin—a dyna lle bydd nifer o archwilwyr yn eistedd ddydd ar ôl dydd ac, mewn rhai achosion, wythnos ar ôl wythnos, yn gofyn am i archwilio manylion eu busnes.

Mae’r effaith ar ffermwyr yn amrywiol. Caiff nifer o ffermydd eu rhedeg gan gyplau gyda phrin dim help, os o gwbl. Yn aml mae ganddynt deulu i’w redeg a phlant i’w danfon i’r ysgol yn ogystal â bwydo’r lloeau, godro, carthu’r beudy a thrwsio ffensys. O’r

the farming side alone is a full-time job. If there is an inspection, one of them has to hover around ready to get whatever bit of paperwork the inspector needs while his or her other half tries to do the work of two. They have to leave the stranger in their home while they dash out to help the other move cows or sheep from one field to another; it is personal.

Let us assume that these farmers belong to an agri-environment scheme, a farm assurance scheme and have cattle, some of which produce milk and others that become burgers. There are three excellent outcomes there: environmental protection, consumer confidence and quality assurance and food to feed the nation, or part of it. That farmer would have different bodies asking for the same information and occasionally using the same inspectors. The farmer would have a beef inspection, a dairy inspection, a farm assurance inspection, mandatory tuberculosis tests, pre-movement testing, trading standards and meat hygiene inspections and then there are all the inspections and cross-compliance inspections based around the agri-environment schemes and the single farm payment. Many of these inspectors will ask the farmer for the same information time and time again.

There is a farmer in Pembrokeshire whose farm, in 2007, was subject to the following inspections: VAT, an inspection because he was employing eastern Europeans, a farm-assured beef inspection, which looked at some ear tags, passports and movement records, and a farm-assured dairy inspection conducted two to three weeks later by the same inspector, filling out the same form and looking at identical aspects of the dairy unit. Shortly after the two farm-assurance inspections, he was subject to an inspection by the Food Standards Agency, which duplicated much of what had already been done. During September, he was subject to a full single farm payment cross-compliance inspection—you can barely say it, let alone do it. The inspection took six weeks to complete and, at one stage, there were four inspectors on the farmyard at the same time,

ffermwyr yr wyf fi'n eu hadnabod, mae'r ochr ffermio ei hun yn swydd amser llawn. Os oes archwiliad, rhaid i un ohonynt sefyllian o gwmpas yn barod i gael gafael ar ba ddarn bynnag o bapur y mae ei angen ar yr archwilydd wrth i'w hanner arall geisio cyflawni gwaith dau. Rhaid iddynt adael yr unigolyn dieithr yn eu cartref wrth iddynt frysio allan i helpu'r llall i symud y gwartheg neu'r defaid o un cae i'r llall; mae'n bersonol.

Gadewch inni dybio bod y ffermwyr hyn yn perthyn i gynllun amaeth-amgylchedd, cynllun gwarant fferm a bod ganddynt wartheg, rhai ohonynt sy'n cynhyrchu llaeth ac eraill a ddaw'n fyrgyrs. Ceir tri chanlyniad gwych yn y fan honno; gwarchodaeth amgylcheddol, hyder defnyddwyr a sicrhau ansawdd a bwyd i fwydo'r genedl, neu ran ohoni. Byddai'r ffermwr hwnnw'n cael cyrrff gwahanol yn gofyn am yr un wybodaeth ac o bryd i'w gilydd yn defnyddio'r un archwilwyr. Byddai'r ffermwr yn cael archwiliad eidion, archwiliad llaeth, archwiliad gwarant fferm, profion tiwbercwlosis gorfodol, profion cyn symud, archwiliadau safonau masnach a hylendid cig ac wedyn ceir yr holl archwiliadau ac archwiliadau trawsgydymffurfio sy'n ymwneud â chynlluniau amaeth-amgylchedd a'r taliad sengl. Bydd nifer o'r archwilwyr hyn yn gofyn i'r ffermwr am yr un wybodaeth dro ar ôl tro.

Ceir ffermwr yn sir Benfro a gafodd yr archwiliadau canlynol ar ei fferm yn ystod 2007; TAW, archwiliad oherwydd ei fod yn cyflogi pobl o ddwyrain Ewrop, archwiliad eidion gwarant fferm, a oedd yn edrych ar rai tagiau clust, pasportau a chofnodion symudiadau, ac archwiliad llaeth gwarant fferm a gynhaliwyd ddwy neu dair wythnos yn ddiweddarach gan yr un arolygydd, a oedd yn golygu llenwi'r un ffurflen ac edrych ar union yr un agweddau ar yr uned laeth. Yn fuan ar ôl y ddau archwiliad gwarant fferm, cafodd archwiliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a ddyblygodd lawer o'r hyn yr oedd eisoes wedi'i wneud. Yn ystod mis Medi, cafodd archwiliad trawsgydymffurfio taliad sengl llawn—prin y gallwch ei ynganu, heb sôn am ei gyflawni. Cymerwyd chwe wythnos i gwblhau'r archwiliad ac, ar un adeg, yr oedd pedwar archwilydd ar fuarth y

examining different aspects of his business. The inspectors went through the business with what the farmer could only describe as a fine-toothed comb. While the cross-compliance inspection was in progress, the same farmer also became due for a whole-herd TB test, which was also conducted at the same time. That is one farm and one farmer; multiply that across Wales.

Is this information necessary? Who wants it? What are they going to do with it? Can someone please tell me why, in some schemes, it is necessary to count the number of tree stumps in an unmanaged woodland? Who needs that information and what will they do with it? Or is it a case, like so much information, of the boxes being ticked and then shoved into a drawer? So many of these regulations fly in the face of common sense that it becomes obvious that many are crafted by individuals with little exposure to any part of the agricultural industry. The Eves report, which was mandated to examine animal health and welfare delivery in England, was published in June 2006, and it noted that:

‘The frameworks are legalistic, over-complicated and contain multiple duplications.’

We have the same frameworks in Wales. Who wants all this information? Which state are we talking about? The EU has produced such a mountain of bureaucracy that nations, let alone individuals, can barely withstand the onslaught. I do not have time to go into some of the nonsense coming out of Brussels, but a major concern is that we take European regulations and then go mad. The Department for Environment, Food and Rural Affairs constantly introduces additional regulations on top of an EU directive. Why?

Do not misunderstand me—we need regulation and we must ensure that it is followed, but it is a question of the how and the why. We must ensure that it is necessary, logical, efficient and fair. After all, we have a situation where the industry in Wales has

fferm ar yr un pryd, yn archwilio agweddau gwahanol ar ei fusnes. Aeth yr archwilwyr drwy'r busnes gyda chrib mân oedd yr unig ddisgrifiad y gallai'r ffermwr ei roi. Pan oedd yr archwiliad trawsgydymffurfio ar waith, yr oedd yr un ffermwr i fod i gael prawf TB ar gyfer y fuches gyfan, a gynhaliwyd ar yr un pryd. Un fferm yw honno ac un ffermwr; lluosogwch hynny ledled Cymru.

A yw'r wybodaeth hon yn angenrheidiol? Pwy sydd eisiau'r wybodaeth hon? Beth fyddant yn ei wneud â hi? A all rhywun ddweud wrthyf pam mae angen, mewn rhai cynlluniau, cyfrif nifer y boncyffion coed mewn coetir na chaiff ei reoli? Pwy sydd angen y wybodaeth honno a beth fyddant yn ei wneud â hi? Neu a oes gennym achos yma, yn yr un modd â gyda chymaint o wybodaeth, o dicio'r blychau a thaflu'r papur mewn drôr wedyn? Mae cynifer o'r rheoliadau hyn yn mynd yn groes i synnwyr cyffredin ei bod yn amlwg iddynt gael eu llunio gan unigolion sydd â phrin ddim profiad o unrhyw ran o'r diwydiant amaethyddol. Cyhoeddwyd adroddiad Eves ym mis Mehefin 2006. Cafodd yr adroddiad fandad i archwilio darparu iechyd a lles anifeiliaid yn Lloegr, a nododd yr adroddiad hwnnw:

Mae'r fframweithiau'n ddeddfol, yn rhy gymhleth ac yn dyblygu nifer o bethau.

Mae'r un fframweithiau gennym yng Nghymru. Pwy sydd eisiau'r holl wybodaeth hon? Pa wladwriaeth yr ydym yn sôn amdani? Mae'r UE wedi cynhyrchu cymaint o fiwrocratiaeth mai prin y gall gwledydd, heb sôn am unigolion, wrthsefyll y don. Nid oes gennyf amser i drafod rhywfaint o'r nonsens a ddaw o Frwsel, ond pryder mawr yw ein bod yn cymryd rheoliadau Ewropeaidd ac wedyn yn mynd yn wallgof. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cyflwyno rheoliadau ychwanegol yn gyson ar ben cyfarwydddebau'r UE. Pam?

Peidiwch â'm camddeall—mae angen rheoliadau arnom a rhaid inni sicrhau y glynnir wrthynt, ond mae a wnelo hyn â'r sut a'r pam. Rhaid inni sicrhau eu bod yn angenrheidiol, yn rhesymegol, yn effeithlon ac yn deg. Wedi'r cyfan, mae gennym

suffered financial hardship because of the right and proper restrictions put in place due to the foot and mouth disease outbreak in England. How can the Government then have such a relaxed attitude towards imports from Brazil where foot and mouth disease is endemic?

sefyllfa lle mae'r diwydiant yng Nghymru wedi dioddef caledi ariannol oherwydd y cyfyngiadau iawn a phriodol a roddwyd ar waith yn ystod yr achosion o glwy'r traed a'r genau yn Lloegr. Sut y gall y Llywodraeth wedyn fod ag agwedd mor ddidaro at fewnforion o Frasil lle mae clwy'r traed a'r genau yn endemig?

2.10 p.m.

The European Union's Food and Veterinary Office says that there is no systematic audit system for animal health in Brazil, but we allow imports while curtailing the activities of our own farmers.

Dywed Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth yr Undeb Ewropeaidd nad oes system archwilio systematig ar gyfer iechyd anifeiliaid ym Mrasil, ond yr ydym yn caniatáu mewnforion ar yr un pryd â chwtoigi ar weithgareddau ein ffermwyr ein hunain.

Do we have all of the answers? No-one has all of the answers—but we have some of them. We want to see the recommendations of the Eves report actioned here in Wales. We want to get on with a programme of red-tape slashing. We all know what has to be done. Ask Eves, Madders, the National Farmers Union of Wales, the Farmers Union Wales, or any farmer.

A yw'r holl atebion gennym? Nid oes gan neb yr holl atebion—ond mae rhywfaint ohonynt gennym. Mae arnom eisiau gweld argymhellion adroddiad Eves yn cael eu rhoi ar waith yma yng Nghymru. Mae arnom eisiau bwrw ymlaen â rhaglen o ddileu biwrocratiaeth. Yr ydym i gyd yn gwybod yr hyn y mae'n rhaid ei wneud. Holwch Eves, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru neu unrhyw ffermwr.

We want to see increased information sharing between Whitehall departments, local authorities, the Welsh Assembly Government and other statutory bodies, with the goal of setting up a single inspection body. We should look at how the Australians have implemented just such a model—it is efficient, and it works, and that is why we will be supporting amendment 3.

Mae arnom eisiau gweld rhagor o rannu gwybodaeth rhwng adrannau yn Whitehall, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff statudol eraill, gyda'r nod o sefydlu un corff archwilio. Dylem edrych ar sut y mae'r Awstraliaid wedi gweithredu model o'r fath—mae'n effeithlon ac mae'n gweithio, a dyna pam fyddwn yn cefnogi gwelliant 3.

We want Wales to become more effective at lobbying Brussels. The European Union will review farm subsidies in 2009, and the budget will be up for negotiation. We need to be pre-emptive, and to get in there and take advantage of a golden opportunity to reform and modernise the regulations. We cannot leave it to DEFRA—its track record is not good enough.

Yr ydym am i Gymru allu lobiö Brwsel yn fwy effeithiol. Bydd yr Undeb Ewropeaidd yn adolygu cymorthdaliadau ffermydd yn 2009, a bydd modd trafod y gyllideb. Mae angen inni achub y blaen, a bwrw iddi a manteisio ar gyfle euraid i ddiwygio a moderneiddio'r rheoliadau. Ni allwn adael hyn i DEFRA—nid yw ei record yn ddigon da.

We want the enforcers of regulations to take a long hard look at their attitudes and at the culture that they engender. There is a tendency to use all these swingeing regulations to corral, nitpick, punish and

Yr ydym am i'r rheiny sy'n gorfodi rheoliadau edrych yn ofalus ar eu hagweddau ac ar y diwylliant y maent yn ei feithrin. Ceir tueddiad i ddefnyddio'r holl reoliadau llethol hyn i gorlannu, i bigo beiau, i gosbi ac i osgoi

avoid payment. All too often there is an assumption that the farmer is on the fiddle, and it is all about catching them out and saving money.

Finally, we want farmers, and the industry as a whole, to feel like a valued sector of the nation. We often talk here about factories closing, and groups of people being badly affected. It is easy to comprehend the hardship facing the employees of Alphasteel (UK) Ltd in Newport, for example—because they are a consolidated group—but it is not so easy to see hardship when it is spread over 8,000 square miles. There are 37,000 people working in the agricultural industry in Wales, and that does not include all the associated industries. Please think about that when you come to vote. I commend this motion to the Chamber.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I propose amendment 1 in the name of Carwyn Jones. Delete all after the National Assembly for Wales and replace with:

*acknowledges the need to minimise regulatory burden on farmers within the requirements of European and domestic legislation.*

**Mick Bates:** I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

*calls on the Welsh Assembly Government to reduce red tape and bureaucracy by moving towards unified on-farm inspection audits.*

Amendment 3: add as a new point at the end of the motion:

*regrets the administrative and regulatory discrepancies that lead to a number of Tir Gofal payments being delayed and calls on the WAG to ensure that this does not happen again.*

This is a unique occasion: the Government has responded to the debate in advance.

talau. Yn rhy aml o lawer ceir tybiaeth bod y ffermwyr yn pluo ei nyth, ac mae'r cyfan yn ymwneud â'u dal nhw'n gwneud hynny ac arbed arian.

Yn olaf, yr ydym am i ffermwyr, a'r diwydiant yn ei gyfanrwydd, deimlo eu bod yn sector o'r genedl a werthfawrogir. Byddwn yn aml yn siarad yma am ffatrioedd yn cau a grwpiau o bobl yr effeithir yn andwyol arnynt. Hawdd yw deall y caledi sy'n wynebu gweithwyr Alphasteel (DU) Cyf yng Nghasnewydd, er enghraifft—oherwydd eu bod yn grŵp cyfun—ond nid yw mor rhwydd gweld caledi pan fydd wedi'i ledaenu dros 8,000 milltir sgwâr. Mae dros 37,000 o bobl yn gweithio yn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru, ac nid yw hynny'n cynnwys yr holl ddiwydiannau cysylltiedig. A fydddech gystal ag ystyried hynny pan fyddwch yn pleidleisio. Yr wyf yn cymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Cynigïaf welliant 1 yn enw Carwyn Jones. Dileu popeth ar ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoi yn ei le:

*yn cydnabod yr angen i leihau'r baich rheoleiddiol ar ffermwyr gymaint â phosibl o fewn gofynion deddfwriaeth ewropeaidd a domestig.*

**Mick Bates:** Cynigïaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i leihau biwrocratiaeth a mân reolau drwy symud tuag at archwiliadau ar y fferm unedig.*

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu wrth yr anghysondebau gweinyddol a rheoleiddiol a arweiniodd at oedi cyn rhyddhau taliadau Tir Gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.*

Mae hwn yn achlysur unigryw; mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'r ddadl ymlaen

Congratulations to the Welsh Conservatives for their part in that. I wonder whether the Minister's motive was common sense or simple panic. I believe that all such announcements should be made here in the Chamber, so that all Members, as well as all farmers' unions, hear them at the same time. I would like the Minister to reconsider her attitude to making these announcements in what appears to be quite a random way. I hope that she will take my advice that such announcements should be made here in the Chamber for all Members.

I congratulate the Welsh Conservatives for bringing forward this motion, which we support. I cannot support the Government's amendment 1—it is far too woolly, and it betrays the attitude of previous Governments. Many Governments have tried to produce results in this area, and it is as well to recognise the political expediencies that have developed as farming support moneys have moved from pillar 1 to pillar 2. A great many farmers—and the age profile of the business suggests that many of them stay on, with the average age approaching 58—are used to different, much simpler systems. I believe that if we take that into account, it can be a significant factor in sympathising with their position, and as I will explain, that could lead to a win-win situation.

The change from pillar 1 to pillar 2 in terms of farmer support money has resulted in a great achievement: there are more agri-environment schemes, and, politically, such schemes are much in demand. I think that everyone, including the civil servants who work so hard to ensure that payments are made, recognises that the emergence of such schemes has made the whole system more burdensome. If the Minister takes action in line with her statement prior to this debate, there could be a win-win situation: in reducing the burden of bureaucracy, the farmers' lives become more straightforward, and that would make the lives of the civil servants who implement these regulations easier as well, and we would create systems that make the payment of subsidies more effective and more efficient, thereby removing the annual question of why

llaw. Llongyfarchiadau i'r Ceidwadwyr Cymreig am eu rhan yn hynny o beth. Tybed ai synnwyr cyffredin oedd cymhelliant y Gweinidog ynteu banig. Credaf y dylid gwneud pob cyhoeddiad o'r fath yma yn y Siambr, er mwyn i'r holl Aelodau, yn ogystal â'r holl undebau amaethwyr, eu clywed ar yr un pryd. Hoffwn i'r Gweinidog ailystyried ei hagwedd at wneud y cyhoeddiadau hyn mewn ffordd sydd i bob golwg yn gwbl ar hap. Gobeithiaf y bydd yn ystyried fy nghyngor y dylid gwneud cyhoeddiadau o'r fath yma yn y Siambr ar gyfer pob Aelod.

Yr wyf yn llongyfarch y Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r cynnig hwn, a gefnogwn. Ni allaf gefnogi gwelliant 1 y Llywodraeth—mae'n rhy niwlog o lawer, ac mae'n bradychu agwedd Llywodraethau'r gorffennol. Mae nifer o Lywodraethau wedi ceisio cynhyrchu canlyniadau yn y maes hwn, ac mae'n bwysig cydnabod y manteision gwleidyddol a ddatblygwyd wrth i arian cefnogaeth ffermio gael ei symud o golofn 1 i golofn 2. Mae nifer fawr o ffermwyr—ac mae proffil oedran y busnes yn awgrymu bod nifer ohonynt yn aros ymlaen, gyda'r oed cyfartalog yn dynesu at 58—wedi arfer â systemau gwahanol a'r rheiny'n symlach o lawer. Os ystyriwn hynny, credaf y gall fod yn ffactor arwyddocaol o ran cydymdeimlo â'u sefyllfa, ac fel y byddaf yn egluro, gallai hynny arwain at sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill.

Mae newid arian cefnogaeth ffermio o golofn 1 i golofn 2 wedi arwain at lwyddiant mawr: ceir mwy o gynlluniau amaeth-amgylchedd, ac, yn wleidyddol, ceir cryn alw am gynlluniau o'r fath. Credaf fod pawb, gan gynnwys y gweision sifil sy'n gweithio mor ddiwyd i sicrhau y caiff y taliadau eu gwneud, yn cydnabod bod cyflwyno cynlluniau o'r fath wedi ychwanegu at fyrdwn yr holl system. Os bydd y Gweinidog yn gweithredu yn unol â'r datganiad cyn y ddadl hon, gellid cael sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill; drwy leihau byrdwn biwrocratiaeth, bydd bywydau'r ffermwyr yn symlach a byddai hynny'n gwneud bywydau'r gweision sifil sy'n gweithredu'r rheoliadau hyn yn haws hefyd, a byddem yn creu systemau sy'n gwneud y drefn i dalu'r cymorthdaliadau yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon, gan gael gwared drwy hynny ar y

payments are not made on time. This would be a win-win scenario.

I will deal specifically with amendment 2, while Eleanor Burnham will deal with amendment 3 with regard to late payments.

With regard to duplication, Angela gave some excellent examples of how farms, farmers and the farming industry are subject to duplication through inspections that amount to the same thing, which means that they are totally unnecessary. That rare thing called 'common sense' is needed in this debate. I hope that the Minister recognises the problem in her response—it is stupid to have people visiting farms to carry out farm assurance inspections for livestock, for dairy and for cross-compliance when they all amount to the same thing. If you are a dairy farmer, you will even have a dairy inspection on top of that, which is exactly the same as the farm assurance inspection. Bear in mind that farmers run businesses, and when they see these different people arriving, they think, 'For goodness' sake, how much does it cost to send all these bureaucrats to the farms?', and some farms are particularly remote. It could all be done in one easy inspection.

Part of the problem is that there has not been a Government brave enough to establish a unified inspection scheme. The challenge to the Minister today is to have a bit of courage, because the FUW and the NFU have on many occasions asked for such a unified scheme. I believe that most parties also understand the reason for such a scheme, so let us do it. There must be acknowledgement of the need for a proper training programme for inspectors who visit farms so that we can have the unified system that so many of us want to see.

Finally, often overlooked in this process is the fact that the commercial position of a great many of our hill farms in particular is not healthy. If it were not for the single farm payment and the agri-environment payments, most of these family businesses would fold.

cwestiwn blynyddol—pam nad yw'r taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon? Byddai pawb yn ennill mewn senario felly.

Byddaf fi'n delio'n benodol â gwelliant 2, tra bydd Eleanor Burnham yn delio â gwelliant 3 ynglŷn â thaliadau hwyr.

O ran dyblygu, rhoddodd Angela rai enghreifftiau rhagorol o'r ffordd y mae ffermwyr a'r diwydiant ffermio yn wynebu dyblygu drwy archwiliadau sydd yr un fath i bob diben, sy'n golygu eu bod yn gwbl ddianghenraid. Mae angen y peth prin hwnnw a elwir yn 'synnwyr cyffredin' yn y ddadl hon. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn cydnabod y broblem yn ei hymateb—twpdra yw cael pobl yn ymweld â ffermydd i gynnal archwiliadau gwarant fferm ar dda byw, ar y fuches odro ac o safbwynt trawsgydymffurfio a hwythau i gyd yr un peth i bob diben. Os ydych yn ffermwr llaeth, bydd yn rhaid hyd yn oed ichi gael archwiliad llaeth ychwanegol ar ben hynny, sy'n union yr un peth â'r archwiliad gwarant fferm. Cofiwch mai rhedeg busnesau y mae ffermwyr, a phan fyddant yn gweld y gwahanol bobl hyn yn cyrraedd, maent yn meddwl, 'Er mwyn popeth, faint mae'n ei gostio i anfon yr holl fiwrocratiaid hyn i'r ffermydd?', ac mae rhai ffermydd yn neilltuol o ddiarffordd. Gellid gwneud y cyfan mewn un archwiliad hawdd.

Rhan o'r broblem yw na fu Llywodraeth a oedd yn ddigon dewr i sefydlu cynllun archwilio unedig. Yr her i'r Gweinidog heddiw yw bod yn ddewr, oherwydd mae Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi gofyn droeon am gynllun unedig o'r fath. Credaf fod y rhan fwyaf o bartion hefyd yn deall y rheswm o blaid cynllun o'r fath, felly gadewch inni wneud hynny. Rhaid cydnabod yr angen am raglen hyfforddi briodol i archwilwyr sy'n ymweld â ffermydd fel y gallwn gael y system unedig y mae cynifer ohonom am ei gweld.

Yn olaf, un ffaith a anwybyddir yn aml yn y broses hon yw nad yw sefyllfa fasnachol llawer iawn o'n ffermydd mynydd yn iach. Oni bai am y taliad sengl a'r taliadau amaeth-amgylcheddol, byddai'r rhan fwyaf o'r busnesau teuluol hyn yn mynd i'r clawdd.



We would do well to recognise the importance of these payments. So, if a small mistake is made, or if all these inspections start to get to them, the anxiety levels of hill farmers grow. It is important to relieve some of that anxiety by admitting that it is possible and it can be done. Let us hope that this debate will achieve that.

**Brynle Williams:** First, I thank Angela and Mick for their contributions. I express my surprise that only six months into a Labour-Plaid coalition, it has already run out of ideas, and it has started this year by adopting Welsh Conservative policies. Anyway, let us get on with the debate.

Far too much red tape has been dumped on the agriculture industry, with little appreciation of what it means for farmers. There is a clear case for a comprehensive and wide-ranging campaign to get rid of useless regulations, and to put an end to the inefficiency that is built into the current inspection system. Obviously, it is far easier to change ineffective legislation when it is being drawn up in Europe, but thanks to successive Labour Governments that have been indifferent to the farming industry, Wales has suffered over a decade of neglect and the gold-plating of countless regulations direct from the EC.

We have the fallen stock regulations, which were designed to protect the high water tables of the Low Countries of Holland and Belgium, and other such places. Ladies and gentlemen, many farmers live in the uplands of Wales, and not just in the uplands, but away from water catchment areas in most cases. The Minister will know full well that there was never a problem with farmers burying stock on their land. I welcome the fact that the Assembly Government has finally started to trial biodigesters, which the Welsh Conservatives have called for ever since the fallen stock regulations were announced. However, even if they were rolled out to every farm in Wales, EU animal by-products regulations stop the waste product from being used for sustainable

Byddai'n ddoeth inni gydnabod pwysigrwydd y taliadau hyn. Felly, os gwneir camgymeriad bach, neu os yw'r holl archwiliadau hyn yn dechrau dweud arnynt, mae lefelau pryder ffermwyr mynydd yn cynyddu. Mae'n bwysig lliniaru rhywfaint ar y pryder hwnnw drwy gyfaddef ei fod yn bosibl a bod modd ei wneud. Gadewch inni obeithio y gwnaiff y ddadl hon gyflawni hynny.

**Brynle Williams:** Yn gyntaf, diolchaf i Angela a Mick am eu cyfraniadau. Mynegaf fy syndod, chwe mis yn unig ar ôl llunio'r glymblaid Llafur-Plaid, ei bod eisoes wedi mynd yn brin o syniadau, a'i bod wedi dechrau'r flwyddyn hon drwy fabwysiadu polisïau Ceidwadwyr Cymru. Beth bynnag, gadewch inni fwrw ymlaen â'r ddadl.

Mae llawer gormod o fiwrocraatiaeth wedi cael ei dywallt ar y diwydiant amaethyddol, heb brin sylweddoli beth y mae'n ei olygu i ffermwyr. Mae achos clir o blaid ymgyrch gynhwysfawr ac eang ei chwmpas i gael gwared â rheoliadau diwerth, ac i roi terfyn ar yr aneffeithlonrwydd sydd wedi'i ymgorffori yn y system archwilio ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae'n llawer haws newid deddfwriaeth aneffeithiol pan fydd yn cael ei llunio yn Ewrop, ond diolch i Lywodraethau Llafur olynol sydd wedi bod yn ddifater ynglŷn â'r diwydiant ffermio, mae Cymru wedi dioddef dros ddegawd o esgeulustod ac wedi gweld rheoliadau di-rif yn cael eu hamenio'n uniongyrchol o CE.

Mae gennym y rheoliadau stoc trig, a gynlluniwyd i warchod lefelau trwythiad uchel Iseldiroedd Holand a Gwlad Belg, a lleoedd eraill o'r fath. Foneddigion a foneddigesau, mae llawer o ffermwyr yn byw ar uwchdiroedd Cymru, ac nid dim ond yn yr uwchdiroedd, ond bellter oddi wrth ddalgylchoedd dŵr yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y Gweinidog yn gwybod yn iawn nad oedd problem erioed gyda ffermwyr yn claddu stoc ar eu tir. Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad o'r diwedd wedi dechrau treialu biodreulwyr, rhywbeth y mae Ceidwadwyr Cymru wedi galw amdano ers cyhoeddi'r rheoliadau stoc trig. Fodd bynnag, hyd yn oed pe caent eu cyflwyno i bob fferm yng Nghymru, mae rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid yr UE yn atal y

energy generation in an anaerobic digester, and that means that carcasses have to be transported miles away for incineration.

cynnyrch gwastraff rhag cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni cynaliadwy mewn treulydd anaerobig, ac mae hynny'n golygu bod raid i garcasau gael eu cludo filltiroedd i gael eu llosgi.

2.20 p.m.

Thanks to the gold-plating of these EU regulations there is a cost to farm businesses, a cost to the Government, which has paid out millions of pounds to subsidise fallen stock collections, and an environmental carbon cost from the transportation and forced incineration of waste.

Diolch i'r amenio ar y rheoliadau hyn o eiddo'r UE, mae cost i fusnesau fferm, cost i'r Llywodraeth, sydd wedi talu miliynau o bunnoedd fel cymhorthdal i gasgliadau stoc trig, a chost carbon amgylcheddol yn sgil y cludo a'r orfodaeth i losgi gwastraff.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 2.20 p.m.  
Peter Black took the Chair at 2.20 p.m.*

Red tape is not just strangling farm businesses, but it is holding other industries back and it totally undermines any idea that Labour may have of genuine interest in a sustainable rural Wales.

Mae biwrocratiaeth nid yn unig yn tagu busnesau fferm, ond mae'n dal diwydiannau eraill yn ôl ac mae'n llwyr danseilio unrhyw syniad y gallai fod gan Lafur ddiddordeb diffuant mewn Cymru wledig gynaliadwy.

In addition, the industry has to cope with the animal transport regulations that will mean that men and women of my age, who have driven trailers or livestock lorries for the last 30 to 40 years, will have to face a written test. There is a six-page application form to fill before you take the test. I have no objection to improving animal health and welfare in transit, but these regulations will bring no practical benefits and will only add to the mountain of bureaucracy that farmers have to work through.

Yn ogystal, mae'r diwydiant wedi gorfod ymdopi â'r rheoliadau cludo anifeiliaid a fydd yn golygu y bydd dynion a menywod o'm hoedran i, sydd wedi gyrru trelars neu lorïau da byw am y 30 i'r 40 mlynedd diwethaf, bellach yn gorfod wynebu prawf ysgrifenedig. Mae ffurflen gais chwe thudalen i'w llenwi cyn ichi sefyll y prawf. Nid oes gennyf wrthwynebiad i wella iechyd a lles anifeiliaid pan fyddant ar y ffordd, ond ni fydd y rheoliadau hyn yn dod ag unrhyw fudd ymarferol ac ni fyddant ond yn ychwanegu at y mynydd o fiwrocratiaeth y mae rhaid i ffermwyr weithio drwodd.

Incidentally, I was just reading one of the conditions whereby you have to place animals in family social groups when loading them onto vehicles. The next paragraph tells you that you have to separate animals according to their size. What do I do? Do I put the ewe with her twin lambs in a trailer compartment, or do I separate the lambs from the ewes? I do not know; it is all rather conflicting.

Gyda llaw, yr wyf newydd ddarllen un o'r amodau sy'n dweud ei bod yn rhaid ichi roi anifeiliaid mewn grwpiau cymdeithasol teuluol wrth eu llwytho ar gerbydau. Dywed y paragraff nesaf wrthyh ei bod yn rhaid ichi wahanu anifeiliaid yn ôl eu maint. Beth ddylwn i ei wneud? A wyf yn rhoi'r famog a'i gefeiliaid mewn adran yn y trelar, ynteu a wyf yn gwahanu'r ŵyn oddi wrth y mamogiaid? Ni wn, mae'r cyfan yn groes i'w gilydd.

**Elin Jones:** I draw your attention to the fact that when these regulations were discussed and voted upon in the Assembly, you did not

**Elin Jones:** Tynnaf eich sylw at y ffaith na phleidleisioch chi yn erbyn y rheoliadau hyn, pan gawsant eu trafod ac y pleidleisiwyd

vote against the regulations.

**Brynle Williams:** I did raise these concerns at the time. Regrettably in this instance, but also thankfully, we live in a democratic country where the majority wins.

Incidentally, certificates for experienced people will cost between £30 and £200 and will be rolled out in April for all journeys under eight hours or 40 kilometres. There will be chaos. How has the Assembly Government done such a poor job of letting farmers know what is happening? I am regularly asked in the markets in north Wales, 'Beth ydyw'r lol yma? What is this nonsense about having certificates to tow trailers?'

Even then, the regulations will be inconsistent. I have had incidences quoted to me of French farmers having their certificates free of charge if they simply go to a magistrate or mayor and swear that they have experience in hauling livestock.

There is also the issue of nitrate vulnerable zones. I live in the first nitrate vulnerable zone, and the A55 is polluting the groundwater that is supplying Prestatyn as there are no run-off filters, yet we are told that we have to maintain slurry for 22 weeks of the year. The question needs to be answered, but I dread to think what will happen when we all go out to spread slurry on the first open day and we have continuous rain.

Farm businesses have suffered long enough due to the gold-plated regulations and inspection systems where duplication and inefficiency are routine. Four years ago, the then Minister assured us in the Chamber that with the advent of the single farm payments we would see a reduction in bureaucracy and inspections. Like many other promises from Labour Governments the exact opposite has happened. Rural Wales and the taxpayer deserve much better and I hope that the Plaid Minister will support this campaign.

**Joyce Watson:** I welcome the debate.

arnynt yn y Cynulliad.

**Brynle Williams:** Codais y pryderon hyn ar y pryd. Yn anffodus yn yr achos hwn, er fy mod hefyd yn ddiolchgar am hynny, yr ydym yn byw mewn gwlad ddemocrataidd lle mae'r mwyafrif yn ennill.

Gyda llaw, bydd tystysgrifau i bobl brofiadol yn costio rhwng £30 a £200 a chânt eu cyflwyno ym mis Ebrill ar gyfer pob siwrnai o dan wyth awr neu 40 cilometr. Bydd anhrefn. Sut mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud gwaith mor sâl o roi gwybod i ffermwyr beth sy'n digwydd? Gofynnir imi'n rheolaidd yn y marchnadoedd yn y Gogledd, 'What is this nonsense? Beth ydyw'r lol yma am orfod cael tystysgrifau i dynnu trelar?'

Hyd yn oed wedyn, bydd y rheoliadau'n anghyson. Cafodd nifer o achosion eu dwyn i'm sylw lle mae ffermwyr yn Ffrainc yn cael eu tystysgrifau am ddim ond iddynt fynd at ynad neu faer a thyngu llw bod ganddynt brofiad o gludo da byw.

Mae'r mater hefyd ynglŷn â pharthau perygl nitradau. Yr wyf yn byw yn y parth perygl nitradau cyntaf, a'r A55 sy'n llygru'r dŵr daear sy'n cyflenwi Prestatyn gan nad oes hidlenni dŵr ffo, ond dywedir wrthym ni ei bod yn rhaid inni gadw slyri am 22 wythnos y flwyddyn. Mae angen ateb i'r cwestiwn, ond yr wyf yn arswydo rhag yr hyn a wnaiff ddigwydd pan aiff pob un ohonom allan i daenu slyri ar y diwrnod agored cyntaf a'n bod yn cael glaw di-dor.

Mae busnesau fferm wedi dioddef yn ddigon hir oherwydd y rheoliadau sy'n cael eu hamenio a systemau archwilio lle ceir dyblygu ac aneffeithlonrwydd fel mater o drefn. Bedair blynedd yn ôl, rhoddodd y Gweinidog ar y pryd sicrwydd inni yn y Siambr y byddem, gyda dyfodiad y taliadau sengl, yn gweld lleihad yn y fiwrocratiaeth a'r archwiliadau. Fel llawer o addewidion eraill gan Lywodraethau Llafur, y gwrthwyneb llwyr sydd wedi digwydd. Mae'r Gymru wledig a'r trethdalwr yn haeddu llawer gwell a gobeithiaf y bydd Gweinidog y Blaid yn cefnogi'r ymgyrch hon.

**Joyce Watson:** Croesawaf y ddadl. Mae cael

Having this debate today, in the first week of business in 2008, after a year which presented so many difficulties for the farming industry, rightly recognises that farming and agriculture are at the forefront of the political agenda in Wales. The issue of red tape being a burden on farmers is common to this debate. Indeed, at this week's FUW buffet breakfast, which I attended, it was highlighted as an issue that resonates throughout the industry. Therefore, I welcomed the Minister's announcement of a review of all checks and inspections and the commitment to further reduce the burdens on farmers, where burdens exist and where solutions can be found within the legal framework.

The Welsh Assembly Government has successfully promoted joined-up working in other areas of service delivery, such as the public sector. Therefore, it follows that the same thinking is applied to the question of how Government, together with inspection bodies, might better co-ordinate work and share information to avoid duplication of work for the farmer and the inspector alike. However, the specific nature of aspects of the on-farm inspection means that a unified approach is not always an option. Different criteria for land inspection demand different expertise, and where public money is allocated there is a responsibility on the part of Government to provide all the necessary checks to ensure the proper procedure is followed and to maintain public confidence in the way in which public funds are spent.

**Andrew R.T. Davies:** Will the Member give way?

**Joyce Watson:** No. This debate should be viewed in the context of what has been done and is being done to reduce the burden of bureaucracy on farmers. The introduction of the single farm payment made a considerable impact in reducing bureaucracy, simplifying the old system whereby farmers had to make applications for a multitude of separate payments—a process that was frustrating for farmers and that represented an inefficient use of resources and public money. The health check of the CAP and the proposal for

y ddadl hon heddiw, yn yr wythnos waith gyntaf yn 2008, ar ôl blwyddyn a achosodd gynifer o anawsterau i'r diwydiant ffermio, yn cydnabod yn briodol bod ffermio ac amaethyddiaeth ar flaen yr agenda wleidyddol yng Nghymru. Mae'r mater bod biwrocratiaeth yn faich ar ffermwyr yn gyffredin i'r ddadl hon. Yn wir, ym mrecwast bwffe Undeb Amaethwyr Cymru yr wythnos hon, brechwast y bûm i iddo, tynnwyd sylw ato fel mater sy'n cyseinio drwy'r diwydiant. Felly, croesawaf gyhoeddiad y Gweinidog am adolygiad o'r holl wiriadau ac archwiliadau a'r ymrwymiad i leihau'r baich ar ffermwyr ymhellach, lle mae beichiau'n bodoli a lle mae modd canfod atebion o fewn y fframwaith cyfreithiol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hyrwyddo gweithio cydgysylltiedig yn llwyddiannus mewn meysydd cyflenwi gwasanaethau eraill, megis y sector cyhoeddus. Felly, mae'n dilyn bod yr un meddylfryd yn cael ei gymhwyso i'r cwestiwn sut y gallai'r Llywodraeth, ynghyd â chyrrff archwilio, gyd-drefnu gwaith a rhannu gwybodaeth yn well i osgoi dyblygu gwaith i'r ffermwr a'r archwiliwr fel ei gilydd. Fodd bynnag, mae natur benodol agweddau o'r archwiliad ar y fferm yn golygu nad yw dull gweithredu unedig yn opsiwn bob amser. Mae gwahanol feini prawf wrth archwilio tir yn galw am arbenigedd gwahanol, a lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu mae cyfrifoldeb ar y Llywodraeth i ddarparu'r holl wiriadau angenrheidiol i sicrhau y dilynir y drefn briodol ac i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario.

**Andrew R.T. Davies:** A wnaiff yr Aelod ildio?

**Joyce Watson:** Na wnaif. Dylid ystyried y ddadl hon yng nghyd-destun yr hyn sydd wedi cael ei wneud a'r hyn sy'n cael ei wneud i leihau baich biwrocratiaeth ar ffermwyr. Cafodd cyflwyno'r taliad sengl effaith sylweddol yn lleihau biwrocratiaeth, yn symleiddio'r hen system lle'r oedd rhaid i ffermwyr wneud cais am lawer o daliadau gwahanol—proses a oedd yn achosi rhwystredigaeth i ffermwyr ac a oedd yn cynrychioli defnydd aneffeithlon o adnoddau ac arian cyhoeddus. Mae'r archwiliad iechyd

merging the 28 different regulations on the common market organisations show that this process of further simplifying the industry is ongoing at EU and national levels. In Wales, we have safeguarded the three divisional offices that allow farmers to cut right through red tape that exists elsewhere and give them direct access to the process of dealing with enquiries and claims.

**Alun Cairns:** Will the Member give way?

**Joyce Watson:** I am not taking an intervention—[*Interruption.*]

**Peter Black:** Order.

**Joyce Watson:** It is important that we look at how the system can be further improved by considering recommendations from work such as the Eves report. It is also important that we continue to ensure that public money is accounted for with rigorous checks, and that we work within the legal remit to achieve the best results for farmers. In Wales, we produce some of the finest food in the world, and the systems in place are vital for supporting farmers and ensuring that the public can be confident in, and respectful of, the process from farm to fork.

**William Graham:** I wonder whether I might preface my remarks on this occasion with the comment that I will be slightly more subjective than usual, because I stand involved but slightly detached in this matter. For many years, my wife and I have kept a flock of pedigree Suffolk sheep, purely as a hobby, I hasten to add. At least I am involved and I understand, which means that I can be sympathetic and, I hope, speak with some authority. Over the past 25 years, there has been a remarkable increase in legislation, which is partly to be welcomed. However, it imposed an intolerable burden on anybody who keeps livestock of any kind, without product or any true benefit to the people engaged in the industry. An experienced shepherd—and I am certainly not one myself—can tell from a distance the number of a sheep because of the notches on the ear.

o'r PAC a'r cynnig i uno'r 28 o reoliadau gwahanol sy'n berthnasol i sefydliadau'r farchnad gyffredin yn dangos bod y broses hon o symleiddio'r diwydiant ymhellach yn mynd rhagddi ar lefel yr UE a'r lefel genedlaethol. Yng Nghymru, yr ydym wedi diogelu'r tair swyddfa ranbarthol sy'n caniatáu i ffermwyr dorri drwy'r fiwrocratiaeth sy'n bodoli mewn mannau eraill ac yn rhoi mynediad uniongyrchol iddynt at y broses o ddelio ag ymholiadau a hawliadau.

**Alun Cairns:** A wnaiff yr Aelod ildio?

**Joyce Watson:** Nid wyf yn cymryd ymyriad—[*Torri ar draws.*]

**Peter Black:** Trefn.

**Joyce Watson:** Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar sut mae modd gwella'r system ymhellach drwy ystyried argymhellion o waith megis adroddiad Eves. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn dal i sicrhau y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus drwy wiriadau trylwyr, a'n bod yn gweithio o fewn y cylch gwaith cyfreithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau i ffermwyr. Yng Nghymru, yr ydym yn cynhyrchu rhai o'r bwydydd gorau yn y byd, ac mae'r systemau sydd wedi cael eu sefydlu yn hollbwysig i gefnogi ffermwyr a sicrhau y gall y cyhoedd fod â ffydd yn y broses, a pharch tuag at y broses o'r pridd i'r plât.

**William Graham:** Ys gwn i gaf ragflaenu fy sylwadau ar yr achlysur hwn gyda'r sylw y byddaf ychydig yn fwy goddrychol nag arfer, oherwydd mae a wnelo fi â'r mater ond yr wyf yn sefyll i'r neilltu braidd ohono hefyd. Am flynyddoedd lawer, mae fy wraig a minnau wedi cadw diadell o ddefaid Suffolk, fel hobi pur, prysuraf i ychwanegu. O leiaf y mae a wnelo fi â'r mater ac yr wyf yn deall, sy'n golygu y gallaf gydymdeimlo a, gobeithio, siarad â rhywfaint o awdurdod. Dros y 25 mlynedd diwethaf, bu cynnydd nodedig yn y ddeddfwriaeth, sydd i'w groesawu'n rhannol. Fodd bynnag, rhoddodd faich annioddefol ar unrhyw un sy'n cadw da byw o unrhyw fath, heb gynnyrch nac unrhyw wir fudd i'r bobl sy'n rhan o'r diwydiant. Gall bugail profiadol—ac yn sicr nid wyf fi'n un fy hun—ddweud o bellter beth yw rhif dafad oherwydd y toriadau ar y

This is now forbidden and you must use an ear tag. You now have to get physically close to the animal—and the same goes for cattle—to see the number. That may not appear to be a matter of great import, but when you actually do it you realise the time involved, and that must be multiplied for someone who, unlike me, is dependent on their income from being an active and viable farmer.

2.30 p.m.

Some of you will also know that I am a surveyor by profession, and in that rather curious British system, an estate agent sells houses and a land agent looks after estates. That is what my firm has done for years. Looking back at some of the tenancy agreements entered into over many years and several generations, I see that they were remarkably simple. Legislation has certainly been greatly welcomed in enhancing the rights of a tenant. The kinds of phrases were, as you might imagine, that any tenant should keep to the rules of husbandry, and so on. In my particular firm, my father always insisted that barbed wire never be used by tenants because he approved of hunting. My grandfather insisted on exactly the same clause, because of his experiences of the death and mutilation that barbed wire caused during the first world war. For most farmers, the legislation was simply a fairly reasonable way of providing employment to others and vital food for the rest of the country. That has completely changed. We now have an industry that has been largely destroyed by compliance. I very much hope that there will be a true and real reason for people to enter into the farming industry and to contribute to the life and culture of this country, which could be drastically altered and our countryside removed from anything we can imagine if we change our rural way of life, not just in Wales, but throughout the United Kingdom.

I therefore urge the Minister to ensure when she conducts this review—and I know that she is sympathetic to this—that it be properly implemented. The one in Northern Ireland

glust. Mae hyn yn cael ei wahardd erbyn hyn a rhaid ichi ddefnyddio tag clust. Bellach rhaid ichi fynd yn agos yn gorfforol at yr anifail—mae'r un peth yn wir am wartheg—i weld y rhif. Efallai nad yw hynny'n ymddangos yn bwysig iawn, ond pan ewch ati i'w wneud yr ydych yn sylweddoli faint o amser y mae'n ei olygu, a rhaid gwneud hynny dro ar ôl tro i rywun sydd, yn wahanol i mi, yn ddibynnol ar ei incwm o fod yn ffermwr gweithredol a hyfyw.

Bydd rhai ohonoch yn gwybod hefyd mai syrffwr ydwyf wrth fy ngalwedigaeth, ac yn y system Brydeinig eithaf od honno, mae gwerthwr tai yn gwerthu tai a gwerthwr tir yn gofalu am ystadau. Dyna'r hyn y mae fy nghwmni i wedi'i wneud ers blyneddod. Wrth edrych yn ôl ar rai o'r cytundebau tenantiaeth a luniwyd dros lawer blwyddyn a sawl cenhedlaeth, gwelaf eu bod yn rhyfeddol o syml. Yn sicr, bu croeso mawr i ddeddfwriaeth o ran gwella hawliau'r tenant. Y mathau o gymalau a geid, fel y gallwch ddychmygu, oedd y dylai unrhyw denant gadw at reolau hwsmonaeth, ac yn y blaen. Yn fy nghwmni arbennig i, yr oedd fy nhad wastad yn mynnu na ddylai tenantiaid fyth ddefnyddio weiren bigog oherwydd ei fod ef o blaid hela. Yr oedd fy nhaid yn mynnu cynnwys yr un cymal yn union, a hynny oherwydd ei brofiadau o'r marwolaethau a'r anafiadau a achoswyd gan weiren bigog yn ystod y rhyfel byd cyntaf. I'r rhan fwyaf o ffermwyr, y cyfan ydoedd y ddeddfwriaeth oedd ffordd gymharol resymol o roi gwaith i eraill a bwyd hanfodol i weddill y wlad. Mae hynny wedi newid yn llwyr. Mae gennym bellach ddiwydiant sydd wedi'i ddinistrio i raddau helaeth gan gydymffurfiaeth. Mawr obeithiaf y bydd gwir reswm i bobl ddewis gweithio yn y diwydiant ffermio a chyfrannu at fywyd a diwylliant y wlad hon, a allai gael ei newid yn llwyr, â'n cefn gwlad yn gwbl wahanol i unrhyw beth y gallwn ei ddychmygu, os newidiwn ein ffordd o fyw yng nghefn gwlad, nid yng Nghymru yn unig ond ledled y Deyrnas Unedig.

Anogaf y Gweinidog, felly, i sicrhau, pan fydd yn cynnal yr adolygiad hwn—a gwn ei bod yn gefnogol i hyn—y caiff ei gyflwyno'n iawn. Mae'r un yng Ngogledd Iwerddon wedi

has already commenced, with the aim of a 25 per cent reduction. I trust that you will be able to match that at least and, hopefully, to exceed it.

**Eleanor Burnham:** I thank Angela and the Conservative Party for their common sense today. My father was a farmer, and, to be frank, he would turn in his grave if he knew of this huge imposition on people in the countryside, who should be leading a very simple way of life. After all, that is exactly why most people live in the countryside.

I commend our amendment 3 on regretting the administrative regulatory discrepancies that led to a number of Tir Gofal payments being delayed, and we call on the Welsh Assembly Government to ensure that that does not happen again. Again, surely that is common sense, and should lead to the very best regulatory practice in the dispensation of taxpayers' money. The example of Tir Gofal is mind-blowing and it could be called a farce if it was not so serious. The lack of co-ordination between the Countryside Council for Wales and the Government when the administration of Tir Gofal was transferred has resulted in absurdly late payments and huge discomfort and problems for farmers. Ensuring that CCW and the Government have compatible software is surely a simple process and a matter of common sense, to streamline what is a vital part of rural life.

I hope that the Tir Gofal incidents will not be repeated because some cases were farcical, as they covered less than one hundredth of a hectare. For some more mathematically minded people than me, I believe that that is 10 sq m, which really is a farce. Just imagine the cost of inspecting that minute bit of land.

**Brynle Williams:** On that very point, Eleanor—and it is regrettable that our colleague on the Labour bench is not here to hear this—it was about trying to save money. We are saving a penny here for the taxpayer and spending £2 over there.

cychwyn eisoes, a gostyngiad o 25 y cant yw ei nod. Hyderaf y gallwch wneud cystal â hynny o leiaf, a hyd yn oed yn well gobeithio.

**Eleanor Burnham:** Diolchaf i Angela a'r Blaid Geidwadol am eu synnwyr cyffredin heddiw. Yr oedd fy nhad yn ffermwr ac, a dweud y gwir plaen, byddai'n troi yn ei fedd pe gwyddai am y bwrn anferth hwn ar bobl yng nghefn gwlad, a ddylai fod yn byw bywyd syml iawn. Wedi'r cyfan, dyna'n union pam y mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw yng nghefn gwlad.

Cymeradwyaf welliant rhif 3 gennym, sy'n gresynu wrth yr anghysondebau gweinyddol a rheoleiddiol a arweiniodd at oedi cyn rhyddhau nifer o daliadau Tir Gofal, ac yr ydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau na fydd hynny'n digwydd eto. Eto, siawns mai synnwyr cyffredin yw hynny, ac y dylai arwain at yr arfer rheoleiddiol gorau un wrth ddsbarthu arian trethdalwyr. Mae enghraifft Tir Gofal yn syfrdanol a gellid ei galw'n chwerthinllyd pe na byddai mor ddifrifol. Mae'r diffyg cyd-drefnu rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Llywodraeth pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu Tir Gofal wedi arwain at daliadau afresymol o hwyr a phryder a phroblemau anferth i ffermwyr. Siawns mai proses syml a mater o synnwyr cyffredin yw sicrhau bod gan y Cyngor Cefn Gwlad a'r Llywodraeth feddalwedd gytûn, i symleiddio rhywbeth sy'n rhan hanfodol o fywyd cefn gwlad.

Gobeithiaf na fydd digwyddiadau Tir Gofal yn cael eu hailadrodd, oherwydd yr oedd rhai achosion yn chwerthinllyd, gan eu bod yn ymwneud â llai na chanfed rhan o hectar. I bobl sydd â meddyliau mwy mathemategol na fi, credaf mai 10 metr sgwâr yw hynny, sy'n wirioneddol chwerthinllyd. Dychmygwch gost archwilio'r darn bychan hwnnw o dir.

**Brynle Williams:** Ar yr union bwynt hwnnw, Eleanor—ac mae'n destun gofid nad yw ein cyd-Aelod ar fainc Llafur yma i glywed hyn—arbed arian oedd y nod. Yr ydym yn arbed ceiniog i'r trethdalwr yn y fan hon ac yn gwario £2 fan acw.

**Eleanor Burnham:** You are a farmer, Brynle, and like Mick Bates, you understand the reality of this silly scenario.

As I said, the Tir Gofal mistake is a clear example of regulatory and administrative incoherence, and it would be a farce if it was not so serious. The Tir Gofal scheme is an initiative that pursues a noble aim. However, the actions of the Labour Party, and possibly Plaid—dare I mention it—in adding new scheme upon scheme without any obvious rationalisation means that such errors are becoming more likely. My party and I would like to see the Government looking seriously at this issue, not just to ensure that the worrying mistakes, such as those with Tir Gofal, do not happen again, but also to reduce the regulatory burden. The Welsh Assembly Government needs to ensure that, before anything happens, it should look at whether the scheme is fit for purpose. I know from the various examples that we have had from my erudite colleagues that that is not true at present.

We need to look at the burden of regulation on farmers. As I said, my father would be turning in his grave. He was a competent person, but this is beyond anyone's competence and patience these days. Therefore, I urge the Government to look seriously at our amendments, and to ensure that the Conservatives' motion is taken seriously and is put into proper effect, so that we can have the best value for money, and that people elsewhere understand what all this is about. We should not be throwing taxpayers' money about willy-nilly like this.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 2.36 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 2.36 p.m.*

**Paul Davies:** Diolch am y cyfle i gael cymryd rhan yn y ddadl hon. Mae amaethyddiaeth yn un o'r diwydiannau pwysicaf yn fy etholaeth i, ac felly mae cefnogi'r sector drwy ystyried lleihau biwrocratiaeth yn hollbwysig.

Mae ffermydd yn fusnesau bach sy'n hanfodol i gefn gwlad Cymru. Yn y blynyddoedd diwethaf, maent wedi dioddef

**Eleanor Burnham:** Yr ydych chi'n ffermwyr, Brynle, ac fel Mick Bates, yr ydych yn deall realiti'r sefyllfa hurt hon.

Fel y dywedais, mae camgymeriad Tir Gofal yn enghraifft amlwg o ddiffyg cyswllt rheoleiddiol a gweinyddol, a byddai'n chwethrinllyd pe na byddai mor ddifrifol. Mae cynllun Tir Gofal yn fenter sy'n anelu at nod clodwiw. Fodd bynnag, mae gweithredoedd y Blaid Lafur, a Phlaid Cymru o bosibl—os meiddiaf grybwyll hynny—wrth ychwanegu un cynllun newydd ar ôl y llall heb unrhyw ad-drefnu amlwg yn golygu bod camgymeriadau o'r fath yn dod yn fwy tebygol. Hoffai fy mhlaid a minnau weld y Llywodraeth yn edrych o ddifrif ar y mater hwn, nid dim ond i sicrhau nad yw'r camgymeriadau sy'n peri gofid, megis rhai Tir Gofal, yn digwydd eto, ond hefyd i leihau'r baich rheoleiddiol. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau, cyn i unrhyw beth ddigwydd, ei bod yn ystyried a yw'r cynllun yn addas i'r pwrpas. Gwn o'r amrywiol enghreifftiau yr ydym wedi'u clywed gan fy nghyd-Aelodau gwybodus nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd.

Mae angen inni edrych ar faich rheoleiddio ar ffermwyr. Fel y dywedais, byddai fy nhad yn troi yn ei fedd. Yr oedd yn berson galluog, ond mae hyn y tu hwnt i allu ac amynedd unrhyw un y dyddiau hyn. Anogaf y Llywodraeth, felly, i edrych o ddifrif ar ein gwelliannau, ac i sicrhau y rhoddir ystyriaeth o ddifrif i gynnig y Ceidwadwyr ac y caiff ei gyflwyno'n iawn, er mwyn inni allu cael y gwerth gorau am arian, ac fel y bydd pobl mewn mannau eraill yn deall beth yw ystyr hyn oll. Ni ddylem fod yn gwastraffu arian trethdalwyr yn ddireol fel hyn.

**Paul Davies:** Thank you for the opportunity to take part in this debate. Agriculture is one of the most important industries in my constituency, so it is essential that we support the sector by looking at cutting bureaucracy.

Farms are small businesses that are vital to rural Wales. Over the last few years, they have suffered a great deal as a result of an



yn enfawr oherwydd mwy o reolau a biwrocratiaeth. Nid yw ffermio yn fusnes cyffredin ond yn ffordd o fyw i'r rhan fwyaf o ffermwyr. Nid oes dim synnwyr i rai o'r rheolau y maent yn eu dioddef. Yn anffodus, mae'r baich biwrocrataidd ychwanegol wedi creu straen diangen ar ffermwyr, sydd weithiau yn arwain at amgylchiadau trychinebus. Cyhoeddodd Farm Crisis Network adroddiad y llynedd yn dangos yr effeithiau aruthrol y mae archwiliadau yn eu cael ar ffermwyr, a'r pwysau enbyd a ddaw yn eu sgîl.

Byddai lleihau biwrocratiaeth a rheolau diangen yn ei gwneud yn haws i ffermwyr ehangu eu busnesau, ac yn caniatáu iddynt arbed ar staff ac ar weinyddiaeth ychwanegol. Mae'r ffermwyr yr wyf yn eu hadnabod yn cydnabod bod yn rhaid cael rhywfaint o reolau, ond mae digon o le i wella sut mae'r diwydiant yn cael ei reoli. Deallaf fod y Llywodraeth wedi ymgynghori yn sgîl adroddiad Eves, a gyhoeddwyd yn 2006, sy'n argymhell cwtogi rheolau diangen a fyddai'n golygu, er enghraifft, lleihau nifer yr archwiliadau ar ffermydd.

Mae llawer o ddyblygu yn digwydd heb fod eisiau. Mae lle i'r holl asiantaethau weithio gyda'i gilydd llawer yn well. Fel y dywedwyd eisoes heddiw, mae dadl gref o blaid lleihau nifer yr archwiliadau i un archwiliad y flwyddyn i bob fferm. Pam na all yr holl asiantaethau siarad â'i gilydd, yn lle bod yn rhaid i ffermwyr ddioddef rhagor o archwiliadau? Gwn fod y Gweinidog yn cydymdeimlo â'r farn hon. Ar ôl ei datganiad ddoe am adolygu ymweliadau ffermydd a biwrocratiaeth, efallai ei bod hi'n symud yn y cyfeiriad iawn i wneud rhywbeth cadarnhaol.

Fodd bynnag, fel y dywedodd Dai Davies, llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru, mewn datganiad ddoe,

'Wrth gwrs i ni gyd wedi clywed pethau positif i leihau biwrocratiaeth oddi wrth Llywodraethau yn y gorffennol sydd ddim bob amser wedi ei wireddu'.

Mae Dai Davies yn iawn. Gobeithio y bydd yr adolygiad hwn yn profi'n fwy ffrwythlon.

increase in rules and bureaucracy. Farming is not your average business; it is a way of life for most farmers. There is no sense in some of the rules that they suffer. Unfortunately, the additional bureaucratic burden has led to unwarranted stress for farmers, leading on occasion to tragic circumstances. Farm Crisis Network published a report last year illustrating the huge impact of inspections on farmers, and the terrible pressures that they bring.

Cutting unnecessary bureaucracy and red tape would make it easier for farmers to grow their businesses, and would allow them to save on staff and additional administration. The farmers who I know recognise that some rules are necessary, but there is ample room to improve the industry's regulation. I understand that the Government has consulted on the Eves report, published in 2006, and which recommended cutting unnecessary red tape that would lead, for example, to reducing the number of farm inspections.

A great deal of unnecessary duplication takes place. There is scope for all the agencies to improve the way in which they work together. As has already been said today, there is a strong argument in favour of reducing the number of inspections to one annual inspection for all farms. Why is it not possible for all the agencies to communicate, so that farmers do not have to suffer more inspections? I know that the Minister appreciates this point of view. Given her announcement yesterday on a review of farm visits and bureaucracy, she may be moving in the right direction in order to take positive action.

However, as Dai Davies, the president of the National Farmers Union, Wales, said in a statement yesterday:

Of course, we have all heard positive things about reducing bureaucracy from Governments in the past that have not always been realised.

Dai Davies is right. I hope that this review proves to be more fruitful

From answers that she has given in the past, I am sure that the Minister agrees that the Eves report published many sensible recommendations, and there is no reason why some of those could not be implemented. Unfortunately, parts of my constituency are TB hot spots, and TB tests are all too frequent. It would make sense for any inspection of ear tags that is needed on a holding to take place at the same time as a TB test being conducted. I hope that this review will consider such matters. That would reduce the need for the stressful handling of animals, and would be a more productive use of farmers' and inspectors' time.

2.40 p.m.

There appears to be no sharing of information between the Welsh Assembly Government and local authorities. That was brought home to me recently when my brother-in-law, who farms a dairy herd in Pembrokeshire, told me that he was inspected by the Government on a Monday and by the local authority on the following Monday. They looked at practically the same records. Surely that is madness, and I hope that this review will consider the sharing of information. Without a doubt, there is currently excessive duplication of work by inspection bodies due to their inability to share information. Reducing bureaucracy is not impossible; it can be done. Other countries have proved that bureaucracy and red tape can be reduced. Australia is a prime example, as it has successfully addressed the underlying causes of overregulation. Given that the Department for Environment, Food and Rural Affairs introduced 150 new regulations last year at a cost of £527 million, we see that action must be taken. We need to trust farmers to deliver what they have been contracted to do. Prescriptive and detailed inspections and unnecessary form-filling should be things of the past.

**Alun Ffred Jones:** Mae testun y drafodaeth

Ar sail yr atebion a roddwyd ganddi yn y gorffennol, yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn cytuno bod adroddiad Eves wedi cyhoeddi llawer o argymhellion synhwyrol, ac nid oes dim rheswm pam na ellid cyflwyno rhai o'r rheiny. Yn anffodus, mae rhannau o'm hetholaeth yn ardaloedd lle ceir problemau o ran TB, a chaiff profion TB eu cynnal yn aml iawn. Byddai'n gwneud synnwyr cynnal unrhyw archwiliadau tagiau clust y mae eu hangen ar ddaliad ar yr un adeg ag y caiff prawf TB ei gynnal. Gobeithiaf y bydd yr adolygiad hwn yn ystyried materion o'r fath. Byddai hynny'n lleihau'r angen i drin a thrafod anifeiliaid mewn modd sy'n peri straen, a byddai'n sicrhau bod amser ffermwyr ac archwilwyr yn cael ei ddefnyddio'n fwy cynhyrchiol.

Ymddengys nad oes unrhyw rannu gwybodaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol. Fe'm gwnaethpwyd yn ymwybodol o hynny yn ddiweddar pan ddywedodd fy mrawd-yng-nghyfraith, sy'n ffermio buches odro yn sir Benfro, wrthyf iddo gael archwiliad gan y Llywodraeth ar ddydd Llun a chan yr awdurdod lleol y dydd Llun canlynol. Buont yn edrych ar yr un cofnodion, fwy na heb. Gwallgofrwydd yw hynny, does bosib, a gobeithiaf y bydd yr adolygiad hwn yn ystyried rhannu gwybodaeth. Ceir gormod o ddyblygu gwaith gan gyrff archwilio ar hyn o bryd, yn ddiamau, a hynny oherwydd eu hanallu i rannu gwybodaeth. Nid yw lleihau biwrocraatiaeth yn amhosibl; gellir ei wneud. Mae gwledydd eraill wedi profi y gellir lleihau biwrocraatiaeth. Mae Awstralia yn enghraifft gampus, gan ei bod wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd gor-reoleiddio. Ac ystyried bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyflwyno 150 o reoliadau newydd y llynedd ar gost o £527 miliwn, gwelwn fod angen gweithredu yn y maes. Mae angen inni ymddiried mewn ffermwyr i gyflawni'r hyn y cawsant gontract i'w wneud. Dylem gefnu unwaith ac am byth ar archwiliadau cyfarwyddol a manwl a llenwi ffurflenni diangen.

**Alun Ffred Jones:** The subject of this

hon yn fy atgoffa o stori am un o gyn-  
arlywyddion America, Calvin Coolidge, oedd  
yn enwog am beidio â dweud llawer. Aeth i'r  
capel rhyw fore, ac, ar ôl dychwelyd adref,  
gofynnodd ei wraig iddo beth oedd testun y  
bregeth. Ei ateb oedd, 'Pechod'. Bu moment  
o ddistawrwydd, ac yna gofynnodd ei wraig  
iddo beth oedd gan y pregethwr i'w ddweud  
am bechod, a dywedodd, 'Yr oedd yn ei  
erbyn'. [*Chwerthin.*] Teimlaf mai dyna  
fyrdwn y drafodaeth heddiw. Mae pawb yn  
erbyn biwrocratiaeth. A wyddoch am unrhyw  
un, pe baech yn gofyn iddo a yw o blaid  
biwrocratiaeth, a fyddai'n dweud, 'Ydw, yr  
wyf eisiau mwy ohoni'? 'Na' yw'r ateb, wrth  
gwrs, am fod pawb eisiau gweld llai o  
fiwrocratiaeth. Mae pob Llywodraeth, hyd y  
gwn i, wedi addo y bydd yn lleihau  
biwrocratiaeth ac mae bron pob un wedi  
ychwanegu ati bron ym mhob maes. Fodd  
bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes ystyr  
i'r cynnig hwn, oherwydd os oes cyfle i  
leihau archwiliadau ar ffermydd neu waith  
papur, dylem fanteisio arno.

Fel y dywedwyd eisoes, mae'n werth cofio  
bod un elfen o fiwrocratiaeth wedi cael ei  
lleihau yn sylweddol yn dilyn symleiddio  
proses y taliad sengl. Yr oeddwn yn darllen  
adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar  
daliadau a gyhoeddwyd yn 2002 ac a oedd yn  
nodi bod 15 o ffurflenni i ffermwyr eu llenwi  
ar gyfer cael grantiau bryd hynny. Mae  
diwygio'r broses honno wedi symleiddio  
bywydau ffermwyr yn ddiau, er bod pethau  
eraill wedi cael eu hychwanegu yn y  
cyfamser.

Ar ôl dweud bod angen lleihau  
biwrocratiaeth, mae pawb hefyd yn rhuthro i  
ddweud bod rhaid cael rheoliadau. Rhaid i  
ddiwydiant sy'n dibynnu mor drwm ar arian  
cyhoeddus—cannoedd o filiynau o bunnoedd  
y flwyddyn—fod yn gyfrifol am yr arian  
hwnnw. Fel pawb sy'n cael arian cyhoeddus  
mewn unrhyw faes, rhaid iddynt fod yn  
atebol a sicrhau bod yr arian yn cael ei  
ddefnyddio am resymau priodol.

Hoffwn wneud dau sylw arall. Bu sawl  
cyfeiriad at Ewrop a'r fiwrocratiaeth sydd  
ynglŷn â'r drefn yn yr Undeb Ewropeaidd.  
Mae elfen o wirionedd yn hynny, ond rhaid i  
ni beidio ag anghofio mai Brwsel yw cyfaill y  
ffermwr, mewn gwirionedd. Oni bai am y

discussion reminds me of a story about an ex-  
president of America, Calvin Coolidge, who  
was famous for not saying much. He went to  
chapel one morning and after returning home,  
his wife asked him what the subject of the  
sermon was. His reply was, 'Sin'. There was  
a momentary silence, and his wife then asked  
him what the preacher had to say about sin,  
and he said 'He was against it'. [*Laughter.*] I  
feel that this is at the heart of today's  
discussion. Everyone is against bureaucracy.  
Do you know of anyone, if you were to ask  
them whether they were in favour of  
bureaucracy, would reply 'Yes, I want more  
of it'? The answer is 'No', of course, because  
everyone wants to see less bureaucracy. As  
far as I am aware, every Government has  
promised to reduce bureaucracy and almost  
every one has added to it in almost every  
area. However, it does not mean that this  
proposal is meaningless, because if there is  
an opportunity to reduce farm inspections or  
paperwork, we should capitalise upon it.

As has already been said, it is worth  
remembering that one element of  
bureaucracy has been substantially reduced  
following the simplification of the single  
payment process. I was reading the Wales  
Audit Office report on payments published in  
2002 which noted that farmers had to  
complete 15 forms to receive grants at that  
time. The reform of that process has  
undoubtedly simplified the lives of farmers,  
despite the fact that other things have been  
added in the meantime.

Having said that bureaucracy should be  
reduced, everyone is also rushing to say that  
regulations are required. An industry which is  
so heavily reliant on public money—  
hundreds of millions of pounds a year—must  
be responsible for that money. Like everyone  
who receives public money in any area, they  
must be accountable and ensure that the  
money is used for appropriate reasons.

I wish to make two other comments. There  
have been many references to Europe and the  
bureaucracy regarding the European Union  
regime. There is an element of truth to that,  
but we must not forget that Brussels is the  
farmer's friend, in reality. If it were not for

sefyllfa yn Ewrop, byddai'r diwydiant wedi gweld colledion llawer mwy o ran y cymorthdaliadau. Rhaid bod yn ofalus wrth ladd ar y cyfarwyddbau a ddaw o Ewrop.

Yr ail fater y cyfeiriwyd ato eisoes yw bod angen cadw cofnodion manwl am anifeiliaid a'u symudiadau. Gwelwyd prawf o hynny'n ddiweddar pan gafwyd yr achos o glwy'r traed a'r genau. Oni bai am y manylion hynny, byddai'r sefyllfa wedi bod yn waeth o lawer oherwydd ni fyddai neb yn gwybod lle oedd yr anifeiliaid na beth oedd eu cyflwr. O ran y cyhoedd—ac yr wyf wedi clywed Aelodau o bob ochr yn lleisio'r dadleuon hyn—mae'n eithriadol o bwysig eu bod yn gallu olrhain tarddiad cig ac ati. Yr unig ffordd o wneud hynny yw drwy gadw cofnodion.

O ran TB, bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn fuan, gobeithio, gan un o bwylgorau'r Cynulliad a fydd yn sôn am ychwanegu at nifer y profion ar wartheg er mwyn ceisio cyrraedd pwynt lle bydd y clwyf ofnadwy hwn yn cael ei ddileu.

Felly, nid yw'r darlun yn un syml, ond cytunaf gyda'r apêl am lai o fïwrocratiaeth. Yn sicr, yn yr enghraifft a godwyd gan Eleanor Burnham—sef y dryswch rhwng mapiau IACS a mapiau Tir Gofal—mae'n amlwg bod lle i ailystyried y sefyllfa hon. Pan dynnwyd y cyfrifoldeb oddi ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru, y ddadl oedd y byddai hynny'n symleiddio pethau ac yn gwneud y broses yn fwy cydlynol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bellach nad yw hynny'n wir. Gofynnaf i'r Gweinidog wneud sylwadau ar hynny. Er fy mod yn sylweddoli nad yw'r taliadau yn hwyr, oherwydd nad yw'r cyfnod wedi dod i ben eto, mae'n achosi cryn dipyn o ddrwgdeimlad gan fod mwyaftrif y taliadau wedi cael eu derbyn.

**Andrew R.T. Davies:** The Tir Gofal payments are late because of the incorporation of the Countryside Council for Wales into the Welsh Assembly Government. Due to the verification process, many contract holders have had to wait eight or nine months. The single farm payment window, which may be what the Member is alluding to, is specific to that payment and runs from December to 30 June. The Tir

the situation in Europe, the industry would have experienced far greater losses in terms of subsidies. One must be careful in criticising the directives from Europe.

The second issue which was referred to is the need to keep detailed records of animals and their movements. Evidence was seen of that recently with the outbreak of foot and mouth disease. If it were not for those details, the situation would have been much worse because no-one would know the location or the condition of the animals. For the benefit of the public—and I have heard Members from all sides argue this—it is extremely important that they can trace the origin of meat, and so on. The only way to do that is by keeping records.

As regards TB, a report will be published soon, hopefully, by one of the Assembly's committees which will talk about adding to the number of tests of cattle in order to try to reach a point where this dreadful disease will be eradicated.

Therefore, the picture is not a simple one, but I agree with the appeal for less bureaucracy. Certainly, in the example that Eleanor Burnham raised—namely the confusion between IACS maps and Tir Gofal maps—it is obvious that there is scope to reconsider the situation. When the responsibility was taken from the Countryside Council for Wales, the argument was that that would simplify matters and make the process more cohesive. However, it is now evident that that is not the case. I ask the Minister to comment on that. Although I realise that the payments are not late, because the period has not yet concluded, it is causing bad feeling as the majority of payments have been received.

**Andrew R.T. Davies:** Mae'r taliadau Tir Gofal yn hwyr oherwydd i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gael ei uno â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Oherwydd y broses ddilysu, gorfu i sawl deiliad contract aros wyth neu naw mis. Mae'r cyfnod taliad sengl, sef yr hyn y mae'r Aelod yn cyfeirio ato o bosibl, yn benodol i'r taliad hwnnw ac mae'n ymestyn o Ragfyr hyd 30 Mehefin. Yn hanesyddol mae taliadau Tir Gofal wastad

Gofal payments have historically always fallen when the contract was signed and entered into by the applicant and the Countryside Council for Wales.

**Alun Ffred Jones:** Dylech godi'r pwynt hwnnw gyda'r Gweinidog gan mai hi sydd â'r manylion a'r cyfrifoldeb am hynny. Mae'n amlwg fod lle i gysoni'r broses hon ac y gallwn wneud hynny i'r dyfodol.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Croesawaf y cyfle y mae'r ddadl yn ei roi inni i drafod y pwnc pwysig hwn y prynhawn yma. Atgoffaf y Cynulliad fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu tua £317 miliwn yn uniongyrchol i ffermwyr Cymru bob blwyddyn. Mae ffermwyr Cymru yn derbyn arian cyhoeddus sylweddol yn uniongyrchol. Felly, mae angen system i archwilio'r gwariant hwn. Dyna'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng busnesau fferm a busnesau eraill yng nghefn gwlad a thrwy Gymru gyfan. Mae £260 miliwn o'r arian hwn yn dod yn uniongyrchol o Ewrop a £57 miliwn o Lywodraeth y Cynulliad. Mae Ewrop yn mynnu bod system yn ei lle er mwyn delio â symiau mor fawr o arian cyhoeddus, a rhaid inni gydymffurfio â'r system honno. Gan fod £57 miliwn o arian y Cynulliad yn mynd yn uniongyrchol i ffermwyr, gobeithiaf fod pob Aelod yn credu y dylid bod yn dryloyw ac yn atebol ynglŷn â'r defnydd o'r arian hwn.

Er mwyn cael yr arian, mae'n rhaid i ffermwyr fodloni safonau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, diogelwch bwyd, diogelwch y cyhoedd a lles anifeiliaid. Yn ogystal, rhaid iddynt gadw eu ffermydd mewn cyflwr da yn amgylcheddol ac yn amaethyddol a bodloni meini prawf y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer bod yn gymwys i fanteisio ar y cynlluniau. Os nad yw'r ffermwyr yn bodloni'r gofynion hyn, gallent gael eu cosbi'n ariannol. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw at y gofynion hyn, gallwn gael ein cosbi'n ariannol.

Mae nifer o gyrff yn archwilio Llywodraeth y Cynulliad yn rheolaidd, gan gynnwys Llys Archwilwyr Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'n harchwilwyr mewnol ein hunain. Diben hyn yw gwneud yn siŵr bod fy swyddogion yn

wedi cael eu gwneud ar ôl i'r contract gael ei lofnodi a'i gytuno gan yr ymgeisydd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Alun Ffred Jones:** You should raise that point with the Minister as she has the details and the responsibility for that. It is obvious that there is scope to make this process more consistent, and we can do that in the future.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I welcome the opportunity that this debate gives us to discuss this important topic this afternoon. I remind the Assembly that the Welsh Assembly Government pays some £317 million directly to farmers each year. Welsh farmers receive substantial amounts of public money directly. Therefore, we need a system of auditing this expenditure. That is the fundamental difference between farm and other business in rural areas and throughout Wales. Of this money, £260 million comes directly from Europe and £57 million from the Welsh Assembly Government. Europe insists that a system is in place to deal with such large amounts of public money, and we must conform to that system. As £57 million of Assembly money goes directly to farmers, I hope that every Member believes in being accountable and transparent about the use of this money.

In return for payment, farmers have to meet standards relating to the environment, food and public safety and animal welfare as well as keeping their farms in good environmental and agricultural condition and meeting scheme eligibility criteria set by the European Commission in order to be able to benefit from the schemes. If farmers do not meet these requirements, they can have financial penalties imposed. If the Welsh Government does not adhere to these requirements, we could be financially penalised.

Several bodies audit the Assembly Government regularly, including the European Court of Auditors, the European Commission, the Welsh Audit Office and our own internal auditors. This is to ensure that my officials are making payments in line

bodloni'r rheoliadau Ewropeaidd perthnasol wrth wneud taliadau. Rhaid inni wneud yn siŵr bod modd inni roi cyfrif llawn am y taliadau hynny. Bob blwyddyn, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gynnal archwiliadau gweinyddol mewnol ac archwiliadau fferm yn ymwneud â hawliadau am daliadau. Pe bai Llywodraeth y Cynulliad yn methu â chynnal yr archwiliadau hyn i'r safon sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau Ewropeaidd, gallai dderbyn cosb ariannol sylweddol gan Ewrop.

2.50 p.m.

**Alun Cairns:** Can the Minister inform us why it is that, in relation to the claim for single farm payment, questions about areas of land that are not in any way connected to the claim for the single farm payment are pursued? That means that payment is being held back on questions of land that are not related to the claim that is being made. Why is that the case? I can easily quote an example, should I be required to do so.

**Elin Jones:** Mae disgwyl i ni gydymffurfio â'r rheoliadau Ewropeaidd. Mae'r rheoliadau hynny wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gyfnod 2007 ymlaen, ac un o'r pethau y mae'n rhaid i ni ei sicrhau fel Llywodraeth y Cynulliad yw bod y mapio yn cysylltu'n glir y tir sy'n cael ei hawlio ar gyfer taliad fferm sengl â'r tir sy'n derbyn grantiau amaeth-amgylcheddol, a bod *match* perffaith yn y system, ar lefel ffermydd unigol ac ar lefel Cymru gyfan. Os nad ydym yn cadw at y rheoliadau hynny ac os na allwn brofi i'r Comisiwn Ewropeaidd ein bod yn gwneud hynny, galleu gael ein cosbi a gorfod talu degau o filiynau o bunnoedd. Byddai'r arian hwnnw yn gorfod dod o gyllideb Llywodraeth y Cynulliad ac, felly, o wasanaethau cyhoeddus eraill neu o'r gyllideb amaeth o bosibl.

**Andrew R.T. Davies:** Could you clarify, if the mapping exercise is such a critical part of the audit process—and I think that we recognise that it is—whether the delay in making Tir Gofal payments to farmers is due to the Government's incompetence in absorbing Countryside Council for Wales's functions within itself, or whether it is due to the new audit process from Europe, which no-one seems to understand, over the

with the appropriate European regulations. We have to ensure that we can account fully for those payments. The Assembly Government is obliged each year to carry out internal administrative checks and farm inspections relating to the payment claims. Failure to carry out these controls to the standard required by European regulations could result in the Assembly Government receiving a significant financial penalty from Europe.

**Alun Cairns:** A all y Gweinidog ddweud wrthym, yng nghyswllt cais am daliad sengl, pam yr holir cwestiynau ynghylch tir nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddo a'r cais am daliad sengl? Mae hynny'n golygu bod taliad yn cael ei ddal yn ôl o ganlyniad i gwestiynau am dir nad yw'n gysylltiedig â'r cais sy'n cael ei wneud. Pam hynny? Gallaf roi enghraifft ichi yn ddigon hawdd, os gofynnir i mi wneud hynny.

**Elin Jones:** We have to conform to European regulations. Those regulations have changed during the last year, from 2007 onwards, and as the Assembly Government one of the things that we must ensure is that the mapping clearly links the land that is being claimed for single farm payment with the land that is in receipt of agri-environment grant, and that there is a perfect match in the system, at the level of individual farms and at a national level. If we do not keep to those regulations and cannot prove to the European Commission that we are doing so, we could be penalised up to tens of millions of pounds. That money would have to come from the Assembly Government budget and, therefore, from other public services or possibly the agricultural budget.

**Andrew R.T. Davies:** A allech egluro, os yw ymarfer mapio yn rhan mor bwysig o'r broses archwilio—a chredaf ein bod yn cydnabod bod hynny'n wir—a yw'r oedi gyda gwneud taliadau Tir Gofal i ffermwyr yn deillio o anallu'r Llywodraeth i ysgwyddo swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ynteu a yw'n deillio o broses archwilio newydd Ewrop, nad oes neb yn ei deall i bob golwg, yng nghyswllt y broses fapio?

mapping process?

**Elin Jones:** You will not be surprised to hear that it is not due to Government incompetence but due to the new regulations, the mapping and the cross checking that needs to be done through the various schemes that I alluded to in my response to Alun Cairns.

Cytunaf ag ysbryd y cynnig y prynhawn yma. Nid oes lle i aneffeithlonrwydd yn y system amaethyddol na'r system daliadau. Felly, dyna pam yr wyf wedi gwneud yn glir fy mwriad i gynnal adolygiad o'r ymweliadau a'r archwiliadau fferm y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cynnal a'r ffurflenni sy'n rhaid i ffermwyr eu llenwi.

Nid yw'r galw am yr adolygiad hwn yn beth newydd i mi nac i neb arall yn y Cynulliad. Nid oes gan yr un blaid fonopoli ar y syniad o leihau biwrocraetiaeth. Yr oedd adroddiad 2020, a gyhoeddwyd ym mis Medi y llynedd a'i gyflwyno i mi fel Gweinidog, yn cynnwys dau argymhelliad o bwys o safbwynt ysgafnhau'r baich gweinyddol ar ffermwyr. Cynigiodd y cyntaf y dylid cynnal dadansoddiad risg o'r rheoliadau ffermio er mwyn gweld pa gyfleoedd oedd i'w symleiddio. Argymhellodd yr ail greu un porth electronig ar gyfer ffermwyr. Yr wyf yn falch fy mod yn medru ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion hynny yn adroddiad 2020 drwy gynnal yr adolygiad hwn. Yr wyf yn siŵr bod awduron adroddiad 2020 yn falch bod y Torïaid heddiw wedi dewis un o'u hargymhellion hwy fel pwnc y ddadl hon.

Yr wyf eisoes wedi dweud fy mod yn sylweddoli maint y baich sydd ar ysgwyddau ffermwyr er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd a domestig. Credaf mai dyma'r adeg i adolygu'r archwiliadau. Os oes ffordd o ysgafnhau'r baich, tra'n parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, down o hyd i'r ffordd honno. Yr wyf yn rhagweld y bydd yr adolygiad yn cychwyn bron yn syth ac y bydd yn cael ei arwain gan berson annibynnol sydd â chysylltiadau clòs â'r diwydiant ffermio. Bydd yr adolygiad yn edrych ar elfennau gwahanol ar fiwrocraetiaeth yn nhrefn blaenoriaeth a byddwn ni, fel Llywodraeth, yn cytuno ar y

**Elin Jones:** Ni fydd yn syndod gennych glywed nad anallu'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am hyn, ond yn hytrach y rheoliadau newydd a'r gwiriadau y mae angen eu gwneud drwy'r amrywiol gynlluniau y cyfeiriais atynt yn fy ymateb i Alun Cairns.

I agree with the spirit of the motion this afternoon. There is no place for inefficiency in the agricultural or payments system. Therefore, that is why I have made clear my intention to hold a review of the farm visits and inspections that the Assembly Government conducts and of the forms that farmers have to fill in.

The call for this review is not new to me or anyone else in the Assembly. No one party has a monopoly on the idea of lessening bureaucracy. The 2020 report, which was published in September last year and presented to me as Minister, included two important recommendations on lightening the administrative burden on farmers. The first was that a risk assessment should be conducted of the farming regulations to see what opportunities existed to simplify them. The second recommended creating one electronic gateway for farmers. I am pleased that I can respond positively to those recommendations in the 2020 report by holding this review. I am sure that the authors of the 2020 report are pleased that the Tories have today chosen one of their recommendations as the subject of this debate.

I have already said that I realise the size of the burden placed on farmers in meeting the requirements of domestic and European legislation. I believe that it is time to review the inspections. If there is any way to lighten the burden, while still conforming to the legislation, we will find it. I anticipate that the review will begin almost immediately and it will be led by an independent person with close links with the farming industry. The review will look at various elements of bureaucracy in order of priority and we, as a Government, will agree on the order of priority in consultation with stakeholders, and the agricultural unions in particular. This will

drefn flaenoriaethu honno mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a chyda'r undebau amaethyddol yn enwedig. Nid adolygiad mewnol fydd hwn yn unig, ond adolygiad agored ar y cyd â rhai sy'n cynrychioli ffermwyr. Byddwn yn falch o dderbyn awgrymiadau gan y rhai sy'n cynrychioli ffermwyr, yn ogystal â chan Aelodau Cynulliad, ynglŷn â'r fiwrocratiaeth benodol y dylid ystyried ei dileu. Gwerthfawrogaf rai o'r syniadau a wnaed mewn cyfraniadau heddiw.

Sylweddolaf fod ffermwyr yn ei chael hi'n anodd weithiau i ddygymod â holl ofynion y rheoliadau Ewropeaidd. Mae fy swyddogion yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y manylion ar gael iddynt. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd ag undebau'r amaethwyr. Mae *Gwlad*, y cylchgrawn misol i deuluoedd ffermio yng Nghymru, hefyd yn ffordd ddefnyddiol o drosglwyddo gwybodaeth.

Bydd y gwasanaeth cyngori newydd i ffermwyr yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ffermwyr i fodloni gofynion trawsgydymffurfio, a bydd y gwasanaeth cyswllt fferm, sef y '*farm liaison service*', sy'n unigryw i Gymru ac sydd wedi bod yn werthfawr iawn i ffermwyr, yn parhau i gynnal seminarau a chyfarfodydd gyda'r nos, ac i ddarparu cymorth dros y ffôn a chymorth wyneb yn wyneb. Mae'r diwydiant wedi gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn yn fawr. Yr wyf wedi clywed nifer o Aelodau'r Cynulliad yn canmol y gwasanaeth yn y Siambr hefyd. Mae'r gwasanaeth yn helpu ffermwyr i ddeall y rheoliadau cymhleth hyn, gan gynnwys y rheoliadau trawsgydymffurfio, ac yn eu helpu i'w bodloni.

Wrth ddod i derfyn, gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi gwelliant 1 a gwrthod y gwelliannau eraill. Ni allaf ddweud wrth y Cynulliad ar hyn o bryd a yw'r fiwrocratiaeth a'r ymweliadau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn sylweddol ormodol. Nid wyf am wneud ymrwymiad o ran beth fydd orau neu o ran pa atebion a allai ddeillio o'r adolygiad yr wyf ar fin ei gychwyn, ond gallaf ddweud wrth y Cynulliad y byddai o les i ffermwyr ac i'r Llywodraeth, os oes gwastraff, dyblygu gwaith neu ormod o fiwrocratiaeth yn y system, i waredu hynny ac i greu'r system

not be just an internal review, but an open review conducted jointly with farmers' representatives. I will be pleased to receive suggestions from farmers' representatives, as well as Assembly Members, about the specific bureaucracy that we should consider eradicating. I appreciate some of the ideas raised in contributions today.

I realise that farmers sometimes find it difficult to deal with all of the requirements of European regulations. My officials work hard to ensure that those details are available to them. In addition, my officials have regular discussions with the farming unions. *Gwlad*, the monthly magazine for farming families in Wales, is also a useful means of transferring information.

The new farming advisory service gives farmers the necessary advice and skills to meet cross-compliance requirements, and the farm liaison service, which is unique to Wales and which has proved very valuable to farmers, will continue to hold evening seminars and meetings, and to provide face-to-face advice and advice over the phone. The industry has appreciated this service greatly. I have also heard several Assembly Members praise this service in the Chamber. The service helps farmers to understand these complex regulations, including cross-compliance regulations, and helps them to meet their requirements.

In closing, I ask the Assembly to support amendment 1 and reject the other amendments. I cannot tell the Assembly at present whether the bureaucracy and the visits that exist at present are substantially excessive. I do not want to make a commitment in terms of what will be best in terms of the answers that will possibly arise from the review that I am about to initiate, but I give the commitment to the Assembly that if there is any waste, duplication of work or excessive bureaucracy in the system, it would be to the benefit of farmers and the



fwyaf effeithiol posibl.

**Andrew R.T. Davies:** I congratulate everyone who has contributed to the debate this afternoon, particularly our lead spokesman, Angela Burns, on bringing the debate to the Chamber. I particularly welcome the salient point that Angela made about how regulations should be effective, and not regulation for the sake of regulation.

I am in a difficult situation, being a farmer myself—I suppose that I should declare an interest—and falling under the rules of the single farm payment and cross compliance, with so much regulation coming through, but I know that, as politicians, we have to be accountable for the money that is invested in agriculture. However, it is important to strike a balance and I think that the pendulum has swung too far the other way, as does the industry and, I would suggest, many elected Members in this Chamber, given the contributions made during the debate today.

Mick Bates highlighted the point that the balance of agricultural and rural finance is now shifting from what it is called pillar 1, core agricultural finance, to rural development and that, in itself, brings a whole host of new regulations to reflect the changing countryside in which many now find themselves. As a new institution, we must not be frightened to be innovative in the way that we seek to regulate that money and those initiatives. A lot of it is sourced from Europe, but we must also remember that it is this institution that implements the schemes on the ground. We could take a lot of heart from what the Government of the Republic of Ireland has done in the eyes of its agricultural community.

My colleagues, Brynle Williams and Paul Davies, contributed wholeheartedly to the debate. Coming from the agricultural community and agricultural constituencies as they do, they gave hard and fast examples of what is happening. The average age of a farmer is now 58. When a new policy comes through, support from the Government is needed to implement the regulations so that they are understood and so that minor

Government to get rid of it and to create the most effective system possible.

**Andrew R.T. Davies:** Llongyfarchaf bawb sydd wedi cyfrannu at y ddatl hon y prynhawn yma, yn arbennig ein prif lefarydd, Angela Burns, am gyflwyno'r ddatl hon i'r Siambr. Croesawaf yn benodol y pwynt amlwg a wnaeth Angela ynghylch y ffaith y dylai rheoliadau fod yn effeithiol, ac nid yn rheoliadau er mwyn cael rheoliadau.

Yr wyf mewn sefyllfa anodd, gan fy mod yn ffermwr fy hun—mae'n debyg y dylwn ddatgan buddiant—ac yn dod o dan reolau'r taliad sengl a thraws-gydymffurfio, gyda chymaint o reoliadau'n cael eu gwneud, ond gwn, fel gwleidyddion, fod yn rhaid inni fod yn atebol am yr arian a fuddsoddir mewn amaethyddiaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd a chredaf, fel y cred y diwydiant ac, awgrymaf, fel y cred llawer o'r Aelodau etholedig yn y Siambr hon, a chofio'r cyfraniadau a wnaethpwyd yn ystod y ddatl heddiw, fod pethau wedi mynd yn rhy bell i'r pegwn arall.

Amlygodd Mick Bates y pwynt fod cydbwysedd cyllid amaethyddol a gwledig yn symud o'r hyn a elwir yn golofn 1, cyllid amaethyddol craidd, i ddatblygu gwledig ac mae hynny, ynddo'i hun yn dod â lluo o reoliadau newydd yn ei sgil er mwyn adlewyrchu'r newid yng nghefn gwlad y mae llawer yn ei wynebu bellach. Fel sefydliad newydd, ni ddylem ofni bod yn arloesol yn y ffordd yr ydym yn ceisio rheoleiddio'r arian hwnnw a'r mentrau hynny. Mae llawer ohono'n dod o Ewrop, ond rhaid inni gofio hefyd mai'r sefydliad hwn sy'n rhoi'r cynlluniau ar waith ar lawr gwlad. Gallai'r hyn y mae Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon wedi ei wneud yn llygad ei chymuned amaethyddol fod yn galonddid inni.

Cyfrannodd fy nghyd-Aelodau, Brynle Williams a Paul Davies, yn frwd at y ddatl. Gan eu bod yn dod o gymunedau amaethyddol ac etholaethau amaethyddol, rhoddasant enghreifftiau pendant o'r hyn sy'n digwydd. Oedran ffermwr ar gyfartaledd yw 58 erbyn hyn. Pan gyflwynir polisi newydd, mae angen cymorth gan y Llywodraeth i roi'r rheoliadau ar waith er mwyn i bobl eu deall ac er mwyn sicrhau nad yw'r cymorth yn cael

anomalies do not drain away the support. That is what the money is there for: to provide support for those businesses and it must not be taken away in penalties, as it were. William Graham highlighted, on the other side of the fence, the surveyors—*[Interruption.]*

Yes, the shepherd of the year. That is his pastime, and his better half's pastime. However, it is a salient point in terms of seeing how the business of agriculture has developed in the professional eye. A lot of farmers have had to enter into land management agreements when they take on land. The simple forms of 20 or 25 years ago have now given way to complex legal documents that incur great costs.

I was very disappointed that Joyce Watson would not take any interventions and I would like to speak to the editor-in-chief of her piece today so that we could maybe get an insight into what is happening on the Labour benches in supporting the pull back of bureaucracy in the agricultural community.

Eleanor Burnham touched on the Tir Gofal concept and I have received many representations from constituents who have signed contracts, have had their land surveyed by the Countryside Council for Wales's surveyors and employees, and whose payments, through no fault of their own, are now being held up for eight, nine or 10 months because the new system being incorporated into the Rural Payments Agency Wales is not able to fit the Countryside Council for Wales's surveyors' views with the maps that are held by the Rural Payments Agency Wales. Minister, I hope that you will get inside that issue, because it is causing a lot of distress and a lack of confidence in the Tir Gofal scheme, which, with all credit to the previous Government and this institution, is a flagship environmental programme that we, in Wales, can be proud of.

3.00 p.m.

Alun Ffred raised a salient point—we all wish to get rid of bureaucracy, but where do you start? As a starting point, I suggest the farm assurance schemes that we have in this

ei atal oherwydd mân anghysondeb. Dyna ddiben yr arian: rhoi cymorth i'r busnesau hynny ac ni ddylid ei dynnu oddi wrthynt drwy gosbau, fel petai. Amlygodd William Graham, ar ochr arall y ffens, y syrfewyr—*[Torri ar draws.]*

Ie, bugail y flwyddyn. Dyna'i ddiddordeb, a diddordeb ei wraig hefyd. Fodd bynnag, mae'n bwynt pwysig o ran gweld sut y mae amaethyddiaeth fel busnes wedi datblygu yn llygad y byd proffesiynol. Mae llawer o ffermwyr wedi gorfod ymrwmo i gytundeb rheoli tir pan fyddant yn cymryd tir i'w ffermio. Mae'r ffurflenni syml a fodolai 20 neu 25 mlynedd yn ôl bellach wedi cael eu disodli gan ddogfennau cyfreithiol cymhleth sy'n arwain at gostau mawr.

Yr oeddwn yn siomedig iawn bod Joyce Watson wedi gwrthod derbyn ymyriadau a hoffwn siarad â phrif olygydd ei haraith heddiw er mwyn inni gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar y meinciau Llafur i gefnogi'r broses o leihau biwrocratiaeth yn y gymuned amaethyddol.

Soniodd Eleanor Burnham am gysyniad Tir Gofal ac yr wyf wedi cael llawer o sylwadau gan etholwyr sydd wedi llofnodi contractau, sydd wedi cael syrfewyr a chyflogeion Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn mesur eu tir, a bu oedi o hyd at wyth, naw neu 10 mis gyda'u taliadau, heb unrhyw fai arnynt hwy, oherwydd na all y system newydd sy'n cael ei hymgorffori yn yr Asiantaeth Taliadau Gwledig gyfateb barn syrfewyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru â'r mapiau sydd gan Asiantaeth Taliadau Gwledig Cymru. Weinidog, gobeithiaf yr ewch i'r afael â'r broblem honno oherwydd mae'n achosi llawer o drallod a diffyg hyder yng nghynllun Tir Gofal, sydd, gyda phob clod i'r Llywodraeth flaenorol a'r sefydliad hwn, yn rhaglen amgylcheddol flaenllaw y gallwn ni, yng Nghymru, ymfalchïo ynddi.

Cododd Alun Ffred bwynt amlwg—yr ydym i gyd yn dymuno cael gwared ar fiwrocratiaeth, ond ble'r ydych yn dechrau? Fel man cychwyn, awgrymaf y cynlluniau

country. The United Kingdom Accreditation Service, the organisation that regulates farm assurance, operates stringent regulations that cover many of the areas that the Rural Payment Agency would deal with. As a farmer who had to undergo a two-and-a-half-hour inspection on Saturday, I can appreciate the difficulty of being inspected by UKAS and the farm assurance inspectors one day and then having to face, for argument's sake, a Rural Payment Agency inspection the following week. I cannot reconcile that duplication. Retailers recognise UKAS and the farm assurance model, so, why can the Government not recognise it, where it is relevant? It is an accountable system, it is independent of industry, and it would also offload costs from the Government to a third party. We must bear in mind—I can see the Deputy Presiding Officer looking at me because my five minutes are nearly up—that we must regulate for the benefit of industry, not for the sake of regulation. Therefore, we embrace your intention to look at a review of bureaucracy—we have taken the lead by tabling this debate forward today.

gwarant fferm sydd gennym yn y wlad hon. Mae Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, y corff sy'n rheoleiddio gwarant ffermydd, yn gweithredu rheoliadau llym sy'n berthnasol i nifer o'r meysydd y byddai'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn delio â hwy. Fel ffermwr y bu'n rhaid iddo brofi archwiliad dwy awr a hanner o hyd ddydd Sadwrn, gallaf werthfawrogi anhawster cael archwiliad gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig un diwrnod ac yna gorfod wynebu, er enghraifft, archwiliad gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yr wythnos ganlynol. Ni allaf gysoni'r dyblygu hwnnw. Mae manwerthwyr yn cydnabod Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig a'r model gwarant fferm, felly pam na all y Llywodraeth ei gydnabod, lle mae'n berthnasol? Mae'n system atebol, mae'n annibynnol ar ddiwydiant, a byddai hefyd yn tynnu costau oddi ar y Llywodraeth ac yn eu gosod ar drydydd parti. Rhaid inni gofio—gallaf weld y Dirprwy Lywydd yn edrych arnaf oherwydd bod fy mhun munud wedi dod i ben—ei bod yn rhaid inni reoleiddio er budd diwydiant, nid er budd rheoleiddio. Felly, yr ydym yn coleddu eich bwriad i roi sylw i adolygiad o fiwrocratiaeth—yr ydym wedi rhoi arweiniad drwy gyflwyno'r ddadl hon heddiw.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Are there any objections? I see that there are. We will defer the vote until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Gohiriwn y bleidlais tan amser pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

#### **Cynllun i Ddefnyddio Llai o Fagiau Plastig A Plastic Carrier Bag Reduction Scheme**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

**Darren Millar:** I propose that

**Darren Millar:** Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*calls on the Assembly Government to consider the introduction of a plastic carrier bag reduction scheme. (NDM3841)*

I am grateful for the opportunity to lead today's debate on plastic carrier bags. I am sure that every one of us has enjoyed a blustery afternoon in our local park, perhaps with our children or grandchildren, feeding the ducks, and have noticed plastic bags flying past in the wind. Perhaps we found time for a quick walk in the countryside, and discovered that the hedgerows and the trees are strewn with plastic bag litter. The day-to-day evidence of plastic bag litter is obvious, but the damage that plastic bags inflict on Wales goes much further. We all know of proven links between grime and crime; between litter and the likelihood of criminal activity. Partnership action between the North Wales Police and north Wales local authorities to deal with litter has produced positive results. This is at least one area on which Richard Brunstrom and I agree.

In addition to the visibility problem, thousands of wild animals, particularly birds and marine animals, are killed each year in the United Kingdom as a result of the ingestion of plastic bag litter. With UK consumers estimated to use between 10 billion and 13 billion plastic bags every year—that is about 60,000 tonnes of plastic, or 150 to 220 bags per person per year—it is hardly surprising that so much of the visible litter in the United Kingdom is related to plastic bags. It is not just a problem here in Wales. The United Nations Environment Programme recently estimated that there are 46,000 pieces of plastic litter per square mile of the world's oceans. Across the globe, there are claims that plastic bags are to blame for the deaths of 1 million birds and at least 1,000 marine mammals.

Over the past 14 years, plastic litter has consistently accounted for well over 50 per cent of all litter found on beaches during the Marine Conservation Society's Beachwatch surveys. A recent report undertaken by MCS suggested that plastic bags posed a threat to

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ystyried cyflwyno cynllun i ddefnyddio llai o fagiau plastig. (NDM3841)*

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i arwain dadl heddiw ar fagiau plastig. Yr wyf yn sicr bod pob un ohonom wedi mwynhau prynhawn gwyntog yn ein parc lleol, gyda'n plant neu'n hwyrion efallai, yn bwydo'r hwyaid, ac wedi sylwi ar fagiau plastig yn hedfan heibio yn y gwynt. Efallai inni gael cyfle i fynd am dro cyflym yn y wlad, a chanfod bod sbwriel bagiau plastig wedi'i wasgaru dros y perthi a'r coed. Mae'r dystiolaeth o sbwriel bagiau plastig o ddydd i ddydd yn amlwg, ond mae'r niwed a wna bagiau plastig i Gymru yn mynd lawer ymhellach. Gwyddom oll am gysylltiadau a brofwyd rhwng budreddi a throsteddau; rhwng sbwriel a thebygolrwydd gweithgaredd troseddol. O ganlyniad i weithredu ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol gogledd Cymru i ddelio â sbwriel, cafwyd canlyniadau cadarnhaol. Dyma o leiaf un maes y mae Richard Brunstrom a minnau'n cytuno arno.

Yn ogystal â'r broblem bod y bagiau plastig yn cael eu gweld, mae miloedd o anifeiliaid gwyllt, yn arbennig adar ac anifeiliaid môr, yn cael eu lladd bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig o ganlyniad i amlyncu sbwriel bagiau plastig. Amcangyfrifir bod defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, yn defnyddio rhwng 10 biliwn ac 13 biliwn o fagiau plastig bob blwyddyn—mae hynny tua 60,000 tunnell o blastig, neu 150 i 220 o fagiau y person y flwyddyn—go brin ei bod yn syndod bod cymaint o'r sbwriel gweladwy yn y Deyrnas Unedig yn gysylltiedig â bagiau plastig. Nid problem yma yng Nghymru yn unig yw hon. Yn ddiweddar amcangyfrifodd Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig fod 46,000 o ddarnau sbwriel plastig ym mhob milltir sgwâr o gefnforoedd y byd. Ar draws y glôb, honnir mai bagiau plastig sydd i gyfrif am farwolaethau 1 miliwn o adar ac o leiaf 1,000 o famaliaid môr.

Yn ystod y 14 blynedd diwethaf, sbwriel plastig oedd i gyfrif yn gyson am ymhell dros 50 y cant o bob sbwriel a ganfuwyd ar draethau yn ystod arolygon Gwyllo Traethau Cymdeithas Cadwraeth y Môr. Awgrymodd adroddiad diweddar, a gynhaliwyd gan

thousands of birds on Grassholm Island, off the Pembrokeshire coast. The report found that more than 90 per cent of the 30,000 gannets' nests on the island contained plastic material. Therefore, plastic bag litter is not just a visual blight; the harm that it causes is also clear.

As a result of this damage, environmental organisations are demanding action, but it is not just environmentalists who are seeking a solution to this problem—the public is, too. According to recent surveys, over 60 per cent of shoppers back the scrapping of free plastic bags, and one of the first petitions ever received by the National Assembly for Wales was a request to ban plastic bags in Wales. I pay tribute to the work of Neil Evans from Carmarthen for his efforts to draw the attention of Assembly Members to this important issue, and also congratulate him for winning the BBC Wales competition for new ideas for laws in Wales. The public as well as environmentalists are demanding action.

How has the business sector responded? Manufacturers are increasingly moving to biodegradable plastics for their products, and they are keen promoters of proper disposal and increased recycling of plastics. Increased environmental awareness is good for the plastics industry, as the number of jobs in plastics recycling in Wales and elsewhere in the United Kingdom continues to grow at a pace that outpaces the decline in British jobs related to the manufacture of non-biodegradable carrier bags.

British retailers have already voluntarily agreed to cut the environmental impact of plastic bags by 25 per cent this year. Tesco recently started offering deliveries without carrier bags. Sainsbury's has twice held 'bag for life' days, giving shoppers free reusable bags. Ikea, Lidl and Aldi, for example, no longer offer plastic bags but instead offer customers the opportunity to purchase reusable bags for a small fee. Waitrose has experimented with abandoning plastic bags

Gymdeithas Cadwraeth y Môr, fod bagiau plastig yn fygythiad i filoedd o adar ar Ynys Gwales, oddi ar arfordir sir Benfro. Dangosodd yr adroddiad bod mwy na 90 y cant o'r 30,000 o nythod mulfrain gwynion ar yr ynys yn cynnwys deunydd plastig. Felly, nid malltod gweledol yn unig yw sbwriel bagiau plastig; mae'r niwed mae'n ei achosi yn amlwg hefyd.

O ganlyniad i'r difrod hwn, mae cyrff amgylcheddol yn mynnu bod camau'n cael eu cymryd, ond nid amgylcheddwyr yn unig sy'n ceisio datrysiaid i'r broblem hon—mae'r cyhoedd yn ceisio hynny hefyd. Yn ôl arolygon diweddar, mae dros 60 y cant o siopwyr yn cefnogi cael gwared ar fagiau plastig am ddim, ac un o'r deisebau cyntaf erioed a gafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd cais i wahardd bagiau plastig yng Nghymru. Rhoddaf deyrnged i waith Neil Evans o Gaerfyrddin am ei ymdrechion i dynnu sylw Aelodau'r Cynulliad at y mater pwysig hwn, a'i longyfarch hefyd am ennill cystadleuaeth BBC Cymru i gael syniadau newydd am ddeddfau yng Nghymru. Mae'r cyhoedd yn ogystal ag amgylcheddwyr yn mynnu bod camau'n cael eu cymryd.

Sut y mae'r sector busnes wedi ymateb? Mae gwneuthurwyr yn symud fwyfwy tuag at blastigau bioddiraddadwy ar gyfer eu cynhyrchion, ac maent yn frwd o blaid gwaredu cywir a mwy o ailgylchu plastigau. Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol gynyddol yn dda i'r diwydiant plastigau, gan fod nifer y swyddi mewn ailgylchu plastigau yng Nghymru a manau eraill yn y Deyrnas Unedig yn parhau i dyfu ar gyflymdra sy'n ennill y blaen ar y cwmp yn nifer y swyddi ym Mhrydain sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bagiau nwyddau nad ydynt yn fioddiraddadwy.

Mae manwerthwyr ym Mhrydain eisoes wedi cytuno'n wirfoddol i leihau effaith amgylcheddol bagiau plastig 25 y cant eleni. Yn ddiweddar dechreuodd Tesco gynnig dosbarthiadau nwyddau heb fagiau plastig. Mae Sainsbury's wedi cynnal dyddiau 'bag am oes' ddwywaith, gan roi i siopwyr fagiau am ddim y gellir eu hailddefnyddio. Nid yw Ikea, Lidl nac Aldi, er enghraifft, yn cynnig bagiau plastig mwyach ond yn hytrach yn cynnig i gwsmeriaid y cyfle i brynu am bris

altogether from its stores. Marks and Spencer has trialled charging customers five pence for bags, which it believed was a success. Manufacturers, retailers, environmentalists and the public are all doing their bit, and it is time for the Welsh Assembly Government to do its bit.

The Welsh Conservatives are anxious to see Wales take a lead in cutting the number of plastic carrier bags, but rather than a piecemeal, town-by-town or shop-by-shop approach, which we are seeing at the moment, we believe that it is time for the Labour-Plaid Government to introduce a nationwide policy that has the collective support of these different industries, including manufacturers, retailers, consumers and environmental groups, and a policy that is suitable for Wales.

Other countries have already taken action. For example, Ireland took action six years ago by introducing a levy on plastic bags, emphasising that the levy introduced was not to generate revenue but rather to encourage change in consumer behaviour. The Irish Government has succeeded in achieving this objective. It was not simply a matter of implementing new legislation, devoid of feeling and life, but rather of working with the willingness, capability and support of members of the public in the Irish Republic to address the problem. It reminds me somewhat of the challenge faced by the Conservative Government in the 1980s in introducing the seat belt laws. The success of that legislation is proven in the way that it is now perceived that there is something drastically wrong with you if you do not buckle up. It takes a bold, courageous government, like the United Kingdom Conservative Government in the 1980s, to embark on legislation that will result in a completely different way of thinking.

France, Australia and even China are in the process of taking action to address the plastic bag problem, and it is time that we also did this in Wales. We can set the pace, as the first country in the United Kingdom to take positive and radical action. But what are we

isell fagiâu y gellir eu hailddefnyddio. Mae Waitrose wedi arbrofi â rhoi'r gorau'n llwyr i ddefnyddio bagiau plastig yn siopau'r cwmni. Mae Marks and Spencer wedi treialu codi pum ceiniog am fagiâu, a chredai i hynny lwyddo. Mae cynhyrchwyr, manwerthwyr, amgylcheddwyr a'r cyhoedd i gyd yn gwneud eu rhan, ac mae'n bryd i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud ei rhan hithau.

Mae Ceidwadwyr Cymru'n awyddus i weld Cymru'n rhoi arweiniad mewn lleihau nifer bagiau plastig, ond yn hytrach na dull tameidiog, fesul tref neu fesul siop, sef yr hyn a welwn ar hyn o bryd, credwn ei bod yn bryd i'r Llywodraeth Llafur-Plaid gyflwyno polisi sy'n ymwneud â Chymru gyfan ac sydd â chydgefnogaeth y gwahanol ddiwydiannau, gan gynnwys gwneuthurwyr, manwerthwyr, defnyddwyr a grwpiau amgylcheddol, a pholisi sy'n addas i Gymru.

Mae gwledydd eraill wedi gweithredu eisoes. Er enghraifft, gweithredodd Iwerddon chwe blynedd yn ôl drwy gyflwyno ardoll ar fagiâu plastig, gan bwysleisio nad pwrpas yr ardoll a gyflwynwyd oedd cynhyrchu cyllid ond yn hytrach hybu newid yn ymddygiad defnyddwyr. Mae Llywodraeth Iwerddon wedi llwyddo i gyflawni'r nod hwn. Nid mater o weithredu deddfwriaeth newydd yn unig oedd hynny, heb deimlad na bywyd, ond yn hytrach mater o weithio gyda pharodrwydd, gallu a chefnogaeth aelodau'r cyhoedd yng Ngweriniaeth Iwerddon i fynd i'r afael â'r broblem. Mae'n fy atgoffa braidd o'r her a wynebwyd gan y Llywodraeth Geidwadol yn y 1980au wrth gyflwyno'r deddfau gwregysau diogelwech. Prawf llwyddiant y ddeddfwriaeth honno yw'r ffordd y caiff ei hystyried yn awr: bod rhywbeth difrifol o'i le arnoch os nad ydych yn defnyddio gwregys. Rhaid wrth lywodraeth feiddgar, ddewr, fel Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig yn y 1980au, i ddechrau deddfwriaeth a fydd yn arwain at ffordd hollol wahanol o feddwl.

Mae Ffrainc, Awstralia a hyd yn oed Tsieina wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael â phroblem y bagiau plastig, ac mae'n bryd i ninnau wneud hynny yng Nghymru. Gallwn bennu'r patrwm; fel y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i weithredu mewn ffordd

to do? Should it be successful, the scope of the legislative competence Order on environmental protection and waste management would enable a ban or levy at the point of sale to be introduced on plastic bags. While there are merits in the arguments of those calling for plastic carrier bags to be banned, we believe that such a move would be punitive, expensive and practically unenforceable in Wales. For example, to take action against a day tripper from outside Wales who is enjoying a picnic from a plastic carrier bag on the promenade in Rhos-on-Sea or the Clwydian range in my constituency would be madness. Some would argue for a ban on only non-biodegradable bags, but this would again be difficult to enforce and would not solve the problems of litter and danger to wildlife.

So, if a ban is not practical, what of a levy? I agree with the conclusions of the Scottish Parliament and the carrier bag consortium in that the introduction of a levy on plastic bags alone is not the right way to deal with this problem. Lessons from Ireland teach us that, while the levy on plastic bags can deal with the environmental problems of litter and danger to wildlife, it produces unintended consequences such as increasing the use of paper alternatives, which, due to their weight, have a negative impact on the environment due to additional carbon dioxide emissions from transport, and which would end up increasing the volume of waste going to landfill. As the carrier bag consortium has pointed out, such a move would also be anti-competitive for the carrier bag industry.

3.10 p.m.

That is why, if the LCO is successful in its progress through Parliament, then we, as a party, advocate a levy on all disposable carrier bags—a levy that would be paid by the consumer at the retailers' till, the proceeds of which would be ring-fenced to fund activities that deal with tackling litter. Only that move would secure the change in behaviour and environmental improvement that we need to see. That is why we will

gadarnhaol a radical. Ond beth ydym i'w wneud? Petai'n llwyddo, byddai amrediad y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar warchod yr amgylchedd a rheoli gwastraff yn ei gwneud yn bosibl i gyflwyno gwaharddiad ar fapiau plastig neu osod ardoll arnynt yn y man lle'u gwerthir. Er bod rhinweddau yn nadleuon y rheiny sy'n galw ar i fapiau plastig gael eu gwahardd, credwn y byddai gweithredu o'r fath yn gosbol, yn ddrud ac i bob pwrpas yn amhosibl i'w weithredu yng Nghymru. Er enghraifft, gwallgofrwydd fyddai gweithredu yn erbyn ymwelydd undydd o'r tu allan i Gymru sy'n mwynhau picnic o fag plastig ar y promenâd ym Mochdre neu ar fryniau Clwyd yn fy etholaeth i. Byddai rhai'n dadlau o blaid gwaharddiad ar fapiau nad ydynt yn fioddiraddadwy, ond byddai hynny eto yn anodd ei weithredu ac ni fyddai'n datrys problem sbwriel a pherygl i fywyd gwyllt.

Felly, os nad yw gwaharddiad yn ymarferol, beth am ardoll? Cytunaf â chasgliadau Senedd yr Alban a'r consortiwm bagiau nwyddau nad cyflwyno ardoll ar fapiau plastig yn unig yw'r ffordd gywir o ddelio â'r broblem hon. Yr ydym yn dysgu o wersi o Iwerddon, er bod gosod ardoll ar fapiau plastig yn gallu delio â phroblemau amgylcheddol sbwriel a pherygl i fywyd gwyllt, bod hynny'n cynhyrchu canlyniadau anfwriadol megis cynyddu'r defnydd o bapur, a fyddai, o ganlyniad i'w pwysau, yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd oherwydd gollyngiadau carbon deuocsid ychwanegol o drafnidiaeth, gan ddiweddu gyda chynnydd yn swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Fel y dangosodd y consortiwm bagiau nwyddau, byddai symudiad o'r fath hefyd yn wrth-gystadleuol i ddiwydiant y bagiau nwyddau.

Dyna pam, os bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn llwyddo yn ei daith drwy'r Senedd, y byddwn, fel plaid, yn hyrwyddo ardoll ar bob bag nwyddau tafladwy—ardoll a fyddai'n cael ei thalu gan y cwsmer ger til y manwerthwyr. Byddai'r elw o hynny'n cael ei glustnodi i gyllido gweithgareddau sy'n mynd i'r afael â phroblem sbwriel. Dim ond hynny a fyddai'n sicrhau'r newid mewn ymddygiad a'r

support the amendment in the name of Kirsty Williams by the Liberal Democrats, recognising that it does not go as far as we would like; the scope of our proposed levy would include the measure that they propose.

Wales can take the lead in the UK on this issue. Let us not shy away from doing so.

**Mick Bates:** I propose amendment 1 in the name of Kirsty Williams. Add as a new point at the end of the motion:

*calls on the Assembly Government to introduce a levy on plastic bags and to use the revenue generated from this for environmental enhancement.*

I thank the Welsh Conservatives, particularly my colleague Darren Millar, for raising this issue today and for the interesting comments that he had to make about the various ways of reducing the use of plastic in general, and plastic bags in particular.

It is as well to remind people that plastic bags comprise 2.7 per cent, by weight, of all the litter in Wales. It costs local authorities approximately £37 million to clean up the litter that people drop. If we look at the proportionate cost of that, it costs over £1 million just to clean up the plastic bags. The hidden cost to Welsh consumers of taking plastic bags from whatever source—whether in the vegetable aisle or at the checkout—is also £4.75 million per annum. These figures are from Keep Wales Tidy, which has put together a good document on this issue and endorses the use of a levy.

It is equally important to remember that these plastic bags take an estimated 500 to 1,000 years to break down. That is a long time. So, this waste is in landfill for up to 1,000 years. Plastic bags are generally manufactured from products of oil refining and are polyurethane, which is why they take so long to degrade. Approximately 90 per cent of these bags come from the far east or China. You can imagine the related carbon emissions from transporting these bags from the other side of

gwelliant amgylcheddol y mae arnom angen ei weld. Dyna pam y byddwn yn cefnogi'r gwelliant yn enw Kirsty Williams gan y Democratiaid Rhyddfrydol, gan gydnabod nad yw'n mynd mor bell ag yr hoffem; byddai amrediad ein hardoll arfaethedig yn cynnwys y mesur y maent yn ei gynnig.

Gall Cymru roi arweiniad yn y Deyrnas Unedig ar y mater hwn. Gadewch inni beidio â phetruso rhag gwneud hynny.

**Mick Bates:** Cynigiau welliant 1 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno ardoll ar fapiau plastig a defnyddio'r refeniw a gynhyrchir o hyn ar gyfer gwelliannau amgylcheddol.*

Diolchaf i Geidwadwyr Cymru, yn arbennig fy nghyd-Aelod Darren Millar, am godi'r mater hwn heddiw ac am y sylwadau diddorol a oedd ganddo am y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio llai o blastig yn gyffredinol, a bagiau plastig yn arbennig.

Cystal inni atgoffa pobl bod bagiau plastig yn cynrychioli 2.7 y cant o'r holl sbwriel yng Nghymru yn ôl pwysau. Mae'n costio tua £37 miliwn i awdurdodau lleol glirio'r sbwriel y mae pobl yn ei ollwng. Os ystyriwn gost gymesur hynny, mae'n costio dros £1 miliwn dim ond i glirio'r bagiau plastig. Mae'r gost gudd i ddefnyddwyr Cymru o ganlyniad i gymryd bagiau plastig o ba ffynhonnell bynnag—pa un ai yn yr eil lysiau neu wrth y ddesg dalu—oddeutu £4.75 miliwn y flwyddyn. Daw'r ffigurau hyn o Cadwch Cymru'n Daclus, sydd wedi llunio dogfen dda ar y mater hwn ac sy'n cymeradwyo defnyddio ardoll.

Mae'n llawn cyn bwysiced cofio yr amcangyfrifir bod y bagiau plastig hyn yn cymryd 500 i 1,000 o flynyddoedd i ddadelfennu. Mae hynny'n amser hir. Felly, mae'r gwastraff hwn yn aros mewn safleoedd tirlenwi am hyd at 1,000 o flynyddoedd. Caiff bagiau plastig eu cynhyrchu gan amlaf o gynhyrchion puro olew ac maent yn bolywrethan, a dyna pam y cymerant gyhyd i ddiraddio. Mae tua 90 y cant o'r bagiau hyn yn dod o'r dwyrain pell neu Tsieina. Gallwch



the world. I am certain that there would be opportunities for retailers to reduce the cost of their goods by not giving out plastic bags or by imposing a levy, which I would argue is the best way to achieve that.

In fact, in a letter to the Proposed Environmental Protection and Waste Management LCO Committee, Jane Davidson confirmed that she had received legal advice on this—we would be interested to hear the Minister's response to this—that suggested that under the LCO, the Assembly could pass a Measure that introduced a levy or charge on plastic carrier bags at the point of sale. In April 2007, the current Minister for Rural Affairs also said that the levy of 1p on every plastic bag had already been introduced in Ireland and had been successful. That levy would be beneficial in getting supermarkets—major culprits in pumping out vast numbers of plastic bags daily in Wales—to be more responsible in their actions. I am sure that we would all sign up to that.

In 2002, a levy was introduced in Ireland where plastic bags were subject to 22 cent charge at point of sale. Revenue from that is used to fund environmental improvements, such as litter and waste management initiatives. That approach has seen a 94 per cent decrease in the number of bags distributed. More than 1 billion plastic bags were removed from circulation in the Republic of Ireland in the first year of the operation of the tax on plastic bags. In Denmark, in January 1994, the Government introduced a tax on plastic bags, which reduced consumption by 66 per cent. This tax was put on the wholesale price of plastic bags to retailers and, therefore, was not an obvious charge for customers. In other words, it did not have such a big impact by allowing customers to see what they could achieve by not paying that levy, as happened in Ireland.

In 2004, the plastic bag levy in Ireland raised €13.5 million, and remember, that money is

ddychmygu'r gollyngiadau carbon sy'n gysylltiedig â chludo'r bagiau hyn o ochr arall y byd. Yr wyf yn sicr y byddai cyfleoedd i fanwerthwyr ostwng costau eu nwyddau drwy beidio â rhoi bagiau plastig neu drwy godi ardoll, sef y ffordd orau o gyflawni hynny yn fy marn i.

Mewn gwirionedd, mewn llythyr at y Pwyllgor ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, cadarnhaodd Jane Davidson ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol ar hyn—byddai gennym ddi-ddordeb mewn clywed ymateb y Gweinidog i hynny—cyngor a awgrymai y gallai'r Cynulliad, dan y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, basio Mesur a fyddai'n codi ardoll ar fapiau plastig yn y man gwerthu. Yn Ebrill 2007, dywedwyd hefyd gan y Gweinidog presennol dros Faterion Gwledig bod yr ardoll o 1c ar bob bag plastig eisoes wedi cael ei chyflwyno yn Iwerddon ac wedi bod yn llwyddiannus. Byddai'r ardoll honno yn llesol i gael archfarchnadoedd—prif droseddwy'r mewn tywallt nifer fawr o fapiau plastig bob dydd yng Nghymru—i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd. Yr wyf yn sicr y byddem i gyd yn cytuno â hynny.

Yn 2002, cyflwynwyd ardoll yn Iwerddon lle'r oedd tâl o 22 senten yn cael ei godi yn y man gwerthu. Defnyddir y refeniw o hynny i ariannu gwelliannau amgylcheddol, megis mentrau rheoli sbwriel a gwastraff. O ganlyniad i'r dull hwnnw, gwelwyd gostyngiad o 94 y cant yn nifer y bagiau a ddosberthid. Ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r dreth ar fapiau plastig yng Ngweriniaeth Iwerddon, cafodd dros 1 biliwn o fapiau plastig eu symud o gylchrediad. Yn Nenmarc, yn Ionawr 1994, cyflwynodd y Llywodraeth dreth ar fapiau plastig, a bu gostyngiad o 66 y cant yn y defnydd a wneid ohonynt. Rhoddwyd y dreth honno ar bris cyfanwerthu bagiau plastig i fanwerthwyr, ac felly nid oedd yn gost amlwg i gwsmeriaid. Mewn geiriau eraill, ni chafodd effaith fawr drwy ganiatáu i gwsmeriaid weld yr hyn y gallent ei gyflawni drwy beidio â thalu'r ardoll honno, fel y digwyddodd yn Iwerddon.

Yn 2004, cododd yr ardoll bagiau plastig yn Iwerddon €13.5 miliwn, a chofiwch, caiff yr

then ploughed back into enhancing environmental schemes, which is an important aspect. In November 2007, all 33 London boroughs gave their backing to a parliamentary Bill to place a levy on plastic bags, and, as we have already heard, China, in January of this year, said that it will look at banning them. A ban in China would save 37 million barrels of crude oil.

Therefore, I believe that imposing a levy on plastic bags would be good for the landscape, good for carbon reduction, and good for business. I must be careful how I say this, but in Welshpool there is a family business called Clever Baggers that manufactures reusable linen bags, which are now common in that town and which help our local economy.

A levy is one way to reduce the number of plastic bags and gain those benefits.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Your time is up.

**Mick Bates:** London wants it, Ireland has done it, Scotland ducked it, but let us do it in Wales. Diolch yn fawr.

**Brynle Williams:** Anyone who lives and works in the Welsh countryside will be all too familiar with the sight of disposable plastic bags stuck in hedgerows, on the side of the road, in drains, gutters, and so on. They also pose a definite danger to wildlife in particular, and we heard from previous speakers about the dangers to sea mammals and sea birds. It is important that the Labour-Plaid coalition supports measures that help consumers and retailers to adopt more sustainable practices, and to get rid of a source of waste and litter. We have heard some stark facts from my colleague, Mick Bates, about the cost to the world, never mind this country.

The market is moving in this direction, but without a level playing field, high-street retailers will be slow to put these changes into practice. Big retailers like IKEA and Lidl should be commended for their decision to stop providing disposable bags, and other

arian hwnnw wedyn ei ailfuddsoddi i wella cynlluniau amgylcheddol; mae hon yn agwedd bwysig. Yn Nhachwedd 2007, cefnogodd 33 bwrdeistref Llundain Fesur seneddol i roi ardoll ar fagiau plastig, ac, fel y clywsom eisoes, dywedodd Tsieina, yn Ionawr eleni, y bydd yn edrych ar eu gwahardd. Byddai gwaharddiad yn Tsieina yn arbed 37 miliwn o gasgenni olew crai.

Felly, credaf y byddai gosod ardoll ar fagiau plastig yn dda i'r dirwedd, yn dda i leihau carbon, ac yn dda i fusnesau. Rhaid imi fod yn ofalus sut yr wyf yn dweud hyn, ond yn y Trallwng ceir busnes teuluol o'r enw Clever Baggers sy'n gweithgynhyrchu bagiau lliain y gellir eu haildefnyddio, bagiau sydd yn awr yn gyffredin yn dref honno ac sy'n helpu ein heconomi leol.

Mae ardoll yn un ffordd o leihau nifer y bagiau plastig a sicrhau'r manteision hynny.

**Y Dirprwy Llywydd:** Trefn. Mae eich amser ar ben.

**Mick Bates:** Mae ar Lundain ei eisiau, mae Iwerddon wedi'i wneud, mae'r Alban wedi'i osgoi, ond gadewch inni ei wneud yng Nghymru. Diolch yn fawr.

**Brynle Williams:** Bydd unrhyw un sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru ond yn rhy gyfarwydd â gweld bagiau plastig untro wedi cydio mewn gwrychoedd, ar ochr y ffordd, mewn draeniau, gwterydd, ac yn y blaen. Maent hefyd yn peri perygl pendant i fywyd gwyllt yn benodol, a chlywsom gan siaradwyr blaenorol am y peryglon i famaliaid môr ac adar môr. Mae'n bwysig bod y glymblaid Llafur-Plaid yn cefnogi mesurau sy'n helpu defnyddwyr ac adwerthwyr i fabwysiadu arferion mwy cynaliadwy, a chael gwared ag un ffynhonnell wastraff a sbwriel. Clywsom rai ffeithiau llym gan fy nghyd-Aelod, Mick Bates, am y gost i'r byd, heb sôn am y wlad hon.

Mae'r farchnad yn symud i'r cyfeiriad hwn, ond heb lwyfan cystadlu teg, yn araf y rhydd adwerthwyr y stryd fawr y newidiadau hyn ar waith. Dylid canmol adwerthwyr mawr fel IKEA a Lidl am eu penderfyniad i roi'r gorau i ddarparu bagiau untro, ac mae adwerthwyr

retailers have trialled their own schemes; I just hope that they move forward, like other companies, and get a move on. There is a great opportunity for the National Assembly to take a lead by supporting legislation that creates that level playing field for all retailers. Obviously, a great deal of care needs to be taken to avoid unintended consequences, but there are clear benefits in encouraging the use of reusable bags and in cutting down on disposable bag waste by using the powers that the Assembly has at its disposal. I would hope that Labour and Plaid Members would recognise that, and support this motion. Diolch yn fawr.

**Huw Lewis:** This seems like one of those issues that, on the face of it, is a no-brainer. We use too many plastic bags, they are a highly visible form of litter, and they take hundreds of years to degrade in landfill. As has been mentioned, everywhere from Ireland to San Francisco, regional, national and local governments have stepped in to introduce levies or bans of one form or another. Our instincts tell us that this should be an open-and-shut case.

However, we should beware of the pitfalls of anything that seems such an easy win in environmental terms. Following the introduction of the levy in Ireland, both the UK Government and the Scottish Executive looked to replicate the Irish success, where there was indeed a 90 per cent reduction in the use of plastic carrier bags. Incidentally, that was mirrored by a 90 per cent increase in the use of black plastic refuse bags over the same period; there was a connection, and one product replaced the other. When the UK and Scottish Governments looked at this issue, despite some initial enthusiasm, both quickly realised that it was not an open-and-shut case.

**Darren Millar:** Do you accept that, with plastic bag manufacturers moving to more biodegradable forms of plastic, the argument that one type of litter is simply replaced by another that is equally damaging is not valid, because it is not equally damaging and will simply biodegrade when it goes to landfill? It

eraill wedi treialu'u cynlluniau'u hunain; ni allaf ond gobeithio y byddant yn symud ymlaen, fel cwmnïau eraill, ac yn rhoi tân arni. Ceir cyfle ardderchog i'r Cynulliad achub y blaen drwy gefnogi deddfwriaeth sy'n creu llwyfan cystadlu teg i bob adwerthwr. Yn amlwg, mae angen cymryd llawer iawn o ofal i osgoi canlyniadau anfwriadol, ond ceir manteision clir mewn annog defnyddio bagiau y gellir eu haildefnyddio ac mewn lleihau gwastraff bagiau untro drwy ddefnyddio'r pwerau sydd gan y Cynulliad at ei ddefnydd. Byddwn yn gobeithio y byddai'r Aelodau Llafur ac Aelodau Plaid yn cydnabod hynny, ac yn cefnogi'r cynnig hwn. Diolch yn fawr.

**Huw Lewis:** Mae hwn yn ymddangos fel un o'r materion hynny sydd, ar yr wyneb, yn fater syml. Defnyddiwn ormod o fagiâu plastig, maent yn fath gweladwy iawn o sbwriel, a chymerant gannoedd o flynyddoedd i ddiraddio mewn safleoedd tirlenwi. Fel y crybwyllwyd, ym mhob man o Iwerddon i San Francisco, mae llywodraethau rhanbarthol, cenedlaethol a lleol wedi camu i mewn i gyflwyno ardollau neu waharddiadau ar un ffurf neu'r llall. Dywed ein greddf wrthym y dylai hwn fod yn achos syml.

Fodd bynnag, dylem fod yn ymwybodol o beryglon unrhyw beth sy'n ymddangos yn fuddugoliaeth hawdd mewn termau amgylcheddol. Ar ôl cyflwyno'r ardoll yn Iwerddon, ceisiodd Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth yr Alban ddynwared y llwyddiant Gwyddelig, lle cafwyd yn wir ostyngiad o 90 y cant yn y bagiau plastig a ddefnyddiwyd. Gyda llaw, adlewyrchwyd hynny gan gynnydd o 90 y cant yn y bagiau sbwriel plastig du a ddefnyddiwyd dros yr un cyfnod; yr oedd cysylltiad, a disodlwyd un cynnyrch gan y llall. Pan edrychodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar y mater hwn, er gwaethaf rhyw gymaint o frwdfrydedd cychwynol, sylweddolodd y ddwy'n fuan nad achos syml mohono.

**Darren Millar:** Gyda gweithgynhyrchwyr bagiau plastig yn symud at ffurfiau plastig mwy bioddiraddiadwy, a dderbyniwch nad yw'r ddadl bod un math o sbwriel ond yn cael ei ddisodli gan un arall sydd yr un mor niweidiol yn ddilys, oherwydd nid yw'r un mor niweidiol a bydd yn bioddiraddio pan

does not address the problem of highly visible carrier bag litter in our communities. At least bags that are used to hold refuse eventually end up in landfill.

3.20 p.m.

**Huw Lewis:** I hope that as I build my argument, I will answer your case. We should be wary of the term ‘biodegradable’, because modern landfill sites are largely anaerobic, and biodegradability in an anaerobic landfill—which is the case for all landfills operated in Wales—means hundreds of years, regardless of whether an item is stamped ‘biodegradable’ or not.

I believe that this is not primarily the environmental issue it is sometimes presented as being in terms of its impact on climate change or global warming. It would in fact have a negligible effect on those issues. This is primarily—and here I agree—a littering issue. That does not mean that it is not important, as it is, but we should not kid ourselves that a ban or a levy on plastic bags will represent a huge contribution to our more serious environmental priorities. If we wanted to develop a serious Welsh levy to benefit the environment, we should look instead to such things as 4x4s, which pollute our streets and our air to a much greater extent than the production of these plastics.

Carrier bags account for less than 1 per cent of what goes to landfill. Indeed, they only represent about 1 per cent of the litter found on the streets. That does not mean that the issue is not important, but let us get it in perspective. It is counterintuitive, but a fact nonetheless, that paper is actually worse. It is a poor substitute for plastic for disposable bags, environmentally and qualitatively. Paper bags and wrappings are the genuinely big offenders in littering. Should they replace plastic carriers, we would be in a worse situation—we must take note of that point.

aiff i'r safleoedd tirlenwi? Nid yw'n rhoi sylw i broblem sbwriel bagiau plastig cwbl weladwy yn ein cymunedau. O leiaf mae bagiau a ddefnyddir i ddal sbwriel yn cyrraedd safleoedd tirlenwi.

**Huw Lewis:** Gobeithiaf y byddaf, wrth imi adeiladu fy nadl, yn ateb eich achos. Dylem fod yn wyliadwrus o'r term ‘bioddiraddiadwy’, oherwydd bod safleoedd tirlenwi modern yn anerobig i raddau helaeth, ac mae bioddiraddiadwyedd mewn safle tirlenwi anerobig—sy'n wir am bob safle tirlenwi a weithredir yng Nghymru—yn golygu cannoedd o flynyddoedd, ni waeth a yw eitem wedi'i stampio â ‘bioddiraddiadwy’ ai peidio.

Credaf nad y mater amgylcheddol fel y'i cyflwynir weithiau yw hwn yn bennaf o ran ei effaith ar y newid yn yr hinsawdd neu ar y gynhesu byd-eang. Effaith ddibwys y byddai'n ei chael ar y materion hynny mewn gwirionedd. Mae wnelo hyn â thafllu sbwriel—ac yma cytunaf—yn anad dim. Nid yw hynny'n golygu nad yw'n bwysig, gan ei fod yn bwysig, ond ni ddylem dwyllo ein hunain y bydd gwaharddiad nac ardoll ar fapiau plastig yn gwneud cyfraniad anferthol i'n blaenoriaethau amgylcheddol mwy difrifol. Pe byddai arnom eisiau datblygu ardoll ddifrifol i Gymru er budd yr amgylchedd, dylem edrych yn hytrach ar bethau megis cerbydau 4x4, sy'n llygru ein strydoedd ac ein hawyr i raddau llawer helaethach nag a wna cynhyrchu'r plastigau hyn.

Mae bagiau plastig yn cyfrif am lai nag 1 y cant o'r hyn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Yn wir, nid ydynt ond yn cynrychioli 1 y cant o'r sbwriel a welir ar y strydoedd. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r mater yn bwysig, ond gadewch inni ei roi yn ei wir oleuni. Mae'n groes i reddf, ond yn ffaith wedi'r cyfan, bod papur yn waeth. Mae'n ddirprwy gwael i blastig ar gyfer bagiau untro, yn amgylcheddol ac yn ansoddol. Bagiau plastig a deunyddiau pecynnu yw'r troseddwy mawr gwirioneddol o safbwynt tafllu sbwriel. Pe byddent yn disodli bagiau plastig, byddem mewn sefyllfa waeth—rhaid inni gymryd sylw o'r pwynt hwnnw.

I am glad that the Tories have learnt from their colleagues in London and have included paper bags in their proposal, although that seems to be an eleventh-hour addition to their motion. The truth is, however, that a ban or levy on just plastic carrier bags would, environmentally speaking, be next to worthless. Paper bags generate 70 per cent more air pollutants and 50 times more water pollutants than plastic bags. Four times as much energy is required to produce a paper bag as compared with a plastic bag. Paper takes up nine times as much space in landfill, and does not break down—it is not biodegradable because modern landfill is anaerobic. The statistics that I quoted come from the United States Environmental Protection Agency, and the US is a country where the paper bag is king.

Plastic, unfortunately, is not the problem—that would be easy—because, as is so often the case with environmental issues, it is our own behaviour that is the problem. Littering or failure to reuse or recycle a bag, be it plastic or paper, is an example of antisocial behaviour, and it should be presented as such. That is why I am encouraged by the voluntary code of practice currently adopted by UK Governments and retailers to reduce the overall environmental impact of plastic carrier bags by 25 per cent by the end of the year. Voluntary codes do have a place, and they have proved to be effective. In this case, there is provision for retraining consumers' instincts and asking them to rethink their behaviour regarding reuse. I do not want to come across as a doom monger on this issue, and I am sure that a well-thought-out reduction proposal that builds on the voluntary code will be popular and worth while, but it is vital that we learn from others' experiences, particularly from Scotland's experience.

It is vital that we think about the unintended consequences, as the Scots put it, in terms of potential job losses. These bags and related products do not come just from China—some 300 jobs at BPI in Rhymney are dependent

Yr wyf yn falch bod y Toriaid wedi dysgu oddi wrth eu cyd-Aelodau yn Llundain ac wedi cynnwys bagiau papur yn eu cynnig, er bod hwnnw'n ymddangos fel ychwanegiad munud olaf at eu cynnig. Y gwir yw, fodd bynnag, y byddai gwaharddiad neu ardoll ar fapiau cario plastig, o safbwynt yr amgylchedd, yn ddiwerth bron. Mae bagiau papur yn cynhyrchu 70 y cant yn fwy o lygryddion aer a 50 gwaith yn fwy o lygryddion dŵr na bagiau plastig. Mae pedair gwaith yn fwy o ynni yn ofynnol i gynhyrchu bag papur o'i gymharu â bag plastig. Mae papur yn cymryd hyd at naw gwaith cymaint o le mewn safle tirlenwi, ac nid yw'n dadelfennu—nid yw'n bioddiraddiadwy oherwydd bod safleoedd tirlenwi modern yn anerobig. Daw'r ystadegau a ddyfynnais oddi wrth Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Unol Daleithiau, ac mae UDA yn wlad lle mae'r bag papur yn frenin.

Nid plastig, yn anffodus, yw'r broblem—byddai hynny'n hawdd—oherwydd, fel sydd mor aml yn wir gyda materion amgylcheddol, ein hymddygiad ni ein hunain yw'r broblem. Mae taflu sbwriel neu fethu ag aildefnyddio neu ailgylchu bag, boed hwnnw'n blastig neu'n bapur, yn esiampl o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dylid ei gyflwyno felly. Dyna paham y caf fy nghalonogi gan y cod ymarfer gwirfoddol sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraethau ac adwerthwyr y DU ar hyn o bryd i leihau effaith gyffredinol bagiau cario plastig ar yr amgylchedd 25 y cant erbyn diwedd y flwyddyn. Mae lle i godau gwirfoddol, a gwelwyd eu bod yn effeithiol. Yn yr achos hwn, ceir darpariaeth i ailhyfforddi greddfau defnyddwyr a gofyn iddynt ailfeddwl am eu hymddygiad o safbwynt aildefnyddio. Nid wyf eisiau cael fy ngweld fel un sy'n hel gofidiau yn y mater hwn, ac yr wyf yn sicr y bydd cynnig lleihau y bu meddwl dwys amdano sy'n adeiladu ar y cod gwirfoddol yn boblogaidd ac yn werth chweil, ond mae'n hanfodol ein bod yn dysgu oddi wrth brofiadau pobl eraill, yn enwedig oddi wrth brofiad yr Alban.

Mae'n hanfodol ein bod yn meddwl am y canlyniadau anfwriadol, fel dywed yr Albanwyr, o ran colledion swyddi posibl. Nid o Tsieina'n unig y daw'r bagiau a'r cynhyrchion cysylltiedig hyn—mae oddeutu

on plastic products like these, and this company is also at the forefront of recycling these products. So, there are complexities in the jobs market connected to these products that we must be aware of.

**Alun Ffred Jones:** Credaf i Darren Millar wneud y pwyntiau perthnasol o ran y difrod y gall y bagiau hyn ei wneud. Ar wahân i effaith weledol y bagiau hyn ar ein tir ac ar ein cymunedau, mae'r ddadl ynghylch bywyd gwyllt yn eithriadol o bwysig. Cofiaf i'r crwbân môr mwyaf lanio flynyddoedd yn ôl ar draeth yng Nghymru, wedi marw, a phan agorwyd ef, cafwyd fod llond ei stumog o fagiau plastig a oedd wedi cyfrannu at ei farwolaeth. Mae'r un stori yn codi dro ar ôl tro gydag adar môr ac yn y blaen. Felly, mae hon yn ddadl gref dros leihau ein dibyniaeth ar fagiau plastig ac ar ddefnyddiau plastig yn gyffredinol.

Cyfeiriodd Darren hefyd at y profiad yn Iwerddon a'r ffaith y gwelwyd gweithredu uniongyrchol yno. Mae Iwerddon yn wlad annibynnol ac mae ganddi hawliau i weithredu felly, ac yr wyf yn siŵr, felly, y bydd Darren yn cefnogi cais Plaid Cymru a fydd yn dod cyn bo hir i gael senedd lawn fel y gallwn ddeddfu'n llawn yn y meysydd hyn heb fynd drwy'r broses hirwyntog bresennol.

Nid oes neb am ailgylchu bagiau plastig. Er bod dulliau o ailgylchu poteli plastig ac yn y blaen, mae'n anodd cael marchnad bellach i ailgylchu bagiau plastig, ac mae hwnnw'n rheswm arall dros leihau ein dibyniaeth ac i geisio cael gwared ar y gordefnydd hwn o blastig. Bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol sydd wedi bod drwy'r broses graffu yn y Cynulliad yn rhoi hawl i'r Llywodraeth ddeddfu yn y maes hwn yn y ffordd orau bosibl.

Cyflwynodd Huw Lewis ddadleuon digon diddorol, er fy mod yn tybio bod llawer ohonynt yn dibynnu ar y sylw bach a wnaeth tua'r diwedd am swyddi yn Rhymni. Ni allaf ategu a yw hynny'n wir, ond mae tensiwn yn codi weithiau oherwydd gall y ddadl economaidd fynd yn erbyn yr hyn sydd orau

300 o swyddi yn BPI yn Rhymni yn ddibynnol ar gynhyrchion plastig fel y rhain, ac mae'r cwmni hwn hefyd yn chwarae rhan amlwg o ran ailgylchu'r cynhyrchion hyn. Felly, ceir cymhlethdodau yn y farchnad swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion hyn y mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol ohonynt.

**Alun Ffred Jones:** I think that Darren Millar has made the pertinent points as regards the damage that these bags can cause. Aside from the visual impact of plastic bags left as rubbish in our communities and open spaces, the wildlife debate is extremely important. I recall the largest sea turtle being found dead on a beach in Wales. When the turtle was examined, its stomach was found to be full of plastic bags that had contributed to its death. The same story arises time and again in the case of sea birds and so on. Therefore, there is a strong argument in favour of reducing our dependency on plastics in general.

Darren also referred to Ireland's experience and the fact that direct action was taken there. Ireland is an independent country which, therefore, has the right to take action in this way, and I am sure, therefore, that Darren will support the request that Plaid Cymru will soon be making for a full parliament so that we can legislate fully in these fields without going through the cumbersome process that we have at present.

No-one wants to recycle plastic bags. Even though plastic bottles, and so on, can be recycled, it is difficult to find a market for plastic bag recycling, and that gives us another reason for reducing our dependency on these bags and for curbing the excessive use of plastics. The legislative competence Order that has been through the scrutiny process in the Assembly will give the Government the right to legislate in this field in the best way possible.

Huw Lewis put forward some arguments that were interesting enough, even though I suspect that many depended on the comment that he made towards the end on jobs in Rhymney. I cannot say whether or not that is true, but tension does sometimes arise if the economic argument militates against what is

ar gyfer ein hamgylchedd. Fodd bynnag, hyd y gwelaf, nid yw'n wir bod papur yn fwy difaol na phlastig; nid yw'r ddadl ynghylch tirlenwi yn dal dŵr. Ni ddylem fod yn rhoi papur mewn safleoedd tirlenwi o gwbl; dylem fod yn ailgylchu papur bob tro.

Felly, yr wyf yn gefnogol i gynnig y Toriaid fel ag y mae. Nid wyf mor gefnogol i'r gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol gan ei bod yn rhy fuan inni fod yn sicr ynglŷn â sut yn union i ddeddfu er mwyn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar blastig.

**Jonathan Morgan:** I appreciate and support many of the constructive comments that have been made. If one thing is clear from this debate it is that Members take these matters extremely seriously. Ultimately, it is about how we start challenging people's behaviour. Huw Lewis raised that point and perhaps, as part of a confessional process, I should say that I am not particularly enthusiastic when it comes to being environmentally friendly; I am rather lazy when it comes to recycling, I use oodles of plastic bags, and my wife nags me continuously about bits of rubbish going into different bags and how many plastic bags we utilise when we go to Tesco. This is about challenging behaviour, and if there were a levy on plastic bags and we found a way of getting rid of them, we would be starting to challenge the way in which people behave. It is easy in these debates for us as AMs to get rather pious and talk about how we should be environmentally friendly and what we should all be doing to preserve the environment, but I am not alone and believe that I am fairly representative of large numbers of people throughout Wales who have perhaps not been as environmentally friendly as they should have been and would appreciate measures and opportunities for that behaviour to be challenged.

The statistics are shocking: UK customers use between 10 billion and 13 billion plastic bags every year. That is between 150 and 220 bags per person, or 60,000 tonnes of plastic. Plastic bags account for one fifth of all plastic packaging and it takes 430,000 gallons of oil to produce 100 million plastic bags. That shows you the contribution to environmental

best for the environment. However, as far as I can see, it is not true that paper is more harmful than plastic; the argument about landfill does not hold water. We should not be putting paper in landfill; we should always recycle paper.

Therefore, I support the Tory motion as it stands. I do not support the Liberal Democrat amendment, as it is too early for us to be certain about how to legislate in order to curb our dependency on plastic.

**Jonathan Morgan:** Gwerthfawrogaf a chefnogaf lawer o'r sylwadau adeiladol a wnaethpwyd. Os oes un peth yn glir o'r ddadl hon, bod Aelodau yn cymryd y materion hyn yn ddifrifol dros ben yw hwnnw. Yn y pen draw, mae'n ymwneud â sut yr ydym yn herio ymddygiad pobl. Cododd Huw Lewis y pwynt hwnnw ac efallai, fel rhan o broses gyffesol, y dylwn ddweud nad wyf fi'n frwdfrydig iawn pan fydd yn fater o fod yn amgylchedd-garedig; yr wyf braidd yn ddiog pan fydd yn fater o ailgylchu, defnyddiaf beth wmbredd o fagiau plastig, ac mae fy ngwraig yn swnian arnaf yn barhaus am ddarnau o sbwriel yn mynd i wahanol fagiau a faint o fagiau plastig a ddefnyddiwn pan awn i Tesco. Mae hyn yn ymwneud â herio ymddygiad, a phe byddai ardoll ar fagiau plastig a phe byddem yn dod o hyd i ffordd o gael gwared â hwy, byddem yn dechrau herio'r ffordd y mae pobl yn ymddwyn. Mae'n hawdd yn y dadleuon hyn inni fel ACau fod braidd yn dduwiol a siarad am sut y dylem fod yn amgylchedd-garedig a beth y dylem oll fod yn ei wneud i warchod yr amgylchedd, ond nid wyf ar fy mhen fy hun a chredaf fy mod yn eithaf cynrychioliadol o niferoedd mawr o bobl ledled Cymru nad ydynt o bosibl wedi bod mor amgylchedd-garedig ag y dylasant wedi bod ac y byddent yn gwerthfawrogi mesurau a chyfleoedd i'r ymddygiad hwnnw gael ei herio.

Mae'r ystadegau'n syfrdanol: mae cwsmeriaid y DU yn defnyddio rhwng 10 biliwn a 13 biliwn o fagiau plastig bob blwyddyn. Mae hynny rhwng 150 a 220 o fagiau'r un, neu 60,000 tonnelli o blastig. Bagiau plastig sydd i gyfrif am un rhan o bump o'r holl becynnau plastig ac mae'n cymryd 430,000 o alwyni o olew i gynhyrchu

damage that a small country like the United Kingdom makes. It shows how the Welsh Government, the UK Government and those of Scotland and Northern Ireland could start taking a lead in addressing the serious concerns around the environmental impact of this.

3.30 p.m.

We are in January, and we have just gone through a busy festive period. We have had Christmas, the new year celebrations and the high street sales. If there is one thing that demonstrates the amount of waste and litter that can be generated and the amount of plastic bags used by our high street shops and supermarkets, it is that short timeframe during the festive celebrations. I was pleased when the Government launched its latest legislative competence Order. I hope that it means that Wales will take the lead, and that we will find a strong, positive way to demonstrate the environmental credentials of the Welsh Assembly Government and the National Assembly, and to challenge people's behaviour.

I would rather do away with plastic bags altogether, though I do not know whether that is possible. Huw Lewis says that it is probably not, because jobs would be at risk. However, in the long term, I cannot see an argument for society sustaining the practice of keeping plastic bags as part of the weekly or daily shopping routine. This is an area in which the Welsh Assembly Government and the National Assembly could take a strong lead. It would demonstrate to the people of Wales that we are committed to challenging people's behaviour, and to ensuring that this competence is central to an overall package of environmental Measures that we ought to be examining. I certainly agreed with one part of Huw Lewis's speech, which is that it is not just plastic bags that cause all the environmental damage; we do plenty of other things in our daily lives that damage our environment and our communities. However, the statistics are clear that plastic bags are a central part of the damage that is being done. There are plenty of experiences of which we

100 miliwn o fagiau plastig. Mae hynny'n dangos i chi'r cyfraniad a wna gwlad fechan fel y Deyrnas Unedig i'r difrod amgylcheddol. Mae'n dangos sut y gallai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon ddechrau achub y blaen i roi sylw i'r pryderon difrifol am yr effaith amgylcheddol a gaiff hyn.

Mae'n fis Ionawr, ac yr ydym newydd fod drwy gyfnod gwyliau prysur. Yr ydym wedi cael y Nadolig, dathliadau'r flwyddyn newydd ac arwerthiannau'r stryd fawr. Os oes un peth sy'n dangos faint o wastraff a sbwriel y gellir ei gynhyrchu a faint o fagiau plastig a ddefnyddir gan siopau'r stryd fawr a'r archfarchnadoedd, yna'r cyfnod byr hwnnw pan fyddwn yn dathlu'r Nadolig yw hwnnw. Yr oeddwn yn falch pan lansiodd y Llywodraeth ei Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol diweddaraf. Yr wyf yn gobeithio ei fod yn golygu y bydd Cymru'n dangos arweiniad, ac y byddwn yn canfod ffordd gref a chadarnhaol o ddangos cymwysterau amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, a herio ymddygiad pobl.

Byddai'n well gennyf gael gwared ar fagiau plastig yn gyfan gwbl, ond nid wyf yn gwybod a yw hynny'n bosibl. Yn ôl Huw Lewis mae'n debyg nad yw'n bosibl, oherwydd byddai swyddi yn y fantol. Fodd bynnag, yn yr hirdymor, ni allaf weld y gellid dadlau dros gadw'r arferiad hwnnw sydd gan ein cymdeithas o ddefnyddio bagiau plastig i gario neges bob wythnos neu bob dydd. Mae hwn yn faes y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos arweiniad clir ynddo. Byddai'n dangos i bobl Cymru ein bod wedi ymrwymo i herio ymddygiad pobl, a sicrhau bod y cymhwysedd hwn yn ganolog i becyn cyfan o Fesurau amgylcheddol y dylem fod yn edrych arnynt. Yr wyf yn sicr yn cytuno ag un rhan o araith Huw Lewis, sef nad bagiau plastig yn unig sy'n gyfrifol am yr holl ddifrod i'r amgylchedd; yr ydym yn gwneud llawer o bethau eraill yn ein bywydau bob dydd sy'n gwneud difrod i'n hamgylchedd a'n cymunedau. Fodd bynnag, mae'r ystadegau'n dangos yn glir bod bagiau plastig yn rhan



must take account, and the Irish experience in reducing the use of plastic bags is one. Admittedly, Scotland took a different view, and we must take those experiences into account. Ultimately, however, the Government and the Assembly cannot afford to sit on their hands and do nothing. That is why today's debate is so important and why I want to see the Minister taking a very strong lead in this area.

**Lorraine Barrett:** Who would have thought that plastic bags would have caused such an interesting and informative debate? In Wales and the UK, we have an addiction to using plastic bags. We see so many people at the checkout grabbing as many as they can and filling them, and, as has already been said, they can be a real menace when they litter the streets. When I drive on the A4232, which is one of the main arteries into our city, and I see all those plastic bags hanging on the trees and the bushes, I feel quite ashamed. It is a battle for the council to pick them up and clear them away, because one lane of the carriageway has to be closed. It is a lot of work and the number of bags that are thrown away is probably a hidden expense.

Listening to the various contributions, I started thinking that perhaps we should go back to the lifestyle of my childhood days in the Rhondda, and get rid of all the supermarkets. We used to buy everything that we needed for life in Ynyshir itself. We did not need to leave Ynyshir, as all the shops were there. We needed a couple of shopping bags, the job was done and we were all well fed. However, we are where we are, and we will never go back to those days on any large scale. Various figures have been mentioned today, such as an estimated 17.5 billion plastic bags being given away by supermarkets. I congratulate Aldi and Lidl on the steps that they have taken, but also Tesco on its various schemes and projects, such as the big bag banks outside its stores where you can leave your old bags or take someone else's to re-use.

ganolog o'r difrod a wneir. Mae digon o brofiadau y mae'n rhaid inni eu hystyried, ac un o'r rhain yw profiad Iwerddon, sy'n ceisio lleihau'r defnydd a wneir o fagiau plastig. Mae'r Alban, rhaid cyfaddef, wedi edrych ar bethau mewn ffordd wahanol, a rhaid inni ystyried y profiadau hynny. Yn y pen draw, fodd bynnag, ni all y Llywodraeth a'r Cynulliad fforddio eistedd ar eu dwylo a gwneud dim. Dyna pam y mae dadl heddiw mor bwysig a dyna hefyd pam yr wyf am weld y Gweinidog yn dangos arweiniad cryf iawn yn y maes hwn.

**Lorraine Barrett:** Pwy fyddai'n meddwl y byddai bagiau plastig wedi arwain at ddadl mor ddiddorol ac addysgiadol? Yr ydym yn gaeth, yng Nghymru a'r DU, i'r arfer o ddefnyddio bagiau plastig. Gwelwn gynifer o bobl wrth y desgiau talu yn cythru am fagiau ac yn eu llenwi, ac, fel sydd wedi cael ei ddweud yn barod, gallant fod yn bethau diflas iawn pan fyddant yn sbwriel ar ein strydoedd. Pan fyddaf yn gyrru ar yr A4232, sy'n un o'r prif ffyrdd i mewn i'n dinas, ac yn gweld yr holl fagiau plastig yn hongian ar y coed a'r llwyni, teimlaf gywilydd mawr. Mae ceisio'u casglu a'u clirio'n hunllef i'r cyngor, oherwydd mae'n rhaid iddynt gau un o'r lonydd. Mae'n golygu llawer o waith ac mae'n debyg bod yr holl fagiau sy'n cael eu taflu ymaith yn gost gudd.

Wrth wrando ar y cyfraniadau amrywiol, dechreuais feddwl y dylem fynd yn ôl efallai at yr hen ffordd o fyw pan oeddwn yn blentyn yn y Rhondda, a chael gwared ar yr holl archfarchnadoedd. Arferem brynu popeth yr oedd arnom ei angen o ddydd i ddydd yn Ynyshir ei hun. Nid oedd angen inni adael Ynyshir, gan fod pob siop yno. Yr oedd arnom angen bag siopa neu ddau, yr oedd y gwaith yn cael ei wneud ac yr oedd pob un ohonom yn cael digon o fwyd. Fodd bynnag, mae'r oes wedi newid, ac ni fyddwn byth yn mynd yn ôl i'r dyddiau hynny ar raddfa fawr. Cyfeiriwyd at ffigurau amrywiol heddiw, fel yr amcangyfrif bod 17.5 biliwn o fagiau plastig yn cael eu rhannu gan archfarchnadoedd. Mae Aldi a Lidl i'w llongyfarch am y camau y maent wedi'u cymryd, a Tesco hefyd am gyflwyno cynlluniau a phrosiectau amrywiol, fel y blychau bagiau mawr y tu allan i'r siopau lle gallwch adael eich hen fagiau neu gymryd

rhai rhywun arall i'w hailddefnyddio.

I think that I would like to see a ban on plastic bags. I have been listening to the various contributions and I see that there are pros and cons on both sides. I do not know whether we could ever get to a position where we would ban them. What would my husband use when he puts the recycling out? When I discussed this issue with him, that is what he asked me. It is no good putting the recycling out in cardboard boxes, because cardboard is another difficult material to recycle. We must therefore take all these things into consideration. It is not as straightforward as we would like to think when considering whether to ban plastic bags.

It was interesting to discuss this on the Proposed Environmental Protection and Waste Management LCO Committee, which is seeking powers to enable the Welsh Assembly Government to bring proposals forward for a potential ban on bags. If you think of Cardiff, which has such high levels of recycling and composting—possibly the highest in Wales—you realise that it could have a big impact on the amount of material that we send to landfill.

We need a cultural shift, which has generally been the thrust of what other Members have said today, to encourage everyone to think about re-using bags. Why not use a linen bag or the old-fashioned shopping bags? We all have a part to play in reducing the use of plastic bags in the short to medium term at least, and then maybe considering what we do in the long term. It is up to all of us, and it is a matter of education and social responsibility.

**Eleanor Burnham:** I agree wholeheartedly with the previous speaker, as with many others. None of us is perfect, and we all try to do our little bit. I live on a small country lane and the amount of rubbish, including plastic bags, that people shovel out of their windows never ceases to amaze me. As I once asked the former Minister, Sue Essex, what is the difference between fly-tipping and that kind

Credaf y byddwn yn hoffi gweld bagiau plastig yn cael eu gwahardd. Yr wyf wedi bod yn gwranddo ar y cyfraniadau amrywiol a gwelaf fod manteision ac anfanteision ar y ddwy ochr. Ni wn a allem fyth gyrraedd sefyllfa lle byddem yn eu gwahardd. Beth fyddai fy ngŵr yn ei ddefnyddio pan mae'n mynd â'r eitemau sydd i'w hailgylchu allan? Pan drafodais y mater hwn gydag ef, dyna beth a ofynnodd imi. Nid oes diben rhoi'r eitemau sydd i'w hailgylchu mewn bocsys cardfwrdd, gan fod cardfwrdd yn ddeunydd arall y mae'n anodd ei ailgylchu. Rhaid inni felly ystyried yr holl ffactorau hyn. Nid yw ystyried a ddylid gwahardd bagiau plastig yn fater mor syml ag yr hoffem feddwl ei fod.

Cawsom drafodaeth ddiddorol ar hyn yn y Pwyllgor ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, sy'n ceisio cael pwerau er mwyn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynigion ar gyfer gwaharddiad posibl ar fagiau. Os meddyliwch am Gaerdydd, sydd â ffigurau ailgylchu a chompostio uchel iawn—y ffigurau uchaf yng Nghymru o bosibl—byddwch yn sylweddoli y gallai gael effaith fawr ar faint o ddeunydd a anfonir i safleoedd tirlenwi.

powers granted in the Identity Cards Act 2006 to ensure that ID cards are not required to access public services in Wales—those under the jurisdiction of the Assembly Government. It is vital that we continue to provide services to people on the basis of need and not on the basis of whether someone has a particular card in their pocket. The Assembly should stand firm on its previous commitment and send a strong message to Westminster that ID cards are not welcome in a supposedly liberal society.

The claim that identity cards will ensure that free public services are only used by those who are entitled to use them is yet another white elephant of a justification. When checking people who turn up at accident and emergency departments, will health staff be faced with the difficult choice of checking only those whom they suspect of being illegal or check everyone who comes in? Doctors and nurses would become immigration officials. It also raises the question of what you do when someone has forgotten to carry their card with them. Will hospitals only treat those who turn up with their cards? How will homeless people be issued with identity cards? Will homeless people, if they do not have identity cards, be denied services? We have a bad enough problem in that regard as it is—homeless people cannot register for some services because they do not have an address. The case of Ama Sumani, who was deported this week, will be familiar to everyone. If ID cards are required to access treatment, we can safely assume that there will be many more cases like this.

I believe that it is likely that members of ethnic minority groups will be stopped and asked for their ID cards much more often than white people. This could lead to a serious deterioration in relations between ethnic minorities and the police and other sections of the community. To add to this injustice, the requirement of the ID card to be used to access public services will rapidly lead to a situation whereby the card is voluntary for most of the articulate middle

pwerau a roddwyd yn Neddf Cardiau Adnabod 2006 i sicrhau nad oes gofyn cael cerdyn adnabod er mwyn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru—y gwasanaethau sydd dan awdurdodaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n hanfodol ein bod yn dal i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ar sail angen yn hytrach nag ar sail a oes gan rywun gerdyn penodol yn eu poced. Dylai'r Cynulliad lynu'n gadarn wrth ei ymrwymiad blaenorol ac anfon neges gref i San Steffan nad oes croeso i gardiau adnabod mewn cymdeithas sydd i fod yn gymdeithas ryddfrydol.

Mae'r honiad y bydd cardiau adnabod yn sicrhau nad yw gwasanaethau cyhoeddus am ddim ond yn cael eu defnyddio gan y sawl sydd â'r hawl i'w defnyddio unwaith eto'n gyfiawnhad ffuantus. Pan fyddant yn gwirio pobl sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys, a fydd staff iechyd yn wynebu dewis anodd, sef, gwirio dim ond y rheiny yr amheuir eu bod yn anghyfreithlon ynteu wirio pawb sy'n dod yno? Byddai meddygon a nyrsys yn troi'n swyddogion mewnfudo. Mae hefyd yn codi cwestiwn ynghylch beth mae rhywun yn ei wneud pan fydd claf wedi anghofio dod â'i gerdyn gydag ef. Ai dim ond y bobl sydd wedi dod â'u cardiau y bydd ysbytai'n eu trin? Sut y rhoddir cardiau adnabod i bobl ddigartref? Os nad oes gan bobl ddigartref gardiau adnabod, a wrthodir gwasanaethau iddynt? Mae gennym broblem ddigon drwg yn y cyswllt hwnnw eisoes—ni all pobl ddigartref gofrestru ar gyfer rhai gwasanaethau oherwydd nad oes ganddynt gyfeiriad. Bydd achos Ama Sumani, a allgludwyd yr wythnos hon, yn gyfarwydd i bawb. Os oes gofyn cael cerdyn adnabod er mwyn cael gafael ar driniaeth, mae'n ddigon teg tybio y bydd llawer mwy o achosion fel hyn.

Credaf ei bod yn debygol y caiff aelodau grwpiau lleiafrifoedd ethnig eu hatal a gofyn iddynt am eu cardiau adnabod yn amlach o lawer nag y caiff pobl wynion. Gallai hyn arwain at ddirywiad difrifol yn y berthynas rhwng lleiafrifoedd ethnig a'r heddlu a charfannau eraill yn y gymuned. Ar ben yr anghyfiawnder hwn, bydd y ffaith bod gofyn defnyddio'r cerdyn adnabod i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus yn arwain yn gyflym at sefyllfa lle bydd y cerdyn yn wirfoddol i'r

classes and compulsory for those who use public services and/or cannot argue and resist the need for the card.

To require the production of an ID card for access to public services will also require the Welsh Assembly Government to participate in a potentially expensive and disastrous database project. We have already seen that Government cannot be trusted with our private data. If that database was also to include details of our medical treatment, our use of local government services and our education records, not only would our entire lives be an open book to anybody with a suitable card reader, but the risk of identity theft and fraud would be magnified many times. We cannot take that risk.

We need to differentiate between cards and similar items that we obtain on a discretionary basis because we choose to access a service or exercise a privilege—discretionary items such as a driving licence or bank card—and any system that, even if voluntary on the surface, is a prerequisite for carrying out a right, such as walking down the street or accessing the national health service. The one is a matter of choice, the other a matter of compulsion. Similarly, we need to remember that even if a card is introduced as voluntary, it will rapidly, and by default, become compulsory for those who need to access specific services, such as social security or the health service. The frightening prospect of a draconian future rears in front of us where, in hospitals, police stations and social security offices across Britain, electronic readers will connect scanned cards to a massive central database in order to prove the identities of card bearers. We urge all parties to support the motion to enable the Assembly to mitigate, to the best of its powers, the big brother future that the UK Labour Government wants to impose on us.

**Jonathan Morgan:** I propose the following amendments in the name of William Graham. Amendment 1: add as a new point at the end of the motion:

rhan fwyaf o'r dosbarthiadau canol llafar ac yn orfodol i'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a/neu'r sawl na allant wrthsefyll gorfod cael cerdyn na dadlau yn ei erbyn.

Os gofynnir i bobl ddangos cerdyn adnabod er mwyn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, bydd gofyn hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymryd rhan mewn prosiect cronfa ddata a allai fod yn ddrud ac yn drychinebus. Yr ydym eisoes wedi gweld nad oes modd ymddiried ein data preifat i'r Llywodraeth. Petai'r gronfa ddata honno hefyd yn cynnwys manylion ein triniaeth feddygol, y gwasanaethau llywodraeth leol yr ydym yn eu defnyddio a'n cofnodion addysg, nid yn unig y byddai ein bywydau'n llyfr agored i unrhyw un sydd â pheiriant addas i ddarllen y cardiau, ond byddai mwy o risg o lawer i fanylion personol gael eu dwyn. Ni allwn fentro hynny.

Mae angen inni wahaniaethu rhwng cardiau a phethau tebyg a gawn o ddewis oherwydd ein bod yn dewis defnyddio gwasanaeth neu fanteisio ar fraint—pethau dewisol megis trwydded yrru neu gerdyn banc—ac unrhyw system sydd, hyd yn oed os yw'n wirfoddol ar y wyneb, yn un o'r rhagofynion ar gyfer rhywbeth sy'n hawl, megis cerdded i lawr y stryd neu ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd gwladol. Dewis yw'r naill, gorfodaeth yw'r llall. Yn yr un modd, mae angen inni gofio, hyd yn oed os bydd cerdyn yn wirfoddol adeg ei gyflwyno, y daw'n fuan iawn, yn nhrefn pethau, yn orfodol i'r sawl y mae angen iddynt gael gafael ar wasanaethau penodol, megis nawdd cymdeithasol neu'r gwasanaeth iechyd. O'n blaen, gwelwn ragolwg dychrynlyd o ddyfodol llym lle bydd peiriannau darllen electronig mewn ysbytai, swyddfeydd yr heddlu a swyddfeydd nawdd cymdeithasol ledled Prydain yn sganio cardiau a'u cysylltu â chronfa ddata ganolog anferth er mwyn profi pwy yw perchennog y cerdyn. Anogwn bob plaid i gefnogi'r cynnig i alluogi'r Cynulliad i liniaru, hyd eithaf ei bwerau, y dyfodol brawd mawr y mae Llywodraeth Lafur y DU am ei orfodi arnom.

**Jonathan Morgan:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw William Graham. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:



*notes the incompetence of the UK Government in ensuring the security of individuals' personal data.*

Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

*further calls on the current Assembly Government to urge the UK Government to drop plans for compulsory ID cards.*

I welcome this debate this afternoon. It is the first opportunity that we have had in the new year not just to discuss the potential impact of any ID scheme on public services and members of the public more widely in Wales, but to examine the impact of the loss of information and data that we experienced at the end of the last calendar year. Would the public in Wales and across the UK now be satisfied with the UK Government pursuing an ID card scheme and holding so much more additional data that would also be at risk of being lost? That is why we have tabled our amendments, noting

‘the incompetence of the UK Government in ensuring the security of individuals’ personal data’,

and calling on,

‘the current Assembly Government to urge the UK Government to drop plans for compulsory ID cards’.

In the Assembly, as we represent the millions of people who live throughout this nation, we are right to question the competence of the UK Government and the variety of Government agencies that, at the end of last year, were exposed as having lost so much personal data. For some reason, it all happened in November and December and we do not know if such data has been lost on a regular basis over the past 10 or 20 years—I suspect that it probably has been—but the losses have certainly now been exposed, with much criticism and scandal. We must be wary of any Government scheme that promotes the concept of an ID card, because I do not think that the public will be satisfied

*yn nodi anallu Llywodraeth y DU i sicrhau diogelwch data personol unigolion.*

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ymhellach ar Lywodraeth y Cynulliad cyfredol i annog Llywodraeth y DU i roi'r gorau i gynlluniau ar gyfer cardiau adnabod gorfodol.*

Croesawaf y ddadl hon y prynhawn yma. Dyma'r cyfle cyntaf inni ei gael yn y flwyddyn newydd nid dim ond i drafod effaith bosibl unrhyw gynllun cardiau adnabod ar wasanaethau cyhoeddus ac ar aelodau'r cyhoedd yn ehangach yng Nghymru, ond i archwilio effaith colli gwybodaeth a data fel y gwelsom ddiwedd y flwyddyn galendr ddiwethaf. A fyddai'r cyhoedd yng Nghymru a ledled y DU yn fodlon yn awr i Lywodraeth y DU fwrw ymlaen â chynllun cerdyn adnabod gan gadw cymaint mwy o ddata ychwanegol, a pherygl i'r rheiny fynd ar goll hefyd? Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno ein gwelliannau,

‘yn nodi anallu Llywodraeth y DU i sicrhau diogelwch data personol unigolion’

ac yn galw ar,

‘Lywodraeth y Cynulliad cyfredol i annog Llywodraeth y DU i roi'r gorau i gynlluniau ar gyfer cardiau adnabod gorfodol’.

Yn y Cynulliad, gan ein bod yn cynrychioli'r miliynau o bobl sy'n byw ym mhob cwr o'r wlad hon, yr ydym yn iawn i amau gallu Llywodraeth y DU a'r amrywiaeth o asiantaethau'r Llywodraeth y datgelwyd iddynt ddiwedd y flwyddyn diwethaf golli cymaint o ddata personol. Am ryw reswm, digwyddodd hynny i gyd ym mis Tachwedd ac ym mis Rhagfyr ac ni wyddom a oes data fel hyn wedi mynd ar goll yn rheolaidd dros y 10 neu'r 20 mlynedd diwethaf—mae'n debyg gennyf eu bod—ond mae'r colledion hynny'n sicr wedi'u datgelu yn awr, a hynny'n destun cryn feirniadaeth a sgandal. Rhaid inni ochel rhag unrhyw gynllun gan y Llywodraeth sy'n hyrwyddo cysyniad cerdyn adnabod,

for more of their personal data to be handed over to central Government agencies that could then be extremely lax in the way that they look after the security of that data.

Millions of records were lost, containing people's individual data on things like benefits and family tax credits; pension details were lost in Cardiff at the Inland Revenue; data was lost from the Driver and Vehicle Licensing Agency in Swansea; and a laptop being used by the retinopathy service was stolen when on a visit in Newport. The fact that all those facets of Government organisations and bodies—organisations that were commissioned by a variety of Government agencies to provide services—have lost millions of data records demonstrates how difficult it is for Government agencies, and UK Government and Welsh Government departments generally, to ensure the security of individuals' data.

I have never believed in an ID card scheme; I have never believed that it would reduce terrorism or crime. It would be an absolute waste of £20 billion of taxpayers' money, just for the UK Government to keep more and more data on individuals.

**Leanne Wood:** You said that you have never supported the introduction of identity cards, but I seem to recall that you were a candidate in the 1997 general election. If that is the case, are you distancing yourself from the Conservative manifesto on which you stood at that time, which included a commitment to supporting the introduction of an ID card system?

4.10 p.m.

**Jonathan Morgan:** We are certainly going back a while if we are trudging back 11 years—that is a third of my life. We could all stand here and say, 'You said this 10 years ago' and 'You said that 20 years ago', but the fact of the matter is that I have never been a supporter of ID cards. I made that perfectly clear in the campaign that I ran in Merthyr Tydfil. Thank you for raising that. I do not

oherwydd ni chredaf y bydd y cyhoedd yn fodlon gweld rhagor o'u data personol yn cael eu trosglwyddo i asiantaethau'r Llywodraeth ganolog a'r rheiny wedyn o bosibl yn hynod o flêr yn y ffordd y maent yn gofalu am ddiogelwch y data hynny.

Collwyd miliynau o gofnodion, yn cynnwys data personol pobl am bethau megis budd-daliadau a chredydau treth teulu; collwyd manylion pensiynau yng Nghaerdydd yng Nghyllid y Wlad; collwyd data gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau yn Abertawe; a dygwyd gliniadur a ddefnyddid gan y gwasanaeth retinopathi wrth i rywun ymweld â Chasnewydd. Mae'r ffaith bod yr holl agweddau hynny ar sefydliadau a chyrrff y Llywodraeth—sefydliadau a gomisiynwyd gan amrywiaeth o asiantaethau'r Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau—wedi colli miliynau o gofnodion data yn dangos pa mor anodd ydyw i asiantaethau'r Llywodraeth, ac i adrannau Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n gyffredinol, sicrhau diogelwch data unigolion.

Nid wyf erioed wedi bod o blaid cynllun cerdyn adnabod; nid wyf erioed wedi credu y byddai'n lleihau terfysgaeth na throseddau. Byddai'n wastraff llwyr ar £20 biliwn o arian trethdalwyr, dim ond i Lywodraeth y DU gadw mwy a mwy o ddata am unigolion.

**Leanne Wood:** Dywedasoch nad ydych erioed wedi cefnogi cyflwyno cardiau adnabod, ond yr wyf fel petawn yn cofio ichi fod yn ymgeisydd yn etholiad cyffredinol 1997. Os felly, a ydych yn ymbellhau oddi wrth fanifesto'r Ceidwadwyr yr oeddech yn sefyll etholiad arno ar y pryd, a hwnnw'n cynnwys ymrwymiad i gefnogi cyflwyno system cardiau adnabod?

**Jonathan Morgan:** Yr ydym yn sicr yn mynd yn ôl dipyn os ydym yn ymlwybro'n ôl 11 mlynedd—dyna draean fy mywyd. Gallem i gyd sefyll yma a dweud, 'Dywedasoch hyn 10 mlynedd yn ôl' a 'Dywedasoch hynny 20 mlynedd yn ôl', ond y gwir yw nad wyf erioed wedi cefnogi cardiau adnabod. Gwneuthum hynny'n gwbl glir yn fy ymgyrch ym Merthyr Tudful. Diolch ichi am

think that my party was right to suggest that as an option back then. We have become extremely wary of the possibility of ID cards, and you will know that the leader of the opposition at Westminster has suggested that the money should be put towards a border police force, to ensure that we have proper immigration controls. That is far more sensible than spending money on some ID card scheme.

The point raised by Peter Black about accessing public services is extremely valuable. If you have visited accident and emergency departments in our major hospitals, you will know that they are very chaotic organisations, so the thought that they, or any other part of the NHS, should act as some sort of information gateway to ensure that people have the right documentation on them to prove who they are and where they live, or whether the photograph matches the name that has been given, is ridiculous. I do not think that we should allow that to happen.

The Assembly should be confirming that it is happy with the view that it took some months ago, and I hope that Leanne Wood and her Plaid colleagues will support this motion and the amendments this afternoon. I do not believe that the Welsh people will accept that an ID card scheme will work, I do not believe that they want it, and, given all the mishaps with lost data and lost information, I do not believe that they will tolerate it. As the organisation responsible for delivering public services in Wales, we should not tolerate the idea that an ID card scheme be used by people accessing public services. You doubted my consistency, Leanne, over the period since the election campaign more than 10 years ago, but I suspect that you voted in favour of the motion that stated that the Assembly Government should not allow ID card schemes to be used for people to access public services. I hope that you, too, will be consistent and support this motion and the amendments today.

**Jenny Randerson:** It is true to say that most

godi hynny. Ni chredaf fod fy mhlaid yn iawn i awgrymu hynny'n opsiwn bryd hynny. Erbyn hyn, yr ydym yn ochelgar iawn o bosibilrwydd cyflwyno cardiau adnabod, a gwyddoch fod arweinydd yr wrthblaid yn San Steffan wedi awgrymu y dylid defnyddio'r arian i sefydlu heddlu ar y ffin er mwyn sicrhau bod gennym drefn iawn i reoli mewnfudo. Mae hynny'n fwy synhwyrol o lawer na gwario arian ar ryw gynllun cardiau adnabod.

Mae'r pwynt a godwyd gan Peter Black ynghylch cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus yn arbennig o werthfawr. Os ydych wedi ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys yn ein hysbytai mwyaf, gwyddoch eu bod fel ffair, felly mae'r syniad y dylent hwy, neu unrhyw ran arall o'r GIG, fod yn rhyw fath o borth gwybodaeth er mwyn sicrhau bod gan bobl y dogfennau cywir arnynt i brofi pwy ydynt ac ymhle maent yn byw, neu a yw'r ffotograff yn cyfateb i'r enw a roddwyd, yn hurt. Ni chredaf y dylem adael i hynny ddigwydd.

Dylai'r Cynulliad hwn fod yn cadarnhau ei fod yn hapus â'r farn a fynegodd ychydig fisoedd yn ôl, a gobeithiaf y bydd Leanne Wood a'i chyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru'n cefnogi'r cynnig hwn a'r gwelliannau y prynhawn yma. Ni chredaf y bydd pobl Cymru'n derbyn y bydd cynllun cerdyn adnabod yn gweithio, ni chredaf eu bod yn dymuno'i gael, ac, a chofio'r holl anffodion wrth golli data a cholli gwybodaeth, ni chredaf y byddant yn barod i'w oddef. Gan mai ni yw'r corff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ni ddylem oddef y syniad y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus orfod defnyddio cynllun cerdyn adnabod. Yr oeddech yn amau fy nghysondeb, Leanne, dros y cyfnod ers yr ymgyrch etholiad fwy na 10 mlynedd yn ôl, ond yr wyf yn amau ichi bleidleisio o blaid y cynnig a ddywedai na ddylai Llywodraeth y Cynulliad ganiatáu defnyddio cynlluniau cardiau er mwyn i bobl gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus. Gobeithiaf y byddwch chithau hefyd yn gyson ac yn cefnogi'r cynnig hwn a'r gwelliannau heddiw.

**Jenny Randerson:** Mae'n wir dweud bod

members of the public were probably persuaded of the need for ID cards when the idea was first announced, insofar as they gave it any serious thought. At a UK level, I recall that the Welsh Liberal Democrats were a bit of a lone voice—we were joined later by the Tories—but recent events have surely persuaded the public that it is dangerous to the entrust personal data to the Government. In the early days of this discussion I often heard it said, ‘I have nothing to hide, so I have nothing to fear’. Say that now to the 25 million people affected by the loss of data on child benefit. Say that now to the 3 million learner drivers whose data was lost by the DVLA, or to the 45,000 people claiming benefits in west Yorkshire whose names, dates of birth and National Insurance numbers were lost. Tell that to the patients in Gwent whose NHS records were lost from a health centre just before Christmas.

mwyafrif y cyhoedd, mae'n debyg, wedi cael eu perswadio bod angen cardiau adnabod pan gyhoeddwyd y syniad gyntaf, i'r graddau yr oeddent wedi meddwl o ddifrif am y peth o gwbl. Ar lefel y DU, cofiaf mai llais yn y diffeithwch braidd oedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—ymunodd y Toriaid â ni wedyn— ond yn sgil digwyddiadau diweddar nid oes bosibl bod y cyhoedd wedi cael eu perswadio ei bod yn beryglus ymddiried data personol i'r Llywodraeth. Pan ddechreuwyd trafod hyn, clywn bobl yn dweud yn aml, ‘Nid oes gennyf ddim i'w guddio, felly nid oes gennyf ddim i'w ofni’. Dywedwch hynny'n awr wrth y 25 miliwn o bobl yr effeithiwyd arnynt yn sgil colli data budd-dal plant. Dywedwch hynny'n awr wrth y 3 miliwn a oedd yn dysgu gyrru ac y collwyd eu data gan y DVLA, neu wrth y 45,000 o bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng ngorllewin Swydd Efrog y collwyd eu henwau, eu dyddiadau geni a'u rhifau Yswiriant Gwladol. Dywedwch hynny wrth y cleifion yng Ngwent y collwyd eu cofnodion GIG o ganolfan iechyd ychydig cyn y Nadolig.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 4.13 p.m.  
William Graham took the Chair at 4.13 p.m.*

Tell that to the 260,000 people, of whom over 7,000 are children, whose names and profiles are on the DNA database, put there by the four Welsh police forces. Many of those 260,000 people are innocent; they were simply picked up on suspicion as the result of an inquiry, however ill-conceived. Today, we hear that the United States Government wants us to share that DNA database with it. Are you trustful of George Bush?

Dywedwch hynny wrth y 260,000 o bobl, dros 7,000 ohonynt yn blant, y rhoddwyd eu henwau a'u proffiliau ar y gronfa ddata DNA gan bedwar heddlu Cymru. Mae llawer o'r 260,000 hynny'n bobl ddiniwed; fe'u codwyd yn syml ar amheuaeth yn sgil ymchwiliad, pa mor ddi-sail bynnag oedd hynny. Heddiw, clywn fod Llywodraeth yr Unol Daleithiau am inni rannu'r gronfa ddata DNA hon â hwy. A ydych yn ymddiried yn George Bush?

No-one any longer believes that the Government can be trusted with our personal details. They do not believe in the UK Government's competence in handling it and they do not believe in local competence. Information technology blunders have so far cost the Government £2 billion, and our personal incompetence as individuals and human beings means that mistakes are made. I recall that, as a magistrate, we frequently found mistakes on the criminal register database, and that was due to data entry errors—human error. Where there are human

Nid oes neb yn coelio rhagor y gellir ymddiried ein manylion personol i'r Llywodraeth. Nid oes ganddynt ffydd yng ngallu Llywodraeth y DU i ddelio ac ef ac nid ydynt yn credu mewn cymhwysedd lleol. Mae camgymeriadau mewn technoleg gwybodaeth wedi costio £2 biliwn i'r Llywodraeth hyd yma, ac mae ein blerwch personol fel unigolion ac fel bodau dynol yn golygu bod camgymeriadau'n digwydd. Cofiaf fy mod, fel ynad, yn dod o hyd i wallau'n aml ar gronfa ddata'r gofrestr droseddol, ac mai camgymeriadau pobl wrth

beings and computers, the errors are magnified.

The other problem is that there are no safeguards in place, or there are totally inadequate safeguards in place, in law and in day-to-day procedure to stop cases of abuse of the information and the data concerned. So, the message in relation to the collection of data on computers is to be afraid, be very afraid, of the idea of a national identity database. Function creep could see more and more personal details from different Government departments being merged into a central file. There could also be more insidious informal function creep as banks and other organisations set up their own satellite databases to cross-reference credit ratings and home ownership status against the national identity register. This would make the database increasingly unsafe and open to fraud, and it would increase identity theft rather than prevent it. When identity theft happens in those circumstances, it will be very comprehensive. It also infringes our right to privacy, which we in Wales and Britain have long regarded as sacred, but it is something that we have taken more or less for granted and something on which there are no safeguards because we have no written constitution.

Therefore, we will support the Conservatives' amendment because we believe that our Westminster colleagues need to have their intention drawn to the incompetence of the Government on these issues. I very much hope that Labour and Plaid Cymru will support the motion on this occasion—Plaid Cymru did so last time. It was the policy of the previous Assembly, and I hope that we carry it through this time.

**Leanne Wood:** One of the main arguments used by the UK Government in favour of ID cards was that it needed to protect people against identity fraud, and a number of contributors have made the point that not many people take the UK Government

fwydo data oedd yn gyfrifol am hynny—camgymeriadau dynol. Pan fydd cyfuniad o bobl a chyfrifiaduron, mae'r camgymeriadau'n rhwym o gael eu dwysau.

Y broblem arall yw nad oes mesurau diogelu ar waith, neu fod y mesurau hynny'n gwbl annigonol, yn y gyfraith ac mewn gweithdrefnau o ddydd i ddydd i atal y wybodaeth a'r data dan sylw rhag cael eu camddefnyddio. Felly, y neges o ran casglu data ar gyfrifiaduron yw pryderwch, pryderwch yn fawr, ynghylch y syniad o gronfa adnabod genedlaethol. Gallai cynyddu swyddogaethau'n raddol arwain at fwy a mwy o fanylion personol o wahanol adrannau'r Llywodraeth yn cael eu cyfuno ar ffeil ganolog. Gellid hefyd gweld cynnydd anffurfiol mewn swyddogaethau mwy llechwraidd wrth i fanciau a sefydliadau eraill sefydlu eu his-gronfeydd data eu hunain i drawsgyfeirio statws credyd a pherchentaeth yn erbyn y gofrestr adnabod genedlaethol. Gallai hyn olygu bod y gronfa ddata'n llai ac yn llai diogel ac yn fwy agored i dwyll, ac y byddai'n arwain at fwy o ddwyn manylion personol, yn hytrach na'i atal. Pan fydd manylion personol yn cael eu dwyn mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yn digwydd ar raddfa fawr iawn. Mae hefyd yn torri ar ein hawl i breifatrwydd, sydd wedi cael ei ystyried fel rhywbeth sanctaidd yng Nghymru a Phrydain ers amser maith, ond mae'n rhywbeth yr ydym wedi'i gymryd fwy neu lai'n ganiataol ac mae'n rhywbeth nad yw'n cael ei ddiogelu oherwydd nad oes gennym gyfansoddiad ysgrifenedig.

Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr oherwydd ein bod yn credu bod angen tynnu sylw ein cyfeillion yn San Steffan at fethiant y Llywodraeth o ran y materion hyn. Gobeithiaf yn fawr y bydd Llafur a Phlaid Cymru'n cefnogi'r cynnig y tro hwn—yr oedd Plaid Cymru yn ei gefnogi y tro diwethaf. Dyna oedd polisi'r Cynulliad diwethaf, a gobeithiaf y caiff ei dderbyn y tro hwn.

**Leanne Wood:** Un o brif ddadleuon Llywodraeth y DU o blaid cardiau adnabod yw bod eu hangen i ddiogelu pobl rhag twyll manylion personol, ac mae nifer o siaradwyr wedi codi'r pwynt nad oes llawer o bobl yn cymryd Llywodraeth y DU o ddifrif yn

seriously on that argument because of data loss, particularly in relation to child benefit claimants. There are some suggestions that the UK Government is watering down its previous commitment to introducing a compulsory identity card scheme, which I welcome. Plaid Cymru is totally opposed to the introduction of ID cards and the setting up of the ID card database.

We share the concerns expressed that people are sleepwalking into a surveillance culture. We are concerned about the ever-spiralling costs, which will mean money that could obviously be better spent on improving public services. We are also concerned about the potential for harassment and even more discrimination against members of national minority groups. If the UK Government wants the card to prevent illegal immigration, so-called 'health tourism' and so-called 'terrorism', it is likely that black and Asian people will be disproportionately targeted, and that is hardly conducive to good race relations. Surely, a better way of dealing with such problems would be through a genuinely ethical foreign policy.

The Scottish Government has decided that ID cards will not be needed to access devolved services in Scotland, and the National Assembly for Wales made a similar decision previously, showing that there is little appetite outside of London for this scheme. In fact, there is not much appetite inside of London either, because the London Assembly has opposed ID cards. So, I hope that this pressure will result in a reversal of the decisions taken by the UK Government so far.

4.20 p.m.

I will end my contribution to this debate by referring to a case with which people will be familiar and which has been raised already. Last week, Ama Sumani was forcibly removed in a wheelchair from a hospital in Cardiff where she was receiving kidney dialysis and treatment for cancer. She has

hynny o beth o ganlyniad i'r data sydd wedi'i golli, yn enwedig yn achos hawlwyrr budd-daliadau plant. Cafwyd rhai awgrymiadau bod Llywodraeth y DU am lastwreiddio ei hymrwymiad blaenorol i gyflwyno cynllun cardiau adnabod gorfodol, sy'n rhywbeth yr wyf yn ei groesawu. Mae Plaid Cymru'n gwrthwynebu'n llwyr y bwriad i gyflwyno cardiau adnabod ac i sefydlu'r gronfa ddata cardiau adnabod.

Yr ydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd bod pobl yn cerdded yn ddiarwybod i ddiwylliant gwyliadwriaeth. Yr ydym yn pryderu bod y costau'n codi ac yn codi, sy'n ei gwneud yn amlwg y byddai'n well gwario'r arian ar wella gwasanaethau cyhoeddus. Yr ydym yn pryderu hefyd ynghylch posibilrwydd aflonyddu a hyd yn oed mwy fyth o gamwahaniaethu yn erbyn aelodau grwpiau lleiafrifoedd cenedlaethol. Os yw Llywodraeth y DU am gael y cerdyn i atal mewnfudo anghyfreithlon, a'r hyn a elwir yn 'dwrastiaeth iechyd', a'r hyn a elwir yn 'derfysgaeth', mae'n debygol y bydd pobl ddu ac Asiaidd yn cael eu targedu'n annheg, ac nid yw hynny'n debygol o arwain at gysylltiadau hiliol da. Yn sicr, byddai mabwysiadu polisi tramor gwirioneddol foesegol yn ffordd llawer gwell o ddelio â phroblemau o'r fath.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu na fydd angen cardiau adnabod i ddefnyddio gwasanaethau datganoledig yn yr Alban, a gwnaethpwyd penderfyniad tebyg gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y gorffennol, sy'n dangos nad oes llawer o awch am y cynllun hwn y tu allan i Lundain. A dweud y gwir, nid oes llawer o awch yn Llundain ychwaith, oherwydd mae Cynulliad Llundain wedi gwrthwynebu cardiau adnabod. Felly, gobeithiaf y bydd y pwysau hwn yn arwain at wyrdroi'r penderfyniadau a wnaethpwyd hyd yma gan Lywodraeth y DU.

Yr wyf am gloi fy nghyfraniad at y ddadl hon drwy gyfeirio at achos y bydd pobl yn gyfarwydd ag ef ac yn un a grybwyllwyd eisoes. Yr wythnos diwethaf, cafodd Ama Sumani ei gorfodi i adael ysbyty yng Nghaerdydd mewn cadair olwyn lle'r oedd yn cael dialysis arenau a thriniaeth am

been returned to Ghana, where she is unable to access the health services that she needs, and her friends are concerned that, as a result, she will die. This case has been described as 'barbaric' by a number of different organisations. How many more such cases will we see if health treatment is refused because someone is not carrying an identity card? A progressive country should not allow such callous actions on the part of its Government. There are plenty of reasons to oppose identity cards and, encouragingly, public opinion is growing in its opposition. ID cards will be costly, intrusive, bureaucratic and, for some people, discriminatory. They are an all-round bad idea and I am glad that there is broad consensus in Wales that this is not the way that we want to go.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to you for giving way. There are probably few things on which you and I would agree, but this is one area on which we do agree. Will Plaid Cymru support amendment 2, because, although there have been votes on this before the last Assembly election, our colleagues in Westminster should not be under any illusion about the Assembly's view on this important matter? This motion is worthy of support as are the amendments. How will you be voting this afternoon?

**Leanne Wood:** I am pretty sure that after the vote this afternoon, people will be clear where the Assembly stands on identity cards. However, I must remind you, Jonathan, that the Conservative Party's position on this question has been opportunistic. In 1997, you stood for election and stated that you supported identity cards, but now that public opinion is going the other way, you have changed your tune. So, I do not have much sympathy with the arguments put forward by your party.

**Eleanor Burnham:** I firmly believe that over the past 10 years, we have steadily moved towards a Big Brother police state. As a

ganser. Mae wedi ei hanfon yn ôl i Ghana, lle nad yw'n gallu cael gafael ar y gwasanaethau iechyd y mae eu hangen arni, ac mae ei chyfeillion yn poeni y bydd yn marw o ganlyniad i hyn. Mae'r achos wedi cael ei ddisgrifio fel un 'barbaraidd' gan nifer o wahanol sefydliadau. Faint yn fwy o achosion tebyg y byddwn yn eu gweld os yw triniaeth yn cael ei wrthod oherwydd nad oes gan rywun gerdyn adnabod yn ei feddiant? Ni ddylai gwlad flaengar ganiatáu i gamau mor ddideimlad gael eu cymryd ar ran ei Llywodraeth. Mae digonedd o resymau dros wrthwynebu cardiau adnabod ac, mae'n dda gweld bod gwrthwynebiad y cyhoedd iddynt ar gynydd. Bydd cardiau adnabod yn gostus, yn fusneslyd, yn fiwrocraataidd ac, yn achos rhai pobl, yn arwain at gamwahaniaethu yn eu herbyn. Mae hwn yn syniad gwael ym mhob ystyr ac yr wyf yn falch bod consensws cyffredinol yng Nghymru yn erbyn mynd i'r cyfeiriad hwn.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Mae'n debyg nad oes llawer o bethau yr ydych chi a mi'n cytuno arnynt, ond mae hwn yn un maes lle'r ydym o'r un farn. A wnaiff Plaid Cymru gefnogi gwelliant 2, oherwydd, er ein bod wedi pleidleisio ar hyn cyn etholiadau diwethaf y Cynulliad, ni ddylai'r Aelodau yn San Steffan dwyllo'u hunain ynghylch barn y Cynulliad ar y mater pwysig hwn? Mae'r cynnig hwn yn un gwerth ei gefnogi ac felly hefyd y gwelliannau. Sut y byddwch yn pleidleisio'r prynhawn yma?

**Leanne Wood:** Yr wyf yn eithaf siŵr y bydd pobl yn gwybod beth yw safbwynt y Cynulliad ar gardiau adnabod ar ôl y bleidlais y prynhawn yma. Fodd bynnag, rhaid imi eich atgoffa, Jonathan, bod safbwynt y Blaid Geidwadol ar y mater hwn wedi bod yn fanteisgar. Yn 1997, pan oeddech yn sefyll mewn etholiad dywedasoed eich bod yn cefnogi cardiau adnabod, ond yn awr gan fod barn y cyhoedd yn gogwyddo i'r cyfeiriad arall, yr ydych chi hynny wedi newid eich cân. Felly, nid oes gennyf lawer o gydymdeimlad at y dadleuon sydd wedi eu cyflwyno gan eich plaid.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf yn credu'n gryf ein bod wedi symud yn raddol tuag at wladwriaeth heddlu'r Brawd Mawr yn ystod

former Wrexham magistrate, I was hugely concerned to see the CCTV camera management, and it is clear that we need to question the monitoring and management of such issues. The same is true of ID cards. My daughter lives in Romania, as some of you may know, and she suggested at Christmas that we were becoming paranoid about identity in the UK, until I reminded her about the loss of huge quantities of extremely sensitive and vital information and personal data that had occurred over the previous six months.

Another crucial area of ID card use is access to education. I believe that the UK Government has already said that students in England will need cards. Presumably, therefore, Welsh students studying in England will also need them to apply to study in England and to access student loans and other services. Again, that is a very difficult area.

ID cards may start out as being voluntary, but surely the assumption is that anyone in receipt of pensions and benefits will need a card, and they will soon become virtually compulsory as people decide that it is better to have one, not knowing which service they might want to shortly access or whether a card is required to do so. If the card is simply voluntary to access services, then the people for whom these cards will rapidly become compulsory will be those who most need to access public services such as health, social housing, and so on. In short, as has been previously suggested, this will become a divisive situation, which could develop in a way where the card is voluntary for most of the articulate middle classes, but compulsory for those who access public services or cannot articulate clearly enough why they do not need such a card.

I frequently listen to interesting radio programmes and I recently listened to a discussion with a scientific expert on the loss of biometric details. I certainly do not understand the complexities of such details, but the argument was that the loss of such details would be extremely difficult to sort

y 10 mlynedd diwethaf. Fel cyn ynad yn Wrecsam, yr oeddwn yn pryderu'n fawr o weld rheolaeth y camerâu cylch cyfyng, ac mae'n amlwg bod angen inni gwestiynu'r ffordd y cânt eu monitro a'u rheoli. Mae'r un peth yn wir am gardiau adnabod. Mae fy merch yn byw yn Rwmania, fel y gŵyr rhai ohonoch, ac awgrymodd yn ystod y Nadolig ein bod yn gwneud môr a mynydd o faterion o'r fath yn y DU, tan imi ei hatgoffa o'r niferoedd enfawr o wybodaeth a data personol sensitif dros ben a chwbl hanfodol a gollwyd yn ystod y chwe mis blaenorol.

Maes hollbwysig arall o ddefnyddio cardiau adnabod yw mynediad at addysg. Credaf fod Llywodraeth y DU wedi dweud eisoes y bydd angen cardiau ar fyfyrwyr yn Lloegr. Tybiaf, felly, y bydd myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr hefyd eu hangen i wneud cais i astudio yn Lloegr ac i gael gafael ar fenthyciadau myfyrwyr a gwasanaethau eraill. Unwaith eto, mae hwn yn faes anodd iawn.

Gall cardiau adnabod ddechrau fel rhywbeth gwirfoddol, ond gellir cymryd yn ganiataol y bydd pawb sy'n cael pensiwn a budd-daliadau angen cerdyn a chyn hir byddant yn orfodol i bob pwrpas wrth i bobl benderfynu bod yn well iddynt gael un, gan na allant ddweud pa wasanaeth y bydd eu hangen arnynt nesaf neu a fydd angen cerdyn arnynt er mwyn ei gael. Os yw cerdyn yn wirfoddol er mwyn cael mynediad at wasanaethau, yna'r bobl a fydd yn gweld yn sydyn iawn bod y cardiau hyn yn orfodol, fydd y rhai y mae angen arnynt i fanteisio ar wasanaethau cyhoeddus fwyaf, megis iechyd, tai cymdeithasol ac yn y blaen. Yn fras, bydd hyn yn datblygu i fod yn sefyllfa gynhennus lle mae'r cerdyn yn wirfoddol i'r dosbarthiadau canol mwyaf croyw, ond yn orfodol i'r rheiny y mae arnynt angen mynediad at wasanaethau cyhoeddus neu nad ydynt yn gallu cyfleu'n ddigon eglur pam nad oes angen cerdyn o'r fath arnynt.

Byddaf yn gwrandao ar raglenni radio diddorol yn aml ac yn ddiweddar clywais drafodaeth gydag arbenigwr gwyddonol ar golli manylion biometrig. Yn sicr, nid wyf yn deall cymhlethdodau manylion o'r fath, ond y ddadl oedd y byddai colli manylion o'r fath yn anodd iawn ei gywiro unwaith yr oeddent



out post the loss. If you lose them, how on earth do you then prove who you are? It is the end of the road in terms of some people's use of this system.

It is a worrying fact; I am not a scientist, but there were some interesting people discussing this issue, and although it is something that I have not concerned myself with before, they certainly made me sit up and think.

As others have said, we have just experienced the most scandalous loss of information over the past nine months. It is frightening—who had any notion, for instance, that an American company was the custodian of some of our most intimate and sensitive details? The mind boggles; it would be funny if it were not so serious.

Is the massive cost of identity cards really worth it? Would it not be better, as others have said, to put more police on our streets, more teachers in our schools, and more doctors and nurses in our hospitals? The various cost estimates could go sky high, like the Olympics estimates, which started at £2 billion and are now up to £10 billion. Soon, we will be spending as much as we do each year on Wales, namely, £14 billion. One estimate is that it will cost £3 billion, and another, for the combined running of identity cards with the biometric passport system, is £5.8 billion, which is almost double. Yet another estimate is that it will cost £584 million to run each year, and we know from past experience that this is likely to be chicken feed compared with the eventual cost. Part of the cost will be carried by individuals, and, as others have said, this is another example of a great British rip-off. We will be charged £93, while in Germany—and this is just farcical—people will be charged just £5.50. That in itself is worth questioning.

A report by the London School of Economics estimated that the true cost could be between £12 billion and £18 billion. It also claims that

wedi'u colli. Os ydych yn eu colli, sut ar y ddaear ydych yn gallu profi pwy ydych chi? Dyma ddiwedd y daith o ran defnydd rhai pobl o'r system hon.

Mae'n ffaith sy'n achos pryder; nid wyf yn wyddonydd, ond yr oedd rhai pobl ddiddorol yn trafod y mater, ac er nad yw'n rhywbeth yr wyf wedi meddwl llawer amdano o'r blaen, yr oedd yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud yn ddigon i dynnu fy sylw a gwneud imi feddwl.

Fel y mae eraill wedi dweud, yr ydym newydd brofi'r colledion gwybodaeth mwyaf dychrynlyd dros y naw mis diwethaf. Mae'n arswydus—pwy oedd yn gwybod, er enghraifft, mai cwmni o America oedd yn gofalu am rai o'n manylion mwyaf personol a sensitif? Mae'n ddigon i godi arswyd; byddai'n ddoniol oni bai ei fod mor ddfrifol.

A oes modd cyfiawnhau cost enfawr cardiau adnabod? Oni fyddai'n well, fel y mae eraill wedi'i ddweud, rhoi mwy o heddlu ar ein strydoedd, mwy o athrawon yn ein hysgolion, a mwy o feddygon a nyrsys yn ein hysbytai? Gallai'r gwahanol amcangyfrifon o'r costau sy'n cael eu gwyntyllu gyrraedd yr entrychion, fel yr amcangyfrifon ar gyfer y gemau Olympaidd, a ddechreuodd yn £2 biliwn ac sydd bellach wedi cyrraedd £10 biliwn. Cyn hir byddwn yn gwario cymaint ag yr ydym yn ei wario ar Gymru bob blwyddyn, sef £14 biliwn. Dywed un amcangyfrif y bydd yn costio £3 biliwn, ac mae un arall, ar gyfer y gost gyfun o redeg cardiau adnabod gyda'r system pasbortau biometrig, yn £5.8 biliwn, sydd bron yn ddwbl yr amcangyfrif cyntaf. Yn ôl amcangyfrif arall bydd yn costio £584 miliwn y flwyddyn i'w redeg, a gwyddom drwy brofiad mai briwsion fydd hyn o'i gymharu â'r gost derfynol. Bydd rhan o'r gost yn cael ei hysgwyddo gan unigolion, ac fel y mae eraill wedi'i ddweud, mae hyn yn enghraifft arall o dwyll nodweddiadol Brydeinig. Bydd yn costio £93 inni, ond yn yr Almaen—ac mae hyn yn hurt—bydd pobl yn gorfod talu £5.50 yn unig. Mae hynny ynddo'i hun yn codi cwestiynau.

Amcangyfrifodd adroddiad gan y London School of Economics y byddai'r gwir gost rhwng £12 biliwn a £18 biliwn. Honna hefyd

the Government has underestimated the high cost of technology, and that the biometric scanners needed will cost £3,000 to £4,000 per unit, not the £250 to £750 suggested by the Government.

Finally, Chair, I believe that we need to question this carefully. I am worried about what has happened over the past 10 years—we have almost become a police state, and we should take great care. Diolch.

**Mark Isherwood:** The Blair-Brown Government has shown contempt for democratic parliamentary practice and the protection of the civil liberties that provide the foundations for our liberal, democratic constitution. The Welsh Assembly Government must ensure that identity cards are not required for access to non-devolved services, and it must urge the UK Government to drop plans for compulsory identity cards.

Leanne Wood is right to say that the Conservative Party has supported the principle of identity cards in the past. We even supported the Government Bill at its Second Reading during the last Parliament, but we did so on the specific basis that the UK Government would address our concerns. When it failed to do so, we withdrew our support as the Bill moved through the legislative process. The UK Government failed to carry out five key tests: on the purpose of the cards; on the capability of the technology available to the UK; on the capability to manage the scheme; on the cards' value for money; and, most importantly, on civil liberties, with regard to the database and security of the system.

People want visible policing, appropriate immigration control, and social responsibility—not a police state. The Home Office's track record regarding the implementation of IT systems does not bode well, and the Government has failed to answer questions about cost efficiency. As we can see from countries that already have identity cards, they have not been the simple solution that the UK Government claims. Nowhere is that highlighted more than in Spain, where identity cards failed to prevent

nad yw'r Llywodraeth wedi llawn sylweddoli cost sylweddol y dechnoleg, ac y bydd y sganwyr biometrig y bydd eu hangen yn costio rhwng £3,000 a £4,000 yr un, ac nid £250 i £750 fel yr awgryma'r Llywodraeth.

Yn olaf, Gadeirydd, credaf fod angen gofyn cwestiynau ynghylch hyn. Yr wyf yn bryderus ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd dros y 10 mlynedd diwethaf—yr ydym yn agos at fod yn wladwriaeth heddlu, a dylem fod yn ofalus iawn. Diolch.

**Mark Isherwood:** Mae Llywodraeth Blair-Brown wedi dangos ei dirmyg at arferion seneddol democrataidd, ac at amddiffyn yr hawliau sifil sy'n sail i'n cyfansoddiad democrataidd, rhyddfrydol. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau nad oes rhaid cael cardiau adnabod i fanteisio ar wasanaethau sydd heb eu datganoli, a rhaid pwysu ar Lywodraeth y DU i roi'r gorau i'w chynlluniau ar gyfer cardiau adnabod gorfodol.

Mae Leanne Wood yn gywir i ddweud bod y Blaid Geidwadol wedi cefnogi'r egwyddor o gardiau adnabod yn y gorffennol. Yr oeddem hyd yn oed yn cefnogi Mesur y Llywodraeth yn ystod ei Ail Ddarlleniad yn ystod y Senedd ddiwethaf, ond gwnaethom hynny ar yr amod penodol y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi sylw i'n pryderon, ond pan wrthododd wneud hynny, tynasom ein cefnogaeth yn ôl wrth i'r Mesur symud drwy'r broses ddeddfwriaethol. Methodd Llywodraeth y DU â chynnal y pum prawf allweddol; ar allu'r dechnoleg sydd ar gael yn y DU; ar y gallu i reoli'r cynllun; ar werth am arian y cardiau; ac yn bwysicaf oll, ar hawliau sifil, o ran y gronfa ddata a diogelwch y system.

Mae pobl am weld heddlua gweladwy, rheolaeth briodol dros fewnfudo, a chyfrifoldeb cymdeithasol—nid gwladwriaeth heddlu. Nid yw record y Swyddfa Gartref o ran rhoi systemau TG ar waith yn argoeli'n dda, ac nid yw'r Llywodraeth wedi ateb cwestiynau ar gost effeithlonrwydd. Fel yr ydym wedi gweld mewn gwledydd sydd â chardiau adnabod eisoes, nid ydynt wedi bod yn ateb mor syml â'r hyn yr honna Llywodraeth y DU. Ni welwyd hyn yn fwy amlwg yn unman nag yn

the terrorist outrage in Madrid.

Sbaen, lle methodd cardiau adnabod â rhwystro'r ymosodiad erchyll gan derfysgwyr ym Madrid.

We must also note the London School of Economics research; we have already heard about it from Liberal Democrat colleagues, so I will not repeat the details. However, unlike the Labour Government's Big Brother proposals, the alternative scheme suggested by the LSE report would be protective of our civil liberties, because it would give individuals the right to decide whether to store any information on their cards other than their name, date of birth and photograph.

Within days of taking over as head of the British army in August 2006, General Sir Richard Dannatt returned from a trip to Afghanistan and asked whether £1,150 take-home pay for a month's fighting in Helmand province was sufficient. A newspaper campaign followed, resulting in the Government announcement of a tax-free bonus of £2,240 for troops serving in war zones. Sir Richard talked of the military covenant between a nation and its armed forces, telling the Secretary of State for Defence that the army would not let the nation down, but that he did not want the nation to let the army down. He stated that the abuse of a wounded soldier in Selly Oak Hospital, Birmingham, by an anti-war civilian showed a breakdown of the covenant. He added that:

'Iraq may be an unpopular war now and Afghanistan may be a misunderstood war, but the soldiers, sailors and airmen who are conducting these operations are doing their duty to their best ability...I hope the British people never forget that our soldiers are

lawer o gefnogaeth i deuluoedd milwyr ymadawedig.

Mae'r Gweinidog dros Gyn-filwyr yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, Derek Twigg AS, wedi croesawu ymgyrch y lleng dros Anrhydeddu'r Cyfamod, gan ddweud bod y Llywodraeth wedi cymryd camau buan i ganfod materion sy'n achosi pryder neu a allai achosi pryder, ac i roi sylw iddynt. Yn dilyn cyfarfod gyda chadeirydd cenedlaethol y lleng, Peter Cleminson, a'r cyfarwyddwr cyffredinol, Chris Simpkins, mynegodd y Prif Weinidog ei werthfawrogiad i'r lleng am yr holl waith hanfodol y mae'n ei wneud. Dywedodd cyfarwyddwr cyffredinol y lleng, fodd bynnag, eu bod wedi egluro bod angen gwneud llawer mwy, yn enwedig gan fod natur gwaith achosion y lleng yn newid. Gwelir hynny yn y cynnydd o 30 y cant yn nifer ei chleientiaid sydd dan 35 oed yn y 12 mis diwethaf. Dywedasant hefyd wrth Mr Brown eu bod wedi gweld digon o dystiolaeth, ers lansio ymgyrch Anrhydeddu'r Cyfamod, fod y genedl yn disgwyl gweld cyflawni'r ddyletswydd gofal gydol oes tuag at filwyr.

O fewn dyddiau ar ôl cymryd yr awenau fel pennaeth byddin Prydain yn Awst 2006, dychwelodd y Cadfridog Syr Richard Dannatt ar ôl taith i Afghanistan a gofyn a oedd £1,150 o gyflog clir am fis o ymladd yn nhalaith Helmand yn ddigon. Bu ymgyrch gan bapur newydd wedyn ac, o ganlyniad i hynny, gwnaeth y Llywodraeth gyhoeddiad am fonws di-dreth o £2,240 i filwyr sy'n gwasanaethu mewn ardaloedd brwydro. Soniodd Syr Richard am y cyfamod milwrol rhwng y genedl a'i lluoedd arfog, gan ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn na fyddai'r fyddin yn gwneud cam â'r genedl, ond nad oedd am i'r genedl wneud cam â'r fyddin. Dywedodd fod y gamdriniaeth a gafodd milwr clwyfedig yn Ysbyty Selly Oak, Birmingham, gan sifiliad a oedd yn erbyn rhyfel yn dangos bod y cyfamod wedi'i dorri. Ychwanegodd:

Efallai fod rhyfel Irac yn un amhoblogaidd yn awr ac efallai fod y rhyfel yn Afghanistan yn un nas deallir, ond mae'r milwyr, y morwyr a'r awyrenwyr sy'n ymgymryd â'r ymgyrchoedd hyn yn cyflawni eu dyletswydd hyd eithaf eu gallu...Gobeithiaf na fydd pobl

doing what the Government requires them to do. It should get out how difficult it has been, how dangerous, how tragic at times, and that they have done well. The treatment of soldiers in civilian wards shows society's lack of understanding of the needs of our troops. It is not acceptable for our casualties to be in mixed wards with civilians...people need the privacy of recovering in a military environment'.

He added that a soldier who is injured and loses consciousness wants to wake up to familiar sights and sounds and wants to see people in uniform. Instead, we exacerbate the culture shock.

Sir Richard referred to the abused soldier in Selly Oak Hospital, but there are countless other examples of the broken covenant. Soldiers who suffered appalling injuries in Iraq and Afghanistan were verbally abused as they swam in a public swimming pool during a weekly rehabilitation class. As Patrick Mercer MP, himself a former military commander, stated:

'It may well be that these people had paid for the use of the pool, but our soldiers have paid so much more for their country'.

Too many former service personnel have had to battle with the War Pensions Agency for pensions that they had assumed would be approved without hesitation. That has been the case under successive Governments; I am not being party-political in saying that.

One example is Richie Turnbull, an RAF ground electrician in the first Gulf war. On arriving in the Gulf, he received 14 injections in 10 minutes and became ill immediately. Two members of his team had to be hospitalised. Despite feeling unwell, he pressed on with his job. On his return from the Gulf, his health continued to deteriorate. He had no choice but to leave the services. Struggling to make ends meet, he approached the War Pensions Agency in 1995, but it

Prydain byth yn anghofio bod ein milwyr yn gwneud yr hyn y mae'r Llywodraeth yn mynnu iddynt ei wneud. Dylid cael gwybod pa mor anodd y bu hynny, pa mor beryglus, pa mor drist ar brydiau, a'u bod wedi gwneud yn dda. Mae'r ffaith bod milwyr yn cael eu trin mewn wardiau i sifiliaid yn dangos diffyg dealltwriaeth ar ran cymdeithas o anghenion ein milwyr. Nid yw'n dderbyniol i'n clwyfedigion fod mewn wardiau cymysg gyda sifiliaid...mae ar bobl angen preifatrwydd drwy wella mewn amgylchedd milwrol.

Ychwanegodd fod milwr sydd wedi'i glwyfo ac sy'n mynd yn anymwybodol yn dymuno deffro a gweld a chlywed pethau cyfarwydd ac yn dymuno gweld pobl mewn gwisg filwrol. Yn lle hynny, yr ydym yn dwysáu'r ysgytwad oherwydd y newid byd.

Cyfeiriodd Syr Richard at y milwr a oedd wedi'i gam-drin yn Ysbyty Selly Oak, ond mae enghreifftiau eraill di-rif o dorri'r cyfamod. Yr oedd milwyr a gafodd anafiadau ofnadwy yn Irac ac Afghanistan wedi'u cam-drin yn eiriol wrth iddynt nofio mewn pwll nofio cyhoeddus yn ystod dosbarth adsefydlu wythnosol. Fel y dywedodd Patrick Mercer AS, ac yntau'n gyn-gadlywydd:

Mae'n ddigon posibl bod y bobl hyn wedi talu i ddefnyddio'r pwll, ond mae ein milwyr wedi talu cymaint mwy dros eu gwlad.

Mae gormod o gyn-filwyr wedi gorfod ymladd yn erbyn yr Asiantaeth Pensiynau Rhyfel i gael pensiynau yr oeddent wedi cymryd y byddent yn cael eu cymeradwyo heb betruso. Felly y bu dan y naill Lywodraeth ar ôl y llall; nid wyf yn gwneud pwynt pleidiol gwleidyddol wrth ddweud hynny.

Un enghraifft yw Richie Turnbull, un a fu'n drydanwr ar y ddaear yn rhyfel cyntaf y Gwlff. Ar ôl cyrraedd y Gwlff, cafodd 14 o chwistrelliadau mewn 10 munud ac aeth yn sâl ar unwaith. Bu'n rhaid mynd â dau aelod o'i dîm i ysbyty. Er ei fod yn teimlo'n sâl, bwriodd ymlaen â'i waith. Wedi iddo ddychwelyd o'r Gwlff, daliodd ei iechyd i ddirywio. Nid oedd ganddo ddewis ond gadael y lluoedd arfog. Ac yntau'n ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd,

awarded him less than 20 per cent of the full war pension entitlement. He was determined not to give up and the legion represented him. After a number of lengthy appeals, the legion managed to get his war pension increased to 90 per cent.

5.10 p.m.

However, like so many veterans, driven by pride and an unwavering belief in what is right, he stated that he would not rest until he received the full war pension. He also said that he:

‘would urge other veterans of all eras who are experiencing difficulties to approach the Legion for their help. There, your case will be treated in strictest confidence, you will receive the most professional advice and you will be treated with respect and courtesy all through your claim, regardless of your former rank’.

Take Eifion, from Llanfairfechan, who served in the Royal Engineers from 1980 to 1989, and saw action in Northern Ireland. Eifion developed post traumatic stress disorder 20 years later. This was only picked up after he attempted suicide. He was told that he would have to wait two years to see a psychiatrist and only received treatment after he wrote to his Member of Parliament to complain. He knew that he was entitled to priority treatment, but, unfortunately, his hospital did not. He lost his work, house and social life and his relationship with his family. Again, the legion represented him at his war pension tribunal.

Last Sunday, I was the guest speaker at the Royal British Legion north Wales district annual conference. We heard of the growing problems of debt and substance misuse among younger people returning from action now. We heard that the Government has announced that veterans will be given housing priority, but that councils were not hearing this. We heard that the UK Government has announced the expansion of NHS priority treatment to all veterans whose injuries or ill health was suspected of being

cysylltodd â'r Asiantaeth Pensiynau Rhyfel yn 1995, ond rhoddodd iddo lai nag 20 y cant o'r pensiwn rhyfel llawn sydd ar gael. Yr oedd yn benderfynol o beidio ag ildio ac fe'i cynrychiolwyd gan y lleng. Ar ôl nifer o apeliadau hirfaith, llwyddodd y lleng i godi ei bensiwn rhyfel i 90 y cant.

Fodd bynnag, fel cynifer o gyn-filwyr, a hwythau wedi'u hysgogi gan falchder a chred ddiysgog yn yr hyn sy'n iawn, dywedodd na roddai'r gorau iddi nes cael y pensiwn rhyfel llawn. Dywedodd hefyd y byddai'n:

annog cyn-filwyr eraill o bob cyfnod sy'n profi anawsterau i gysylltu â'r Llang i gael cymorth ganddi. Yno, caiff eich achos ei drin yn gwbl gyfrinachol, ceuwch y cyngor mwyaf proffesiynol a chewch eich trin gyda pharch a chwarteisi drwy gyfnod eich hawliad, beth bynnag oedd eich rheng flaenorol.

Cymerwch Eifion, o Lanfairfechan, a wasanaethodd yn y Royal Engineers rhwng 1980 a 1989, a gweld brwydro yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd Eifion anhwylder straen wedi trawma 20 mlynedd yn ddiweddarach. Dim ond wedi iddo geisio'i ladd ei hun y sylwyd ar hynny. Dywedwyd wrtho y byddai'n rhaid iddo ddisgwyl dwy flynedd cyn gweld seiciatrydd a dim ond wedi iddo ysgrifennu at ei Aelod Seneddol i gwyno y cafodd driniaeth. Gwyddai fod ganddo hawl i gael triniaeth flaenoriaethol, ond, gwaetha'r modd, nid oedd yr ysbyty yr aeth iddo'n gwybod hynny. Collodd ei waith, ei dŷ a'i fywyd cymdeithasol a'i berthynas â'i deulu. Unwaith eto, fe'i cynrychiolwyd gan y lleng yn y tribiwnlys pensiynau rhyfel.

Ddydd Sul diwethaf, bûm yn siaradwr gwadd yng nghynhadledd flynyddol rhanbarth gogledd Cymru o'r Llang Brydeinig Frenhinol. Clywsom am y problemau cynyddol o ran dyled a chamddefnyddio sylweddau ymysg pobl iau sy'n dychwelyd o'r brwydro'n awr. Clywsom fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd cyn-filwyr yn cael blaenoriaeth ar gyfer tai, ond nad oedd cynghorau'n clywed hyn. Clywsom fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd triniaeth flaenoriaethol y GIG yn cael ei

due to their service. However, over three quarters of war pensioners who sought NHS treatment said that they were not given priority. Further, that priority treatment excludes Wales, but an Assembly Government announcement is awaited. A motion, to go to the UK Government, was passed in support of a medal for service in Afghanistan. Assembly Government support and intervention is needed in all of these areas, as it is with the problem of post traumatic stress disorder.

The legion's Honour the Covenant campaign refers to current work by the King's Centre for Military Health Research, which has identified an increase in psychological problems, ranging from PTSD to alcohol misuse, among personnel who have been deployed for 13 months or more in a three-year period. It also notes that veterans who are not assisted by Combat Stress, which is supported by the Ministry of Defence, or another specialist organisation, need to be able to access mental health care and receive priority treatment. As someone who campaigned on behalf of the traumatised ex-forces personnel who had come to rely on the Tŷ Gwyn Ex-Service Treatment Unit in Llandudno, I am delighted to see this.

Tŷ Gwyn was the only independent respite and treatment centre in the UK for traumatised ex-forces personnel. These were the people whose complex needs had not been met by the NHS or Combat Stress. These also made up the most vulnerable group, whose symptomatic addictive and disruptive behaviour too often led to domestic abuse, homelessness, criminal conviction and suicide. When I visited Tŷ Gwyn, I met a group of veterans aged from their early 20s to their 80s, who had served in engagements spanning rearguard action at Dunkirk through to the second Gulf war. Initial bravado was followed by tears as they told me their stories. It was one of the most moving moments of my life. Despite our campaign, Tŷ Gwyn was closed in late 2005. My pleas to Government in London and

hymestyn i gynnwys yr holl gyn-filwyr yr amheuwyd bod eu hanafiadau neu eu hafiechyd yn ganlyniad i'w gwasanaeth. Er hynny, dywedodd mwy na thri chwarter o'r pensiywyr rhyfel a geisiodd driniaeth gan y GIG na chawsant flaenoriaeth. Ar ben hynny, nid yw'r driniaeth flaenoriaethol honno'n cynnwys Cymru, ond disgwylir cyhoeddiad gan Lywodraeth y Cynulliad. Derbyniwyd cynnig, i fynd at Lywodraeth y DU, o blaid cael medal am wasanaethu yn Afghanistan. Mae angen cefnogaeth ac ymyrraeth gan Lywodraeth y Cynulliad yn yr holl feysydd hyn, yn yr un modd â phroblem anhwylder straen wedi trawma.

Mae ymgyrch y lleng dros Anrhydeddu'r Cyfamod yn cyfeirio at waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Ganolfan y Brenin ar gyfer Ymchwil Iechyd Filwrol, sydd wedi canfod bod problemau seicolegol ar gynydd, a'r rheiny'n amrywio o anhwylder straen wedi trawma i gamddefnyddio alcohol, ymysg personél a fu mewn lleoliad am 13 mis neu fwy mewn cyfnod o dair blynedd. Mae'n nodi hefyd fod angen i gyn-filwyr na chânt gymorth gan Combat Stress, a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, neu gan gorff arbenigol arall, allu cael mynediad at ofal iechyd meddwl a chael triniaeth flaenoriaethol. Fel un a ymgyrchodd ar ran cyn-filwyr trawmateiddiedig a oedd wedi dod i ddibynnu ar Uned Driniaeth Cyn-filwyr Tŷ Gwyn yn Llandudno, yr wyf yn falch iawn o weld hyn.

Tŷ Gwyn oedd yr unig ganolfan seibiant a thriniaeth yn y DU i gyn-filwyr trawmateiddiedig. Y rhain oedd y bobl yr oedd eu hanghenion cymhleth heb gael eu diwallu gan y GIG neu Combat Stress. Y rhain hefyd oedd y grŵp mwyaf agored i niwed, yr oedd eu hymddygiad caethiwus ac aflonyddol symptomatig wedi arwain yn rhy aml at gam-drin yn y cartref, at ddigartrefedd, at euogfarnau am droseddu ac at hunanladdiad. Pan ymwelais â Thŷ Gwyn, cyfarfûm â grŵp o gyn-filwyr a'u hoedran yn cwmpasu'r ugeiniau cynnar a'r pedwar ugeiniau, a oedd wedi ymladd mewn brwydrau a oedd yn cynnwys ymladd i gadw'r cefn yn Dunkirk hyd at ail ryfel y Gwlff. Wedi'r ymffrost gwag ar y dechrau daeth y dagrau wrth iddynt adrodd eu hanes i mi. Yr oedd yn un o'r achlysuron mwyaf

Cardiff fell on deaf ears. Although almost all of the Tŷ Gwyn lads had been through Combat Stress, their complex needs had not been met within the limited provision contracted for by the MOD, and yet the repeated and only Government response that I received was that they should approach Combat Stress. They instead set up self-help groups, began a campaign for a new centre in north Wales and kept in regular contact with me.

I was the only politician to be invited to a meeting in Derby last October organised by Help Me Overcome, to discuss the way ahead for PTSD treatment. Help Me Overcome has developed a new therapy model based on global best practice and initial trials have been encouraging. As it states in its submission to the Defence Select Committee:

‘Programmes for dealing with PTSD...should be willing to adopt new and innovative solutions and techniques. It is essential to break free from outdated thinking and ineffective programmes...All programmes must be outcome focused with clear, measurable cost-effectiveness built into them’.

Combat Stress has reported a 30 per cent rise to almost 900 referrals over the last year alone and has stated that the demands placed upon its services are far outstripping its ability to meet them. This month, Government funding for Combat Stress has been increased by 45 per cent, but only from a base of £2.5 million.

Combat Stress is reviewing how it treats veterans, where, as the Surgeon General has stated, it has previously been a kind of respite home rather than a treatment centre. It has appointed a medical director, which it did not have before, but evidence to the Defence Committee indicates little comprehension of

emosiynol yn fy mywyd. Er gwaethaf ein hymgyrch, caewyd Tŷ Gwyn ddiwedd 2005. Syrthiodd fy apeliadau i'r Llywodraeth yn Llundain ac yng Nghaerdydd ar glustiau byddar. Er bod bron bob un o fechgyn Tŷ Gwyn wedi cael eu trin gan Combat Stress, nid oedd eu hanghenion cymhleth wedi'u diwallu o fewn y ddarpariaeth gyfyngedig yr oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gwneud contract ar ei chyfer, ac eto yr unig ymateb a gefais gan Lywodraeth dro ar ôl tro oedd y dylent gysylltu â Combat Stress. Yn lle hynny, sefydhasant grwpiau hunangymorth, dechreusant ymgyrchu dros gael canolfan newydd yn y gogledd a chadwasant mewn cysylltiad rheolaidd â mi.

Myfi oedd yr unig wleidydd a wahoddwyd i gyfarfod yn Derby fis Hydref diwethaf a drefnwyd gan Help Me Overcome, i drafod y ffordd ymlaen i driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma. Mae Help Me Overcome wedi datblygu model therapi newydd sy'n seiliedig ar yr arferion gorau a geir ledled y byd a bu'r treialon cychwynnol yn galonogol. Fel y dywedodd yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn:

Dylai rhaglenni ar gyfer delio ag anhwylder straen wedi trawma fod yn barod i fabwysiadu atebion a thechnegau newydd ac arloesol. Mae'n hollbwysig torri'n rhydd oddi wrth syniadau hen ffasiwn a rhaglenni aneffeithiol...Rhaid i'r holl raglenni ganolbwyntio ar ganlyniadau a bod â chost-ffeithiolrwydd mesuradwy a chlr yn rhan ohonynt.

Mae Combat Stress wedi datgan bod nifer yr atgyfeiriadau wedi codi 30 y cant i bron 900 dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig ac mae wedi dweud bod y galwadau am ei wasanaethau'n fwy o lawer na'i allu i'w hateb. Y mis yma, mae cyllid y Llywodraeth i Combat Stress wedi codi 45 y cant, ond hynny o linell sylfaen o ddim ond £2.5 miliwn.

Mae Combat Stress yn adolygu'r modd y mae'n trin hen filwyr, lle gynt, fel y dywedodd y Llawfeddyg Cyffredinol, bu'n fath o gartref seibiant yn hytrach na chanolfan driniaeth. Maent wedi penodi cyfarwyddwr meddygol, rhywbeth nad oedd ganddynt o'r blaen, ond yn ôl y dystiolaeth

the true situation. Post-traumatic stress disorder is a much larger problem than anyone cares to admit and has had a proportionately greater impact on north Wales because of the Sir Galahad incident and the closure of Tŷ Gwyn. A centre of excellence for PTSD in north Wales would show the way forward for the rest of the UK.

When I raised this issue with the First Minister, he referred to a two-year pilot project in Cardiff as one of six pilots launched by the UK's Minister for Veterans. I am advised that even assuming the pilots are successful, there will be no national roll-out for around five years. Furthermore, there is no way of quantifying how many of the 4.8 million UK veterans will qualify for priority treatment. The Government is not facing the need for radical innovation. The option proposed for north Wales comprises a full treatment and rehabilitation programme, which has an evidence-based success rate of 80 per cent recovery. I therefore urge the Assembly Government not to ignore the urgent needs of these wounded people again.

Last October, the UK Government admitted that the number of military inquests outstanding had hit an unprecedented high of 126, imposing an unacceptable burden on forces' families. Ministers must deliver on their promises to get this sorted and the Assembly Government must do everything within its powers to assist on this and all the other issues raised today by me and, more broadly, by the Honour the Covenant campaign.

**Jeff Cuthbert:** I thank Mark for bringing forward this subject. I am happy to state my support for the British Legion's campaign in this regard, and I did so directly to its representatives when they held an event at the Assembly towards the end of last year. One of the reasons why I am particularly supportive of this campaign is the importance that must be attached to this issue for the recruitment of young people. While a young person understands fully that they could be

i'r Pwyllgor Amddiffyn nid oes fawr o ddealltwriaeth o'r wir sefyllfa. Mae anhwylder straen ôl-drawmatig yn broblem lawer mwy nag yr hoffai neb gyfaddef a chaiff effaith gyfrannol fwy ar ogledd Cymru oherwydd digwyddiad y Sir Galahad a chau Tŷ Gwyn. Byddai canolfan ragoriaeth ar gyfer PTSD yn y gogledd yn dangos y ffordd ymlaen i weddill y Deyrnas Unedig.

Pan godais y mater hwn gyda'r Prif Weinidog, cyfeiriodd at brosiect peilot dwy flynedd yng Nghaerdydd fel un o chwe chynllun peilot a lansiwyd gan Weinidog y Deyrnas Unedig dros Hen Filwyr. Dywedir wrthyf hyd yn oed os bydd y cynlluniau peilot yn llwyddiannus, na chânt eu lledaenu i weddill y wlad am ryw bum mlynedd. Ar ben hynny, nid oes unrhyw fodd o fesur sawl un o'r 4.8 miliwn o hen filwyr yn y Deyrnas Unedig a fydd yn gymwys i gael triniaeth flaenoriaethol. Nid yw'r Llywodraeth yn wynebu'r angen am arloesi radical. Mae'r opsiwn a gynigir ar gyfer y gogledd yn cynnwys rhaglen driniaeth ac adfer lawn, sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn llwyddiannus gydag 80 y cant o achosion. Felly, anogaf Lywodraeth y Cynulliad i beidio ag anwybyddu anghenion taer y bobl glwyfedig hyn eto.

Fis Hydref diwethaf, cyfaddefodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod nifer y cwestau milwrol a oedd yn aros i'w cynnal wedi cyrraedd 126, y nifer uchaf erioed, gan osod baich annerbyniol ar deuluoedd y lluoedd arfog. Rhaid i Weinidogion gadw'u haddewidion i ddatrys hyn a rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wneud popeth o fewn ei gallu i helpu gyda hyn a'r holl faterion eraill a godwyd heddiw gennyf fi, ond yn fwy cyffredinol, gan yr ymgyrch Anrhydeddu'r Cyfamod.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i Mark am ddod â'r pwnc hwn ymlaen. Yr wyf yn hapus i ddatgan fy nghefnogaeth i ymgyrch y Lleng Brydeinig yn hyn o beth, a gwneuthum hynny'n uniongyrchol i'w chynrychiolwyr pan gynhaliwyd digwyddiad ganddi yn y Cynulliad tua diwedd y llynedd. Un o'r rhesymau yr wyf yn arbennig o gefnogol i'r ymgyrch hon yw'r pwysigrwydd y mae'n rhaid ei roi i'r mater hwn er mwyn recriwtio pobl ifanc. Er bod pobl ifanc yn deall yn iawn



called into action and could suffer serious personal injury, if not death, they will nevertheless also receive valuable craft training, for example, which is important to them, on the hopeful assumption that they will leave the army after a few years and enter civilian life with the benefit of that expert training. However, it is absolutely critical that they know that should they be called upon to make those serious sacrifices, they and their families will be properly looked after in the event of such misfortune befalling them. If we do not have this in place, I fear that it will affect the recruitment of young people, which could be a disaster for all of us.

**Alun Ffred Jones:** Thank you, Mark, for allowing me to contribute to this debate. I am happy to support your call, and this reminds us of the terrible price that young people pay for fighting in wars waged in our names. The headline in *The Guardian* this morning states, 'MoD reveals scale of brain injuries among Iraq and Afghanistan veterans'. From discussions that I have had with friends of my children about joining the armed forces, I think that the mental scars remain with many of these young people for many decades. I am happy therefore to support your call, and to remind everyone that what we see on our television screens often sanitises the conditions that these people have to fight and operate in. That should be a salutary warning to all of us before we support sending young people to these terrible war zones.

**Kirsty Williams:** I thank Mark for bringing forward this debate and for giving me an opportunity to express my support for the campaign and to recognise the contribution that the armed forces make to my constituency, especially in the Brecon and Sennybridge areas, including the many veterans who come back to settle in the area following the positive experiences that they enjoyed while stationed in Breconshire. The campaign also supports the rights of the families of servicemen, and I would like to raise, once again, the right of Ghurkha children to receive free further and higher education. If we expect Ghurkha soldiers to put their lives on the line for us, it is not right

y gellid eu galw i'r gad ac y gallent ddiodeff anafiadau personol difrifol, os nad angau, cânt, serch hynny, hyfforddiant gwerthfawr hefyd mewn crefft, er enghraifft, sy'n bwysig iddynt, yn y rhagdybiaeth obeithiol y byddant yn gadael y fyddin ymhen ychydig flynyddoedd ac yn mynd i fywyd sifiliad gyda mantais yr hyfforddiant arbenigol hwnnw. Fodd bynnag, mae'n gwbl allweddol y gwyddant, pe gelwid arnynt i wneud yr aberthau difrifol hynny, y gofelir yn iawn amdanynt hwy a'u teuluoedd pe digwyddai'r fath anffawd iddynt. Os na fydd hyn wedi'i sefydlu, ofnaf y bydd yn effeithio ar recriwtio pobl ifanc, a allai fod yn drychineb i bawb ohonom.

**Alun Ffred Jones:** Diolch, Mark, am ganiatáu imi gyfrannu at y ddadl hon. Yr wyf yn hapus i gefnogi eich galwad ac mae hyn yn ein hatgoffa o'r pris ofnadwy y mae pobl ifanc yn ei dalu am gwffio mewn rhyfeloedd a ymleddir yn ein henw ni. Dywed y pennawd yn *The Guardian* y bore yma, 'MoD reveals scale of brain injuries among Iraq and Afghanistan veterans'. O drafodaethau a gefais i gyda ffrindiau i'm plant ynglŷn ag ymuno â'r lluoedd arfog, credaf fod y creithiau meddyliol yn aros gyda llawer o'r bobl ifanc hyn am ddegau o flynyddoedd. Yr wyf yn hapus felly i gefnogi eich galwad ac i atgoffa pawb fod yr hyn a welwn ar ein sgrin deledu yn aml yn cuddio bryntni'r amodau y mae'n rhaid i'r bobl hyn ymladd a gweithredu ynddynt. Dylai hynny fod yn rhybudd llesol inni i gyd cyn inni gefnogi anfon pobl ifanc i'r cylchoedd rhyfel ofnadwy hyn.

**Kirsty Williams:** Diolch i Mark am ddod â'r ddadl hon ymlaen ac am roi cyfle i mi fynegi fy nghefnogaeth i'r ymgyrch a chydabod cyfraniad y lluoedd arfog i'm hetholaeth, yn enwedig yn ardaloedd Aberhonddu a Phontsenni, gan gynnwys yr hen filwyr niferus a ddaw'n ôl i ymgyrtrefu yn yr ardal yn dilyn y profiadau cadarnhaol a gawsant tra'r oeddent wedi'u gorsafu yn Sir Frycheiniog. Mae'r ymgyrch hefyd yn cefnogi hawliau teuluoedd milwyr a hoffwn grybwyll unwaith eto hawl plant Ghurkha i gael addysg bellach ac uwch yn rhad ac am ddim. Os disgwyliwn i filwyr Ghurkha roi eu bywydau yn y fantol ar ein rhan ni, nid yw'n iawn disgwyl iddynt wedyn ystyried eu

to expect them to then regard themselves as foreign visitors when it comes to their children's education. I would ask the Minister, once again, to raise this issue with colleagues in London and consider what the Assembly can do, independently, to refund the fees that have already been paid by Ghurkha families to educate their children.

5.20 p.m.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** Ministerial responsibility for the armed forces and veterans is not devolved to the Welsh Assembly Government. I have, however, as part of my ministerial portfolio, a responsibility to link with my colleagues at a UK level and directly with the armed services on such matters that affect and have an impact on us as a devolved administration.

Even prior to the launch of the Honour the Covenant campaign, which I also support, the Welsh Assembly Government was committed to, and participated in, the planning and delivery of enhanced services to our service personnel and veterans. As we all know, a number of practical steps have been taken at UK level. These include looking at proposed changes to awards for multiple injuries under the armed forces compensation scheme; the appointment of the first-ever service personnel complaints commissioner; a consultation process in respect of the White Paper on support to armed forces personnel past and present, and their families; and additional resources to address the backlog of coroner's inquests. We have a unique opportunity in Wales to lead the way and demonstrate to our serving personnel, veterans, and those who are based here, our commitment to them. I recently discussed the issues in Wales with the Minister for Veterans, Derek Twigg, and outlined to him the steps that we have taken within our devolved responsibilities to meet those commitments.

I have already extended the priority treatment for healthcare needed by veterans whose condition is believed by their GP to have been caused by their military service. This

hunain yn ymwelwyr tramor pan ddaw'n fater o addysg i'w plant. Gofynnaf i'r Gweinidog, unwaith eto, godi'r mater hwn gyda chyd-Weinidogion yn Llundain ac edrych i weld beth y gall y Cynulliad ei wneud, yn annibynnol, i ad-dalu'r ffioedd sydd eisoes wedi'u talu gan deuluoedd Ghurkha i addysgu eu plant.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid yw cyfrifoldeb gweinidogol dros y lluoedd arfog a hen filwyr wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gennyf, fodd bynnag, fel rhan o'm portffolio gweinidogol, gyfrifoldeb i gysylltu â'm cyd-Weinidogion ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn uniongyrchol â'r lluoedd arfog ar faterion sydd yn effeithio arnom ni fel gweinyddiaeth ddatganoledig.

Hyd yn oed cyn lansio'r ymgyrch Anrhydeddu'r Cyfamod, ymgyrch yr wyf finnau hefyd yn ei chefnogi, yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i gynllunio a chyflwyno gwell gwasanaethau i'n personél yn y lluoedd a'n hen filwyr ac wedi cyfranogi at hynny. Fel y gwyddom i gyd, mae nifer o gamau ymarferol wedi'u cymryd ar lefel y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain yn cynnwys edrych ar newidiadau arfaethedig i ddyfarniadau am anafiadau lluosog dan gynllun iawndal y lluoedd arfog; penodi comisiynydd cwynion personél i'r lluoedd arfog am y tro cyntaf erioed; proses ymgynghori ynglŷn â'r Papur Gwyn ar gefnogaeth i aelodau'r lluoedd arfog presennol ac a fu, a'u teuluoedd; ac adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gwastau crwner. Mae gennym gyfle unigryw yng Nghymru i arwain y ffordd a dangos i'n milwyr, ein hen filwyr, a rhai sydd mewn gorsafodd yn y wlad yma, ein hymrwymiad tuag atynt. Trafodais y materion yng Nghymru'n ddiweddar gyda'r Gweinidog dros hen filwyr, Derek Twigg, ac amlinellais iddo'r camau yr ydym wedi'u cymryd o fewn ein cyfrifoldebau datganoledig i ateb yr ymrwymadau hynny.

Yr wyf eisoes wedi ymestyn y flaenoriaeth am ofal iechyd angenrheidiol i hen filwyr y mae eu meddyg teulu'n credu bod eu cyflwr wedi'i achosi gan eu gwasanaeth milwrol.

was previously available only to the much smaller number of veterans who are in receipt of a war pension. In February 2008, I will be launching a two-year community veterans' mental health therapy service pilot project. The Assembly Government is providing funding for this pilot project, which will improve service provision for veterans in south Wales. The service will be based at the University of Wales and cover Cardiff, the Vale of Glamorgan, Merthyr and Rhondda Cynon Taf. This is one of the six pilot projects that Mark alluded to as being established throughout the UK. If they are successful, I expect to see more such projects across the UK.

Combat Stress, which is an excellent charity for veterans with mental health problems, is currently involved with my officials and the MOD in taking forward this particular project. I have also recently asked for a study to be undertaken to ascertain the feasibility of an inpatient service specifically to deal with the mental health needs of veterans, since we know that due to the trauma of military service, our veterans have great needs in this area.

I am currently developing standards for health and homelessness, and the health of homeless veterans will be addressed in the proposed standards document: 'Improving the health of homeless and specific vulnerable groups: Standards 2008/9'.

**Janet Ryder:** Many ex-servicemen unfortunately become homeless, but those who are housed often find themselves in inappropriate housing, because of many of the mental health issues that they have developed. Will you ask your Government to look at that area as well, because this is an issue that we can address—we can ensure that we are offering adequate and appropriate housing to ex-servicemen?

**Edwina Hart:** I will ask our Government and the Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies, to look jointly at what is a common issue between us. Homelessness should never be acceptable, especially in the case of veterans who have given their service loyally to the Crown and this country. The standards

Dim ond i'r nifer lawer llai o hen filwyr sy'n cael pensiwn rhyfel yr oedd hyn ar gael gynt. Yn Chwefror 2008, byddaf yn lansio prosiect peilot dwy flynedd o wasanaeth therapi iechyd meddwl cymunedol i hen filwyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid i'r prosiect peilot hwn, a fydd yn gwella'r gwasanaeth sydd ar gael i hen filwyr yn y De. Lleolir y gwasanaeth ym Mhrifysgol Cymru a bydd yn wasanaeth i Gaerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Mae hwn yn un o'r chwe phrosiect peilot y cyfeiriodd Mark atynt sy'n cael eu sefydlu ledled y Deyrnas Unedig. Os byddant yn llwyddiannus, disgwyliaf weld mwy o brosiectau o'r fath ledled Prydain.

Mae Combat Stress, sy'n elusen ragorol i hen filwyr sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, wrthi ar hyn o bryd gyda'm swyddogion a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynd â'r prosiect arbennig hwn yn ei flaen. Yr wyf wedi gofyn yn ddiweddar hefyd am astudiaeth i weld pa mor ymarferol fyddai gwasanaeth i gleifion mewnol i ddelio'n benodol ag anghenion iechyd meddwl hen filwyr, gan y gwyddom fod gan ein hen filwyr anghenion mawr yn y maes hwn oherwydd trawma gwasanaeth milwrol.

Yr wyf yn datblygu safonau ar hyn o bryd ar gyfer iechyd a digartrefedd, a rhoddir sylw i iechyd hen filwyr digartref yn y ddogfen safonau arfaethedig: 'Gwella iechyd grwpiau digartref a bregus penodol: Safonau 2008/9'.

**Janet Ryder:** Mae llawer o gyn-filwyr yn anffodus yn mynd yn ddigartref, ond bydd y rhai a gaiff eu cartrefu yn eu cael eu hunain yn aml mewn tai anaddas, oherwydd llawer o'r problemau iechyd meddwl y maent wedi'u datblygu. A wnewch chi ofyn i'ch Llywodraeth edrych ar hynny hefyd, oherwydd mae hyn yn fater y gallwn wneud rhywbeth yn ei gylch—gallwn sicrhau y cynigiwn dai addas a digonol i hen filwyr.

**Edwina Hart:** Gofynnaf i'n Llywodraeth a'r Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies, edrych gyda'i gilydd ar hyn, sy'n fater cyffredin rhyngom. Ni ddylai digartrefedd fyth fod yn dderbyniol, yn enwedig yn achos hen filwyr sydd wedi rhoi eu gwasanaeth yn ffyddlon i'r Goron a'r wlad hon. Bydd y

will place a requirement on local health boards to develop health action plans for this area of activity, in partnership with the local authorities, voluntary agencies and service users. The plans will reflect local needs, including the needs of homeless veterans. I will also be issuing a circular to the NHS and local government reflecting these developments and reminding them of the arrangements with the armed services and with veterans.

There are also wider issues of social support such as financial inclusion. Members will be aware of some of the difficulties faced by veterans when they return to civilian life. We are currently developing a financial inclusion strategy and our priority is to improve access to mainstream financial services, affordable credit and loans, and other such issues. In my previous role as Minister for social justice, I specifically required that ex-service personnel were included as a priority group in this area, which I think is important.

The First Minister and I were recently delighted to host and fund a welcome home parade for the Welsh Guards at the Millennium Stadium, which paid tribute to our men and women who had recently returned from operations in Iraq, and also recognised the ultimate sacrifice of those members of the battle group who did not return. The event was attended by senior officers, the families of those personnel, members of the public and others. Letters have been received by both the commanding officer of the Welsh Guards and the Chief of the General Staff, praising Wales for its approach to the troops and the medal ceremonies. It was important that we recognised as a nation how we felt about our troops that had gone out.

Our links with RAF St Athan continue to grow and a visit from RAF staff is planned for the end of January, and, in February, I and the First Minister will meet the deputy chief of the defence staff prior to him visiting St Athan.

safonau'n gosod gofyniad ar i fyrddau iechyd lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu iechyd ar gyfer y maes gweithgaredd hwn, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, asiantaethau gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaethau. Bydd y cynlluniau'n adlewyrchu anghenion lleol, gan gynnwys anghenion hen filwyr digartref. Byddaf hefyd yn cyhoeddi cylchlythyr i'r GIG a llywodraeth leol yn nodi'r datblygiadau hyn ac yn eu hatgoffa o'r trefniadau gyda'r llywodraeth arfog a chyda hen filwyr.

Mae cwestiynau ehangach o ran cefnogaeth gymdeithasol hefyd, fel cynhwysiant ariannol. Bydd aelodau'n ymwybodol o rai o'r anawsterau a wynebdir gan hen filwyr wrth iddynt ddychwelyd i fywyd sifilaidd. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth gynhwysiant ariannol gan roi blaenoriaeth i wella mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd, credyd fforddiadwy, a materion felly. Yn fy rôl flaenorol fel Gweinidog dros gyfiawnder cymdeithasol, mynnais yn benodol y dylid cynnwys cyn-filwyr fel grŵp blaenoriaeth yn y maes hwn, sydd yn bwysig yn fy marn i.

Yn ddiweddar yr oedd y Prif Weinidog a mi yn falch iawn o gynnal a thalu am orymdaith croeso adref i'r Gwarchodlu Cymreig yn Stadiwm y Mileniwm, a dalodd deyrnged i'n dynion a'n menywod a oedd wedi dychwelyd yn ddiweddar o weithredu yn Irac, a chydabod hefyd aberth eithaf yr aelodau hynny o'r grŵp brwydro na ddychwelodd. Mynychwyd y digwyddiad gan uwch swyddogion, teuluoedd y personél hynny, aelodau'r cyhoedd ac eraill. Mae pennaeth milwrol y Gwarchodlu Cymreig a Phennaeth y Staff Cyffredinol ill dau wedi derbyn llythyrâu'n canmol Cymru am ei hagwedd at y milwyr a'r seremonïau medalau. Yr oedd yn bwysig inni gydnabod fel cenedl sut yr oeddem yn teimlo am ein milwyr a aeth allan.

Mae ein cysylltiadau â Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan yn dal i dyfu a bwriedir cael ymweliad gan staff y llu awyr ddiweddd Ionawr, ac, ym mis Chwefror, byddaf fi a'r Prif Weinidog yn cyfarfod â dirprwy bennaeth y staff amddiffyn cyn iddo yntau ymweld â Sain Tathan.

As an Assembly Government, we are also supporting a funding bid being prepared by Cymorth Cymru for a submission to the veterans challenge fund that exists nationally. This project will see the development of a directory of services, which will be available to meet the needs of homeless veterans in Wales.

As I have set out, the Assembly Government wishes to be as proactive as possible in areas of devolved responsibility. The military covenant is very important to this administration. I am cognisant of the points that have been made about national policy, and I will pick up the point on the Ghurkhas when I speak to my colleague in Westminster. We can contribute to the overall success of dealing with veterans issues through our continued participation in national planning issues to ensure that we adhere to the military covenant in all aspects of our devolved work.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

Fel Llywodraeth Cynulliad, yr ydym hefyd ar hyn o bryd yn cefnogi cais am gyllid sy'n cael ei baratoi gan Gymorth Cymru i'w gyflwyno i gronfa her yr hen filwyr sy'n bodoli ym Mhrydain. Bydd y prosiect hwn yn gweld datblygu cyfeiriadur gwasanaethau, a fydd ar gael i ateb anghenion hen filwyr digartref yng Nghymru.

Fel yr wyf wedi nodi, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno bod mor rhagweithiol ag sy'n bosibl mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli. Mae'r cyfamod milwrol yn bwysig iawn i'r weinyddiaeth hon. Yr wyf yn ymwybodol o'r pwyntiau a wnaethpwyd am bolisi Prydeinig, a chodaf y pwynt am y Ghurkhas pan siaradaf â'm cyd-Weinidog yn San Steffan. Gallwn gyfrannu at lwyddiant cyffredinol y modd y deliwn â materion hen filwyr drwy barhau i gymryd rhan mewn materion cynllunio Prydeinig er mwyn sicrhau y glynwn at y cyfamod milwrol ym mhob agwedd ar ein gwaith datganoledig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddod â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.26 p.m.  
The meeting ended at 5.26 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)

Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)